# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 16/04/2013

Cynnwys Contents


Teyrngedau er cof am y Farwnes Thatcher
Obituary Tributes to Baroness Thatcher

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Y Frech Goch
Urgent Question: Measles

Cwestiwn Brys: Safle Prosesu Cig Vion
Urgent Question: The Vion Meat-processing Plant

Cwestiwn Brys: Ffermwyr Defaid
Urgent Question: Sheep Farmers

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Maes Awyr Caerdydd
Statement: Cardiff Airport

Datganiad: Gyrfa Cymru
Statement: Careers Wales

Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013
The CRC Energy Efficiency Scheme Order 2013

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Plant a Theuluoedd
Legislative Consent Memorandum on the Children and Families Bill

Cynnig i Gytuno ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)
Motion to Agree the General Principles of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill

Cynnig i Gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)
Motion to Approve the Financial Resolution of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill

Cynnig i Gytuno ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)
Motion to Agree the General Principles of the Human Transplantation (Wales) Bill

Cynnig i Gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)
Motion to Approve the Financial Resolution of the Human Transplantation (Wales) Bill

Cynnig i Ethol Aelod a Chadeirydd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Motion to Elect a Member to, and the Chair of, the Health and Social Care Committee

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The National Assembly for Wales is now in session.

Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Teyrngedau er cof am y Farwnes Thatcher

## Obituary Tributes to Baroness Thatcher

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item on the agenda this afternoon is the obituary tributes to Baroness Thatcher. I am sure that Members will wish to join me in offering our condolences to the family of Baroness Thatcher.

Yr eitem gyntaf ar yr agenda y prynhawn yma yw'r teyrngedau coffa i'r Farwnes Thatcher. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n dymuno ymuno â mi i gynnig ein cydymdeimlad i deulu'r Farwnes Thatcher.

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Llywydd. I rise to make some brief remarks following the passing of Baroness Thatcher as a former Prime Minister. I begin by expressing sympathy to her family on the loss of a mother and a grandmother. I am sure that they will feel her loss keenly for some time. It has been said many times that she was a remarkable personality. She won three general elections and saw the election of 14 Conservative Members of Parliament in Wales in 1983—a feat that has not been equalled since. She was undoubtedly a decisive person—that much is there for all to see—often striking fear into those who served under her in her Cabinet.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n codi i wneud rhai sylwadau byr yn dilyn marwolaeth y Farwnes Thatcher fel cyn Brif Weinidog. Dechreuaf trwy fynegi cydymdeimlad â'i theulu ar golli mam a mam-gu. Rwy'n siŵr y byddant yn ei cholli'n enbyd am gryn amser. Dywedwyd lawer gwaith ei bod yn gymeriad rhyfeddol. Enillodd dri etholiad cyffredinol a gwelodd 14 o Aelodau Seneddol Ceidwadol yn cael eu hethol yng Nghymru ym 1983—camp nas cyflawnwyd ers hynny. Nid oes amheuaeth ei bod yn unigolyn penderfynol—roedd hynny'n amlwg i bawb—ac roedd yn aml yn codi ofn ar y rhai a wasanaethodd oddi tani yn ei Chabinet.

Perhaps her most noteworthy moment was the recovery of the Falkland Islands, following their invasion by a brutal military dictatorship. Less successful perhaps were her dealings in Northern Ireland, where she managed to alienate both sides of the community. It must, of course, have been difficult for her to deal with that part of the world after the murder of her mentor, Airey Neave, and the bombing of the Grand Hotel.

Efallai mai ei chyfnod mwyaf nodedig oedd adennill Ynysoedd Falkland, yn dilyn yr ymosodiad arnynt gan unbennaeth filwrol greulon. Roedd ei gwaith yng Ngogledd Iwerddon, lle y llwyddodd i elyniaethu dwy ochr y gymuned, yn llai llwyddiannus efallai. Mae'n rhaid, wrth gwrs, ei bod wedi bod yn anodd iddi i ymdrin â'r rhan honno o'r byd ar ôl llofruddiaeth ei mentor, Airey Neave, a bomio'r Grand Hotel.

It is right to say, Llywydd, that she brought many of us in this Chamber into politics—some of the benches opposite in support of her views, and others of us in strong reaction to what she did. Indeed, it was what happened during the course of the miners' strike that brought me on the political path that I have taken ever since. She was a strong character, somebody whose views were often divisive. She inspired strong views on both sides of the argument that she would put forward. I would have to say, however, that being decisive does not mean that somebody is necessarily right.

Mae'n iawn i ddweud, Lywydd, ei bod wedi dod â llawer ohonom yn y Siambr hon i fyd gwleidyddiaeth—rhai o'r meinciau gyferbyn i gefnogi ei barn, ac eraill ohonom mewn ymateb cryf i'r hyn a wnaeth. Yn wir, yr hyn a ddigwyddodd yn ystod streic y glowyr a'm rhoddodd i ar y llwybr gwleidyddol yr wyf wedi ei ddilyn byth ers hynny. Roedd hi'n gymeriad cryf, rhywun yr oedd ei barn yn aml yn peri rhwyg. Ysbrydolodd safbwyntiau cryf ar ddwy ochr y ddadl y byddai'n ei chyflwyno. Byddai'n rhaid i mi ddweud, fodd bynnag, nad yw bod yn bendant yn golygu bod rhywun yn gywir o reidrwydd.

It is right to say that there are many in Wales who still feel the legacy of her politics. The miners' strike and its aftermath are still very much felt by many of our communities and there is still great bitterness, which lasts to this day, in terms of what happened at that time. It caused great hurt when many of our people were described as the 'enemy within'. Those comments have not been easily forgotten in the communities that were affected—communities that feel the legacy of that time to this day and communities that were sustained by the coal industry, which then lost their means of survival but were offered no alternative employment.

Mae'n iawn i ddweud bod llawer yng Nghymru sy'n dal i deimlo etifeddiaeth ei gwleidyddiaeth. Mae streic y glowyr a'i ganlyniadau yn dal i gael ei deimlo'n fawr iawn gan lawer o'n cymunedau a cheir chwerwder mawr o hyd, sy'n para hyd heddiw, o ran yr hyn a ddigwyddodd ar yr adeg honno. Achosodd loes fawr pan ddisgrifiwyd llawer o'n pobl fel y 'gelyn oddi mewn'. Ni anghofiwyd y sylwadau hynny'n rhwydd yn y cymunedau yr effeithiwyd arnynt—cymunedau sy'n teimlo etifeddiaeth y cyfnod hwnnw hyd heddiw a chymunedau a gynhaliwyd gan y diwydiant glo, ac a gollodd eu modd i oroesi felly, ond ni chawsant gynnig unrhyw waith arall.

It is probably correct to say that the opposition to the policies that were put in place at that time provided the momentum towards devolution and caused the creation of this Assembly. I suspect that that was an unintended effect of what had happened in the 1980s and 1990s. There are many of us in this Chamber who will have a great deal of disagreement with the policies that were put in place during her time as Prime Minister and those views will be very strongly felt by many across Wales. Tomorrow, however, her family will be in mourning and they must be allowed to grieve with dignity. I will be attending the funeral tomorrow as First Minister on behalf of the people of Wales.

Mae'n debyg ei bod yn gywir i ddweud bod y gwrthwynebiad i'r polisïau a roddwyd ar waith ar y pryd wedi darparu'r momentwm tuag at ddatganoli gan achosi sefydliad y Cynulliad hwn. Rwy'n amau mai effaith anfwriadol o'r hyn a ddigwyddodd yn y 1980au a'r 1990au oedd hynny. Mae llawer ohonom yn y Siambr hon a fydd yn anghytuno'n helaeth â'r polisïau a roddwyd ar waith yn ystod ei chyfnod fel Prif Weinidog a bydd y safbwyntiau hynny'n cael eu teimlo'n gryf iawn gan lawer ledled Cymru. Yfory, fodd bynnag, bydd ei theulu yn galaru ac mae'n rhaid caniatáu iddynt alaru gydag urddas. Byddaf yn mynychu'r angladd yfory fel Prif Weinidog ar ran pobl Cymru.

13:34 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer. I rise to pay tribute to Baroness Thatcher and I am grateful to you, Presiding Officer, for allowing this opportunity for the Assembly to pay its tribute in its own way. Party leaders will have different views on the impact that Prime Minister Thatcher made on this country. I passionately believe that she was a force for good, as do many of my party, and obviously those of the centre-right persuasion, also with considerable passion. However, being a politician, I accept that there are two sides to every argument. Let us look at the era when Margaret Thatcher served as Prime Minister. She put herself forward for three general elections, and was endorsed at all three to be Prime Minister—the democratically elected leader of this country. She implement the policies that transformed this country from having the 'sick man of Europe' tag around its neck, to being a vibrant, opportune place for people to succeed. Consider home ownership, for example, where many millions of people were empowered to own their own property, and to drive forward their opportunities and their economic opportunities. When history reflects on what Margaret Thatcher, and her successive Cabinets, did in the 1980s, I believe that we will see that she transformed this country for the better.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n codi i dalu teyrnged i'r Farwnes Thatcher ac rwy'n ddiolchgar i chi, Lywydd, am roi'r cyfle hwn i'r Cynulliad dalu ei deyrnged yn ei ffordd ei hun. Bydd gan arweinwyr y pleidiau wahanol farn am yr effaith a gafodd y Prif Weinidog Thatcher ar y wlad hon. Rwy'n credu'n angerddol ei bod yn rym er lles, fel y mae llawer o'm plaid, ac yn amlwg y rhai o argyhoeddiad y dde-canol, hefyd gyda chryn angerdd. Fodd bynnag, gan fy mod yn wleidydd, rwy'n derbyn bod dwy ochr i bob dadl. Gadewch i ni ystyried y cyfnod pan roedd Margaret Thatcher yn Brif Weinidog. Rhoddodd ei hun ymlaen i sefyll mewn tri etholiad cyffredinol, ac fe'i cymeradwywyd i fod yn Brif Weinidog ym mhob un o'r tri—arweinydd y wlad hon a etholir yn ddemocrataidd. Gweithredodd y polisïau a weddnewidiodd y wlad hon o gael ei alw'n 'ddyn sâl Ewrop' i fod yn lle bywiog a manteisiol i bobl lwyddo. Ystyriwch berchnogaeth cartrefi, er enghraifft, lle yr ymrymuswyd llawer o filiynau o bobl i fod yn berchen ar eu heiddo eu hunain, ac i wella eu cyfleoedd a'u cyfleoedd economaidd. Pan fydd hanes yn adlewyrchu ar yr hyn a wnaeth Margaret Thatcher, a'i Chabinetau olynol, yn y 1980au, rwy'n credu y byddwn yn gweld ei bod wedi gweddnewid y wlad hon er gwell.

Let us consider the era that Prime Minister Thatcher came in to politics—the 1950s. That was an era of great deference, if you like, in public life, when the role of a woman was not secured other than to think—wrongly, in my view—that that role was in the house, bringing up the children. She broke the glass ceiling to break into politics, and I believe that she continued that as she progressed through her political career and her public life. As the First Minister mentioned, when we consider the liberation of the Falkland Islands in 1982, the stand against Irish terrorism—both loyalist and nationalist, because let us not forget that it was on both sides of the coin out in Ireland—and the terrible tragedies—and we saw the devastating consequences of terrorism only last night in America—and at what she and Ronald Reagan achieved in standing up to what Ronald Reagan called the 'evil empire', and in bringing an end to the cold war, you will see that her steadfast determination undoubtedly freed many millions of people on the continent of Europe, and contributed to a more peaceful continent, and a more peaceful world.

Gadewch i ni ystyried y cyfnod pan ymunodd Prif Weinidog Thatcher â byd gwleidyddiaeth—y 1950au. Roedd hwnnw'n gyfnod o barch mawr, os mynnwch, mewn bywyd cyhoeddus, pan nad oedd rôl y fenyw wedi ei sicrhau, ac eithrio i feddwl—yn anghywir, yn fy marn i—bod y rôl yn y tŷ, yn magu'r plant. Torrodd y nenfwd gwydr i wthio ei hun i fyd gwleidyddiaeth, ac rwy'n credu iddi barhau i wneud hynny wrth iddi symud ymlaen trwy ei gyrfa wleidyddol a'i bywyd cyhoeddus. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, pan rydym yn ystyried rhyddhau Ynysoedd Falkland ym 1982, y safiad yn erbyn terfysgaeth Gwyddelig—teyrngarwyr a chenedlaetholwyr, oherwydd mae'n rhaid i ni gofio ei bod ar y ddwy ochr y geiniog allan yn Iwerddon—a'r trychinebau ofnadwy—a gwelsom ganlyniadau trychinebus terfysgaeth ddim ond neithiwr yn America—ac ar yr hyn a gyflawnwyd ganddi hi a Ronald Reagan yn gwrthsefyll yr hyn a alwodd Ronald Reagan yn ymerodraeth anfad, a dod â'r rhyfel oer i ben, byddwch yn gweld nad oes amheuaeth bod ei phenderfyniad cadarn wedi rhyddhau llawer o filiynau o bobl ar gyfandir Ewrop, ac wedi cyfrannu at gyfandir mwy heddychlon, a byd mwy heddychlon.

Many tributes have been paid to the former Prime Minister, but we must also remember, as the First Minister mentioned, that a family has lost a mother and a grandmother. While it is perfectly legitimate for people to raise their objections, as well as to note with some sadness some of the policies that, from their political persuasion, they did not agree with, I hope that people will be respectful at the funeral tomorrow, and will allow the passing of what I believe was an iconic figure of the twenty-first century to be noted and measured with the service that will be held at St Paul's Cathedral.

Talwyd llawer o deyrngedau i'r cyn Brif Weinidog, ond mae'n rhaid i ni gofio hefyd, fel y dywedodd y Prif Weinidog, bod teulu wedi colli mam a mam-gu. Er bod pob hawl gan bobl i grybwyll eu gwrthwynebiadau, yn ogystal â nodi gyda chryn dristwch rhai o'r polisïau hynny, o'u safbwynt gwleidyddol nhw, nad oeddent yn cytuno â hwy, rwy'n gobeithio y bydd pobl yn barchus yn yr angladd yfory, ac yn caniatáu i farwolaeth un a oedd yn o ffigurau eiconig yr unfed ganrif ar hugain, yn fy meddwl i, gael ei nodi a'i mesur gyda'r gwasanaeth a fydd yn cael ei gynnal yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul.

I passionately believe that Prime Minister Thatcher put the 'great' back into Great Britain, and that history will judge her to have been the most successful peacetime Prime Minister that this country has had. It has been a huge privilege to say these few words here in the Senedd on behalf of my Assembly group and my party in Wales. Thank you, Presiding Officer.

Credaf yn gryf bod y Prif Weinidog Thatcher wedi rhoi'r 'mawr' yn ôl ym Mhrydain Fawr, ac y bydd hanes yn dangos mai hi oedd y Prif Weinidog mwyaf llwyddiannus a fu erioed yn y wlad hon yn ystod cyfnod o heddwch. Mae wedi bod yn fraint enfawr i ddweud yr ychydig eiriau yma yn y Senedd ar ran fy ngrŵp yn y Cynulliad a'm plaid yng Nghymru. Diolch i chi, Lywydd.

13:38 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Whatever people's feelings are about her political legacy—and I acknowledge that there are strong feelings on both sides—a person has died and has left a family bereaved. I want to make it clear that I am not here this afternoon to pay tribute to Margaret Thatcher, or to her political legacy; I am speaking here as party leader in order to mark her contribution to public life.

Beth bynnag yw teimladau pobl am ei hetifeddiaeth wleidyddol—ac rwy'n cydnabod bod yna deimladau cryf ar y ddwy ochr—mae unigolyn wedi marw ac wedi gadael teulu mewn profedigaeth. Hoffwn ei gwneud yn eglur nad wyf yma y prynhawn yma i dalu teyrnged i Margaret Thatcher, nac i'w hetifeddiaeth wleidyddol; rwy'n siarad yma fel arweinydd plaid er mwyn nodi ei chyfraniad at fywyd cyhoeddus.

As with all human beings in this situation, it is right to express sympathies to the family of Margaret Thatcher at this time of sadness for them. It is also right at the time of her passing that we should reflect on the politics that Margaret Thatcher left behind. We must learn from, but not dwell on, the past. We should use it as an opportunity to look to the future.

Fel pob bod dynol yn y sefyllfa hon, mae'n iawn i fynegi cydymdeimlad â theulu Margaret Thatcher ar yr adeg hon o dristwch iddyn nhw. Mae hefyd yn iawn ar adeg ei marwolaeth i ni fyfyrio ar y wleidyddiaeth y gadawodd Margaret Thatcher ar ei hôl. Mae'n rhaid i ni ddysgu o'r gorffennol ond peidio canolbwyntio arno'n ormodol. Dylem ei ddefnyddio fel cyfle i edrych i'r dyfodol.

Where I live in the Rhondda, people's chief memory of her time in office is that of the closure of the pits. The bitter miners' strike changed industrial policy, and we are still paying the price for that today. The deliberate switch to a service-based economy from a manufacturing economy, and the privatisation and the decline of our utilities and of public transport, were just some of the legacies of what we now call Thatcherism. It was a politics that took a turn away from the post-war consensus, which favoured a strong welfare state, free at the point of need, caring for all, from the cradle to the grave. Thatcherism started the attempt to roll back the state. It signalled the introduction of neo-liberalism into British politics, an ideology that has been faithfully followed by British Prime Ministers since. Neo-liberalism, or Thatcherism, is the cause, in my opinion, of many of the problems that we face in Wales today.

Ble rwyf i'n byw yn y Rhondda, cau'r pyllau yw prif atgof pobl o'i chyfnod yn y swydd. Newidiodd streic chwerw'r glowyr bolisi diwydiannol, ac rydym ni'n dal i dalu'r pris am hynny heddiw. Roedd y newid bwriadol i economi sy'n seiliedig ar wasanaethau o economi gweithgynhyrchu, a phreifateiddio a dirywiad ein cyfleustodau a thrafnidiaeth gyhoeddus, ymhlith dim ond rhai o'r pethau a etifeddwyd o'r hyn rydym yn ei alw'n Thatcheriaeth bellach. Roedd yn wleidyddiaeth a drodd i ffwrdd oddi wrth y consensws ar ôl y rhyfel, a oedd yn ffafrio gwladwriaeth les gref, am ddim ar y pwynt o angen, yn gofalu am bawb, o'r crud i'r bedd. Dechreuodd Thatcheriaeth yr ymgais i gyfyngu ar swyddogaeth y wladwriaeth. Arweiniodd at gyflwyno neo-ryddfrydiaeth i wleidyddiaeth Prydain, ideoleg a ddilynwyd yn ffyddlon gan Brif Weinidogion Prydain ers hynny. Yn fy marn i, neo-ryddfrydiaeth, neu Thatcheriaeth, yw achos nifer o'r problemau sy'n ein hwynebu yng Nghymru heddiw.

We could allow her passing to make us bitter. Some will show their anger by protesting, but I would urge everyone to use the energy that could be taken up in mulling over her economic legacy to instead think creatively about how that legacy and that philosophy can be overturned. Instead of focusing our anger on the events of a quarter of a century and more ago, let us turn this into a time for all of us in Wales to decide collectively, as a society, that we want to create a future that is better than the past.

Gallem ganiatáu i'w marwolaeth ein gwneud ni'n chwerw. Bydd rhai yn dangos eu dicter drwy brotestio, ond byddwn yn annog pawb i ddefnyddio'r egni y gellid ei ddefnyddio yn myfyrio ar ei hetifeddiaeth economaidd i feddwl yn greadigol yn hytrach am sut y gellir newid yr etifeddiaeth a'r athroniaeth honno. Yn hytrach na chanolbwyntio ein dicter ar ddigwyddiadau chwarter canrif a mwy yn ôl, gadewch i ni droi hwn yn amser i bob un ohonom yng Nghymru i benderfynu ar y cyd, fel cymdeithas, ein bod eisiau creu dyfodol sy'n well na'r gorffennol.

Margaret Thatcher told us that there was no such thing as society. In Wales, we do not believe that to be true. Community is important to us. Let us prove the statement wrong by creating a well-functioning, fairer and more equal economy, as well as a network of vibrant, caring and thriving communities. With powers over the levers that can shape our economy, we can reject and reverse the greed-is-good culture that comes with neo-liberalism.

Dywedodd Margaret Thatcher wrthym nad oedd y fath beth â chymdeithas. Yng Nghymru, nid ydym yn credu bod hynny'n wir. Mae cymuned yn bwysig i ni. Gadewch i ni brofi'r datganiad yn anghywir trwy greu economi sy'n gweithio'n dda, sy'n decach ac sy'n fwy cyfartal, yn ogystal â rhwydwaith o gymunedau bywiog, gofalgar a ffyniannus. Gyda phwerau dros yr ysgogiadau sy'n gallu llywio ein heconomi, gallwn wrthod a gwrth-droi'r diwylliant mae-trachwant-yn-dda sy'n cael ei greu gan neo-ryddfrydiaeth.

A bereavement is always a time for reflection. My hopes for the future of Wales, as a very different woman leader from a very different political party, are for us to create, in contrast to Thatcherism, an economy and a Welsh society that are based on the principles of fairness, equality, peace and co-operation. Diolch yn fawr.

Mae profedigaeth bob amser yn amser i fyfyrio. Fy ngobaith i ar gyfer dyfodol Cymru, fel arweinydd benywaidd gwahanol iawn o blaid wleidyddol wahanol iawn, yw i ni greu, yn wahanol i Thatcheriaeth, economi a chymdeithas yng Nghymru sy'n seiliedig ar egwyddorion tegwch, cydraddoldeb, heddwch a chydweithrediad. Diolch yn fawr.

13:42

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

I wish to join other political leaders here today in remembering the life of Baroness Thatcher and to send, on behalf of my party, condolences to her children, her wider family and her friends. Margaret Thatcher was the dominant political figure of her time and of my youth. I became active in politics at the age of 15, at the height of her power and, in large part, in opposition to her Government and the policies it pursued in the part of Wales where I grew up and in parts of the community that I now represent.

Hoffwn ymuno â'r arweinwyr gwleidyddol eraill yma heddiw i gofio bywyd y Farwnes Thatcher ac i anfon, ar ran fy mhlaid, cydymdeimlad at ei phlant, ei theulu ehangach a'i ffrindiau. Margaret Thatcher oedd ffigwr gwleidyddol cryfaf ei hoes a'm hieuenctid i. Deuthum yn weithgar mewn gwleidyddiaeth yn 15 oed, yn anterth ei grym ac, i raddau helaeth, mewn gwrthwynebiad i'w Llywodraeth a'r polisïau a ddilynwyd ganddi yn y rhan o Gymru lle cefais fy magu ac mewn rhannau o'r gymuned yr wyf yn ei chynrychioli bellach.

She was an individual of immense strength and determination, attributes I am sure she relied on heavily when she took on the old grandees to become, first, a Member of Parliament, and then the leader of her party, at a time when I am sure that many of them thought that a woman's place was in the home. Watching the many reruns of her interviews on television over the last week, I have been reminded of her forthright style and plain speaking. I distinctly remember the bombing at the Conservative conference in Brighton and her resolve to attend the conference the next day, when she spoke with composure that I am sure few of us could muster in such circumstances.

Roedd hi'n unigolyn o gryfder a phenderfyniad enfawr, nodweddion rwy'n siŵr iddi ddibynnu'n fawr arnynt wrth frwydro'r hen fawrion i fod, yn gyntaf, yn Aelod Seneddol, ac yna'n arweinydd ei phlaid, ar adeg pan rwy'n siŵr bod llawer ohonynt yn credu mai'r cartref oedd lle menywod. Wrth wylio'r ailddangosiadau niferus o'i chyfweliadau ar y teledu yn ystod yr wythnos ddiwethaf, rwyf wedi cael fy atgoffa o'i harddull bendant a'i siarad plaen. Rwy'n cofio'n eglur y bomio yng nghynhadledd y Ceidwadwyr yn Brighton a'i phenderfyniad i fynychu'r gynhadledd y diwrnod canlynol, pan siaradodd â hunanfeddiant rwy'n siŵr na allai llawer ohonom feddu arno dan amgylchiadau o'r fath.

Her legacies rightly evoke strong reactions, and those legacies, whether for good or for bad, still affect our lives today. Our presence here in this Chamber, some would argue, is one of them. It is right that those legacies and their ongoing effect on our nation are debated. However, today, on the eve of her funeral, we pay our respects to her family and we remember a woman who devoted her life to the service of her country.

Mae ei hetifeddiaeth yn ennyn ymateb cryf, ac mae hynny'n iawn, ac mae'r etifeddiaeth honno, er da neu er drwg, yn dal i effeithio ar ein bywydau heddiw. Mae ein presenoldeb yma yn y Siambr hon, byddai rhai yn dadlau, yn un ohonynt. Mae'n iawn fod yr etifeddiaeth honno a'i heffaith barhaus ar ein cenedl yn cael eu trafod. Fodd bynnag, heddiw, y diwrnod cyn ei hangladd, rydym yn anfon ein cydymdeimlad at ei theulu ac yn cofio menyw a roddodd ei bywyd i wasanaethu ei gwlad.

13:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I think that Members are aware, but I will just confirm that I will be attending the funeral on behalf of Assembly Members.

Diolch. Rwy'n credu bod yr Aelodau'n ymwybodol, ond hoffwn gadarnhau y byddaf yn mynychu'r angladd ar ran Aelodau'r Cynulliad.

# Cwestiynau i'r Prif Weinidog

# Questions to the First Minister

### Adroddiad Francis

### The Francis Report

13:44 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa rai o'r argymhellion yn adroddiad Francis y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried? OAQ(4)0996(FM)*

*1. What recommendations of the Francis report are being considered by the Welsh Government? OAQ(4)0996(FM)*

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Assembly debated this in full on 12 March. A review of all 290 recommendations is under way to determine the learning for NHS Wales. The Minister for Health and Social Services will present a full response in July.

Trafodwyd hyn yn llawn gan y Cynulliad ar 12 Mawrth. Mae adolygiad o bob un o'r 290 argymhelliad ar y gweill i benderfynu ar y dysgu ar gyfer GIG Cymru. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno ymateb llawn ym mis Gorffennaf.

13:44 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. As you will be aware, despite the widely held view that health is wholly devolved, there are a number of aspects reserved at Westminster. Some of the recommendations of the Francis report cover areas that are not yet devolved. What discussions have you had with the UK Government about agreeing a joint policy on these or, indeed, for the full devolution of health?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Fel y byddwch yn gwybod, er gwaethaf y farn gyffredin bod iechyd wedi'i ddatganoli yn gyfan gwbl, mae nifer o agweddau wedi'u cadw yn San Steffan. Mae rhai o argymhellion adroddiad Francis yn ymdrin â meysydd nad ydynt wedi'u datganoli eto. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar gytuno ar bolisi ar y cyd o ran y rhain neu, yn wir, am ddatganoli iechyd yn llawn?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As I mentioned earlier, there will be a full statement regarding Francis in July. Members will have an opportunity at that time to understand what we have done as a Government to consider the substantial number of recommendations in the report.

Fel y soniais yn gynharach, bydd datganiad llawn ar Francis ym mis Gorffennaf. Bydd cyfle bryd hynny i Aelodau ddeall yr hyn rydym wedi ei wneud fel Llywodraeth i ystyried y nifer sylweddol o argymhellion yn yr adroddiad.

13:45 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the issues raised in the Francis report was the pursuit of targets and financial balance at the expense of quality of care. How do you reflect on that, given that, over the Easter period, accident and emergency consultants across Wales described our NHS as being on the brink of meltdown as a result of the lack of available resources, which is putting patients at risk?

Un o'r materion a godwyd yn adroddiad Francis oedd ceisio cyrraedd targedau a sicrhau cydbwysedd ariannol ar draul ansawdd gofal. Sut ydych chi'n myfyrio ar hynny, o gofio bod ymgynghorwyr damweiniau ac achosion brys ar draws Cymru wedi dweud dros gyfnod y Pasg bod ein GIG ar fin bod mewn argyfwng o ganlyniad i'r diffyg o ran adnoddau sydd ar gael, sy'n rhoi cleifion mewn perygl?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We know that there are difficulties at the moment in terms of unscheduled care, and the Minister is giving this his full consideration. It is right to say that there has been a substantial increase in demand, particularly for unscheduled care, which has had an impact on services. As I said, the Minister is considering the issue at this moment in time and will be taking action in the very near future.

Rydym yn gwybod bod anawsterau ar hyn o bryd o ran gofal heb ei drefnu, ac mae'r Gweinidog yn rhoi ei ystyriaeth lawn i hyn. Mae'n iawn dweud y bu cynnydd sylweddol mewn galw, yn enwedig am ofal heb ei drefnu, sydd wedi cael effaith ar wasanaethau. Fel y dywedais, mae'r Gweinidog yn ystyried y mater ar hyn o bryd a bydd yn cymryd camau yn y dyfodol agos iawn.

### Y Frech Goch

### Measles

13:46 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau ataliol a gymerwyd yn dilyn yr achosion diweddar o'r frech goch? OAQ(4)1002(FM)*

*2. Will the First Minister provide an update on the preventative measures taken following the recent measles outbreak? OAQ(4)1002(FM)*

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Health and Social Services made a written statement on the response to the measles outbreak yesterday, 15 April. The Welsh Government, Public Health Wales and the health boards will continue to take all necessary and appropriate measures to prevent the outbreak from spreading further.

Gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig ar yr ymateb i'r achosion o'r frech goch ddoe, 15 Ebrill. Bydd Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r byrddau iechyd yn parhau i gymryd pob cam angenrheidiol a phriodol i atal yr achosion rhag lledaenu ymhellach.

13:46 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. I am pleased to hear about the measures that have already been taken. Last year, I raised this issue in questions when there was an increase in the number of measles cases in north Wales. Can I be assured that the MMR—measles, mumps and rubella immunisation; I finally got the pronunciation—or 'needle' as we should have called it, will remain a high priority for public health across the whole of Wales so that we can, once again, build up immunity to these illnesses, which can have serious consequences?

Diolch i chi am hynny. Rwy'n falch o glywed am y mesurau a gymerwyd eisoes. Y llynedd, codais y mater hwn yn y cwestiynau pan fu cynnydd i nifer yr achosion o'r frech goch yng ngogledd Cymru. A allaf fod yn sicr bod yr MMR —imiwneiddiad y frech goch, clwy'r pennau a rwbela; rwyf wedi ei ynganu'n gywir o'r diwedd—neu'r 'nodwydd' fel y dylem fod wedi ei alw, yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer iechyd y cyhoedd ledled Cymru gyfan fel y gallwn, unwaith eto, adeiladu imiwnedd i'r afiechydon hyn, sy'n gallu arwain at ganlyniadau difrifol?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, indeed. The advice that I would give is that parents should ensure that their children are vaccinated. Of course, two vaccinations are required to provide immunity to MMR. You will be aware of the thousands of vaccinations that have been given in recent times to provide that level of immunity.

Gallwch, yn wir. Y cyngor y byddwn i'n ei roi yw y dylai rhieni sicrhau bod eu plant yn cael eu brechu. Wrth gwrs, mae angen dau frechiad i ddarparu imiwnedd i MMR. Byddwch yn ymwybodol o'r miloedd o frechiadau a roddwyd yn ddiweddar i ddarparu'r lefel honno o imiwnedd.

13:47 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The First Minister will be aware that there is a significant challenge to get up to the 92% required for the effective prevention of the further spread of the measles outbreak. The First Minister will remember that, prior to 1988, when this particular type of inoculation was introduced, there were about 0.5 million cases a year, of which, sadly, about 100 resulted in death. It is not exactly clear how many complications arose from the same disease. Would the First Minister give an undertaking to the Chamber that absolute priority will be given to ensuring that there are sufficient vaccines and that there are no cost implications that cannot be triumphed?

Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol ei bod yn her sylweddol i gyrraedd y 92% sy'n ofynnol ar gyfer atal lledaeniad pellach yr achosion o'r frech goch yn effeithiol. Bydd y Prif Weinidog yn cofio, cyn 1988, pan gyflwynwyd y math penodol hwn o frechiad, bod tua 0.5 miliwn o achosion y flwyddyn, ac o'r rhain, yn anffodus, roedd tua 100 yn arwain at farwolaeth. Nid yw'n gwbl glir faint o gymhlethdodau gododd o'r un clefyd. A wnaiff y Prif Weinidog wneud addewid i'r Siambr y bydd blaenoriaeth lwyr yn cael ei rhoi i sicrhau bod digon o frechiadau ac nad oes unrhyw oblygiadau cost na ellir eu goresgyn?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The figure of 95% is needed to provide what is sometimes called 'herd' immunity. We are at 94.3%, as the statement yesterday confirmed, when it comes to the first immunisation, and at 89.9% with regard to the second dose. Of course, our intention is to ensure that both doses reach the 95% target. I believe that the publicity given to this over the past few weeks, although we would not have wished it to be this way, has helped us to reach that target of 95%.

Mae angen y ffigur o 95% i ddarparu'r hyn a elwir weithiau yn imiwnedd 'haid'. Rydym ar 94.3%, fel y cadarnhaodd y datganiad ddoe, wrth ystyried yr imiwneiddiad cyntaf, ac ar 89.9% o ran yr ail ddos. Wrth gwrs, ein bwriad yw sicrhau bod y ddau ddos yncyrraedd y targed o 95%. Rwy'n credu bod y cyhoeddusrwydd a roddwyd i hyn dros yr ychydig wythnosau diwethaf, er na fyddem wedi dymuno i bethau ddigwydd fel hyn, wedi ein helpu i gyrraedd y targed o 95%.

13:48 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are seeing the effects of a vaccination rate decline that happened a decade ago. I think that some Assembly Members here at the time, although maybe unwittingly, fed the perception that there was controversy and called on the Welsh Assembly Government to abandon the promotion of the vaccine and spend money on future research instead. We acknowledge that there are problems with the media in getting our message out in Wales. Will the Government commit to a future public awareness campaign so that we can make sure that this does not happen again?

Rydym yn gweld effeithiau gostyngiad i'r gyfradd brechu a ddigwyddodd ddegawd yn ôl. Rwy'n credu bod rhai o Aelodau'r Cynulliad a oedd yma ar y pryd, yn ddiarwybod efallai, wedi cyfrannu at y dybiaeth bod hwn yn fater dadleuol ac wedi galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r gorau i hyrwyddo'r brechlyn a gwario arian ar waith ymchwil yn y dyfodol yn lle hynny. Rydym yn cydnabod bod problemau gyda'r cyfryngau o ran cyfleu ein neges yng Nghymru. A wnaiff y Llywodraeth ymrwymo i ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus yn y dyfodol fel y gallwn wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd eto?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That has almost been done. I would have to say that some elements of the media fuelled the fears of parents. So, there is no point suggesting that some of those that did that were simply doing their job—they did fuel it; there is no question about that. I know that elements of the media have a job to do—I appreciate that—but it is an element of the outbreak in Swansea, in terms of the level of immunisation.

Mae hynny bron wedi ei wneud. Byddai'n rhaid i mi ddweud bod rhai elfennau o'r cyfryngau wedi gwaethygu ofnau rhieni. Felly nid oes diben awgrymu bod rhai o'r rhai a wnaeth hynny ddim ond yn gwneud eu gwaith—fe wnaethant ei waethygu; nid oes amheuaeth am hynny. Gwn fod gan elfennau o'r cyfryngau swydd i'w chyflawni—rwy'n gwerthfawrogi hynny—ond mae'n elfen o'r achosion yn Abertawe, o ran lefel yr imiwneiddio.

That said, what is now important is that the scare fuelled at the time by what was claimed to be robust medical research has been discredited. That much is important. Also, parents now see, with the measles outbreak, the importance of the immunisation. As I said, none of us would wish to see the message being presented in the way that it has been with the outbreak, but I certainly believe that it will be a way of ensuring that we see vaccination levels rise to the 95% for both immunisations that we all want to see.

Wedi dweud hynny, yr hyn sy'n bwysig nawr yw bod yr ofnau a waethygwyd ar y pryd gan yr hyn yr honnwyd oedd yn waith ymchwil meddygol cadarn wedi cael ei ddifrïo. Mae hynny'n bwysig. Hefyd, mae rhieni'n gweld bellach, gyda'r achosion o'r frech goch, pwysigrwydd yr imiwneiddio. Fel y dywedais, ni fyddai'r un ohonom yn dymuno gweld y neges yn cael ei chyflwyno yn y ffordd y'i cyflwynwyd yn yr achos hwn, ond rwy'n sicr yn credu y bydd yn ffordd o sicrhau ein bod yn gweld lefelau brechu yn codi i 95% ar gyfer y ddau imiwneiddiad mae pob un ohonom am eu gweld.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, who should be held responsible for figures showing that ambulances in Wales spent the equivalent of six years waiting outside Welsh accident and emergency departments in the last six months?

Brif Weinidog, pwy ddylai fod yn atebol am ffigurau sy'n dangos bod ambiwlansys yng Nghymru wedi treulio cyfwerth â chwe blynedd yn aros y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys Cymru yn ystod y chwe mis diwethaf?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I very much recognise the research that the leader of the Welsh Liberal Democrats has done on this issue—the fact that it was done by the BBC is neither here nor there. However, she makes a good point. It is important that we recognise that it has been difficult for ambulances over the past few months. There have been pressures in terms of unscheduled care—that much we recognise. The report that has been commissioned on ambulance services will be presented to the Minister tomorrow, and I know that the Minister is actively considering what should be done in order to alleviate the pressures that have built up in A&E.

Rwy'n cydnabod yn llwyr y gwaith ymchwil y mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ei wneud ar y mater hwn—nid yw'r ffaith iddo gael ei wneud gan y BBC yn berthnasol. Fodd bynnag, mae hi'n gwneud pwynt da. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ei bod wedi bod yn anodd i ambiwlansys dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Bu pwysau o ran gofal heb ei drefnu—rydym yn cydnabod hynny. Bydd yr adroddiad a gomisiynwyd ar wasanaethau ambiwlans yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog yfory, a gwn fod y Gweinidog yn mynd ati i ystyried yr hyn y dylid ei wneud er mwyn lleddfu'r pwysau sydd wedi datblygu mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

13:50

## Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am sure that where the figures came from is of little comfort to the patient who waited over five and a half hours in the back of an ambulance outside a Welsh hospital.

Rwy'n siŵr nad yw gwybod o ble daeth y ffigurau yn fawr o gysur i'r claf a fu'n aros am dros bum awr a hanner yng nghefn ambiwlans y tu allan i ysbyty yng Nghymru.

Earlier this month, half of Wales's A&E consultants wrote to the new Minister for Health and Social Services saying that emergency departments were on their knees and at the point of meltdown. When will you stop being so flippant and stop burying your head in the sand about the crisis in our emergency departments?

Yn gynharach y mis hwn, ysgrifennodd hanner ymgynghorwyr adrannau damweiniau ac achosion brys Cymru at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol newydd yn dweud bod damweiniau ac achosion brys ar eu gliniau ac ar fin bod mewn argyfwng. Pryd wnewch chi roi'r gorau i fod mor wamal a rhoi'r gorau i gladdu eich pen yn y tywod yng nghyswllt yr argyfwng yn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys?

13:51

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

An element of flippancy is, of course, to suggest that I should meet constituents and then to not follow that up. That is as flippant as anyone can get, and that is what the leader of the Welsh Liberal Democrats has done in the past few weeks, despite invitations to do otherwise. It is correct to say that there are pressures on A&E and that there are pressures on the ambulance service. We know that there has been, for some months now, pressure building up in that regard. We know that there are many elderly people—particularly those who are aged 85—being referred to hospitals, and that has, of course, led to pressure building. There are two ways of dealing with this: first of all, dealing with it via the ambulance services review that has already been put in place, and, secondly, assessing the need in terms of what must be done to alleviate the situation. That is exactly what the Minister is doing at this moment in time.

Un elfen o wamalrwydd, wrth gwrs, yw awgrymu y dylwn i gwrdd ag etholwyr ac yna pheidio â dilyn hynny. Mae hynny mor wamal ag y gall unrhyw un ei fod, a dyna beth mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ei wneud yn ystod yr wythnosau diwethaf, er gwaethaf gwahoddiadau i wneud fel arall. Mae'n iawn dweud bod pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys a bod pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans. Rydym yn gwybod bod, ers rhai misoedd bellach, pwysau'n cynyddu yn y cyswllt hwnnw. Rydym yn gwybod bod llawer o bobl hŷn—yn enwedig y rhai sy'n 85 oed—yn cael eu hatgyfeirio i ysbytai, ac mae hynny, wrth gwrs, wedi arwain at gynyddu pwysau. Mae dwy ffordd o ymdrin â hyn: yn gyntaf oll, ymdrin â'r sefyllfa drwy'r adolygiad o wasanaethau ambiwlans a roddwyd ar waith eisoes, ac, yn ail, asesu'r angen yn nhermau'r hyn y mae'n rhaid ei wneud i liniaru'r sefyllfa. Dyna'n union yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei wneud ar hyn o bryd.

13:52

## Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The reality, First Minister, is that those same consultants who wrote to your Minister for health said that they are struggling to look after patients stuck in A&E because they are waiting for ward beds. All the reorganisation plans released so far will see a reduction in hospital beds. The ambulance review will not help at all. Ambulances are stacking up outside A&E departments that are full of patients with no beds to go to. Is it not the reality that the proposed changes by local health boards will mean fewer beds in district general hospitals and in the community, and that fewer beds will mean longer waits for patients in A&E departments, which, in turn, will lead to longer waits for ambulances outside those departments?

Y gwir amdani, Brif Weinidog, yw bod yr un ymgynghorwyr a ysgrifennodd at eich Gweinidog iechyd yn dweud eu bod yn cael trafferth i ofalu am gleifion nad ydynt yn gallu symud o'r adran damweiniau ac achosion brys am eu bod yn aros am welyau ward. Bydd yr holl gynlluniau ad-drefnu a ryddhawyd hyd yn hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y gwelyau mewn ysbytai. Ni fydd yr adolygiad o wasanaethau ambiwlans yn helpu o gwbl. Mae ambiwlansys yn pentyrru y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys sy'n llawn cleifion nad oes ganddynt welyau i fynd iddynt. Onid y gwirionedd yw y bydd y newidiadau arfaethedig gan fyrddau iechyd lleol yn golygu llai o welyau mewn ysbytai cyffredinol dosbarth ac yn y gymuned, ac y bydd llai o welyau yn golygu y bydd cleifion yn aros yn hwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, a fydd, yn ei dro, yn arwain at amseroedd aros hwy i ambiwlansys y tu allan i'r adrannau hynny?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The leader of the Welsh Liberal Democrats suggests that the A&E consultants, in their letter, are somehow objecting to the reconfiguration plans. I can tell you that they are not, because I have met with some of them. They do not object to them. They understand the pressures and they understand what needs to be done. Of course, we take seriously any letter that is sent to us by A&E consultants. Clearly, we would not want to see the service getting as bad as it is in England. As far as Wales is concerned, these are issues that the Minister takes very seriously. We understand that there has been a build-up in unscheduled care, and, as a Government, we are determined to tackle it.

Mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn awgrymu bod yr ymgynghorwyr adrannau damweiniau ac achosion brys, yn eu llythyr, yn gwrthwynebu'r cynlluniau ad-drefnu rywsut. Gallaf ddweud wrthych nad ydynt, oherwydd rwyf i wedi cwrdd â rhai ohonynt. Nid ydynt yn eu gwrthwynebu. Maen nhw'n deall y pwysau ac yn deall yr hyn y mae angen ei wneud. Wrth gwrs, rydym yn cymryd unrhyw lythyr a anfonir atom gan ymgynghorwyr adrannau damweiniau ac achosion brys o ddifrif. Yn amlwg, ni fyddem am weld y gwasanaeth yn gwaethygu cymaint ag y mae wedi ei wneud yn Lloegr. Cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn, mae'r rhain yn faterion y mae'r Gweinidog yn eu hystyried yn ddifrifol iawn. Rydym yn deall bod y galw am ofal heb ei drefnu wedi cynyddu, ac rydym yn benderfynol fel Llywodraeth o fynd i'r afael â'r sefyllfa.

13:53 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, over the Easter recess and in the lead-up to the recess, there was much talk about the Mid Staffordshire scandal and the Francis report. Are you confident that the Welsh health service and, in particular, Welsh hospitals are not in the same position as that in which Mid Staffs found itself and that patients can have complete confidence?

Brif Weinidog, yn ystod toriad y Pasg ac yn y cyfnod yn arwain i fyny at y toriad, roedd llawer o sôn am sgandal Canol Swydd Stafford ac adroddiad Francis. A ydych chi'n hyderus nad yw gwasanaeth iechyd Cymru, ac ysbytai Cymru yn arbennig, yn yr un sefyllfa ag yr oedd Canol Swydd Stafford ynddi ac y gall cleifion fod yn gwbl hyderus?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There is no evidence to suggest that Welsh hospitals are in the position that Mid Staffs was in.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ysbytai Cymru yn y sefyllfa yr oedd Canol Swydd Stafford ynddi.

13:54 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree entirely with that remark, First Minister, but you will be aware that, in a limited number of cases, there has been great concern among patients and clinicians about some aspects of the Mid Staffs case coming into Wales and happening here. One issue that has been touched upon by many experts and politicians in other parts of the United Kingdom is the introduction of a duty of candour into the health service. Are you minded to introduce such a duty via a legal framework, so that clinicians and patients can have the confidence that such a debacle as that in Mid Staffs would be prevented here in Wales?

Cytunaf yn llwyr â'r sylw yna, Brif Weinidog, ond byddwch yn ymwybodol y bu, mewn nifer cyfyngedig o achosion, pryder mawr ymhlith cleifion a chlinigwyr am rai agweddau ar achos Canol Swydd Stafford yn dod i mewn i Gymru ac yn digwydd yma. Un mater sydd wedi cael ei grybwyll gan lawer o arbenigwyr a gwleidyddion mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yw cyflwyno dyletswydd o onestrwydd i'r gwasanaeth iechyd. A fyddech chi'n ystyried cyflwyno dyletswydd o'r fath trwy fframwaith cyfreithiol, fel y gall clinigwyr a chleifion fod yn hyderus y byddai llanast megis hwnnw yng Nghanol Swydd Stafford yn cael ei atal yma yng Nghymru?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The issue of the duty of candour has been raised by a number of Members in this Chamber, and it is something to which we will give consideration. As I said, a substantial number of recommendations have emerged as a result of the report, and there will of course be a full response in July. You were right to say that, although Mid Staffs is clearly in England, it is important that we are vigilant in terms of ensuring that the Welsh health service delivers the standards that the people of Wales would expect.

Codwyd y mater o ddyletswydd gonestrwydd gan nifer o Aelodau yn y Siambr hon, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried. Fel y dywedais, mae nifer sylweddol o argymhellion wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r adroddiad, a bydd ymateb llawn ym mis Gorffennaf wrth gwrs. Roeddech yn iawn i ddweud, er bod Canol Swydd Stafford yn amlwg yn Lloegr, ei bod yn bwysig i ni fod yn wyliadwrus o ran sicrhau bod gwasanaeth iechyd Cymru yn darparu'r safonau y byddai pobl Cymru yn eu disgwyl.

13:55 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tomorrow, First Minister, is the twenty-third anniversary of the death of Robbie Powell. I met Will Powell over the Easter recess and I know that he has been in extensive discussions with you and other politicians. One of the issues that Mr Powell and his family have concerns the medical notes that were taken at the time and medical negligence. It is his belief that such a duty of candour would make a real difference to the health service and health professionals. Do you accept that the Powell family has waited so long to try to seek justice in relation to the death of Robbie Powell and what happened to their very precious son, and that one way of alleviating some of the grief that Mr Powell and his family feel would be to introduce such a duty to the health service in Wales? It would give great assistance to families such as the Powells, who have found themselves in a 23-year logjam trying to seek justice for the death of Robbie Powell.

Yfory, Brif Weinidog, bydd tair blynedd ar hugain ers marwolaeth Robbie Powell. Cyfarfûm â Will Powell yn ystod toriad y Pasg ac rwy'n gwybod ei fod wedi bod mewn trafodaethau helaeth gyda chi a gwleidyddion eraill. Mae un o'r problemau sydd gan Mr Powell a'i deulu yn ymwneud â'r nodiadau meddygol a gymerwyd ar y pryd ac esgeulustod meddygol. Mae o'r farn y byddai dyletswydd o onestrwydd o'r fath yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gwasanaeth iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol. A ydych chi'n derbyn bod y teulu Powell wedi aros mor hir i geisio cael cyfiawnder o ran marwolaeth Robbie Powell a'r hyn a ddigwyddodd i'w mab hynod werthfawr, ac mai un ffordd o leddfu rhywfaint o'r galar y mae Mr Powell a'i deulu yn ei deimlo fyddai cyflwyno dyletswydd o'r fath i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru? Byddai'n gymorth mawr i deuluoedd fel y Powells, sydd wedi bod mewn tagfa dros 23 mlynedd yn ceisio cael cyfiawnder am farwolaeth Robbie Powell.

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As I said to the leader of the opposition, it is something that we will certainly consider. Mr Powell and his son were subject to the most appalling train of events, which were revealed via the independent investigation. I have always been keen to ensure that where there are lessons that can be learnt that they are learnt. There are some issues that are non-devolved that we have no control over. However, a duty of candour is certainly something to which we will give further consideration.

Fel y dywedais wrth arweinydd yr wrthblaid, mae'n rhywbeth y byddwn yn sicr yn ei ystyried. Dioddefodd Mr Powell a'i fab y gyfres fwyaf dychrynllyd o ddigwyddiadau, a gafodd eu datgelu drwy'r ymchwiliad annibynnol. Rwyf wedi bod yn awyddus erioed i sicrhau y dysgir gwersi lle mae gwersi y gellir eu dysgu. Mae rhai materion nad ydynt wedi'u datganoli nad oes gennym unrhyw reolaeth drostynt. Fodd bynnag, mae dyletswydd o onestrwydd yn sicr yn rhywbeth y byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach iddo.

13:56 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There have been a number of developments during recess that have impacted on food security, and Plaid Cymru has long argued that we could help the local economy and reduce the impact of climate change if we could produce more locally and buy more locally. Of course, this will be made all the more difficult with the closure of the Welsh Country Foods processing plant at Gaerwen in Anglesey. That will have not only a serious adverse impact on small businesses and the economy on Ynys Môn, but wider repercussions as there is no processing plant north of Merthyr Tydfil. Many people will be forced to send their livestock across the border. As the chair of Hybu Cig Cymru says, for Wales and the industry in north Wales this is a disaster. First Minister, what will you do to save those jobs and to assist the farming industry in Anglesey and in Gwynedd to deal with that closure?

Bu nifer o ddatblygiadau yn ystod y toriad sydd wedi effeithio ar ddiogelwch bwyd, ac mae Plaid Cymru wedi dadlau ers tro y gallem ni helpu'r economi leol a lleihau effaith y newid yn yr hinsawdd pe gallem gynhyrchu mwy yn lleol a phrynu mwy yn lleol. Wrth gwrs, bydd hyn yn cael ei wneud yn fwy anodd byth ar ôl cau gwaith prosesu Welsh Country Foods yn y Gaerwen ar Ynys Môn. Bydd hynny nid yn unig yn cael effaith andwyol ddifrifol ar fusnesau bach ac economi Ynys Môn, ond sgil-effeithiau ehangach hefyd gan nad oes gwaith prosesu i'r gogledd o Ferthyr Tudful. Bydd llawer o bobl yn cael eu gorfodi i anfon eu da byw ar draws y ffin. Fel y mae cadeirydd Hybu Cig Cymru yn ei ddweud, mae hyn yn drychineb i Gymru a'r diwydiant yng ngogledd Cymru. Brif Weinidog, beth ydych chi am ei wneud i achub y swyddi hynny ac i helpu'r diwydiant ffermio ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd i ymdrin â'r cau hwn?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is something that is wholly unwelcome to us as a Government and to those people who work there. We take some comfort from the fact that Llangefni has been saved, as have Sandycroft and the 1,300 jobs at Merthyr. In terms of what is happening now, there are still discussions taking place. I do not want to raise hopes at this stage with a view to the future of that plant. Should the worst come to the worst, the people there could expect the fullest level of support as individuals that we can offer as a Government.

Mae'n rhywbeth sy'n hollol annerbyniol i ni fel Llywodraeth ac i'r bobl hynny sy'n gweithio yno. Rydym yn cymryd rhywfaint o gysur o'r ffaith fod Llangefni wedi cael ei achub, ac felly hefyd Sandycroft a'r 1,300 o swyddi ym Merthyr. O ran yr hyn sy'n digwydd nawr, mae trafodaethau'n cael eu cynnal o hyd. Nid wyf am godi gobeithion ar hyn o bryd o ran dyfodol y safle hwnnw. Os daw hi i'r pen, gallai'r bobl yno ddisgwyl y lefel lawnaf o gymorth fel unigolion y gallwn ni ei gynnig fel Llywodraeth.

13:58 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. As someone who supports our farming industry, I am concerned that if processing moves out of Wales, the produce may not be able to be sold as Welsh lamb, despite the excellent brand name that Welsh lamb has. This will have a financial consequence for Hybu Cig Cymru. Given the possible effects, do you agree that it is time to reconsider the financial rules that govern the red meat levy allocation between Wales, Scotland and England?

Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel rhywun sy'n cefnogi ein diwydiant ffermio, rwy'n poeni os bydd prosesu yn symud allan o Gymru, efallai na fydd y cynnyrch yn gallu cael ei werthu fel cig oen Cymru, er gwaethaf yr enw brand ardderchog sydd gan gig oen Cymru. Bydd hyn yn arwain at oblygiadau ariannol i Hybu Cig Cymru. O ystyried yr effeithiau posibl, a ydych chi'n cytuno ei bod yn amser ailystyried y rheolau ariannol sy'n llywodraethu dyraniad yr ardoll cig coch rhwng Cymru, yr Alban a Lloegr?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The issue, of course, is not so much the protected geographical indication status, which does not require an animal to be slaughtered in Wales, as it is more a question of the levy that is collected in Wales that goes to support Hybu Cig Cymru. In the days of the Meat and Livestock Commission, this was not an issue, but it was important for us in Wales that we had our own body that was fully funded in order to promote Welsh meat. In terms of how the levy is distributed, I understand that that is something that is being examined at the moment.

Wrth gwrs, nid yw'r mater yn ymwneud gymaint â'r statws dynodiad daearyddol gwarchodedig nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i anifail gael ei ladd yng Nghymru, gan ei fod yn gwestiwn sy'n ymwneud mwy â'r ardoll sy'n cael ei gasglu yng Nghymru sy'n mynd at gefnogi Hybu Cig Cymru. Yn nyddiau'r Comisiwn Cig a Da Byw, nid oedd hyn yn broblem, ond roedd yn bwysig i ni yng Nghymru bod gennym ein corff ein hunain wedi'i gyllido'n llawn er mwyn hybu cig o Gymru. O ran sut y mae'r ardoll yn cael ei dosbarthu, rwy'n deall fod hynny'n rhywbeth sy'n cael ei archwilio ar hyn o bryd.

13:59 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The weather is finally starting to improve, First Minister, but the prolonged winter, and especially the heavy snowfall in March, has badly hit many of our food producers. Last week, the four farming and land organisations—the Country Land and Business Association, the Farmers Union of Wales, NFU Cymru and YFC—took the unprecedented step of writing to the Minister for Natural Resources and Food to request additional support for the farming industry. Welsh farmers are clearly being disadvantaged compared with those in Scotland, England and Northern Ireland. First, can you tell us your plans for future bad weather? Secondly, will you reverse the decision and agree to provide compensation to farmers who have suffered direct losses as a result of this weather?

Mae'r tywydd yn dechrau gwella o'r diwedd, Brif Weinidog, ond mae'r gaeaf hir, ac yn enwedig yr eira trwm ym mis Mawrth, wedi bod yn ergyd ddifrifol i lawer o'n cynhyrchwyr bwyd. Yr wythnos diwethaf, cymerodd y pedwar sefydliad ffermio a thir—Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Undeb Amaethwyr Cymru, NFU Cymru a CFfI—y cam digynsail o ysgrifennu at y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd i ofyn am gymorth ychwanegol i'r diwydiant ffermio. Mae'n eglur bod ffermwyr Cymru dan anfantais o'u cymharu â'r rhai yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn gyntaf, a allwch chi ddweud wrthym beth yw eich cynlluniau ar gyfer tywydd gwael yn y dyfodol? Yn ail, a wnewch chi newid y penderfyniad a chytuno i ddarparu iawndal i ffermwyr sydd wedi dioddef colledion uniongyrchol o ganlyniad i'r tywydd hwn?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First, there is no compensation in England, and, secondly, the schemes that are in place in Northern Ireland and Scotland are quite different. In Northern Ireland, there is hardship funding that we have put into place of up to €7,500 per farmer. That includes the costs of collection and disposal of fallen animals. The scheme there is envisaged to work on the basis of the proportion of loss at individual farm level and it will require subordinate legislation. There is no compensation available there for structural damage to sheds or fences. In Scotland, capital grants are being offered to provide support for structural damage as a result of the snow, and money was made available to support farmers with the disposal of fallen stock. So, again, it is not quite a compensation scheme that the Scots have.

Yn gyntaf, nid oes unrhyw iawndal yn Lloegr, ac, yn ail, mae'r cynlluniau sydd ar waith yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban yn dra gwahanol. Yng Ngogledd Iwerddon, ceir cyllid ar gyfer caledi yr ydym wedi ei roi ar waith o hyd at €7,500 y ffermwr. Mae hynny'n cynnwys costau casglu a chael gwared ar anifeiliaid sydd wedi trigo. Rhagwelir y bydd y cynllun yno yn gweithio ar sail cyfran y golled ar lefel ffermydd unigol a bydd angen is-ddeddfwriaeth. Nid oes iawndal ar gael yno ar gyfer difrod strwythurol i siediau neu ffensys. Yn yr Alban, mae grantiau cyfalaf yn cael eu cynnig i ddarparu cefnogaeth ar gyfer difrod strwythurol o ganlyniad i'r eira, a sicrhawyd bod arian ar gael i gynorthwyo ffermwyr i gael gwared ar stoc a oedd wedi trigo. Felly, unwaith eto, nid cynllun iawndal yn union sydd gan yr Albanwyr.

That said, officials were asked last week to investigate how we could provide further support for farm businesses that have experienced support. The leader of Plaid Cymru will know what the Minister has said in terms of on-farm burial and the relief that has been given in that regard. We will be seeking authorisation from the European Commission to bring forward the 2013 single farm payment to the earliest possible date, which is mid October. So, in terms of what is being done to help farmers in Wales, we believe that that help is being provided and we are, of course, working with the farming charities to assist them with the work that they are doing. However, it would not be correct to say that there is a compensation scheme in place whereby farmers will simply be compensated in Scotland and Northern Ireland. It is rather more complicated than that.

Wedi dweud hynny, gofynnwyd i swyddogion yr wythnos diwethaf i ymchwilio i sut y gallem gynnig cymorth ychwanegol i fusnesau fferm sydd â chefnogaeth brofiadol. Bydd arweinydd Plaid Cymru yn gwybod yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud o ran claddu ar y fferm a'r cymorth a roddwyd yn y cyswllt hwnnw. Byddwn yn gofyn am awdurdodiad gan y Comisiwn Ewropeaidd i gyflwyno taliad fferm sengl 2013 ar y dyddiad cynharaf posibl, sydd yng nghanol mis Hydref. Felly, o ran yr hyn sy'n cael ei wneud i helpu ffermwyr yng Nghymru, rydym yn credu bod y cymorth yn cael ei ddarparu ac rydym, wrth gwrs, yn gweithio gyda'r elusennau ffermio i'w cynorthwyo â'r gwaith y maen nhw'n ei wneud. Fodd bynnag, ni fyddai'n gywir dweud bod cynllun iawndal ar waith lle, yn syml, y bydd ffermwyr yn cael iawndal yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae braidd yn fwy cymhleth na hynny.

### Confensiwn Cyfansoddiadol ar gyfer y DU

### UK Constitutional Convention

14:01

## Julie Morgan [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*3. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'i alwad am Gonfensiwn Cyfansoddiadol ar gyfer y DU? OAQ(4)1001(FM)*

*3. What discussions has the First Minister had with the UK Government in relation to his call for a UK Constitutional Convention? OAQ(4)1001(FM)*

14:01

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have had an exchange of correspondence—and that is not meant to be read as an angry exchange—with the Prime Minister last year over my call for a convention. We agree that there should be a constitutional convention; we disagree on the timing of it. I would have preferred to have had such a convention before the Scottish referendum; his view is that it should take place afterwards.

Rwyf wedi cyfnewid gohebiaeth—ac ni ddylid cymryd hynny fel gohebiaeth flin—gyda'r Prif Weinidog y llynedd dros fy ngalwad am gonfensiwn. Rydym yn cytuno y dylid cael confensiwn cyfansoddiadol; rydym yn anghytuno ar ei amseriad. Byddai wedi bod yn well gennyf fi gael confensiwn o'r fath cyn refferendwm yr Alban; ei farn ef yw y dylai ddigwydd wedyn.

14:02

## Julie Morgan [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank the First Minister for that reply and I was also very pleased that his proposal for a constitutional convention was backed by Westminster's Political and Constitutional Reform Committee. Does the First Minister agree that it is important that such a convention should meet swiftly and before the Scottish referendum, as he said, so that a positive alternative view of the future shape of the UK is on the table before such a vote takes place?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ateb yna ac roeddwn innau hefyd yn falch iawn y cefnogwyd ei gynnig ar gyfer confensiwn cyfansoddiadol gan Bwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol San Steffan. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno ei bod yn bwysig y dylai confensiwn o'r fath gyfarfod yn gyflym a chyn refferendwm yr Alban, fel y dywedodd, fel bod safbwynt amgen cadarnhaol o siâp y DU yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno cyn cynnal pleidlais o'r fath?

14:02

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that is by far the most sensible approach. I do not think that it will happen, sadly. From looking at the opinion polls in Scotland, it seems clear to me that the appetite for independence is not strong, but there is nevertheless an appetite for greater devolution and putting in place a robust offer in terms of devolution for the people of Scotland and, indeed, people elsewhere in the UK would, I think, have helped immensely in terms of offering Scotland—not just Scotland, but Scotland in this instance—a secure future without the need for independence.

Rwy'n credu mai dyna'r dull mwyaf synhwyrol o bell ffordd. Nid wyf yn credu y bydd yn digwydd, yn anffodus. O edrych ar y polau piniwn yn yr Alban, mae'n ymddangos yn eglur i mi nad yw'r awydd am annibyniaeth yn gryf, ond mae awydd am ragor o ddatganoli serch hynny, a byddai sefydlu cynnig cadarn o ran datganoli i bobl yr Alban ac, yn wir, i bobl mewn rhannau eraill o'r DU, yn fy marn i, wedi helpu'n aruthrol o ran cynnig dyfodol diogel i'r Alban—nid yr Alban yn unig, ond yr Alban yn yr achos hwn—heb fod angen annibyniaeth.

14:03 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the UK is not the only country in the world that is looking at the shape of its future constitution at the moment. Will the convention adopt lessons from other countries and regions in the developed world in deciding how it is going to take any of its work forward? Will it be taking lessons from other countries?

Brif Weinidog, nid y DU yw'r unig wlad yn y byd sy'n edrych ar siâp ei chyfansoddiad yn y dyfodol ar hyn o bryd. A fydd y confensiwn yn mabwysiadu gwersi o wledydd a rhanbarthau eraill yn y byd datblygedig wrth benderfynu sut y mae'n mynd i fwrw ymlaen ag unrhyw ran o'i waith? A fydd yn dysgu gwersi gan wledydd eraill?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is difficult, because the UK is quite different in the sense that it is a kind of federal state and yet it is not. It has a wholly unwritten constitution, which can be an advantage. I look at Spain, for example, where the constitution is written, and it is far more difficult to effect greater devolution around Spain, which makes it difficult to be flexible enough to deliver a level of devolution that people are comfortable with in different parts of that country. Where lessons could be learned, I am sure that a convention would look at them, but the UK is in quite an unusual position in terms of its constitution and its make-up as a state.

Mae'n anodd, gan fod y DU yn wahanol iawn yn yr ystyr ei bod yn fath o wladwriaeth ffederal ac eto nid yw'n hynny chwaith. Mae ganddi gyfansoddiad sy'n gyfan gwbl anysgrifenedig, a all fod yn fantais. Rwy'n edrych ar Sbaen, er enghraifft, lle mae'r cyfansoddiad yn ysgrifenedig, ac mae'n llawer anoddach rhoi mwy o ddatganoli ar waith o gwmpas Sbaen, sy'n ei gwneud yn anodd i fod yn ddigon hyblyg i ddarparu lefel o ddatganoli y mae pobl yn gyfforddus â hi mewn gwahanol rannau o'r wlad honno. Lle y gellid dysgu gwersi, rwy'n siŵr y byddai confensiwn yn eu hystyried, ond mae'r DU mewn sefyllfa eithaf anarferol o ran ei chyfansoddiad a'i ffurf fel gwladwriaeth.

14:04 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, a ydych yn teimlo y byddai confensiwn o'r fath yn gweithio'n well pe bai rhai materion datganoli nad ydynt wedi eu setlo hyd yn hyn o safbwynt Cymru yn cael eu datrys—er enghraifft, llawr cyllid, fel yr awgrymwyd gan Holtham, a phwerau benthyg llawn i Lywodraeth Cymru? Ym mha drefn rydych yn rhoi'r gwahanol bethau hyn? Rwy'n tybio y byddai pobl Cymru yn fwy parod i ymwneud â chonfensiwn pe baent yn gweld bod y sefyllfa bresennol wedi'i datrys o ran datganoli llawn.

First Minister, do you feel that such a convention would work better if some devolution issues that are, as yet, unsettled in Wales's case were to be resolved—such as a funding floor, as suggested by Holtham, and full borrowing powers for the Welsh Government? In what order do you place these issues? I believe that the people of Wales would be more willing to engage with a convention if they could see that the current situation was resolved in terms of full devolution.

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ni ddylai confensiwn fod yn lle Silk, wrth gwrs. Bydd yn rhywbeth a fydd yn dod ar ôl Silk. Yn fy marn i, sicrhau bod rhan 1 Silk yn cael ei symud ymlaen yw'r peth pwysicaf, yna rhan 2 Silk, ac, ar ôl hynny, yn ôl yr amserlen sydd gennym yn awr, edrych ar ddatganoli dros y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau setliad ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig sydd yn fwy cadarn na'r hyn sydd gennym yn awr.

A convention should not replace Silk, of course. It will be something that follows on from Silk. In my view, the most important thing is to ensure that Silk part 1 is progressed, then Silk part 2, and, after that, in line with the current timetable, to look at devolution across the United Kingdom in order to secure a more robust settlement in all parts of the United Kingdom than is currently the case.

14:05 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the major issues for any constitutional convention would be to help to give coherence to justice and prisons policy. The Ministry of Justice named north Wales as one of three areas in the running for a new prison, which could be worth over £17 million and 1,000 jobs to the local economy. Can you identify what work the Welsh Government is doing alongside local authorities in north Wales to bring a new prison to the region?

Brif Weinidog, un o'r prif faterion ar gyfer unrhyw gonfensiwn cyfansoddiadol fyddai helpu i roi cydlyniad i bolisi cyfiawnder a charchardai. Enwyd gogledd Cymru gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel un o dair ardal sydd â chyfle o fod yn lleoliad ar gyfer carchar newydd, a allai fod werth dros £17 miliwn a 1,000 o swyddi i'r economi leol. A allwch chi nodi pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar y cyd ag awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru i ddod â charchar newydd i'r rhanbarth?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have consistently made the case that a prison is needed in the north to allow more prisoners to serve their time in Wales. I wrote to Jeremy Wright MP, Parliamentary Under Secretary of State for Justice, on Friday following a property search by our officials. A number of sites in Welsh Government ownership could meet the broad requirements. We felt that the main candidate among those sites was the Firestone site in Wrexham.

Rydym wedi cyflwyno'r achos yn gyson bod angen carchar yn y gogledd i ganiatáu mwy o garcharorion i dreulio eu hamser yn y carchar yng Nghymru. Ysgrifennais at Jeremy Wright AS, yr Is-Ysgrifennydd Seneddol dros Gyfiawnder, ddydd Gwener ar ôl i'n swyddogion fod yn chwilio am safleoedd. Gallai nifer o safleoedd sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru fodloni'r gofynion bras. Roeddem yn teimlo mai safle Firestone yn Wrecsam oedd y prif ymgeisydd o blith y safleoedd hynny.

14:06 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Onid y ddadl gryfaf o blaid confensiwn, Brif Weinidog, yw y bydd yn rhaid cael rhyw fath o gonfensiwn, beth bynnag fo canlyniad y refferendwm yn yr Alban? Yn amlwg, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban yn mynd i orfod trafod telerau eu cydberthynas, beth bynnag fydd yn digwydd. Oni fyddai'n ddoethach, felly, i holl Brif Weinidogion y Deyrnas Unedig gytuno ar hyn a derbyn eich awgrym, fel y gellir cychwyn ar y gwaith ar fyrder?

Is not the strongest argument in favour of the convention, First Minister, that it will be necessary to have some sort of convention, whatever the result of the Scottish referendum? Clearly, the UK Government and the Scottish Government are going to have to to negotiate the terms of their relationship, whatever the outcome. Would it not be wiser, therefore, for all the First Ministers and Prime Ministers of the UK to agree on this and to accept your suggestion, so that this work can commence as a matter of urgency?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Byddai hynny'n hollol gall. Ar hyn o bryd, rydym yn gwybod beth yw barn Prif Weinidog y Deyrnas Unedig. Er nad wyf wedi gofyn y cwestiwn hwn i Alec Salmond, rwy'n siŵr mai ei farn fyddai nad oes rhaid cael confensiwn Prydeinig gan na fydd yr Alban yn rhan o'r Deyrnas Unedig flwyddyn nesaf. Wrth gwrs, mae'r sefyllfa yn gymhleth yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'n hollol iawn i ddweud y bydd yn rhaid cael confensiwn ar ôl y refferendwm yn yr Alban, beth bynnag fo'r canlyniad.

That would be entirely sensible. At present, we know the view of the UK Prime Minister. Even though I have not asked Alex Salmond this question, I am sure that his opinion would be that we do not need a British convention because Scotland will not be part of the United Kingdom next year. Of course, the situation is complex in Northern Ireland. However, it is entirely correct to say that we will need a convention after the Scottish referendum, whatever the result.

### Amseroedd Aros am Ambiwlans

### Ambulance Waiting Times

14:07 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros am ambiwlans yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0990(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on ambulance waiting times in South Wales Central? OAQ(4)0990(FM)*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ambulance response times in South Wales Central are variable; that much has to be acknowledged. We have said that improving the quality of ambulance response is one of our main priorities. We know that there is support for this notion. The Minister is awaiting Professor's McClelland report, and that is due to be submitted tomorrow, as I mentioned earlier.

Mae amseroedd ymateb ambiwlansys yng Nghanol De Cymru yn amrywiol; mae'n rhaid cydnabod cymaint â hynny. Rydym wedi dweud mai gwella ansawdd ymateb ambiwlansys yw un o'n prif flaenoriaethau. Rydym yn gwybod bod cefnogaeth i'r syniad hwn. Mae'r Gweinidog yn aros am adroddiad yr Athro McClelland, a disgwylir i hwnnw gael ei gyflwyno yfory, fel y soniais yn gynharach.

14:07 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the statistics speak for themselves, but you do not seem to have wanted to engage on that. I want to talk to you about an individual who has written to me to tell me that, on Mother's Day, his 84-year-old mother fell and fractured her shoulder. She was left lying on a pavement in sub-zero temperatures for an hour and a half with potential spinal injuries, waiting for an ambulance. Will you write to my constituent to explain to him what has gone wrong and apologise to him for his mother's appalling experience?

Brif Weinidog, mae'r ystadegau yn adrodd eu stori eu hunain, ond nid yw'n ymddangos eich bod wedi bod yn awyddus i ymgysylltu ar hynny. Hoffwn siarad â chi am unigolyn sydd wedi ysgrifennu ataf i ddweud wrthyf fod ei fam, sy'n 84 mlwydd oed, wedi cwympo a thorri ei hysgwydd ar Sul y Mamau. Cafodd ei gadael yn gorwedd ar balmant mewn tymheredd is na sero am awr a hanner gydag anafiadau posibl i'w hasgwrn cefn, yn aros am ambiwlans. A wnewch chi ysgrifennu at fy etholwr i esbonio iddo beth sydd wedi mynd o'i le ac ymddiheuro iddo am brofiad ofnadwy ei fam?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I do not know who your constituent is—I do not suppose that you will tell me at this point in time, but, of course, if you provide me with information and the nature of the complaint, I will be more than happy to investigate that.

Nid wyf yn gwybod pwy yw eich etholwr—nid wyf yn tybio y byddwch yn dweud wrthyf ar hyn o bryd, ond, wrth gwrs, os gwnewch chi roi gwybodaeth i mi a natur y gŵyn, byddaf yn fwy na pharod i ymchwilio i hynny.

14:08 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are aware of many of the problems and we eagerly await the McClelland report. In progressing matters and ensuring that the ambulance service develops and progressively becomes better, one of the key things that must be done is proper engagement and discussion with the people on the ground, namely the ambulance drivers and the ambulance service staff members. Will you meet with ambulance service personnel to discuss their perception of the problems and also any recommendations that come forward?

Rydym yn ymwybodol o lawer o'r problemau, ac rydym yn aros yn eiddgar am adroddiad McClelland. Wrth symud pethau ymlaen a sicrhau bod y gwasanaeth ambiwlans yn datblygu ac yn gwella gam wrth gam, un o'r pethau allweddol y mae'n rhaid ei wneud yw ymgysylltu a thrafod â'r bobl ar lawr gwlad, sef y gyrwyr ambiwlans ac aelodau staff y gwasanaeth ambiwlans. A wnewch chi gyfarfod â phersonél y gwasanaeth ambiwlans i drafod eu safbwyntiau ar y problemau yn ogystal ag unrhyw argymhellion a gynigir?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

These are matters for the appropriate Minister, but I am certain that he will wish to gain a wide variety of views before taking matters further.

Materion i'r Gweinidog priodol yw'r rhain, ond rwy'n sicr y bydd yn dymuno cael amrywiaeth eang o safbwyntiau cyn mynd â phethau ymhellach.

14:09 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, ever since I have been an Assembly Member, issues about ambulance response times have been raised in the Assembly by Members from across the whole of Wales. Your Government has commissioned close to a dozen reports, since devolution started, into the ambulance service. You said earlier in response to the leader of the Welsh Liberal Democrats that you need to make assessments. What assessment has your Government made of the changes that are required to make the real improvements in ambulance response times that patients and clinicians need in Wales, so that, in 2015 and 2016, we do not have another report on ambulance response times? You are the Government. You are the executive leaders. It is time that you started to sort this mess out.

Brif Weinidog, mae materion yn ymwneud ag amseroedd ymateb ambiwlansys wedi cael eu codi yn y Cynulliad gan Aelodau o bob cwr o Gymru ers i mi fod yn Aelod o'r Cynulliad. Mae eich Llywodraeth wedi comisiynu'n agos at ddwsin o adroddiadau, ers dechrau datganoli, ar y gwasanaeth ambiwlans. Nodwyd gennych yn gynharach wrth ymateb i arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fod angen i chi wneud asesiadau. Pa asesiad mae eich Llywodraeth wedi ei wneud o'r newidiadau sydd eu hangen i wneud y gwelliannau gwirioneddol i amseroedd ymateb ambiwlansys y mae cleifion a chlinigwyr yng Nghymru eu hangen, er mwyn sicrhau na fydd gennym adroddiad arall ar amseroedd ymateb ambiwlansys yn 2015 a 2016? Chi yw'r Llywodraeth. Chi yw'r arweinwyr gweithredol. Mae'n bryd i chi ddechrau datrys y llanastr hwn.

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As I said, we await the report tomorrow. That said, I cannot say to the Chamber that the Government is content with ambulance response times. That clearly is not the case. We have seen issues regarding ambulances waiting for too long at A&E departments. I have also heard about many instances of Members and others saying that they have waited too long for an ambulance. That clearly cannot continue in the long term, and I know that this is something that is very much on the new Minister's mind.

Fel y dywedais, rydym yn disgwyl yr adroddiad yfory. Wedi dweud hynny, ni allaf ddweud wrth y Siambr fod y Llywodraeth yn fodlon ag amseroedd ymateb ambiwlansys. Mae amlwg nad yw hynny'n wir. Rydym wedi gweld problemau'n ymwneud ag ambiwlansys yn aros yn rhy hir mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Rwyf hefyd wedi clywed am nifer o achosion o Aelodau ac eraill yn dweud eu bod wedi aros yn rhy hir am ambiwlans. Mae'n amlwg na all hynny barhau yn y tymor hir, a gwn fod hyn yn rhywbeth sy'n sicr ym meddyliau'r Gweinidog newydd.

14:10 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the continued failure to meet ambulance response times over the last nine months in Wales is a major concern, particularly in the northernmost isolated reaches of my region, around the Heads of the Valleys area at the top of Rhondda Cynon Taf. According to the latest data, the Cwm Taf Local Health Board area has the worst performance in Wales for meeting life-threatening calls within eight minutes, doing so just 54.5% of the time. Given this, First Minister, with hindsight, do you think that it might have been a bad idea to close ambulance stations in Cymer and Maesteg? More broadly, do you believe that fewer A&E units, with patients having longer journeys to already overcrowded facilities, will improve what is a national problem?

Brif Weinidog, mae'r methiant parhaus i fodloni amseroedd ymateb ambiwlansys dros y naw mis diwethaf yng Nghymru yn bryder mawr, yn arbennig yn rhannau anghysbell mwyaf gogleddol fy rhanbarth, o gwmpas ardal Blaenau'r Cymoedd ar ben Rhondda Cynon Taf. Yn ôl y data diweddaraf, ardal Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf sydd â'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru ar gyfer ateb galwadau lle mae bywydau dan fygythiad o fewn wyth munud, gan wneud hynny dim ond 54.5% o'r amser. O ystyried hyn, Brif Weinidog, a ydych chi'n credu, o edrych yn ôl, efallai ei bod yn syniad gwael cau gorsafoedd ambiwlans yn y Cymer a Maesteg? Yn fwy cyffredinol, a ydych chi'n credu y bydd llai o unedau damweiniau ac achosion brys, â chleifion yn gorfod teithio'n bellach i gyfleusterau sy'n orlawn eisoes, yn gwella'r hyn sy'n broblem genedlaethol?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The key to this is to ensure that people are able to get through A&E facilities far more quickly than is the case now. That is a major issue when it comes to ambulance response times and the times that ambulances have to wait. As I say, we bear in mind the letter that was sent by A&E consultants, and this is something that is very much on our minds, in terms of ensuring that ambulance response times improve in the future and that people spend less time in A&E.

Y peth allweddol yn hyn o beth yw sicrhau y gall pobl fynd trwy gyfleusterau damweiniau ac achosion brys yn llawer cyflymach nag y maen nhw nawr. Mae hon yn broblem fawr wrth ystyried amseroedd ymateb ambiwlansys a'r amser y mae'n rhaid i ambiwlansys aros. Fel rwyf yn dweud, rydym yn cadw'r llythyr a anfonwyd gan ymgynghorwyr adrannau damweiniau ac achosion brys mewn cof, ac mae hyn yn rhywbeth sy'n sicr yn ein meddyliau, o ran sicrhau bod amseroedd ymateb ambiwlansys yn gwella yn y dyfodol, a bod pobl yn treulio llai o amser mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

## Gofal Babanod Newydd-anedig

## Neonatal Care

14:12 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatgan ei resymau dros drosglwyddo gwasanaethau gofal dwys i fabanod newydd-anedig yng ngogledd Cymru i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr? OAQ(4)0993(FM)*

*5. Will the First Minister state his reasons for transferring intensive neonatal care services in north Wales to the NHS in England? OAQ(4)0993(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf wedi trosglwyddo gwasanaethau. Rwyf wedi gwneud un penderfyniad ynghylch yr hyn a ddylai fod ar waith yn y pen draw.

I have not transferred services. I have made one decision on what should ultimately be in place.

14:12 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n ddrwg gennyf, ond nid wyf yn deall eich ateb. Y gwir amdani yw eich bod wedi cefnogi penderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i symud gofal dwys yn y gogledd i Arrowe Park ar y Wirral. Mae'r penderfyniad hwnnw'n arwydd o'r methiant i wasanaethu rhieni yn y gogledd, methiant bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr i gynllunio gwasanaethau, a methiant Llywodraeth Cymru o ran denu a hyfforddi arbenigwyr yn y maes hwn. Gwyddom fod recriwtio yn broblem; yn wir, mae un o ysbytai'r gogledd bellach yn dibynnu i raddau helaeth ar ddoctoriaid dros dro, sy'n creu problem o ran hyfywedd yr ysbyty hwnnw. I osgoi methiannau eraill, a wnaiff y Llywodraeth weithredu i gryfhau'r maes hyfforddi staff meddygol yn y gogledd a chryfhau ymchwil meddygol yn y prifysgolion hynny, er mwyn denu arbenigwyr a myfyrwyr uchelgeisiol? Heb hynny, bydd y Llywodraeth a'r bwrdd yn wynebu problemau parhaol o ran recriwtio.

I am sorry, but I do not understand your answer. The truth is that you have supported the decision of the Betsi Cadwaladr University Local Health Board to move intensive care from north Wales to Arrowe Park on the Wirral. That decision is indicative of the failure to serve parents in north Wales, the failure of the Betsi Cadwaladr health board to plan services, and the failure of the Welsh Government in terms of attracting and training specialists in this field. We know that recruitment is a problem; indeed, one hospital in north Wales already relies, to a large degree, upon locum doctors, which creates problems in terms of the hospital's viability. To avoid further failures, will the Government act to strengthen the training of medical staff in north Wales and to strengthen medical research in those universities, in order to attract specialists and ambitious students? Without that, the Government and the board will be facing continuous recruitment problems.

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn egluro beth yw nod y Llywodraeth. Nid y Llywodraeth a wnaeth y penderfyniad i drosglwyddo gwasanaethau, sef y mater a grybwyllwyd yn y cwestiwn. Serch hynny, byddaf yn comisiynu cyngor ar y mater hwn. Bydd datganiad llafar yn cael ei wneud i'r Cynulliad yr wythnos nesaf ar amserlen y broses honno. Ein nod fel Llywodraeth yw canfod ffordd o greu gwasanaeth o safon —y gwasanaeth y byddai pobl yn ei ddisgwyl yn y gogledd yn y pen draw. Efallai nad yw'n bosibl darparu hynny ar hyn o bryd, ond nid yw hynny'n rheswm i gadw pethau fel ag y maent yn awr. Ein nod, felly, yw sicrhau gwasanaeth i bob babi yn y dyfodol. Byddaf yn cyhoeddi amserlen ar gyfer casglu tystiolaeth er mwyn darparu'r gwasanaeth hwnnw yn y dyfodol. Ni allaf roi addewid ar hyn o bryd; mae'n rhaid inni ystyried y dystiolaeth. Fodd bynnag, dyna beth yr ydym am ei wneud os bydd y dystiolaeth yn ffafriol yn y cyd-destun hwnnw. Yn y cyfamser, mae'n bwysig bod pobl yn cael mynediad at ofal o'r safon uchaf ar gyfer babanod sy'n sâl iawn. Hoffwn ddweud yn blwmp ac yn blaen ein bod am sicrhau ei bod yn bosibl sicrhau gwasanaeth o safon ar gyfer pob babi yn y gogledd yn y dyfodol.

I would like to explain the Government's aim. It was not the Government's decision to transfer services, which was the issue raised in the question. However, I will commission advice on this issue. An oral statement will be made in the Assembly next week on the timetable for that process. Our aim as a Government is to find the best way of securing a high-quality service—the service that people in north Wales would ultimately expect. It might not be possible to provide that at the moment, but that is not a reason to keep things as they currently are. Our aim, therefore, is to secure a service for all babies in the future. I will publish a timetable for evidence gathering in order to provide that service in the future. I cannot make a promise at this stage; we must consider the evidence. However, that is what we want to do if the evidence is favourable in that context. In the meantime, it is important that people can access care of the highest quality for very sick babies. I would like to emphatically say that we want to ensure that it is possible to secure high-quality care for all babies in north Wales in the future.

## Gwasanaethau Iechyd Gorllewin Cymru

## Health Services in West Wales

14:14 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0988(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the future of health services in west Wales? OAQ(4)0988(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym am sicrhau bod pobl y gorllewin yn parhau i gael gwasanaethau o'r radd flaenaf sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn cael eu darparu mor agos i'w cartrefi ag y bo modd.

We want to ensure the people of west Wales continue to receive high-quality services that are safe, sustainable, and provided as close to their homes as possible.

14:15 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Wrth ateb y cwestiwn blaenorol, fe'i gwnaethoch yn hollol glir eich bod yn adolygu gwasanaethau newyddenedigol yng ngogledd Cymru. O ystyried cryfder teimladau pobl yn sir Benfro, a bod y cyngor iechyd cymuned lleol eisoes wedi cyfeirio'r penderfyniad i gau'r uned gofal arbennig plant i Lywodraeth Cymru, a allwch ddweud wrthym, a chithau'n edrych ar wasanaethau newyddenedigol yng ngogledd Cymru, a wnewch ystyried edrych ar fater y gwasanaethau newyddenedigol yng ngorllewin Cymru?

I am grateful to the First Minister for that response. In your answer to the previous question, you made it quite clear that you are reviewing neonatal services in north Wales. Bearing in mind the strength of feeling among people in Pembrokeshire, and that the local community health council has already referred the decision to close the neonatal unit to the Welsh Government, can you tell us, now that you are reviewing neonatal services in north Wales, whether you will also consider reviewing the issue of neonatal care in west Wales?

14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Ar hyn o bryd, mae trafodaethau yn cymryd lle rhwng y cyngor iechyd cymuned a'r bwrdd ynglŷn â beth yn gymwys byddant mo'yn ei weld yn cael ei drosglwyddo i Weinidogion yma. Felly, ni allaf roi unrhyw fath o farn ar hynny. Mae'n wahanol yn y gogledd; mae'r broses wedi mynd ymhellach yno nag yn y gorllewin. Ond, cawn weld beth yw safbwynt y cyngor iechyd cymuned ar ôl i'r trafodaethau hynny orffen.

At present, there are discussions ongoing between the community health council and the health board in relation to what specifically they would want to see being transferred to Ministers here. So, I cannot give any opinion on that. It is different in the north; the process is further on than in it is in the west. However, we will see what the point of view of the community health council will be after those discussions have concluded.

14:16 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, how are you ensuring that members of community health councils, who are lay people who care very deeply about health in their communities, have access to the legal, medical and statistical information that they need in order to fulfil their responsibility to develop alternative models of provision in cases where they disagree with the proposals put forward by the health board?

Brif Weinidog, sut ydych chi'n sicrhau bod aelodau cynghorau iechyd cymuned, sydd yn unigolion lleyg sy'n angerddol iawn am iechyd yn eu cymunedau, yn cael mynediad at y wybodaeth gyfreithiol, feddygol ac ystadegol sydd ei hangen arnynt er mwyn cyflawni eu cyfrifoldeb i ddatblygu modelau darparu amgen mewn achosion lle maen nhw'n anghytuno â'r cynigion a gyflwynwyd gan y bwrdd iechyd?

14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Community health councils have access to legal advice from solicitors acting on behalf of the board of community health councils, or on behalf of the individual CHC. They can obtain medical advice or statistical advice from a wide range of bodies, including the board of community health councils, the royal colleges, the deanery and Public Health Wales.

Mae gan gynghorau iechyd cymuned fynediad at gyngor cyfreithiol gan gyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran y bwrdd cynghorau iechyd cymuned, neu ar ran y Cyngor Iechyd Cymuned unigol. Gallant gael cyngor meddygol neu gyngor ystadegol gan amrywiaeth eang o gyrff, gan gynnwys y bwrdd cynghorau iechyd cymuned, y colegau brenhinol, y ddeoniaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

14:16 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn bwriadu lleihau nifer y gwelyau mewn ysbytai ac, yn ddisymwth yr wythnos diwethaf, fe gyhoeddodd y bwrdd iechyd wrth staff Bronglais ei fwriad i gau dau o'r pum gwely gofal dwys yno. A allwch chi esbonio sut, mewn cyfnod o alw mawr a digynsail gan gleifion ar y gwasanaeth iechyd—dyna eich dadansoddiad chi fel Llywodraeth—y mae cau gwelyau ysbytai yn syniad da?

First Minister, the Hywel Dda Local Health Board intends to reduce the number of beds in hospitals and, out of the blue last week, the health board announced to staff in Bronglais its intention to close two of the five intensive care beds there. Can you explain, in a period of unprecedented high demand from patients for health services—that is your own analysis as a Government—how it is that closing hospital beds will be a good idea?

14:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rhywbeth i'r bwrdd ei hun ei ateb yw hynny, ond ynglŷn â'r sefyllfa o ran gwasanaethau yn ardal Hywel Dda, fel y dywedais, ni allaf roi barn ar hynny ar hyn o bryd achos nid yw'r broses wedi cael ei chwblhau eto o ran y penderfyniadau i ofyn i Weinidogion ystyried unrhyw gynlluniau yn Hywel Dda yn y dyfodol.

That is for the board itself to answer, but on the situation with regard to services in the Hywel Dda area, as I said, I cannot express a view on that at the moment, given that the process has not been completed with regard to decisions to ask Ministers to consider any plans within Hywel Dda in the future.

## Treth Incwm yn Nyffryn Clwyd

## Income Tax in the Vale of Clwyd

14:17 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effeithiau torri cyfradd uchaf y dreth incwm ar deuluoedd yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)0989(FM)*

*7. What assessment has the Welsh Government made of the effects of the cut in the top rate of income tax on families in the Vale of Clwyd? OAQ(4)0989(FM)*

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have made no formal assessment of the effects of this policy on the Vale of Clwyd, but of course we are strongly opposed to giveaways for the very wealthiest in society at a time when public services and vulnerable groups are being targeted for cuts.

Nid ydym wedi gwneud unrhyw asesiad ffurfiol o effaith y polisi hwn ar Ddyffryn Clwyd, ond, wrth gwrs, rydym yn gwrthwynebu'n gryf y rhoddion i'r bobl fwyaf cyfoethog mewn cymdeithas ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau sy'n agored i niwed yn cael eu targedu ar gyfer toriadau.

14:18 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that, First Minister. Many of my constituents are angry that the UK Government seems to think that it is right to take money away from them and give it as tax breaks to millionaires, rather than supporting them. Families have been hit by a VAT bombshell, a raft of damaging and regressive benefit changes, such as the bedroom tax—[Interruption.]—and cuts to working tax credits. Families in the Vale of Clwyd quite rightly want to know why this is happening and why some in the home counties are lining their pockets. [Interruption.] See, they do not like it, do they?

Diolch yn fawr iawn i chi am hynna, Brif Weinidog. Mae llawer o'm hetholwyr yn flin ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth y DU yn meddwl ei bod yn iawn cymryd arian oddi arnyn nhw a'i roi fel gostyngiadau treth i filiwnyddion, yn hytrach na'u cefnogi nhw. Mae teuluoedd wedi cael eu taro gan ergyd TAW, llu o newidiadau niweidiol ac atchweliadol i fudd-daliadau, fel y dreth ystafell wely—[Torri ar draws.]—a thoriadau i gredydau treth gwaith. Mae teuluoedd yn Nyffryn Clwyd am wybod, a hynny'n gwbl gywir, pam mae hyn yn digwydd a pham mae rhai yn y siroedd cartref yn lllenwi eu pocedi. [Torri ar draws.] Edrychwch, dydyn nhw ddim yn ei hoffi, nac ydynt?

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Excuse me; will you just ignore off comments, please, and carry on with your question?

Esgusodwch fi; a wnewch chi anwybyddu sylwadau o'r ochr, os gwelwch yn dda, a pharhau gyda'ch cwestiwn?

14:18 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, but you cannot help it, can you, because they do not like it, do they? [Laughter.]

Gallaf, ond nid ydych yn gallu ei helpu, allwch chi, achos nid ydyn nhw'n ei hoffi, nac ydynt? [Chwerthin.]

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think that you need to.

Wel, rwy'n credu bod angen i chi.

14:18 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you join me, First Minister, in condemning the Tory UK Government for the way in which it is treating hard-working families, despite its rhetoric?

A wnewch chi ymuno â mi, Brif Weinidog, i gondemnio Llywodraeth Dorïaidd y DU am y ffordd y mae'n trin teuluoedd sy'n gweithio'n galed, er gwaethaf ei rhethreg?

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I could spend a long time pointing out the weaknesses in the policies of the current UK Government, but there is one thing that I think it is worth emphasising, and the Member has hit upon it. Where is the sense, or the morality, in ensuring tax cuts for the very wealthiest, while at the same time removing benefits from hard-working families? That is not an example of everybody being in it together; it is an example of reverting to type and helping the very wealthiest at the expense of the very poorest.

Gallwn dreulio amser maith yn tynnu sylw at y gwendidau ym mholisïau Llywodraeth bresennol y DU, ond mae un peth rwy'n credu ei bod yn werth pwysleisio, ac mae'r Aelod wedi taro arno. Ble mae'r synnwyr, neu'r moesoldeb, mewn sicrhau gostyngiadau treth i'r bobl gyfoethocaf, gan gymryd budd-daliadau oddi wrth deuluoedd sy'n gweithio'n galed ar yr un pryd? Nid yw hynny'n enghraifft o bawb yn yr un sefyllfa gyda'i gilydd, mae'n enghraifft o ddychwelyd i deip a helpu'r cyfoethocaf ar draul y tlotaf oll.

14:19 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the higher rates of income tax only applied to the last month of the 13 years of Labour Government. Why would you be opposed to tax changes that mean that 2.7 million of the lowest paid will be taken out of tax altogether, including 1,401 in the Vale of Clwyd alone this year, and 11,720 across north Wales, and which mean that the wealthiest in society will pay a greater proportion of UK taxes in every year of this UK Government than in any of the last 13 years of the Labour UK Government?

Wrth gwrs, roedd y cyfraddau uwch o dreth incwm ond yn berthnasol i fis olaf y 13 mlynedd o Lywodraeth Lafur. Pam fyddech chi'n gwrthwynebu newidiadau treth sy'n golygu y bydd 2.7 miliwn o'r rhai â'r cyflogau isaf yn cael eu cymryd allan o dreth yn gyfan gwbl, gan gynnwys 1,401 yn Nyffryn Clwyd yn unig eleni, a 11,720 ar draws gogledd Cymru, ac sy'n golygu y bydd y cyfoethocaf mewn cymdeithas yn talu cyfran fwy o drethi'r DU ym mhob blwyddyn o Lywodraeth bresennol y DU nag yn unrhyw un o 13 mlynedd diwethaf Llywodraeth Lafur y DU?

14:20 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is there for all to see that there is a tax cut for the very wealthiest. That is not in dispute—that is there and no-one surely can argue against that. He trumpets the point that people have been taken out of paying income tax, but the reality is that there are many thousands of working families who will no longer receive benefits even though they are working. What they are trying to do is to scaremonger and to demonise people who get benefits as people who are somehow workshy. There are many people who will no longer be able to claim benefits even though they are working. At the same time, the very wealthiest will get more money in their pockets. That is typical of the kind of policy that we see being put in place in London and it shows that they have not learnt since the dark days of the 1980s.

Mae'n rhwydd i bawb weld bod gostyngiad i'r dreth i'r rhai cyfoethocaf. Nid oes dadl am hynny—mae hynny i'w weld, ac ni all unrhyw un ddadlau yn erbyn hynny, does bosib. Mae'n brolio'r pwynt bod pobl wedi cael eu tynnu allan o dalu treth incwm, ond y gwir amdani yw bod miloedd lawer o deuluoedd sy'n gweithio na fyddant yn derbyn budd-daliadau bellach, er eu bod yn gweithio. Yr hyn y maen nhw'n ceisio ei wneud yw codi bwganod a phardduo pobl sy'n derbyn budd-daliadau fel pobl sydd rywsut yn osgoi gweithio. Mae llawer o bobl na fyddant yn gallu hawlio budd-daliadau mwyach, er eu bod yn gweithio. Ar yr un pryd, bydd y cyfoethocaf yn cael mwy o arian yn eu pocedi. Mae hynny'n nodweddiadol o'r math o bolisi yr ydym yn ei weld yn cael ei roi ar waith yn Llundain ac mae'n dangos nad ydynt wedi dysgu ers dyddiau tywyll y 1980au.

14:20 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we have been reminded, First Minister, under a Labour Government, for 13 years, the top rate of tax was 5p lower than it is under the Tories. When Labour MPs were given the opportunity, they decided not to vote against that. Plaid Cymru is wholly against it. Our MPs voted against it and we will always vote in the Welsh national interest. How can the people of Wales trust a Labour Party that says one thing here and does a very different thing at Westminster?

Fel rydym wedi cael ein hatgoffa, Brif Weinidog, roedd y gyfradd uchaf o dreth 5c yn is am 13 mlynedd dan Lywodraeth Lafur nag y mae dan y Toriaid. Pan roddwyd y cyfle i ASau Llafur, fe wnaethant benderfynu peidio â phleidleisio yn erbyn hynny. Mae Plaid Cymru'n ei wrthwynebu'n gyfan gwbl. Pleidleisiodd ein ASau yn ei erbyn a byddwn bob amser yn pleidleisio er budd cenedlaethol Cymru. Sut all pobl Cymru ymddiried mewn Plaid Lafur sy'n dweud un peth yma ac yn gwneud rhywbeth gwahanol iawn yn San Steffan?

14:21 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are a different party; this is the Welsh Labour Party. We have different views on devolution to our UK colleagues. That much is that. When it comes to Plaid Cymru, we saw its vote on the mansion tax: they split among themselves. There are only three of them and they voted in different ways on the mansion tax. Therefore, we do not need lessons from Plaid Cymru on unity of purpose or a consistent message. A few months ago, we heard from Plaid Cymru that it wanted a maximum wage. Is that still its policy? I can think of no better way of suggesting something that is probably impossible to implement and also of putting off investment into Wales. We do not know what Plaid Cymru's policies are on taxation, of course. When we have consistent views from Plaid Cymru, we will start to take lessons from them. We do not have that so we do not need to.

Rydym ni'n blaid wahanol; Plaid Lafur Cymru yw hon. Mae gennym farn wahanol i'n cydweithwyr ar lefel y DU ar ddatganoli. Mae hynny'n ffaith. Wrth ystyried Plaid Cymru, gwelsom ei phleidlais ar y dreth plasty: roedd anghytuno yn eu plith. Dim ond tri ohonyn nhw sydd yna ac fe wnaethant bleidleisio mewn ffyrdd gwahanol ar y dreth plasty. Felly, nid oes angen gwersi arnom gan Blaid Cymru ar undod pwrpas neu neges gyson. Ychydig fisoedd yn ôl, clywsom gan Blaid Cymru ei bod eisiau'r uchafswm cyflog. Ai dyna ei pholisi o hyd? Ni allaf feddwl am unrhyw ffordd well o awgrymu rhywbeth y mae'n debyg sy'n amhosibl ei weithredu ac a fyddai'n atal buddsoddiad i mewn i Gymru. Nid ydym yn gwybod beth yw polisïau Plaid Cymru ar drethiant, wrth gwrs. Byddwn yn dechrau cymryd gwersi gan Blaid Cymru pan gawn ni safbwyntiau cyson ganddi. Nid ydym yn cael hynny felly nid oes angen i ni wneud hynny.

14:22 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you are monitoring the impact of the policies of the UK Government on the Vale of Clwyd, will you acknowledge that a millionaire in the Vale of Clwyd will pay £381,000 more in tax between 2010 and 2015 than they would have done in the last five years of the Labour Government? Will you also acknowledge that many working families in the Vale of Clwyd are £600 a year better off because of the changes to the tax system that were instigated by the Liberal Democrats as part of the coalition?

Gan eich bod yn monitro effaith polisïau Llywodraeth y DU ar Ddyffryn Clwyd, a wnewch chi gydnabod y bydd miliwnydd yn Nyffryn Clwyd yn talu £381,000 yn fwy o dreth rhwng 2010 a 2015 nag y byddai wedi ei wneud yn ystod y pum mlynedd diwethaf o Lywodraeth Lafur? A wnewch chi gydnabod hefyd bod gan lawer o deuluoedd sy'n gweithio yn Nyffryn Clwyd £600 y flwyddyn yn ychwanegol oherwydd y newidiadau i'r system dreth a gychwynnwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn rhan o'r glymblaid?

14:22 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I do not want to get into an argument between the Lib Dems and the Tories about who has done what in the coalition. I will acknowledge that there are thousands of hard-working people in the Vale of Clwyd and elsewhere who will end up losing money because they are losing benefits to which they were previously entitled. That much is a fact and that much will come back to haunt the Lib Dem and Tory Members in the Chamber in the months to come.

Nid wyf eisiau ymuno â dadl rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid am bwy sydd wedi gwneud beth yn y glymblaid. Rwy'n barod i gydnabod bod miloedd o bobl sy'n gweithio'n galed yn Nyffryn Clwyd ac mewn mannau eraill a fydd yn colli arian yn y pen draw oherwydd eu bod yn colli budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt yn flaenorol. Mae hynny'n ffaith, a bydd yn rhywbeth a fydd yn achosi hunllef i Aelodau'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid yn y Siambr yn ystod y misoedd i ddod.

## Band Eang yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

## Broadband in North-east Wales

14:23 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r cymorth sydd ar gael ar gyfer gwella gwasanaethau band eang i fusnesau yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0998(FM)*

*8. Will the First Minister outline the support available for improving broadband services for businesses in north east Wales? OAQ(4)0998(FM)*

14:23 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae rhaglen Cyflymu Cymru wedi dechrau. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd gennym fod y cynllun cymorth band eang yn cael ei ymestyn tan fis Medi 2013, a bydd yn cael ei weithredu ar draws Cymru.

The Superfast Cymru programme is now under way. We recently announced the extension to the broadband support scheme to September 2013 and it will be implemented across Wales.

14:23 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb. Yn anffodus, nid oes gan BT fwriad i wella'r gwasanaeth band eang ar gyfer ystâd ddiwydiannol Wrecsam lle mae dros 7,000 o bobl yn cael eu cyflogi. Mae'r diffyg band eang yn y fan honno yn effeithio ar allu nifer o'r cwmnïau i gystadlu. Rwyf wedi holi dros 30 o gwmnïau ar yr ystâd ac mae dros hanner ohonynt wedi dweud eu bod yn ystyried symud oddi yno oherwydd y diffyg band eang. Mae rhai yn sôn am symud o ardal Wrecsam yn llwyr ac mae hynny'n peri gofid mawr. Pam nad yw ystâd sy'n cynnig cymaint o waith ac sydd mor bwysig i economi'r gogledd yn cael y gwasanaeth y mae'n ei haeddu?

Thank you for that reply. Unfortunately, BT has no intention of improving the broadband service for the Wrexham industrial estate where over 7,000 people are employed. The broadband deficiency there is impacting upon the competitiveness of many of the companies. I have spoken to more than 30 companies on the estate, and more than half said that they were considering moving away because of the unavailability of broadband. Some are talking about moving away from the Wrexham area, which is a cause of great concern. Why is this estate, which provides so much employment and is so important to the economy of north Wales, not given the service that it deserves?

14:24 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae FibreSpeed yn ystâd ddiwydiannol Wrecsam ac nid yw'n gwneud synnwyr i roi'r un buddsoddiad i mewn unwaith eto gan fod FibreSpeed yno'n barod. Bydd FibreSpeed yn dal i weithio gyda Cyflymu Cymru. Y peth pwysig yw ein bod yn deall bod system yn ei lle'n barod yn Wrecsam a phwynt Cyflymu Cymru yw sicrhau bod yr ardaloedd nad oes ganddynt unrhyw beth ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn gyntaf.

There is FibreSpeed on the Wrexham industrial estate and it makes no sense to make the same investment there again, given that FibreSpeed is already there. FibreSpeed will still work with Superfast Cymru. The important thing is that we recognise that a system is already in place in Wrexham, and the point of Superfast Cymru is to ensure that areas that currently have no provision are considered in the first instance.

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

First Minister, I welcome the extension of the broadband support scheme to September 2013, but it has been described as an unsuccessful scheme that has had no marketing, no awareness, and has made only 4,000 people happy over the last two-to-three-year period. Will you commit to giving it more awareness and publicity, and to looking again at the 15% of applications that have been turned down, to see whether they will in fact qualify for support during the next scheme period?

Brif Weinidog, rwy'n croesawu ymestyn y cynllun cymorth band eang i fis Medi 2013, ond fe'i disgrifiwyd fel cynllun aflwyddiannus nad yw wedi cael ei farchnata o gwbl, nad oes ymwybyddiaeth ohono, ac sydd wedi gwneud dim ond 4,000 o bobl yn hapus yn ystod cyfnod y ddwy i dair blynedd diwethaf. A wnewch chi ymrwymo i roi mwy o ymwybyddiaeth a chyhoeddusrwydd iddo, ac i edrych eto ar y 15% o geisiadau sydd wedi cael eu gwrthod, i weld a fyddant yn gymwys i dderbyn cymorth yn ystod cyfnod nesaf y cynllun?

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I listened to the Member's criticism and my response was: 'By whom? Who exactly has been criticising Superfast Cymru in this way?' It is the largest partnership of its kind in the UK and, when combined with commercial roll-out, we know that 96% of premises across Wales will have access to fast fibre broadband by 2016. It is still in its early stages in some ways, of course, but we expect to see it rolled out very quickly, because we know that the people and businesses of Wales want the best access to broadband speeds that they can get.

Gwrandewais ar feirniadaeth yr Aelod a fy ymateb oedd: 'Gan bwy? Pwy yn union sydd wedi bod yn beirniadu Cyflymu Cymru fel hyn?' Dyma'r bartneriaeth fwyaf o'i math yn y DU ac, o'i chyfuno â chyflwyniad masnachol, rydym yn gwybod y bydd gan 96% o adeiladau ledled Cymru fynediad at fand eang ffibr cyflym erbyn 2016. Mae'n dal ar gam cynnar mewn rhai ffyrdd, wrth gwrs, ond rydym yn disgwyl ei weld yn cael ei gyflwyno'n gyflym iawn, gan ein bod yn gwybod bod pobl a busnesau Cymru eisiau'r mynediad gorau y gallant ei gael at gyflymder band eang.

Senedd.tv Fideo Video

## Dechrau'n Deg

## Flying Start

14:25 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith Dechrau'n Deg? OAQ(4)1000(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the impact of Flying Start? OAQ(4)1000(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We know that Flying Start works with some of our most disadvantaged families. It already supports 18,000 children and their families and evidence shows that it is having a considerable impact. By the end of this Assembly term, in line with the manifesto commitments given by the Government, 36,000 children and their families will benefit from the programme, which is almost a quarter of all children under four in Wales.

Rydym yn gwybod bod Dechrau'n Deg yn gweithio gyda rhai o'n teuluoedd mwyaf difreintiedig. Mae eisoes yn cefnogi 18,000 o blant a'u teuluoedd ac mae'r dystiolaeth yn dangos ei fod yn cael effaith sylweddol. Erbyn diwedd y tymor Cynulliad hwn, yn unol â'r ymrwymiadau maniffesto a roddwyd gan y Llywodraeth, bydd 36,000 o blant a'u teuluoedd yn elwa o'r rhaglen, ac mae hynny'n bron i chwarter yr holl blant dan bedair oed yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In my own constituency there are already nine Flying Start projects with a further six projects planned for the next two roll-out stages, ending in 2014-15. These serve some of the most deprived communities in Wales. In direct contrast, they are being attacked or abandoned by the UK Government, as opposed to the more positive and proactive intervention by this Government. Can the First Minister confirm that this programme will retain its funding and support from this Government, and mark a clear difference in the values and priorities of Westminster and Cardiff bay?

Ceir naw prosiect Dechrau'n Deg yn fy etholaeth i, ac mae chwe phrosiect pellach yn yr arfaeth eisoes ar gyfer y ddau gam cyflwyno nesaf, sy'n dod i ben yn 2014-15. Mae'r rhain yn gwasanaethu rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mewn gwrthgyferbyniad uniongyrchol, mae Llywodraeth y DU yn ymosod arnynt neu'n eu gadael, yn hytrach na'r ymyriad mwy cadarnhaol a rhagweithiol gan y Llywodraeth hon. A all y Prif Weinidog gadarnhau y bydd y rhaglen hon yn cadw ei chyllid a'i chefnogaeth oddi wrth y Llywodraeth hon, ac yn nodi gwahaniaeth eglur rhwng gwerthoedd a blaenoriaethau San Steffan a bae Caerdydd?

14:26 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, indeed. It is a key part of our programme for government. We will continue to work closely with local authorities to ensure that Flying Start support reaches those who need it most. It is something that we are entirely committed to as a Government because we know that, at this time, what is most important is that those who need the most get the most. That is why the scheme will continue to be funded and expanded over the course of this Assembly term.

Gallaf yn wir. Mae'n rhan allweddol o'n rhaglen ar gyfer llywodraethu. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cymorth Dechrau'n Deg yn cyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf. Mae'n rhywbeth yr ydym yn gwbl ymrwymedig iddo fel Llywodraeth gan ein bod yn gwybod mai'r hyn sydd bwysicaf ar hyn o bryd yw bod y rhai sydd fwyaf mewn angen yn cael y mwyaf. Dyna pam y bydd y cynllun yn parhau i gael ei ariannu a'i ehangu yn ystod y tymor Cynulliad hwn.

14:27 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, First Minister, in order to expand this programme successfully, not only do we need funding, but we need the people who can actually man these extra Flying Start programmes. One of the concerns that I have—and I know that some members of the Children and Young People Committee share this concern—is: where do we get these people from, how will they be trained, and how will they be put into position? Are you able to give us any idea of what cross-cutting initiatives there might be within your Cabinet, because this obviously touches on health, social care, education and business, because it creates job opportunities? We need people who are educated and trained, who can take on these roles in order to ensure that your very ambitious target is met.

Wrth gwrs, Brif Weinidog, er mwyn ehangu'r rhaglen hon yn llwyddiannus, nid yn unig y mae angen cyllid, ond mae arnom angen y bobl a all staffio'r rhaglenni Dechrau'n Deg ychwanegol hyn. Un o'r pryderon sydd gen i—ac rwy'n gwybod bod rhai aelodau o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn rhannu'r pryder hwn—yw: o ble rydym ni'n cael y bobl hyn, sut y byddan nhw'n cael eu hyfforddi, a sut y byddan nhw'n cael eu rhoi yn eu lleoedd? A allwch chi roi unrhyw syniad i ni o ba fentrau trawsbynciol allai fod ar waith o fewn eich Cabinet, oherwydd mae'n amlwg bod hyn yn cyffwrdd ar iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a busnes, gan ei fod yn creu cyfleoedd gwaith? Mae angen pobl arnom sydd wedi'u haddysgu a'u hyfforddi, sy'n gallu ymgymryd â'r swyddogaethau hyn er mwyn sicrhau y bodlonir eich targed hynod uchelgeisiol.

14:28 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have no doubts in terms of the capacity to deliver the doubling of the number of families in Flying Start. Plans are well in place to do that, and we fully anticipate that the target will be reached by the end of the Assembly term.

Nid oes gennym unrhyw amheuon o ran y gallu i ddyblu nifer y teuluoedd yng nghynllun Dechrau'n Deg. Mae cynlluniau wedi eu sefydlu'n dda i wneud hynny, ac rydym yn rhagweld yn bendant y bydd y targed yn cael ei gyrraedd erbyn diwedd tymor y Cynulliad.

14:28 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Flying Start programme is excellent, and we on these benches are very supportive of the efforts already announced to expand its reach to 36,000 people in some of our most disadvantaged areas. But—and there is always a 'but', is there not?—what can you tell us about how you would like to see the services provided by Flying Start expanded to draw in more people? I am thinking in particular of expanding the access for children, and perhaps even offering more childcare services, such as full-time rather than part-time provision. That would allow many people who are currently not able to take up full-time employment to take up such employment. Part-time employment, as we know, keeps people permanently in the poverty trap.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn ardderchog, ac rydym ni ar y meinciau hyn yn gefnogol iawn o'r ymdrechion a gyhoeddwyd eisoes i ehangu ei gyrhaeddiad i 36,000 o bobl yn rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig. Ond—ac mae 'ond' bob amser, onid oes?—beth allwch chi ei ddweud wrthym am sut y byddech yn hoffi gweld y gwasanaethau a ddarperir gan Dechrau'n Deg yn cael eu hehangu i ddenu mwy o bobl? Rwy'n meddwl yn benodol am ehangu'r mynediad i blant, ac efallai cynnig mwy o wasanaethau gofal plant hyd yn oed, fel darpariaeth lawn amser yn hytrach na rhan-amser. Byddai hynny'n caniatáu i lawer o bobl nad ydynt yn gallu manteisio ar gyflogaeth lawn amser ar hyn o bryd i gymryd cyflogaeth o'r fath. Mae cyflogaeth ran-amser, fel y gwyddom, yn cadw pobl ym magl tlodi yn barhaol.

14:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member asks how we will expand the number of people who have access to Flying Start. As I have already mentioned, we will be doubling the number over the course of this Assembly term. As I mentioned earlier, that will mean that a quarter of all children under four will receive assistance under the scheme.

Mae'r Aelod yn gofyn sut y byddwn yn cynyddu nifer y bobl sydd â mynediad at Dechrau'n Deg. Fel yr wyf wedi crybwyll eisoes, byddwn yn dyblu'r nifer yn ystod y tymor Cynulliad hwn. Fel y soniais yn gynharach, bydd hynny'n golygu y bydd chwarter yr holl blant dan bedair oed yn derbyn cymorth dan y cynllun.

### Llygredd yng Nghilfach Tywyn

### Pollution in the Burry Inlet

14:29 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lygredd amgylcheddol yng Nghilfach Tywyn? OAQ(4)0987(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on environmental pollution in the Burry Inlet? OAQ(4)0987(FM)*

14:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are working closely with Natural Resources Wales, which has advised us that water quality within the inlet is good, and EU directive requirements on water quality are being met.

Rydym yn gweithio'n agos gydag Adnoddau Naturiol Cymru, sydd wedi ein cynghori bod ansawdd y dŵr o fewn y gilfach yn dda, a bod gofynion cyfarwyddeb yr UE ar ansawdd dŵr yn cael eu bodloni.

14:29 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will be aware that the UK Government has conceded that the Burry inlet and the cockle beds there are being polluted by illegal raw sewage, after deciding not to contest directive breaches with the European Commission. What is the Welsh Government doing to put pressure on Welsh Water, Natural Resources Wales, and the local authority, to solve this problem properly and ensure compliance? Are you willing to re-examine the Petitions Committee's previously rejected recommendation 6, which is a package of support for the local cockle industry?

Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi cyfaddef bod cilfach Tywyn a'r gwelyau cocos yno yn cael eu llygru gan garthion amrwd anghyfreithlon, ar ôl penderfynu peidio â gwrthwynebu methiannau i gydymffurfio â chyfarwyddebau â'r Comisiwn Ewropeaidd. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi pwysau ar Dŵr Cymru, Adnoddau Naturiol Cymru, a'r awdurdod lleol, i ddatrys y broblem hon yn iawn a sicrhau cydymffurfiad? A ydych chi'n barod i ail-ystyried argymhelliad 6 y Pwyllgor Deisebau a wrthodwyd yn flaenorol, sef pecyn o gymorth i'r diwydiant cocos lleol?

14:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can say that Dŵr Cymru is developing a programme to address the sewerage capacity issues around the inlet. That programme consists of 173 individual projects and will be delivered through a phased approach, with the first phase due to be completed by 2015 and the whole programme by 2025. We have no plans to look at any kind of compensation scheme with regard to the cockle industry itself.

Gallaf ddweud bod Dŵr Cymru yn datblygu rhaglen i fynd i'r afael â'r problemau capasiti carthffosiaeth o amgylch y gilfach. Mae'r rhaglen honno'n cynnwys 173 o brosiectau unigol a fydd yn cael eu darparu trwy ddull fesul cam, a disgwylir i'r cam cyntaf gael ei gwblhau erbyn 2015 a'r rhaglen gyfan erbyn 2025. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ystyried unrhyw fath o gynllun iawndal o ran y diwydiant cocos ei hun.

14:30 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, there have been important developments in this case since we debated the Petitions Committee report. Will the First Minister ensure that the pollution of the Burry Inlet will be a priority for Natural Resources Wales and that the new body will continue to work collaboratively with other bodies such as Dŵr Cymru, and that local stakeholders such as the cockle gatherers continue to play a crucial part in the process and are consulted?

Yn amlwg, bu datblygiadau pwysig yn yr achos hwn ers i ni drafod adroddiad y Pwyllgor Deisebau. A wnaiff y Prif Weinidog sicrhau y bydd y llygredd yng Nghilfach Tywyn yn flaenoriaeth i Adnoddau Naturiol Cymru ac y bydd y corff newydd yn parhau i weithio ar y cyd â chyrff eraill fel Dŵr Cymru, a bod rhanddeiliaid lleol fel y casglwyr cocos yn parhau i chwarae rhan hollbwysig yn y broses ac yr ymgynghorir â nhw?

14:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course. It is important that the cockle gatherers are fully part of the process. I know that there have been issues over some years in the Burry Inlet—diuretic shellfish poisoning is one, which was some 10 years ago now—and it is important that the cockle beds are protected. They are a very sustainable fishery because they are gathered by hand and we will work with NRW and other bodies, and indeed the cockle gatherers, to ensure that that sustainability continues in the future.

Gwnaf, wrth gwrs. Mae'n bwysig bod y casglwyr cocos yn rhan lawn o'r broses. Gwn y bu problemau dros rai blynyddoedd yng Nghilfach Tywyn—gwenwyno pysgod cragen diwretig yn un, sydd tua 10 mlynedd yn ôl bellach —ac mae'n bwysig bod y gwelyau cocos yn cael eu diogelu. Maen nhw'n bysgodfa gynaliadwy iawn oherwydd eu bod yn cael eu casglu â llaw a byddwn yn gweithio gydag Adnoddau Naturiol Cymru a chyrff eraill, a'r casglwyr cocos yn wir, er mwyn sicrhau bod y cynaliadwyedd hwnnw'n parhau yn y dyfodol.

14:31 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn dod at adeg y flwyddyn lle, yn y gorffennol, rydym wedi gweld y marw eang hwn yn y gwlâu cocws. Mae'n bwysig cydnabod bod Dŵr Cymru yn buddsoddi yn yr ardal i wella ansawdd y dŵr, ond mae hynny'n mynd i gymryd sawl blwyddyn, fel mae'r Prif Weinidog newydd amlinellu. Mae nifer o gynlluniau dros sawl blwyddyn. Wedi cwrdd â rhai o bysgotwyr traddodiadol yr ardal dros doriad y Pasg, maent wedi gofyn i fi ofyn i'r Prif Weinidog, yn blwmp ac yn blaen, a yw'r Llywodraeth yn cefnogi'r dulliau traddodiadol hyn o hel cocos, ac a yw'r Llywodraeth am weld y diwydiant hwn yn parhau, ac felly rhoi ei holl gefnogaeth y tu ôl i barhad y diwydiant.

We are approaching the time of year when, in the past, we have seen widespread deaths in the cockle beds. It is important to recognise that Dŵr Cymru/Welsh Water is investing in the area to improve water quality, but that is going to take many years, as the First Minister has just outlined. There are a number of schemes over several years. I met some of the traditional fishermen in that area over the Easter recess and they asked me to ask the First Minister, quite plainly, whether the Welsh Government supports these traditional methods of gathering cockles and whether the Government wants to see this industry continue and therefore will put its full support to the continuation of the industry in future.

14:32

Senedd.tv Fideo Video

Deallaf bod y bysgodfa ei hunan yn gynaliadwy dros ben. Yn ystod fy amser fel Gweinidog dros faterion gwledig, cwrddais â sawl pysgotwr cocos dros sawl mis. Yn anffodus, nid oes rheswm clir am pam mae'r marw hwn wedi digwydd; mae sawl ffactor yn ôl yr astudiaeth sydd wedi cymryd lle. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn sicrhau nad yw'r marw hwn yn digwydd yn y dyfodol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y bysgodfa ei hunan.

I understand that the fishery itself is very sustainable indeed. During my time as the Minister for rural affairs, I met several cockle fishermen over several months. What is unfortunate is that there is not a clear reason as to why these cockle deaths have occurred; there are several factors involved according to the studies that have taken place. What is important is that we ensure that these cockle deaths do not occur again in order to ensure the sustainability of the fishery itself.

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have accepted three urgent questions under Standing Order No. 12.66. I call on Mike Hedges to ask the first of those urgent questions.

Rwyf wedi derbyn tri chwestiwn brys dan Reol Sefydlog Rhif 12.66. Galwaf ar Mike Hedges i ofyn y cyntaf o'r cwestiynau brys hynny.

## Cwestiwn Brys: Y Frech Goch

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr achosion presennol o'r frech goch yn ne-orllewin Cymru? EAQ(4)0264(HSS)*

## Urgent Question: Measles

*Will the Minister make a statement on the current measles outbreak in the South West Wales area? EAQ(4)0264(HSS)*

14:33

### Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

As of today, more than 750 cases of measles have been reported in the current outbreak. This number is increasing and has yet to reach its peak. Extensive efforts are being deployed to increase immunisation among those at risk and further details of those efforts are contained in the written statement that has been distributed to Members.

Fel y mae hi heddiw, hysbyswyd am fwy na 750 o achosion o'r frech goch yn y sefyllfa bresennol. Mae'r rhif hwn yn cynyddu ac nid yw wedi cyrraedd ei anterth eto. Mae ymdrechion helaeth yn cael eu gwneud i gynyddu imiwneiddio ymhlith y rhai sydd mewn perygl a cheir manylion pellach o'r ymdrechion hynny yn y datganiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd i'r Aelodau.

14:33

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your response, Minister. Will you join me in congratulating the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board staff on the amount of work that they have done in trying to get as many children and young people as possible immunised? What more can be done by the Welsh Government to encourage parents to get their children MMR vaccinated, and what more can be done to try to get across to parents the serious repercussions of measles, such as loss of sight, hearing and, in the worst possible cases, children dying?

Diolch am eich ymateb, Weinidog. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar faint o waith maen nhw wedi ei wneud i geisio imiwneiddio cymaint o blant a phobl ifanc â phosibl? Beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i annog rhieni i gael brechiad MMR i'w plant, a beth arall a ellir ei wneud i geisio hysbysu rhieni am sgil-effeithiau difrifol y frech goch, fel colli golwg, clyw ac, yn yr achosion gwaethaf, plant yn marw?

14:34

### Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very happy to associate myself with the remarks that the Member made in relation to staff in the NHS, both in the Abertawe Bro Morgannwg area, and more widely through Public Health Wales and the fantastic efforts that it has made over recent weeks in responding to the outbreak. This is a potentially dangerous but very preventable disease and, through this Chamber, and in every other way in which we have an opportunity to do so, we need to say to parents of children who are yet to be vaccinated, or who are not completely vaccinated, that now is the time to make sure that that vaccination takes place. That is true not simply of the greater Swansea area, but of other parts of Wales as well, so that we can help families to get on top of this disease before it spreads elsewhere.

Rwy'n hapus iawn i gysylltu fy hun â'r sylwadau a wnaeth yr Aelod ar aelodau staff yn y GIG, yn ardal Abertawe Bro Morgannwg, ac yn ehangach trwy Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r ymdrechion gwych y mae wedi eu gwneud dros yr wythnosau diweddar wrth ymateb i'r argyfwng. Mae hwn yn glefyd a allai fod yn beryglus ond sy'n hawdd ei atal a, thrwy'r Siambr hon, ac ym mhob ffordd arall lle mae gennym gyfle i wneud hynny, mae angen i ni ddweud wrth rieni plant sydd heb gael eu brechu eto, neu nad ydynt wedi'u brechu'n llawn, mai nawr yw'r amser i wneud yn siŵr bod y brechiad yn digwydd. Mae hynny'n wir nid yn unig am ardal Abertawe fwyaf, ond am rannau eraill o Gymru hefyd, fel y gallwn helpu teuluoedd i atal y clefyd hwn cyn iddo ymledu i ardaloedd eraill.

14:35

### Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your statement, Minister. There has been an accusation that the Welsh Government has been slow to respond to this outbreak. Can you clarify to Assembly Members today when you or the Welsh Government became aware of the outbreak, and what action was taken as an immediate consequence? Can you also give some assurances—given the huge financial pressure that there is on the NHS at present—that the Welsh Government will underwrite the costs that are associated with this outbreak in Swansea, as well as any other costs that may emerge in other parts of Wales should similar outbreaks occur?

Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Bu cyhuddiad bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn araf yn ymateb i'r argyfwng hwn. A allwch chi egluro i Aelodau'r Cynulliad heddiw pryd clywsoch chi neu Lywodraeth Cymru am yr achosion, a pha gamau a gymerwyd ar unwaith o ganlyniad? A allwch chi hefyd roi rhywfaint o sicrwydd—o ystyried y pwysau ariannol enfawr sydd ar y GIG ar hyn o bryd—y bydd Llywodraeth Cymru yn gwarantu'r costau sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn yn Abertawe, yn ogystal ag unrhyw gostau eraill a allai godi mewn rhannau eraill o Gymru pe byddai achosion tebyg yn digwydd?

14:35 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

By the end of last November, four separate notifications of probable measles had been received in the Swansea area. The first local outbreak control team meeting was held on 28 November last year. It decided to try to contain the outbreak by vaccination programmes in schools. Unfortunately, the take-up of those programmes was very low. It was only in the post-Christmas period, as media reports of the outbreak increased, that there was greater awareness and parental action began to pick up. By the middle of February, Public Health Wales had convened a senior response team, and that team has continued to meet weekly ever since. The actions that we have discussed this afternoon—including actions at GP surgeries, in out-of-hours centres, in special clinics, at hospitals, as well as other opportunistic attempts to ensure that vaccination is spread—have flown from that date onwards. I do not think that either the NHS or the Welsh Government has been behind the curve in responding to the outbreak. As far as costs are concerned, there are well-established ways in which the costs of immunisation are dealt within the NHS, and those will continue. However, in response to the Member, I can say that this is a matter in which I will continue to take a close interest.

Erbyn diwedd mis Tachwedd y llynedd, derbyniwyd pedwar hysbysiad ar wahân o achosion tebygol o'r frech goch yn ardal Abertawe. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tîm rheoli achosion lleol ar 28 Tachwedd y llynedd. Penderfynodd geisio cyfyngu'r achosion trwy raglenni brechu mewn ysgolion. Yn anffodus, roedd y nifer a fanteisiodd ar y rhaglenni hynny yn isel iawn. Dim ond yn y cyfnod ar ôl y Nadolig, wrth i adroddiadau ar yr achosion gynyddu yn y cyfryngau, y gwelwyd mwy o ymwybyddiaeth, a dechreuodd mwy o rieni fanteisio ar y brechu. Erbyn canol mis Chwefror, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi creu uwch dîm ymateb, ac mae'r tîm hwnnw wedi parhau i gyfarfod yn wythnosol ers hynny. Mae'r camau gweithredu yr ydym wedi eu trafod y prynhawn yma—gan gynnwys y camau mewn meddygfeydd teulu, mewn canolfannau y tu allan i oriau arferol, mewn clinigau arbennig, mewn ysbytai, yn ogystal ag ymdrechion manteisiol eraill i sicrhau bod brechu yn cael ei ledaenu—wedi hedfan o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Nid wyf yn credu bod y GIG na Llywodraeth Cymru wedi bod ar ei hôl hi o ran ymateb i'r argyfwng. Cyn belled ag y mae costau yn y cwestiwn, ceir ffyrdd sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer ymdrin â chostau imiwneiddio o fewn y GIG, a bydd y rheini'n parhau. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r Aelod, gallaf ddweud bod hwn yn fater y byddaf yn parhau i gymryd diddordeb agos ynddo.

14:37 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, since the outbreak has escalated, if you like, in recent months, a large number of people have come to me with tales of cancelled operations, and we have had more problems in accessing hospitals as a result of this. I understand that the impact of this outbreak on the health service as a whole has been quite severe. What assessment have you undertaken of the impact of this measles outbreak on the health service in the Swansea and wider area, particularly in terms of capacity, and what action are you taking to help the health boards concerned to overcome the problems that are being caused as a result of it?

Weinidog, ers i'r argyfwng waethygu, os mynnwch, yn y misoedd diwethaf, mae nifer fawr o bobl wedi dod ataf gyda hanesion am lawdriniaethau a ganslwyd, ac rydym wedi cael mwy o broblemau yn cael mynediad at ysbytai o ganlyniad i hyn. Rwy'n deall bod effaith yr argyfwng hwn ar y gwasanaeth iechyd yn ei gyfanrwydd wedi bod yn eithaf difrifol. Pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o effaith yr achosion hyn o'r frech goch ar y gwasanaeth iechyd yn Abertawe a'r ardal ehangach, yn enwedig o ran gallu i ymateb, a pha gamau ydych chi'n eu cymryd i helpu'r byrddau iechyd dan sylw i oresgyn y problemau sy'n cael eu hachosi o ganlyniad i hynny?

14:37 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that there can be any doubt that, when you have an outbreak of this scale, requiring the mobilisation of NHS resources in the way that they have been mobilised, that cannot take place without an impact on the regular and more routine services that the NHS produces. I accept that fact, and, that is something that, along with ABMU officials, we will be aware of as we go ahead. However, what you have to recognise is that the core principle here, right through the NHS, is that we mobilise resources where need is most urgent, and that is what has been going on in the Swansea area with considerable success.

Nid wyf yn meddwl y gall fod unrhyw amheuaeth, pan fydd gennych gymaint o achosion â hyn, sy'n gofyn am ddefnyddio adnoddau'r GIG yn y ffordd y maen nhw wedi cael eu defnyddio, na all hynny ddigwydd heb effeithio ar y gwasanaethau rheolaidd a mwy arferol y mae'r GIG yn eu cynnig. Rwy'n derbyn y ffaith honno, ac, mae hynny'n rhywbeth y byddwn ni, ynghyd â swyddogion Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yn ymwybodol ohono wrth i ni fynd yn ein blaenau. Fodd bynnag, yr hyn y mae'n rhaid i chi ei gydnabod yw mai'r egwyddor graidd yma, drwy'r GIG cyfan, yw ein bod yn defnyddio adnoddau lle y ceir y brys mwyaf o ran angen, a dyna beth sydd wedi bod yn digwydd yn ardal Abertawe gyda chryn lwyddiant.

14:38 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also wish to thank the staff at ABMU. I also wish to thank 'The South Wales Evening Post', and the press more widely, for bringing this matter to the attention of people whose families needed the MMR vaccine—and perhaps more swiftly than the Government did. However, I need to ask you for a more complete answer, Minister, on whether the Welsh Government will be offering support to ABMU to meet the costs of this outbreak, not least because it is already under pressure to save £1 million a week.

Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau staff PABM. Hoffwn ddiolch hefyd i 'The South Wales Evening Post', a'r wasg yn ehangach, am dynnu sylw pobl yr oedd eu teuluoedd angen y brechlyn MMR at y mater hwn—ac efallai'n fwy cyflym na wnaeth y Llywodraeth. Fodd bynnag, mae angen i mi ofyn i chi am ateb mwy cyflawn, Weinidog, ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth i PABM i dalu costau'r argyfwng hwn, yn enwedig gan ei fod eisoes dan bwysau i arbed £1 filiwn yr wythnos.

14:39 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As far as media reporting is concerned, while we know that reporting some years ago was not responsible in the way that it highlighted some concerns about this issue, I believe that it is true to say—and I am happy to endorse what Suzy Davies said—that the recent reporting around the current outbreak has been extremely helpful and has contributed very positively to ensuring that key public health messages have reached people in the way that we would have wanted. Part of the reason that that has been possible is because of the very constructive way in which ABMU, clinicians and Public Health Wales have worked directly with media outlets to ensure that sensible messages are conveyed in the way that is most likely to reach the people who need them.

Cyn belled ag y mae adroddiadau'r cyfryngau yn y cwestiwn, er ein bod yn gwybod bod adroddiadau rai blynyddoedd yn ôl yn anghyfrifol o ran y ffordd yr amlygwyd rhai pryderon am y mater hwn, rwy'n credu ei bod yn wir i ddweud—ac rwy'n hapus i gefnogi'r hyn a ddywedodd Suzy Davies—bod yr adroddiadau diweddar ynghylch yr achosion presennol wedi bod yn hynod ddefnyddiol ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol iawn at sicrhau bod negeseuon allweddol am iechyd y cyhoedd wedi cyrraedd pobl yn y ffordd y byddem wedi dymuno. Rhan o'r rheswm y bu hynny'n bosibl yw oherwydd y ffordd adeiladol iawn y mae PABM, clinigwyr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio'n uniongyrchol ag allfeydd cyfryngol i sicrhau bod negeseuon synhwyrol yn cael eu cyfleu yn y ffordd sydd fwyaf tebygol o gyrraedd y bobl sydd eu hangen.

On the funding issue, I have said what I have said already, and I do not think that there is anything more that I need to add to that.

O ran y mater ariannu, rwyf wedi dweud yr hyn sydd gennyf i'w ddweud eisoes, ac nid wyf yn credu bod unrhyw beth arall y mae angen i mi ei ychwanegu at hynny.

14:40 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, would you agree that there is a wider message that Welsh parents beyond the immediate Swansea area need to hear? For instance, one in four teenagers in Powys is not fully inoculated against this disease, and there is the potential for cases and epidemics the length and breadth of Wales. Is your message today that parents, wherever they are, even if there is no immediate threat, should check whether their child is fully vaccinated, and, if they are not, should make arrangements with their local GPs to have that done?

Weinidog, a fyddech yn cytuno bod neges ehangach y mae angen i rieni yng Nghymru y tu hwnt i ardal Abertawe ei chlywed? Er enghraifft, nid yw un o bob pedwar o bobl ifanc ym Mhowys wedi ei frechu'n llawn yn erbyn y clefyd hwn, ac mae potensial ar gyfer achosion a heintiau ym mhob cwr o Gymru. Ai eich neges heddiw yw y dylai rhieni, lle bynnag y maent, hyd yn oed os nad oes bygythiad uniongyrchol, wirio a yw eu plant wedi'u brechu'n llawn, ac os nad ydynt, y dylent wneud trefniadau gyda'u meddygon teulu lleol i wneud hynny?

14:40 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I endorse that point as powerfully as I can. This is a message not simply for the Swansea area, but for the length and breadth of Wales. It is a message, as Kirsty Williams has said, which is particularly pertinent to those families who have children in the early teenage years, who may have missed out on vaccinations at the time that they would normally have happened. Special walk-in clinics were held in Cardiff and Gwent last weekend, and over 1,000 immunisations took place in those clinics, but they were not used enough. We do not want parents in other parts of Wales to end up having to respond to an outbreak that is already gathering pace in their area. They can act to prevent this from happening to their own families and to their wider communities. I absolutely endorse the point that was made. Now is the time for them to make arrangements to catch up on any vaccinations that have been missed in order to stop this becoming a problem in their areas.

Rwy'n cefnogi'r pwynt yna mor rymus ag y gallaf. Nid neges ar gyfer ardal Abertawe yn unig yw hon, ond ar gyfer pob cwr o Gymru. Mae'n neges, fel y mae Kirsty Williams wedi ei ddweud, sy'n arbennig o berthnasol i'r teuluoedd hynny sydd â phlant yn eu harddegau cynnar, a allai fod heb gael brechiadau ar yr adeg y byddent wedi eu derbyn fel rheol. Cynhaliwyd clinigau galw heibio arbennig yng Nghaerdydd a Gwent y penwythnos diwethaf, a darparwyd dros 1,000 o imiwneiddiadau yn y clinigau hynny, ond ni chawsant eu defnyddio ddigon. Nid ydym eisiau i rieni mewn rhannau eraill o Gymru gyrraedd sefyllfa o orfod ymateb i argyfwng sy'n datblygu'n gyflym yn eu hardal eisoes. Gallant weithredu i atal hyn rhag digwydd i'w teuluoedd eu hunain ac i'w cymunedau ehangach. Rwy'n cymeradwyo'n llwyr y pwynt a wnaed. Nawr yw'r amser iddyn nhw wneud trefniadau i dderbyn unrhyw frechiadau na chafwyd er mwyn atal hyn rhag bod yn broblem yn eu hardaloedd nhw.

## Cwestiwn Brys: Safle Prosesu Cig Vion

*Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith ar y diwydiant amaeth o gau safle prosesu cig Vion ar Ynys Môn? EAQ(4)0001(NRF)*

## Urgent Question: The Vion Meat-processing Plant

*What assessment has the Minister made of the impact on the agricultural industry of the closure of the Vion meat-processing plant in Anglesey? EAQ(4)0001(NRF)*

### Alun Davies Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

The focus of the Welsh Government's work in the last few weeks and months has been on saving people's jobs in Vion in Gaerwen and saving the plant. I think that Members on all sides of the Chamber would join me in congratulating Edwina Hart on the work that she, as Minister, has led on, working with the businesses involved in trying to maintain continuity of employment and work in Gaerwen.

Canolbwynt gwaith Llywodraeth Cymru yn ystod yr ychydig wythnosau a misoedd diwethaf fu achub swyddi pobl yn Vion yn y Gaerwen ac achub y safle. Rwy'n credu y byddai Aelodau ar bob ochr i'r Siambr yn ymuno â mi i longyfarch Edwina Hart ar y gwaith y mae hi, fel Gweinidog, wedi ei arwain, gan weithio gyda'r busnesau sy'n ceisio parhau cyflogaeth a gwaith yn y Gaerwen.

14:42

### Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly would acknowledge your efforts and Mrs Hart's efforts to secure the future of the Gaerwen site. However, there are issues with regard to increased transport costs if those efforts do not prove successful. Also, the point was made, regarding the levy that Hybu Cig Cymru currently collects, that the alternative sites, if you are unable to secure the future of the Gaerwen site, are all located over the border in England. I wonder whether you are able to give us this afternoon any indication, given that the First Minister has stated that efforts were being made with regard to the levy, as to whether there is any sign as to the timescale for such discussions, because that will apply whether Gaerwen is saved or not.

Byddwn yn sicr yn cydnabod eich ymdrechion chi ac ymdrechion Mrs Hart i sicrhau dyfodol y safle yn y Gaerwen. Fodd bynnag, mae problemau o ran costau cludo uwch os na fydd yr ymdrechion hynny yn llwyddiannus. Hefyd, gwnaed y pwynt, ynghylch yr ardoll y mae Hybu Cig Cymru yn ei gasglu ar hyn o bryd, bod y safleoedd amgen, os na allwch chi sicrhau dyfodol y safle yn y Gaerwen, i gyd wedi'u lleoli dros y ffin yn Lloegr. Tybed a allwch chi roi unrhyw awgrym i ni y prynhawn yma, o ystyried fod y Prif Weinidog wedi datgan fod ymdrechion yn cael eu gwneud o ran yr ardoll, pa un a oes unrhyw awgrym o amserlen ar gyfer trafodaethau o'r fath, gan y bydd hynny'n berthnasol pa un a yw'r Gaerwen yn cael ei achub ai peidio.

14:43

### Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I repeat that the focus of the Welsh Government's activities on this has been to maintain continuity of employment and continuity of operation of the plant in Gaerwen. We have made assessments of the potential impacts of the closure of that business on the economy of Anglesey, the agricultural industry in north-west Wales and the wider red meat industry. At least 50% of the raw materials that are put through Gaerwen will now transfer to Dunbia in Llanybydder. Therefore, the impact on the levy will be minimised by that. However, we started negotiations and conversations with the UK Government on the matter of the levy some months ago.

Dywedaf eto mai canolbwynt gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth fu parhau cyflogaeth a pharhau gweithredu yn y safle yn y Gaerwen. Rydym wedi gwneud asesiadau o effeithiau posibl cau'r busnes hwnnw ar economi Ynys Môn, y diwydiant amaethyddol yng ngogledd-orllewin Cymru a'r diwydiant cig coch ehangach. Bydd o leiaf 50% o'r deunyddiau crai sy'n cael eu rhoi drwy'r Gaerwen yn trosglwyddo bellach i Dunbia yn Llanybydder. Felly, bydd yr effaith ar yr ardoll yn cael ei leihau drwy hynny. Fodd bynnag, dechreuwyd trafodaethau a sgyrsiau gyda Llywodraeth y DU ar fater yr ardoll rai misoedd yn ôl.

14:44

### Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also thank you and Mrs Hart for the efforts that you are making in relation to Gaerwen, but can you confirm that there remains a full range of support for potential buyers of the Gaerwen plant, because it may be that another business would like to take that site over? I know that you have been making strong efforts to ensure that that happens. However, can you confirm that those offers of support remain in place? Can you tell us what opportunities there will be for retraining for the workers that are affected? What assessment has been made in relation to animal welfare in terms of the additional distance to travel to slaughter, because there are concerns that it will adversely impact upon sales in north Wales?

Rwyf innau hefyd yn diolch i chi a Mrs Hart am yr ymdrechion rydych chi'n eu gwneud ar ran y Gaerwen, ond a allwch chi gadarnhau bod ystod lawn o gymorth ar gael i brynwyr posibl y safle yn y Gaerwen o hyd, oherwydd mae'n bosibl yr hoffai busnes arall gymryd y safle hwnnw drosodd? Rwy'n gwybod eich bod wedi bod yn gwneud ymdrechion cryf i sicrhau bod hynny'n digwydd. Fodd bynnag, a allwch chi gadarnhau bod y cynigion hynny o gefnogaeth yn dal i fod ar gael? A allwch chi ddweud wrthym ba gyfleoedd ailhyfforddi fydd ar gael i'r gweithwyr yr effeithir arnynt? Pa asesiad sydd wedi ei wneud o ran lles anifeiliaid yng nghyswllt y pellter ychwanegol i deithio i gael eu lladd, oherwydd mae pryderon y bydd hyn yn cael effaith andwyol ar werthiant yng ngogledd Cymru?

14:45 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her kind words. Yes, I can confirm that that package remains in place at present. We are working with others on the island of Anglesey to ensure that any people who lose their jobs in Gaerwen receive full support in terms of the training opportunities that you have suggested. We are also aware, of course, that the Llangefni plant, formerly owned by Vion, has now been bought by 2 Sisters Food Group Ltd and that work is being done by the new owners of that plant to look at the way in which further opportunities for employment can be developed at that site.

Diolch i'r Aelod am ei geiriau caredig. Gallaf, gallaf gadarnhau bod y pecyn hwnnw yn dal i fod ar gael ar hyn o bryd. Rydym yn gweithio gydag eraill ar Ynys Môn i sicrhau bod unrhyw bobl sy'n colli eu swyddi yn y Gaerwen yn derbyn cefnogaeth lawn o ran y cyfleoedd hyfforddi yr ydych chi wedi eu hawgrymu. Rydym hefyd yn ymwybodol, wrth gwrs, fod y safle yn Llangefni, yr oedd Vion yn berchen arno gynt, bellach wedi cael ei brynu gan 2 Sisters Food Group Cyf a bod gwaith yn cael ei wneud gan berchnogion newydd y safle hwnnw i edrych ar y ffordd y gellir datblygu cyfleoedd pellach ar gyfer cyflogaeth ar y safle hwnnw.

We recognise and understand that there will be an impact on the wider red meat sector, the agricultural industry and the animal welfare issues to which you referred because of the closure of this plant. However, I wish to maintain a focus on our positive efforts to maintain continuity of operation of this facility.

Rydym yn cydnabod ac yn deall y bydd effaith ar y sector cig coch ehangach, y diwydiant amaethyddol a'r materion lles anifeiliaid y cyfeiriwyd atynt gennych chi oherwydd cau'r safle hwn. Fodd bynnag, hoffwn barhau i ganolbwyntio ar ein hymdrechion cadarnhaol i gynnal parhad gweithredu yn y cyfleuster hwn.

14:46 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Hoffwn ddiolch i'r Llywodraeth, yn enwedig y ddau Weinidog sydd wedi bod yn ymwneud â hyn—Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Gwn y bydd fy nghyd-Aelod, yr Aelod Cynulliad dros Ynys Môn, Ieuan Wyn Jones, am i mi bwysleisio'r hyn yr wyf yn ymwybodol iawn ohono fy hun, sef yr angen am gyfleusterau i brosesu cig oen a chig eidion yng nghanol y lleoliad cynhyrchu yn y gogledd, a'r gogledd-orllewin yn arbennig. Mae hon, efallai, yn gawg aur—neu lestr, neu beth bynnag yw'r ddelwedd orau—yr ydym wedi ceisio ei dilyn ers blynyddoedd i allu cael diwydiant cig cynaliadwy o'r cynhyrchu i'r prosesu, y cyfanwerthu a'r manwerthu yn y gogledd.

I would like to thank the Government, particularly both of the Ministers who have been dealing with this—the Minister for Economy, Science and Transport and the Minister for Natural Resources and Food. I know that my fellow Member, the Assembly Member for Anglesey, Ieuan Wyn Jones, would want me to emphasise something that I am personally very aware of, namely the need for processing facilities for lamb and beef at the heart of the production area in the north, and particularly in the north-west. This, perhaps, is the pot of gold that we have sought for many years in order to have a sustainable meat industry from production to processing, including wholesale and retail in north Wales.

Derbyniaf y pwynt y mae'n ei wneud bod cyfran o'r gwaith hwn yn mynd i Dunbia sydd, wrth gwrs, yn gwmni safonol a llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, rwyf am bwyso ar y Gweinidog unwaith eto i roi'r sicrwydd i ni ei fod yn edrych am y posibilrwydd o ail-ddatblygu ar y safle hwnnw, oherwydd ei fod yn safle safonol. Mae cynhyrchu bwyd o safon ar ynys Môn yn hanfodol i economi'r ynys a'r gogledd yn gyffredinol.

I accept the point that he has made that some of this work will go to Dunbia, which is a very successful company. However, I urge the Minister once again to give us an assurance that he is looking at the possibilities of redevelopment on that site, because it is a quality site. The production of quality food on Anglesey is crucial to the economy of the island and north Wales in general.

14:47 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Y pecyn o gefnogaeth y mae'r Llywodraeth wedi ei negodi a'i gytuno gyda Vion yw i sicrhau buddsoddiad pellach yn y safle yng Ngaerwen. Dyna bwrpas y gefnogaeth yr ydym wedi ei chynnig i Vion fel busnes ac i unrhyw un sydd â diddordeb mewn prynu Gaerwen. Felly, mae'r addewid i sicrhau buddsoddiad pellach yn sir Fôn wedi cael ei wneud yn barod.

The package of support that the Government has negotiated and agreed with Vion is to ensure further investment in the site in Gaerwen. That was the purpose of the support that we offered to Vion as a business and to anyone with an interest in buying Gaerwen. So, the promise to ensure further investment in Anglesey has already been made.

Bu i'r Aelod drafod pwysigrwydd integriti y sector cig coch yn ei gyfanrwydd. Dyma un o'r pethau rwyf am ei bwysleisio wrth inni gytuno'r cynllun datblygu gwledig newydd. Rwy'n siŵr y cawn gyfle i drafod hynny ymhellach.

The Member discussed the importance of the integrity of the red meat industry as a whole. That is one of the things that I want to emphasise as we agree the new rural development plan. I am sure that we will have an opportunity to discuss that further.

14:48 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in your response, you touched on two points. The first was that the Government had done impact assessment work in relation to the closure. Are you in a position to say what capacity has been taken out of the red meat sector in Wales by what we hope is the temporary closure of the Gaerwen facility?

Weinidog, yn eich ateb, crybwyllwyd dau bwynt gennych. Y cyntaf oedd bod y Llywodraeth wedi gwneud gwaith asesu effaith yn ymwneud â'r cau. A ydych chi mewn sefyllfa i ddweud pa gapasiti sydd wedi ei golli o'r sector cig coch yng Nghymru gan yr hyn y gobeithiwn na fydd ond yn achos dros dro o gau cyfleuster y Gaerwen?

Secondly, you have alluded to the fact that you are aware of other parties that are interested in the site and that the offer that the Welsh Government has put forward to Vion would be extended to them. Are you aware that the company Vion has given you a guarantee that the site will be maintained as a processing facility, or are you aware that it will be decommissioning the site and selling off the assets and that, therefore, the offer that you have on the table will be pretty useless?

Yn ail, rydych chi wedi cyfeirio at y ffaith eich bod yn ymwybodol o bartïon eraill sydd â diddordeb yn y safle ac y byddai'r cynnig y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i Vion yn cael ei wneud iddyn nhw hefyd. A ydych chi'n ymwybodol bod cwmni Vion wedi rhoi sicrwydd i chi y bydd y safle'n cael ei gadw fel cyfleuster prosesu, neu a ydych chi'n ymwybodol y bydd yn datgomisiynu'r safle ac yn gwerthu'r asedau ac y bydd y cynnig yr ydych chi wedi ei wneud yn eithaf diwerth felly?

14:49 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

These are matters that my friend Edwina Hart, the Minister for Economy, Science and Transport, has been leading on. I am sure that you will be aware that the conversations that have been taking place have been very sensitive and retain an element of commercial confidentiality.

Mae'r rhain yn faterion y mae fy ffrind Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, wedi bod yn arwain arnynt. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol bod y sgyrsiau a gafwyd wedi bod yn sensitif iawn a bod elfen o gyfrinachedd masnachol ynddynt.

On the wider issues, in terms of the assessments that Hybu Cig Cymru has been undertaking and our discussions with Hybu Cig Cymru, we have ongoing concerns about abattoir capacity in Wales, the location of that capacity, and our ability to ensure that that capacity continues. The throughput in Gaerwen had dropped considerably in recent years, and that is one of the problems that were facing it and one of the reasons that led to the situation that we are currently in. Our concern is to ensure that we retain the capacity to slaughter in Wales, that we maintain the integrity of the supply chain and the processing chain in Wales, and that we look to invest right through that supply chain—from the farm through to processing, marketing and promotion. We will also look to ensure that the red meat sector continues to grow in Wales.

Ar y materion ehangach, o ran yr asesiadau y mae Hybu Cig Cymru wedi bod yn eu gwneud a'n trafodaethau gyda Hybu Cig Cymru, mae gennym bryderon parhaus am gapasiti lladd-dai yng Nghymru, lleoliad y capasiti hwnnw, a'n gallu i sicrhau bod y capasiti hwnnw'n parhau. Mae'r ffigyrau o ran yr hyn sy'n mynd trwy'r Gaerwen wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar, a dyna un o'r problemau a oedd yn ei wynebu ac un o'r rhesymau a arweiniodd at y sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau ein bod yn cadw'r capasiti i ladd yng Nghymru, ein bod yn cynnal uniondeb y gadwyn gyflenwi a'r gadwyn brosesu yng Nghymru, a'n bod yn edrych i fuddsoddi yn y gadwyn gyflenwi honno drwyddi draw—o'r fferm i brosesu, marchnata a hyrwyddo. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod y sector cig coch yn parhau i dyfu yng Nghymru.

## Cwestiwn Brys: Ffermwyr Defaid

*Pa gymorth ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei roi i helpu ffermwyr defaid yr ucheldir yr effeithiwyd arnynt yn ddiweddar gan y tywydd oer difrifol? EAQ(4)0002(NRF)*

## Urgent Question: Sheep Farmers

*What further assistance does the Welsh Government intend to deploy to help upland sheep farmers recently affected by the severe cold weather? EAQ(4)0002(NRF)*

14:51 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I am sure that many of us will have been greatly moved by the situation that some hill farmers have faced over the last few weeks. Members will also be aware that I have issued two written statements on this matter during recess, and that I issued a third written statement on the matter earlier today.

Rwy'n siŵr y bydd y sefyllfa y mae rhai ffermwyr mynydd wedi ei hwynebu yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf wedi cyffroi emosiynau llawer ohonom. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol hefyd fy mod wedi cyhoeddi dau ddatganiad ysgrifenedig ar y mater hwn yn ystod y toriad, a'm bod wedi cyhoeddi trydydd datganiad ysgrifenedig ar y mater yn gynharach heddiw.

14:51 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your reply. I was pleased that you were able to visit Montgomeryshire during the recess to speak to farmers and the farming unions to hear first hand about the severe difficulties that hill farmers in mid Wales have experienced during the extreme weather. However, despite the sensible action taken on derogation, many farmers in my constituency feel that you have too quickly dismissed their plight, their hardship and their motivation for further assistance. Now that the weather has broken and the full extent of this terrible situation has emerged, there is scope for further Government assistance on top of what you have announced today. This could include help with the cost of collection or disposal of fallen stock, the reinstatement of Tir Mynydd until the end of the current rural development plan, and even possibly some emergency headage-based payment for sheep. Are you prepared to examine these proposals to demonstrate to my constituents that the Welsh Government does care, and that they are being treated fairly compared with other farmers across the UK?

Diolch i chi, Weinidog, am eich ateb. Roeddwn i'n falch eich bod wedi gallu ymweld â Sir Drefaldwyn yn ystod y toriad i siarad â ffermwyr ac undebau'r ffermwyr i glywed o lygad y ffynnon am yr anawsterau difrifol y mae ffermwyr mynydd yng nghanolbarth Cymru wedi eu dioddef yn ystod y tywydd eithafol. Fodd bynnag, er gwaethaf y camau synhwyrol a gymerwyd ar randdirymiad, mae llawer o ffermwyr yn fy etholaeth yn teimlo eich bod wedi diystyru eu sefyllfa, eu caledi a'u cymhelliad i dderbyn rhagor o gymorth yn rhy gyflym. Nawr bod y tywydd wedi gwella ac wrth i raddfa wirioneddol y sefyllfa ofnadwy hon ddod i'r amlwg, mae lle i gael cymorth pellach gan y Llywodraeth ar ben yr hyn rydych chi wedi ei gyhoeddi heddiw. Gallai hyn gynnwys help gyda chost casglu neu gael gwared ar stoc sydd wedi trigo, ailgyflwyno Tir Mynydd hyd at ddiwedd y cynllun datblygu gwledig cyfredol ac, o bosibl rhywfaint o daliadau y pen brys ar gyfer defaid hyd yn oed. A ydych chi'n barod i ystyried y cynigion hyn i ddangos i'm hetholwyr bod ots gan Lywodraeth Cymru, a'u bod yn cael eu trin yn deg o'u cymharu â ffermwyr eraill ledled y DU?

14:52 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member may only be aware of my public visits to farms in his constituency, and that he may not be aware that I also made a number of private visits to farmers within Montgomeryshire and elsewhere in the affected area. I have spent considerable time over the last few weeks talking around the kitchen table, visiting farms, talking to their families and walking up the hills and mountains of Wales to look at the situation for myself. I fully understand the difficult situation that farmers and others have faced over the last few weeks.

Efallai nad yw'r Aelod ond yn ymwybodol o'm hymweliadau cyhoeddus â ffermydd yn ei etholaeth ef, ac efallai nad yw'n ymwybodol fy mod hefyd wedi gwneud nifer o ymweliadau preifat â ffermwyr yn Sir Drefaldwyn ac mewn mannau eraill yn yr ardal yr effeithiwyd arni. Rwyf wedi treulio cryn dipyn o amser yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, yn siarad wrth fwrdd y gegin, yn ymweld â ffermydd, yn siarad â'u teuluoedd ac yn cerdded i fyny bryniau a mynyddoedd Cymru i edrych ar y sefyllfa drosof fy hun. Rwy'n deall yn llwyr y sefyllfa anodd y mae ffermwyr ac eraill wedi ei hwynebu dros yr ychydig wythnosau diwethaf.

We moved very quickly during that first week to put together a derogation to allow for the burial of fallen stock in the affected areas. Over the last three weeks, we have constantly sought to increase the amount of practical aid and support that we provide to farmers and their families. I announced today that we are increasing that level of support. You will be aware that I will now seek authorisation from the European Commission to pay single farm payments earlier than elsewhere to assist farmers with cash flow. I am also making available £500,000 of help to the charitable sector to help provide support for farmers and their families and feed for animals that require it.

Symudwyd yn gyflym iawn yn ystod yr wythnos gyntaf honno i lunio rhanddirymiad i ganiatáu i stoc a oedd wedi trigo yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gael eu claddu. Yn ystod y tair wythnos diwethaf, rydym wedi gwneud ymdrech gyson i gynyddu faint o gymorth a chefnogaeth ymarferol a chefnogaeth yr ydym yn eu darparu i ffermwyr a'u teuluoedd. Cyhoeddais heddiw ein bod yn cynyddu'r lefel honno o gefnogaeth. Byddwch yn ymwybodol y byddaf bellach yn gwneud cais am awdurdod gan y Comisiwn Ewropeaidd i dalu taliadau fferm sengl yn gynharach nag mewn mannau eraill i helpu ffermwyr gyda llif arian. Rwyf hefyd yn gwneud gwerth £500,000 o gymorth ar gael i'r sector elusennol i helpu i ddarparu cefnogaeth i ffermwyr a'u teuluoedd a bwyd i anifeiliaid sydd ei angen.

I will say to the Member concerned, and I thank him for raising this subject, that if he wishes to help and support us, perhaps he would speak to the UK Government and ask it not to pursue its policy of making significant reductions in common agriculture policy pillar 1 payments to farmers.

Byddaf yn dweud wrth yr Aelod dan sylw, ac rwy'n diolch iddo am godi'r pwnc hwn, os yw'n dymuno ein helpu a'n cefnogi ni, efallai y byddai'n siarad â Llywodraeth y DU ac yn gofyn iddi beidio â dilyn ei pholisi o wneud gostyngiadau sylweddol i daliadau piler 1 y polisi amaethyddol cyffredin i ffermwyr.

14:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I remind Members that this is not a debate—this is an opportunity to ask questions. If you could keep your questions succinct, that would be helpful.

Rwy'n atgoffa'r Aelodau mai nad trafodaeth yw hon—cyfle i ofyn cwestiynau yw hwn. Pe gallech gadw eich cwestiynau'n gryno, byddai hynny o gymorth.

14:54 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I put on record my thanks to the Minister for visiting Clwyd South last week to speak with hill farmers who were affected by this unprecedented fall of snow in late March. They were very impressed by your dedication and the cast-iron commitment for securing a sustainable future for farmers and rural communities, particularly in upland areas. Minister, will you commit to visiting my constituency again in the near future, and to continue working hard for the people who you impressed so positively last week?

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Gweinidog am ymweld â De Clwyd yr wythnos diwethaf i siarad â ffermwyr mynydd yr effeithiwyd arnynt gan yr achos hwn o eira ddiwedd mis Mawrth na welwyd ei fath o'r blaen. Gwnaeth eich ymroddiad a'r ymrwymiad pendant i sicrhau dyfodol cynaliadwy i ffermwyr a chymunedau gwledig, yn enwedig yn ardaloedd yr ucheldir, gryn argraff arnynt. Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i ymweld â'm hetholaeth eto yn y dyfodol agos, ac i barhau i weithio'n galed ar ran y bobl y gwnaethoch argraff mor gadarnhaol arnynt yr wythnos diwethaf?

14:54 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Ken. I am grateful to my friend for his kind remarks. The visit that we undertook together in Clwyd South last Thursday moved me greatly, particularly the opportunity to sit down to talk to three farming families about how the current situation was impacting them and the difficulties that they were facing. The proposal that we are making to bring forward the single farm payments in this year is a direct consequence of the conversations that I was having with those farmers at that time. What we tried to do was to visit, to understand and to talk through some of these issues, but then to take action as a consequence of what we were hearing.

Diolch yn fawr iawn, Ken. Rwy'n ddiolchgar i'm ffrind am ei sylwadau caredig. Gwnaeth yr ymweliad a wnaed gennym gyda'n gilydd yn Ne Clwyd ddydd Iau diwethaf gryn argraff arnaf innau hefyd, yn enwedig y cyfle i eistedd i lawr i siarad â thri theulu ffermio am sut roedd y sefyllfa bresennol yn effeithio arnyn nhw a'r anawsterau roedden nhw'n eu hwynebu. Mae'r cynnig rydym yn ei wneud i gyflwyno'r taliadau fferm sengl yn ystod y flwyddyn hon yn ganlyniad uniongyrchol o'r sgyrsiau roeddwn i'n eu cael gyda'r ffermwyr hynny ar y pryd. Ein nod oedd ymweld, deall a thrafod rhai o'r materion hyn, ond yna i gymryd camau o ganlyniad i'r hyn roeddem yn ei glywed.

14:55 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, what scope is there within the current rural development plan for you to look at other financial measures that you might be able to consider, which would not put extra pressure on the Minister for Finance to come up with new money, but could allow you to reprioritise some aspects of the rural development plan to alleviate some of the financial hardship that many farmers are facing at the moment? Also, in your response you touched on bringing payments forward to October. Can you confirm that that will be to all farmers, or will it be specific to farmers in the less favoured areas?

Weinidog, pa gyfle a geir o fewn y cynllun datblygu gwledig cyfredol i chi edrych ar fesurau ariannol eraill y gallech eu hystyried, na fyddent yn rhoi pwysau ychwanegol ar y Gweinidog Cyllid i ddod o hyd i arian newydd, ond a allai eich caniatáu i ail-flaenoriaethu rhai agweddau ar y cynllun datblygu gwledig i leddfu rhywfaint ar y caledi ariannol y mae llawer o ffermwyr yn ei wynebu ar hyn o bryd? Hefyd, soniwyd gennych yn eich ymateb am ddod â thaliadau ymlaen i fis Hydref. A allwch chi gadarnhau y bydd hynny i bob ffermwr, neu a fydd yn benodol i ffermwyr yn yr ardaloedd llai ffafriol?

14:56 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There speaks a recipient of a single farm payment. [Laughter.] It will be specific to those people who have been worst affected and those people who are in the new derogation area, which I announced earlier today. In terms of the wider financial pressures facing agriculture, we are aware of those. The leader of the opposition will, in December, receive his next single farm payment. It will be 5% less than it would have been, directly because of the budget deal that his Prime Minister negotiated with the EU in February last year. [Interruption.]

Dyna rywun sydd wedi derbyn taliad fferm sengl yn siarad. [Chwerthin.] Bydd yn benodol i'r bobl hynny sydd wedi cael eu heffeithio waethaf a'r bobl hynny sydd yn yr ardal rhanddirymiad newydd, a gyhoeddais yn gynharach heddiw. O ran y pwysau ariannol ehangach sy'n wynebu'r byd amaethyddol, rydym yn ymwybodol o'r rheini. Bydd arweinydd yr wrthblaid yn derbyn ei daliad fferm sengl nesaf ym mis Rhagfyr. Bydd yn 5% yn llai nag y byddai wedi bod, yn uniongyrchol oherwydd y cytundeb cyllideb a sicrhawyd gan ei Brif Weinidog ef gyda'r UE ym mis Chwefror y llynedd. [Torri ar draws.]

14:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Let the Minister reply. Could you make your reply fairly succinct, Minister?

Trefn. Gadewch i'r Gweinidog ateb. Allech chi wneud eich ateb yn weddol gryno, Weinidog?

14:57 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will say to the leader of the opposition that, rather than coming here demanding additional finance, perhaps the best approach would be for him to talk to the UK Government and say to it that farmers do not need the additional financial pressures that they are under, directly because of the budget deal reached by David Cameron as Prime Minister.

Rwyf am ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid, yn hytrach na dod yma gan fynnu cyllid ychwanegol, efallai mai'r dull gorau fyddai iddo siarad â Llywodraeth y DU a dweud wrthi nad oes ar ffermwyr angen y pwysau ariannol ychwanegol y maen nhw'n ei ddioddef, a hynny'n uniongyrchol oherwydd y cytundeb cyllideb a wnaed gan David Cameron fel Prif Weinidog.

14:57 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf am gydnabod bod y Gweinidog wedi gwella yn ei ymatebion i'r sefyllfa hon yn ystod yr wythnosau diwethaf. Heb swnio'n rhy dadol, rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle rwyf wedi'i gael i drafod y materion hyn yn breifat ac yn gyhoeddus gydag ef, a hefyd ei barodrwydd i wrando ar farnau ar y sefyllfa. Fodd bynnag, er fy mod yn croesawu'r datganiad pellach heddiw sy'n dilyn y ddau ddatganiad blaenorol, rwy'n meddwl bod ganddo ryw gymaint o waith i'w wneud i berswadio amaethwyr yr ucheldir bod ei fwriadau—[Torri ar draws.]

May I recognise that the Minister has improved his responses to these situations over the past few weeks? Without sounding like too much of a father figure to him, I appreciate the opportunity that I have had to discuss these issues both privately and publicly with him, and also his willingness to listen to views on the situation. However, while I welcome the further statement made today that follows the two previous statements, I believe that he has some work to do to persuade upland farmers that his intentions—[Interruption.]

I do not require any support from that side of the Chamber. [Laughter.]

Nid wyf angen unrhyw gefnogaeth gan yr ochr yna o'r Siambr. [Chwerthin.]

Mae ganddo waith i'w wneud i berswadio amaethwyr yr ucheldir bod ei fwriadau ar hyd y ffordd yn glir yn nhermau diogelwch y diwydiant yn yr ucheldir. Rwyf hefyd yn diolch iddo am benodi'r gweithgor. Gallaf ei sicrhau y byddwn ni fel pwyllgor hefyd yn dilyn ei berfformiad ac ymateb y gweithgor, gan sicrhau y bydd y cwestiwn hwn yn dod i fwcwl ac y byddwn yn gallu cael sicrwydd hirdymor a fydd yn golygu bod y diwydiant yn yr ucheldir yn gallu goddef effeithiau anodd newid hinsawdd, oherwydd dyna sy'n bwysig i lawer ohonom.

He has some work to do to persuade upland farmers that his intentions are clear in terms of safeguarding the industry in upland areas. I also thank him for appointing the working group. I can give him an assurance that we as a committee will also be scrutinising his performance and the work of the working group, ensuring that this question will be resolved and that we can have a long-term assurance that will mean that the industry in the uplands can survive the difficult consequences of climate change, because that is what is important to very many of us.

14:59 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu y dylwn ddiolch ichi am eich geiriau, Dafydd. Mae'n bwysig ein bod yn ymateb i'r hyn sy'n digwydd heddiw a'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae hynny'n glir. Wrth ymateb i hynny, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y diwydiant yn ei gyfanrwydd yn bodoli ar sail bendant, sy'n gallu mynd â'r diwydiant ymlaen. Mae'r sector ŵyn wedi gweld tyfiant aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf, felly mae'n peri pryder i bawb o weld y diwydiant yn wynebu cymaint o ansicrwydd ar ôl dim ond blwyddyn o golli prisiau a blwyddyn o dywydd garw. Felly, pan fyddwn yn ymateb i hyn, rhaid inni sicrhau 'resilience' i'r sector a sicrhau dyfodol y sector; ni ddylem ymateb yn unig i'r hyn sy'n digwydd heddiw ac yfory, ond sicrhau nad ydym yn y sefyllfa hon y flwyddyn nesaf neu'r flwyddyn wedyn.

I think that I should thank you for your words, Dafydd. It is important that we respond to what has been happening over the past few weeks. That is clear. In responding to those things, it is important that we ensure that the industry as a whole exists on a secure footing, which can take the industry forward. The lamb sector has seen vast growth over the past few years, so it does cause some concern to everyone to see the industry facing so much uncertainty after only a year of decreasing prices and adverse weather. So, when we respond to this, we have to ensure resilience in the sector and safeguard the future of the sector; we should not just respond to what happens today and tomorrow, but ensure that we are not in this situation next year or the year after that.

15:00 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am eich datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for your statement today.

I would like to pay tribute to you for the energy that you have shown in recent weeks in travelling across Wales and meeting farmers. It would be fair to say, in agreement with Lord Elis-Thomas, that when I was present in Montgomeryshire, you were probably not wearing your listening wellies, as you have been more recently. [Laughter.] Clearly, you have raised your game in terms of your statement today, particularly in recognising the crisis and the support that you have made available to important farming charities to take forward that work.

Hoffwn dalu teyrnged i chi am yr egni yr ydych chi wedi ei ddangos yn yr wythnosau diwethaf wrth deithio ledled Cymru a chwrdd â ffermwyr. Byddai'n deg dweud, gan gytuno â'r Arglwydd Elis-Thomas, pan roeddwn i'n bresennol yn Sir Drefaldwyn, mae'n debyg nad oeddech yn gwisgo eich esgidiau glaw gwrando, fel rydych wedi ei wneud yn fwy diweddar. [Chwerthin.] Yn amlwg, rydych chi wedi gwella eich perfformiad o ran eich datganiad heddiw, yn enwedig wrth gydnabod yr argyfwng a'r gefnogaeth rydych chi wedi ei gwneud ar gael i elusennau ffermio pwysig i fwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw.

I ask you to give consideration, once again, to providing some additional support for the farmers who face major bills for the collection of fallen stock. Would it not be possible to revisit some of the underspend in the bovine TB budget? It is a matter of public record that there was a major amount allocated for that, which, we understand, has not gone forward. What are you prepared to do to address the potential crisis of ewe lamb replacement going forward into the autumn? This is not a one-year crisis; it could have a lasting effect on Welsh agriculture.

Gofynnaf i chi roi ystyriaeth, unwaith eto, i ddarparu rhywfaint o gymorth ychwanegol i ffermwyr sy'n wynebu biliau mawr ar gyfer casglu stoc wedi trigo. Oni fyddai'n bosibl i ailystyried rhywfaint o'r tanwariant yn y gyllideb TB mewn gwartheg? Mae'n fater o gofnod cyhoeddus y neilltuwyd swm mawr ar gyfer hynny, nad yw, yn ôl yr hyn rydym yn ei ddeall, wedi mynd yn ei flaen. Beth ydych chi'n barod i'w wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng posibl o ran ŵyn benyw cadw yn mynd ymlaen i'r hydref? Nid argyfwng un flwyddyn yw hwn; gallai gael effaith barhaol ar amaethyddiaeth yng Nghymru.

15:01

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I assume that that is what you call being damned with faint praise. In terms of where we are at the moment, I say to the Liberal Democrats that we have responded by providing a balanced and proportionate package of support, which has developed over the weeks as the situation has changed and developed. We have been constantly responding to that. We have approached the charitable sector to provide hardship help and support that might be necessary for some farmers and families. That is why we are providing £500,000 to the charitable sector, which will enable it to make those decisions and awards where it believes it is necessary, and will ensure that animals are fed and that we are addressing the animal welfare issues that might arise from these matters.

Rwy'n tybio mai dyna rydych chi'n ei alw'n lasganmoliaeth. O ran ein sefyllfa ar hyn o bryd, dywedaf wrth y Democratiaid Rhyddfrydol ein bod wedi ymateb trwy ddarparu pecyn cytbwys a chymesur o gefnogaeth, sydd wedi datblygu dros yr wythnosau wrth i'r sefyllfa newid a datblygu. Rydym wedi bod yn ymateb i hynny'n gyson. Rydym wedi cysylltu â'r sector elusennol i ddarparu cymorth a chefnogaeth caledi a allai fod yn angenrheidiol i rai ffermwyr a theuluoedd. Dyna pam rydym ni'n darparu £500,000 i'r sector elusennol, a fydd yn ei alluogi i wneud y penderfyniadau a'r dyfarniadau hynny lle mae'n credu eu bod yn angenrheidiol, a bydd yn sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu bwydo a'n bod yn mynd i'r afael â'r materion lles anifeiliaid a allai godi o'r materion hyn.

I do listen and I hear what you say about additional financial aid, and every time I hear you say this, Bill, I am reminded of your silence when I asked for your support in opposing further cuts to common agricultural policy pillar 1 payments.

Rwyf yn gwrando ac rwyf yn clywed yr hyn rydych chi'n ei ddweud am gymorth ariannol ychwanegol, a phob tro rwy'n eich clywed yn dweud hyn, Bill, rwy'n cael fy atgoffa o'ch distawrwydd pan ofynnais am eich cefnogaeth i wrthwynebu toriadau pellach i daliadau piler 1 y polisi amaethyddol cyffredin.

15:02

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, perhaps you should have a word with your colleagues in Westminster.

Weinidog, efallai y dylech chi gael gair gyda'ch cydweithwyr yn San Steffan.

I was very encouraged to see your recent statement's reference to meetings that you are having with the banks. I know that banks are expecting to receive calls and that there will be severe cash-flow difficulties, with which bringing forward the SFP will assist. Will you make sure that there is maximum publicity so that farmers are aware that banks are expecting their calls and that they understand the effects of this?

Roedd yn galonogol iawn gen i weld cyfeiriad eich datganiad diweddar at gyfarfodydd rydych chi'n eu cael gyda'r banciau. Rwy'n gwybod bod banciau yn disgwyl derbyn galwadau ac y bydd anawsterau llif arian difrifol, ac y bydd cyflwyno'r SFP o gymorth. A wnewch chi sicrhau cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl fel bod ffermwyr yn ymwybodol bod banciau yn disgwyl eu galwadau a'u bod yn deall effeithiau hyn?

An issue that has been raised with me is the question of extending the Glastir contract to compliance times, because of the infrastructure damage on farms. I am sure that you are aware of the number of sheds and fences that are down. In order to continue with basic farming operations, farmers will have to concentrate on repairing those items before the Glastir compliance.

Un mater a godwyd gyda mi yw'r cwestiwn o ymestyn y contract Glastir i amseroedd cydymffurfio, oherwydd y difrod i seilwaith ar ffermydd. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o nifer y siediau a ffensys sydd wedi dod i lawr. Er mwyn parhau â gweithrediadau ffermio sylfaenol, bydd yn rhaid i ffermwyr ganolbwyntio ar drwsio'r eitemau hynny cyn y cydymffurfiad Glastir.

Will you also update us on what assistance is being provided to help fallen stock collectors? I know that Clutton (Agricultural) Ltd has been working flat-out and turning up on farms at midnight to try to cope with the backlog. However, there are substantial operational difficulties. Perhaps you could update us on that.

A wnewch chi hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cymorth sy'n cael ei ddarparu i helpu casglwyr stoc wedi trigo? Gwn fod Clutton (Agricultural) Cyf wedi bod yn gweithio'n ddi-baid ac yn cyrraedd ffermydd am hanner nos i geisio ymdopi â'r ôl-groniad. Fodd bynnag, ceir anawsterau gweithredol sylweddol. Efallai y gallech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am hynny.

Could you—

A allech chi—

15:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. This is your fourth question. I am sorry, but I did ask Members to be concise.

Trefn. Hwn yw eich pedwerydd cwestiwn. Mae'n ddrwg gennyf, ond fe wnes i ofyn i'r Aelodau fod yn gryno.

15:04

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My final question is on contingency planning to see what lessons we can learn. Hopefully, there will not be a next time, but given that the weather caused the situation, there might be a next time.

Mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â chynllunio wrth gefn i weld pa wersi y gallwn ni eu dysgu. Gobeithio na fydd tro nesaf, ond o ystyried mai'r tywydd achosodd y sefyllfa, efallai y bydd tro nesaf.

15:04

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of contingency planning, we need to review this matter. We always learn lessons from the way in which we respond to any continuing or single event. We had snow last April and significant snow last March, and we had significant snow in the March before that. So, I think that we will see significant snow next spring, or perhaps the following spring. Therefore, we need to be prepared for these issues, and that is why I have asked Kevin Roberts to look at the issues of resilience on both an industry basis and a farm basis, and to look at how we can work with the industry to underpin that level of resilience.

O ran cynllunio wrth gefn, mae angen i ni adolygu'r mater hwn. Rydym bob amser yn dysgu gwersi o'r ffordd rydym yn ymateb i unrhyw ddigwyddiad parhaus neu unigol. Cawsom eira fis Ebrill diwethaf ac eira mawr fis Mawrth diwethaf, a chawsom eira mawr yn ystod y mis Mawrth cyn hynny. Felly, rwy'n credu y byddwn yn gweld eira sylweddol yn ystod y gwanwyn nesaf, neu'r gwanwyn canlynol efallai. Felly, mae angen i ni fod yn barod ar gyfer y materion hyn, a dyna pam rwyf wedi gofyn i Kevin Roberts ystyried y materion yn ymwneud â gwytnwch ar sail y diwydiant ac ar sail ffermydd, ac i ystyried sut y gallwn weithio gyda'r diwydiant i ddarparu sylfaen ar gyfer y lefel honno o wytnwch.

I will be speaking at a meeting with the banks, requesting that they react sympathetically to requests for support from individual farm businesses. Again, this is a matter that was brought to me by farmers whom I have spoken to while visiting farms over the last few weeks, and I have taken it on board and taken it further.

Byddaf yn siarad mewn cyfarfod gyda'r banciau, yn gofyn iddynt ymateb â chydymdeimlad i geisiadau am gymorth gan fusnesau fferm unigol. Unwaith eto, mae hwn yn fater y cefais fy hysbysu amdano gan ffermwyr y siaradais â nhw wrth ymweld â ffermydd yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, ac rwyf wedi gwrando ac wedi bwrw ymlaen â'r mater.

The issue of fallen stock collection has also been raised with me on-farm. We have had conversations with the National Fallen Stock Company, and the chief veterinary officer is leading on taking that matter forward. I will continue to keep this matter under review and scrutiny. I will continue to look at the response that we have put in place, at how that is being received by individual farm businesses and families and at a holistic approach to supporting individual businesses in their planning and their recovery from what has happened. The issue of Glastir has also been raised with me on-farm. I am considering that at present, and I am doing so in a positive way, looking at how we can ensure that the contracts that we have are viewed as flexibly as possible to ensure that people are not penalised because of what has happened over the last few weeks.

Codwyd y mater o gasglu stoc wedi trigo ar y ffermydd hefyd. Rydym wedi cael sgyrsiau gyda'r Cwmni Stoc Trig Cenedlaethol, ac mae'r prif swyddog milfeddygol yn arwain ar fwrw ymlaen â'r mater hwnnw. Byddaf yn parhau i adolygu a chraffu ar y mater hwn. Byddaf yn parhau i ystyried yr ymateb rydym ni wedi ei roi ar waith, sut y mae hynny'n cael ei dderbyn gan fusnesau fferm unigol a theuluoedd, a dull cyfannol o gynorthwyo busnesau unigol i gynllunio ac adfer ar ôl yr hyn sydd wedi digwydd. Codwyd mater Glastir gyda mi ar ffermydd hefyd. Rwy'n ystyried hynny ar hyn o bryd, ac rwy'n gwneud hynny mewn ffordd gadarnhaol, gan edrych ar sut y gallwn ni sicrhau bod y contractau sydd gennym yn cael eu hystyried mor hyblyg â phosibl er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu cosbi oherwydd yr hyn sydd wedi digwydd dros yr ychydig wythnosau diwethaf.

15:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally and, I know, succinctly, we have a supplementary question from Kirsty Williams.

Yn olaf ac, rwy'n gwybod, yn gryno, mae gennym gwestiwn atodol gan Kirsty Williams.

15:06

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister acknowledge that, in areas that did not see the significant snowfall and drifting that was experienced in north Wales and in Montgomeryshire, farmers have experienced significant losses also because of the weather and that those losses continue even now that the snow has gone? What steps is he taking to assess the impact on those other areas and can he comment on the availability of feed, because, even if you can afford to buy feed, feed companies are rationing supplies? What discussions has he had with feed merchants to ensure that enough feed is made available to stockmen?

A wnaiff y Gweinidog gydnabod bod ffermwyr mewn ardaloedd na chawsant yr eira a'r drifftio sylweddol a gafwyd yn y gogledd ac yn Sir Drefaldwyn, hefyd wedi dioddef colledion sylweddol oherwydd y tywydd a bod y colledion hynny yn parhau hyd yn oed nawr bod yr eira wedi mynd? Pa gamau y mae'n eu cymryd i asesu'r effaith ar yr ardaloedd eraill hynny ac a yw'n gallu cynnig sylwadau ar y bwyd anifeiliaid sydd ar gael, oherwydd, hyd yn oed os ydych chi'n gallu fforddio i brynu bwyd anifeiliaid, mae cwmnïau bwyd yn dogni cyflenwadau? Pa drafodaethau mae wedi eu cael gyda masnachwyr bwyd anifeiliaid i sicrhau bod digon o fwyd ar gael i ddynion stoc?

15:07

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member, who wrote to me at the outset of this severe weather episode to raise these matters with me, and I am grateful to her for that correspondence. The issue with feed has affected the whole of Wales rather than simply the areas that have been affected by the severe weather, which are in mainly upland areas. We have met with feed companies, and we had a round-table conversation on this matter last week. We are looking at how we can ensure that feed is available, particularly for farms that have significant difficulties in cash flow at present. The money that I am making available today to the Addington Fund—you will see that I am making £250,000 available— is partly in order to help to pay for that. Its purpose is to enable the fund to buy feed on behalf of farmers who are suffering these difficulties. Therefore, we are taking these matters forward. I am grateful to the Member, who wrote on behalf of her constituency in Breconshire at that time. If there are other issues that affect people outside of the area that has been affected by the heavy snowfalls, we are keeping them under some scrutiny and I would welcome further correspondence if the Member believed it necessary.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod, a ysgrifennodd ataf i ar ddechrau'r tywydd garw hwn i godi'r materion hyn gyda mi, ac rwy'n ddiolchgar iddi am yr ohebiaeth honno. Mae'r mater o fwyd anifeiliaid wedi effeithio ar Gymru gyfan yn hytrach na dim ond ar yr ardaloedd sydd wedi cael eu heffeithio gan y tywydd garw, sy'n ardaloedd ucheldir yn bennaf. Rydym wedi cyfarfod â chwmnïau bwyd anifeiliaid, a chawsom sgwrs wrth y bwrdd ar y mater hwn yr wythnos diwethaf. Rydym yn edrych bellach ar sut y gallwn sicrhau bod bwyd ar gael, yn enwedig ar gyfer ffermydd sy'n cael anawsterau sylweddol o ran llif arian ar hyn o bryd. Mae'r arian yr wyf yn ei wneud ar gael i Gronfa Addington heddiw—byddwch yn gweld fy mod yn gwneud £250,000 ar gael—yn rhannol er mwyn helpu i dalu am hynny. Ei ddiben yw galluogi'r gronfa i brynu bwyd ar ran y ffermwyr sydd yn dioddef yr anawsterau hyn. Felly, rydym yn bwrw ymlaen â'r materion hyn. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod, a ysgrifennodd ar ran ei hetholaeth yn Sir Frycheiniog ar yr adeg honno. Os oes unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar bobl y tu allan i'r ardal yr effeithiwyd arni gan yr eira trwm, rydym yn cadw llygad barcud arnyn nhw a byddwn yn croesawu gohebiaeth bellach pe byddai'r Aelod yn credu bod hynny'n angenrheidiol.

15:08 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** | **Business Statement and Announcement**

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have several changes to report to this week's business. The Minister for Economy, Science and Transport will shortly make a statement on Cardiff Airport, as a result of which, the planned oral statement on the Welsh language and economic development task and finish group will be issued as a written statement. The Public Bodies (Abolition of Administrative Justice and Tribunals Council) Order 2013 has been postponed. The Stage 1 debate on the Human Transplantation (Wales) Bill has been extended from 60 to 90 minutes. The Business Committee has agreed to schedule a motion to elect a member and Chair of the Health and Social Care Committee. Finally, as no questions have been tabled for answer by the Counsel General, timings for tomorrow's Plenary meeting have been adjusted accordingly. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gennyf nifer o newidiadau i fusnes yr wythnos hon i hysbysu amdanynt. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad am Faes Awyr Caerdydd cyn bo hir, ac o ganlyniad i hynny, caiff datganiad llafar arfaethedig grŵp gorchwyl a gorffen yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig. Mae Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013 wedi cael ei ohirio. Mae'r ddadl Cyfnod 1 am y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) wedi cael ei hymestyn o 60 i 90 munud. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i drefnu cynnig i ethol aelod a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn olaf, gan nad oes cwestiynau wedi cael eu cyflwyno i'w hateb gan y Cwnsler Cyffredinol, mae amseriadau Cyfarfod Llawn yfory wedi cael eu haddasu yn unol â hynny. Dangosir busnes y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

15:09

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Congratulations on your new role, Minister. I had not had an opportunity to congratulate you on that before. Securing investment into Wales, in particular into north Wales, is one of the key drivers of the economy, particularly in terms of providing jobs in north Wales. Could we have a statement from the Minister for business on the action taken by her to attract inward investment to north Wales? I know that there are companies that are interested in expanding and bringing jobs into the area, and it would be very helpful if there was a public statement from the Minister, stating what the aims of the Welsh Government are, and what support could be given by the Government to attract further jobs and employment to north Wales.

Llongyfarchiadau ar eich swyddogaeth newydd, Weinidog. Nid wyf wedi cael cyfle i'ch llongyfarch ar hynny o'r blaen. Mae sicrhau buddsoddiad yng Nghymru, yn enwedig yn y gogledd, yn un o'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno'r economi, yn enwedig o ran darparu swyddi yn y gogledd. A allem gael datganiad gan y Gweinidog busnes am y camau y mae hi wedi'u cymryd i ddenu mewnfuddsoddiad i'r gogledd? Gwn fod rhai cwmnïau sydd â diddordeb mewn ehangu a dod â swyddi i'r ardal, a byddai'n ddefnyddiol iawn cael datganiad cyhoeddus gan y Gweinidog, yn datgan beth yw amcanion Llywodraeth Cymru, a pha gefnogaeth y gallai'r Llywodraeth ei rhoi i ddenu rhagor o swyddi a chyflogaeth i'r gogledd.

15:10

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I thank the Member for her question and for her kind words. It is very good to see her back. The Minister has heard what she has said and has made several announcements, previously and recently, in relation to several initiatives that the Welsh Government is bringing forward, not just in north Wales but across the whole of Wales.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn ac am ei geiriau caredig. Mae'n dda iawn ei gweld yn ôl. Mae'r Gweinidog wedi clywed yr hyn a ddywedodd ac wedi gwneud nifer o gyhoeddiadau, yn flaenorol ac yn ddiweddar, am nifer o fentrau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno, nid yn unig yn y gogledd ond ar draws Cymru gyfan.

15:11

## Rebecca Evans [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Minister, a shocking report was published by Mencap during the recess that found that, in England, more than 1,200 people with learning disabilities die prematurely every year because they are not getting the right healthcare. I would welcome a statement from the Welsh Government on how it is working to ensure that people with learning disabilities in Wales do not face the same kinds of inequalities in healthcare provision.

Weinidog, cyhoeddwyd adroddiad syfrdanol gan Mencap yn ystod y toriad a ganfu fod dros 1,200 o bobl ag anableddau dysgu yn Lloegr yn marw cyn eu hamser bob blwyddyn oherwydd nad ydynt yn cael y gofal iechyd cywir. Byddwn yn croesawu datganiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae'n gweithio i sicrhau nad yw pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru yn wynebu'r un math o anghydraddoldebau o ran darpariaeth gofal iechyd.

15:11 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. I know that there have been concerns about patients with learning disabilities entering hospital and not having the correct treatment. I know that the Welsh Government has been looking at this for quite a number of years. Certainly, planned hospital visits are conducted, guidance has been drawn up and care pathways have been developed to ensure that these patients have the right treatment. When I was the Minister for health, I commissioned Mencap to develop and deliver an awareness campaign for health professionals and front-line support staff to treat patients with learning disabilities. There was also a really strong focus on ensuring that nurses had the most appropriate and suitable training for treating such patients.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Rwyf yn gwybod y bu pryderon ynglŷn â'r ffaith bod cleifion ag anableddau dysgu'n mynd i'r ysbyty ac yn cael triniaeth anghywir. Gwn fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn edrych ar hyn ers nifer o flynyddoedd. Yn sicr, cynhelir ymweliadau wedi'u cynllunio ag ysbytai, mae arweiniad wedi cael ei lunio ac mae llwybrau gofal wedi cael eu datblygu i sicrhau bod y cleifion hyn yn cael y driniaeth gywir. Pan oeddwn yn Weinidog iechyd, comisiynais Mencap i ddatblygu a chyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol a staff cymorth rheng flaen ynglŷn â thrin cleifion ag anableddau dysgu. Roedd ffocws cryf iawn hefyd ar sicrhau bod nyrsys yn derbyn yr hyfforddiant mwyaf priodol ac addas i drin cleifion o'r fath.

15:12 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, hoffwn ofyn ichi am ddatganiad gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am ddiwylliant ar y camau a gymerwyd ganddo i gynnal trafodaethau â chwmnïau sy'n cyhoeddi a gwerthu llyfrau ar ffurf electronig am eu cyfrifoldeb i gynnwys gwerthiant llyfrau Cymraeg. Mae miloedd o bobl wedi llofnodi deiseb yn ddiweddar i annog cwmni Amazon i gynnwys llyfrau Cymraeg ar y Kindle, gan fod Amazon wedi gwrthod gwneud hynny ar ran Y Lolfa, cwmni cyhoeddi sydd yn fy etholaeth i. A wnewch chi sicrhau bod amser yn eich amserlen inni gael clywed gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon am y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod llyfrau Cymraeg ar werth yn electronig ac yn fyd-eang, yn ogystal â bod ar werth ar ffurf clawr meddal yn y siop leol?

Minister, I would like to ask you for a statement from the Minister responsible for culture on the steps that he has taken to enter into discussions with companies that publish and sell books electronically regarding their responsibility to include the sale of Welsh books electronically. Thousands of people have recently signed a petition urging Amazon to include Welsh books on the Kindle, given that Amazon refused to do so on behalf of Y Lolfa—a publishing house in my constituency. Will you ensure that there is time in your schedule for us to hear from the Minister for Culture and Sport on the steps that he intends to take to ensure that Welsh books are sold electronically and globally, as well as in paperback form in local shops?

15:13 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I was aware of the campaign and I know that the Minister is also aware of it. He is not here now, but I will ensure that I have discussions with him in relation to that issue.

Ie, roeddwn yn ymwybodol o'r ymgyrch, a gwn fod y Gweinidog hefyd yn ymwybodol ohoni. Nid yw yma nawr, ond byddaf yn sicrhau fy mod yn cael trafodaethau gydag ef am y mater hwnnw.

15:13 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, is it possible to have a statement from the Minister for Housing and Regeneration in respect of the performance of local regeneration boards? Obviously, a new programme of regeneration was launched by his predecessor, and the regeneration boards have now been in action for several years. However, in many parts—particularly in the South Wales Central region, and Barry specifically—it has been brought to my attention that the outcomes are not what would have been desired in relation to the considerable sums of money that have been spent. Given that the Minister is new to his post, could I elicit a statement from him to see what his take is on their performance to date, and what he would like to see coming forward in respect of regeneration during his tenure as Minister?

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio am berfformiad byrddau adfywio lleol? Yn amlwg, cafodd rhaglen newydd o adfywio ei lansio gan ei ragflaenydd, ac mae'r byrddau adfywio wedi bod ar waith ers llawer o flynyddoedd erbyn hyn. Fodd bynnag, mewn llawer o fannau—yn enwedig yn rhanbarth Canol De Cymru, a'r Barri yn benodol—tynnwyd fy sylw at y ffaith na lwyddwyd i sicrhau'r canlyniadau y byddem wedi dymuno eu cael am y symiau sylweddol o arian a wariwyd. O ystyried bod y Gweinidog yn newydd i'w swydd, a gaf ofyn am ddatganiad ganddo i weld beth yw ei safbwynt am eu perfformiad hyd yn hyn, a'r hyn yr hoffai ei weld yn cael ei gyflwyno o ran adfywio yn ystod ei gyfnod fel Gweinidog?

15:14 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, the Minister has heard you, and I know that he is in the process of reviewing the regeneration boards. I am sure that he will bring a statement forward when appropriate.

Do, mae'r Gweinidog wedi eich clywed, a gwn ei fod wrthi'n adolygu'r byrddau adfywio. Rwyf yn siŵr y bydd yn cyflwyno datganiad pan fydd yn briodol.

15:14 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wish to request two statements from the Minister for Economy, Science and Transport. The first would address some of the issues that have been raised in the press recently with regard to the M4 and congestion around the Newport area. Is there to be an additional road? Are there to be improvements to the existing road? What consideration has been given to public transport in the area? How would that work with the proposed link with Cardiff bay around to the east of Cardiff and up to the M4 there? Secondly, I would like an update on the taskforce that has been investigating the integrated transport system for south Wales. I understand that the report was prepared about two weeks ago and that it was presented to the Minister. Could we have an idea of what the timescale for discussing that might be?

Hoffwn ofyn am ddau ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Byddai'r cyntaf yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd yn y wasg yn ddiweddar o ran yr M4 a'r tagfeydd o amgylch ardal Casnewydd. A oes bwriad i adeiladu ffordd ychwanegol? A fydd gwelliannau i'r ffordd bresennol? Pa ystyriaeth a roddwyd i drafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal? Sut y byddai hynny'n gweithio gyda'r cyswllt arfaethedig â bae Caerdydd o gwmpas at ddwyrain o Gaerdydd ac i fyny at yr M4 yno? Yn ail, hoffwn gael y wybodaeth ddiweddaraf am y tasglu sydd wedi bod yn ymchwilio i'r system drafnidiaeth integredig yn y de. Deallaf y cafodd yr adroddiad ei baratoi tua phythefnos yn ôl ac y cafodd ei gyflwyno i'r Gweinidog. A allem gael syniad o'r amserlen bosibl ar gyfer trafod hynny?

15:15 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Economy, Science and Transport has certainly been looking at these issues, as you have mentioned, and I know that she wants to make a statement to the Assembly before the summer.

Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn sicr wedi bod yn edrych ar y materion hyn, fel yr ydych wedi'i grybwyll, a gwn yr hoffai hi wneud datganiad i'r Cynulliad cyn yr haf.

15:15 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I again call for just two statements? Today, the Wales Neurological Alliance is holding its annual general meeting in Tŷ Hywel. The alliance, as you know—because I know that, in your previous role, you agreed to meet it every six months—comprises 35 different neurological charities of different sizes and specialisms. In light of the recent reshuffle, could we call for a Welsh Government statement on the long-standing neuroscience review and how, if at all, this might be affected by the change of roles among Ministers?

A gaf unwaith eto alw am ddim ond dau ddatganiad? Heddiw, mae Cynghrair Niwrolegol Cymru yn cynnal eu cyfarfod cyffredinol blynyddol yn Nhŷ Hywel. Mae'r gynghrair, fel y gwyddoch—oherwydd y gwn eich bod, yn eich rôl flaenorol, wedi cytuno i gyfarfod â hwy bob chwe mis—yn cynnwys 35 o wahanol elusennau niwrolegol o wahanol feintiau ac arbenigeddau. Yng ngoleuni'r ad-drefnu diweddar, a allem alw am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru am yr adolygiad niwrowyddoniaeth hirsefydlog ac am sut, os o gwbl, y gallai'r newid swyddogaethau ymhlith Gweinidogion effeithio ar hyn?

Secondly, and finally, I call for a statement in response to the WRVS older people's charity research report on older people and transport, which was published during the Assembly recess. The report found that many people aged over 75 feel trapped in their own homes through lack of transport, that older people are too often denied a voice on transport issues, and that Wales already faces an epidemic of loneliness among older people. It called for a representative older people's champion on the public transport users committee for Wales, to ensure that age-friendly considerations are at the heart of transport planning.

Yn ail, ac yn olaf, galwaf am ddatganiad i ymateb i adroddiad ymchwil yr elusen pobl hŷn, WRVS, ar bobl hŷn a thrafnidiaeth, a gyhoeddwyd yn ystod toriad y Cynulliad. Canfu'r adroddiad fod llawer o bobl dros 75 oed yn teimlo'n gaeth yn eu cartrefi oherwydd diffyg trafnidiaeth, bod pobl hŷn yn rhy aml heb fod â llais ym maes trafnidiaeth, a bod Cymru eisoes yn wynebu epidemig o unigrwydd ymhlith pobl hŷn. Roedd yn galw am eiriolwr i gynrychioli pobl hŷn ar bwyllgor defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus Cymru, er mwyn sicrhau bod ystyriaethau'n ymwneud ag oedran wrth wraidd cynllunio trafnidiaeth.

15:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to the neurological alliance, there has been no policy change, and I am sure that the Minister has heard what you have said. I am sure that he will welcome the opportunity to discuss issues with the alliance.

O ran y gynghrair niwrolegol, ni fu unrhyw newid polisi, ac rwyf yn siŵr bod y Gweinidog wedi clywed yr hyn yr ydych wedi'i ddweud. Rwyf yn siŵr y bydd yn croesawu'r cyfle i drafod materion gyda'r gynghrair.

In relation to older people and transport, I did see the press reports over the Easter recess, and I think that, certainly here in Wales, we are helping older people with our free concessionary travel scheme, which we have said is available for the whole of this Assembly term. However, I do think it important that we listen to older people when we are making our policies.

O ran pobl hŷn a thrafnidiaeth, gwelais yr adroddiadau yn y wasg dros doriad y Pasg, ac rwyf yn meddwl ein bod, yn sicr yma yng Nghymru, yn helpu pobl hŷn gyda'n cynllun teithio di-dâl, yr ydym wedi dweud y bydd ar gael am holl dymor y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, rwyf yn credu ei bod yn bwysig inni wrando ar bobl hŷn pan fyddwn yn llunio ein polisïau.

15:17 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, welcome to your post. I would request two statements today, one of them from the Minister for health on the current crisis in unscheduled care. We had comments over the Easter period, referred to during First Minister's questions, in that the College of Emergency Medicine made it quite clear that services are at the point of meltdown in Wales, and that lives are being put at risk in our accident and emergency departments as a result of the demand on them. So, could we have a statement on what the Government intends to do about that?

Weinidog, croeso i'ch swydd. Gofynnaf am ddau ddatganiad heddiw, ac un ohonynt gan y Gweinidog iechyd ynghylch yr argyfwng presennol mewn gofal heb ei drefnu. Cawsom sylwadau dros gyfnod y Pasg, y cyfeirwyd atynt yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, fod y Coleg Meddygaeth Frys wedi'i gwneud yn gwbl glir bod gwasanaethau ar fin chwalu yng Nghymru, a bod bywydau'n cael eu peryglu yn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys o ganlyniad i'r galw arnynt. Felly, a allem gael datganiad am yr hyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud am hynny?

Secondly, could we have a statement from the Minister for Finance? Obviously, the decision to purchase Cardiff Airport for a sum of over £50 million has been met with incredulity in some circles, particularly in the NHS, given that it was unplanned expenditure that the Government made available to purchase the airport. Yet, at the same time, we were told that there was no additional finance available for our national health service, which is facing the biggest crisis that it has experienced in its history as a result of your record-breaking cuts. So, could we have a statement from the Minister for Finance on how decisions are made when unplanned expenditure is proposed by any Cabinet member or, indeed, by the First Minister?

Yn ail, a gawn ddatganiad gan y Gweinidog Cyllid? Yn amlwg, mae'r penderfyniad i brynu Maes Awyr Caerdydd am swm o dros £50 miliwn wedi creu anghrediniaeth mewn rhai cylchoedd, yn arbennig yn y GIG, o ystyried mai gwariant heb ei gynllunio a ddarparwyd gan y Llywodraeth i brynu'r maes awyr. Ac eto, ar yr un pryd, dywedwyd wrthym nad oedd dim cyllid ychwanegol ar gael i'n gwasanaeth iechyd gwladol, sy'n wynebu'r argyfwng mwyaf y mae wedi'i brofi yn ei hanes o ganlyniad i'ch toriadau mwyaf erioed. Felly, a allem gael datganiad gan y Gweinidog Cyllid ynglŷn â sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud pan gynigir gwariant heb ei gynllunio gan unrhyw aelod o'r Cabinet neu, yn wir, gan y Prif Weinidog?

15:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to your request for a statement on unscheduled care, I know that the Minister for Health and Social Services wishes to do that in the very near future. In relation to Cardiff Airport, there will be a statement on the purchase of Cardiff Airport following this business statement.

O ran eich cais am ddatganiad am ofal heb ei drefnu, gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dymuno gwneud hynny yn y dyfodol agos iawn. O ran Maes Awyr Caerdydd, ceir datganiad am brynu Maes Awyr Caerdydd ar ôl y datganiad busnes hwn.

15:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister.

Diolch am hynny, Weinidog.

15:19

## Datganiad: Maes Awyr Caerdydd

## Statement: Cardiff Airport

Senedd.tv Fideo Video

**Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

The First Minister announced on 27 March that the Welsh Government, via a holding company, had acquired the shareholding of Cardiff Airport. In his written statement to Members that day, the First Minister explained that the timing of the announcement was dictated by the demands of the due diligence and legal process. The announcement was made at the earliest opportunity allowed by the commercial process and Members were informed immediately. However, the First Minister gave a clear commitment that I would make an oral statement to the Assembly immediately following recess.

Cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 27 Mawrth fod Llywodraeth Cymru, drwy gwmni daliannol, wedi caffael cyfranddaliad Maes Awyr Caerdydd. Yn ei ddatganiad ysgrifenedig i'r Aelodau y diwrnod hwnnw, eglurodd y Prif Weinidog fod amseriad y cyhoeddiad wedi'i bennu gan ofynion y broses gyfreithiol a diwydrwydd dyladwy. Cafodd y cyhoeddiad ei wneud ar y cyfle cyntaf a ganiatawyd gan y broses fasnachol a chafodd Aelodau wybod ar unwaith. Fodd bynnag, rhoddodd y Prif Weinidog ymrwymiad clir y byddwn yn gwneud datganiad llafar i'r Cynulliad yn syth ar ôl y toriad.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.19 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.19 p.m.*

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

The First Minister also gave a commitment that we would provide further detail of the due diligence process and the business case that has informed this decision. I wrote to Members on 12 April to state that we have now published, on our website, three underpinning documents. First is a report by Arup on the value and added value arising from the purchase of Cardiff international airport by the Welsh Government, second is a report by York Aviation on the economic impact of Cardiff Airport, and third is a report by M&G Barry Consulting Ltd on the strategic regional context. Members will understand that there is some information that we have not been able to release due to considerable commercial sensitivity. Nevertheless, we have endeavoured to put as much information into the public domain as possible, given the understandable interest. Our decision to acquire the assets and operations of the airport at a price of approximately £52 million was within the range of values that were acceptable to us and supported by the value-for-money advice that we received. We also determined that, for the airport to be successful in a highly competitive industry, it would be managed at arm's length from Government on a commercial basis. That is why we established a holding company to facilitate the purchase and manage our interests.

Rhoddodd y Prif Weinidog ymrwymiad hefyd y byddem yn darparu rhagor o fanylion am y broses diwydrwydd dyladwy a'r achos busnes sydd wedi rhoi sail i'r penderfyniad hwn. Ysgrifennais at yr Aelodau ar 12 Ebrill i ddatgan ein bod bellach wedi cyhoeddi, ar ein gwefan, dair dogfen a roddodd sail i'r penderfyniad. Adroddiad gan Arup am y gwerth a'r gwerth ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn sgil prynu maes awyr rhyngwladol Caerdydd yw'r gyntaf. Adroddiad gan York Aviation am effaith economaidd Maes Awyr Caerdydd yw'r ail. Adroddiad gan M & G Barry Consulting Ltd am y cyd-destun rhanbarthol strategol yw'r drydedd. Bydd yr Aelodau'n deall bod rhywfaint o wybodaeth nad ydym wedi gallu ei rhyddhau o ganlyniad i gryn sensitifrwydd masnachol. Serch hynny, rydym wedi ceisio sicrhau bod cymaint o wybodaeth ar gael yn gyhoeddus ag y bo modd, o ystyried y diddordeb dealladwy. Roedd ein penderfyniad i gaffael asedau a gweithrediadau'r maes awyr am bris o tua £52 miliwn o fewn amrediad y gwerthoedd a oedd yn dderbyniol inni ac fe'i cefnogir gan y cyngor a gawsom ynglŷn â gwerth am arian. Penderfynwyd hefyd y byddai'r maes awyr yn cael ei reoli ar hyd braich oddi wrth y Llywodraeth, ar sail fasnachol, er mwyn bod yn llwyddiannus mewn diwydiant cystadleuol iawn. Dyna pam yr ydym wedi sefydlu cwmni daliannol i hwyluso'r broses o brynu a rheoli ein buddiannau.

While we do not rule out future changes to the operational model, we are satisfied that we have the right structure in place, for now, to enable the airport to move forward with confidence. We have moved swiftly in this regard. We announced at the time that Lord Rowe-Beddoe would be chairman of the airport board, and he is now in discussions regarding the formation of his board. Also, the appointment of Jon Horne as chief executive has now been announced. Jon was the airport's managing director between 2001 and 2007 and has previously held senior positions at London City Airport and Sheffield City Airport. He returns to Cardiff Airport from being a partner in Airport Investment and Enterprise LLP. We believe that this combination of chairman and chief executive, with the guidance of an experienced board, will enable the turnaround in Wales's national airport that we all seek and, in doing so, will create a lasting economic impact.

Er nad ydym yn diystyru'r posibilrwydd y gellid newid y model gweithredol yn y dyfodol, rydym yn fodlon bod gennym y strwythur cywir ar waith, ar hyn o bryd, i alluogi'r maes awyr i symud ymlaen yn hyderus. Rydym wedi symud yn gyflym yn hyn o beth. Cyhoeddwyd ar y pryd mai'r Arglwydd Rowe-Beddoe fyddai cadeirydd bwrdd y maes awyr, ac mae ef yn awr mewn trafodaethau ynghylch ffurfio ei fwrdd. Hefyd, mae penodiad Jon Horne yn brif weithredwr wedi cael ei gyhoeddi bellach. Jon oedd rheolwr gyfarwyddwr y maes awyr rhwng 2001 a 2007 ac mae wedi dal swyddi uchel ym Maes Awyr Dinas Llundain a Maes Awyr Dinas Sheffield yn flaenorol. Mae'n dychwelyd i Faes Awyr Caerdydd ar ôl bod yn bartner yn Airport Investment and Enterprise LLP. Rydym yn credu y bydd y cyfuniad hwn o gadeirydd a phrif weithredwr, ac arweiniad gan fwrdd profiadol, yn ein galluogi i drawsnewid maes awyr cenedlaethol Cymru fel yr hoffem i gyd ei weld ac, wrth wneud hynny, yn creu effaith economaidd barhaol.

I was at the airport earlier today meeting staff, alongside the new chairman and chief executive. It is clear that there is a sense of optimism and a renewed sense of purpose. This is something that the chairman and his board will wish to harness quickly as they consider next steps. As the First Minister has made clear, we are committed to developing the airport as a major piece of economic infrastructure in Wales and developing high-quality services for passengers. I hope that Members will now look to the future and the opportunities that this important development brings.

Roeddwn yn y maes awyr yn gynharach heddiw i gyfarfod â staff, ochr yn ochr â'r cadeirydd a'r prif weithredwr newydd. Mae'n amlwg y ceir teimlad o optimistiaeth a theimlad newydd o bwrpas. Mae hyn yn rhywbeth y bydd y cadeirydd a'i fwrdd yn dymuno ei harneisio'n gyflym wrth iddynt ystyried y camau nesaf. Fel y mae'r Prif Weinidog wedi'i egluro, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r maes awyr fel darn pwysig o seilwaith economaidd yng Nghymru ac i ddatblygu gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer teithwyr. Gobeithio y bydd Aelodau nawr yn edrych at y dyfodol a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y datblygiad pwysig hwn.

15:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister has been admirably succinct and I hope that all other speakers will emulate that splendid example.

Mae'r Gweinidog wedi bod yn benigamp o gryno ac rwyf yn gobeithio y bydd yr holl siaradwyr eraill yn efelychu'r enghraifft wych honno.

15:22 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Presiding Officer, I take your point and will do my best.

Ddirprwy Lywydd, rwyf yn derbyn eich pwynt a gwnaf fy ngorau.

Minister, I am somewhat disappointed with today's statement. After the purchase went ahead, we were promised a clear rationale as to why the Government had to purchase the airport and evidence that we are getting value for money in the short and long term. That is not present in the Minister's statement today or in the supporting documents. I acknowledge that we come to this statement from opposing poles, as regards nationalising the airport, but having said that, you have now purchased the airport and time will tell whether it was a good investment.

Weinidog, rwyf braidd yn siomedig â datganiad heddiw. Ar ôl i'r prynu ddigwydd, cawsom addewid o resymeg glir ynghylch pam yr oedd rhaid i'r Llywodraeth brynu'r maes awyr a thystiolaeth ein bod yn cael gwerth am arian yn y tymor byr a'r tymor hir. Nid yw hynny i'w gael yn natganiad y Gweinidog heddiw nac yn y dogfennau ategol. Rwyf yn cydnabod ein bod yn edrych ar y datganiad o ddau begwn gwahanol, o ran gwladoli'r maes awyr, ond wedi dweud hynny, rydych nawr wedi prynu'r maes awyr ac amser a ddengys a oedd yn fuddsoddiad da.

I want to touch on your supporting documents before asking some direct questions. I will be as brief as I can. First, the York Aviation document stresses the importance of the airport to south Wales and the benefits of securing extra routes to New York and the middle east. That comes as no great surprise to us. A quick glance at the Record of Proceedings over the past few months and years will quickly evidence that we, on these benches, have been calling for that for some time. In frank terms, the document is extremely light. It mentions a most likely scenario of

Rwyf am grybwyll eich dogfennau ategol cyn gofyn rhai cwestiynau uniongyrchol. Byddaf mor gryno ag y gallaf. Yn gyntaf, mae dogfen York Aviation yn pwysleisio pwysigrwydd y maes awyr i'r de a manteision sicrhau llwybrau ychwanegol i Efrog Newydd ac i'r dwyrain canol. Nid yw hynny'n syndod mawr inni. Bydd cipolwg ar Gofnod y Trafodion dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf yn rhoi tystiolaeth yn ddigon cyflym ein bod ni, ar y meinciau hyn, wedi bod yn galw am hynny ers cryn amser. A bod yn onest, mae'r ddogfen yn hynod o ysgafn. Mae'n sôn am sefyllfa fwyaf tebygol, sef

'a significant level of growth and demand',

lefel sylweddol o dwf a galw,

qualified with a note that

Ond gyda nodyn yn dweud bod

'there is potential for this to include new direct connections'.

potensial i hyn gynnwys cysylltiadau uniongyrchol newydd.

I can tell you now that the latter will not happen without the former. Nobody cares who owns the airport in Wales; they care about what flights are on offer and that they offer good value for money.

Gallaf ddweud wrthych nawr na fydd yr olaf yn digwydd heb y cyntaf. Nid oes neb yn poeni pwy sy'n berchen ar y maes awyr yng Nghymru; yr hyn sy'n eu poeni yw pa deithiau sydd ar gael ac a ydynt yn cynnig gwerth da am arian.

Briefly, on the paper from Arup, the technical note, which is heavily redacted, goes no further to allay my fears. It also contains a lot of assumptions. It uses words such as 'likely'. Please do not misunderstand me: I would welcome wholeheartedly a massive increase in usage and availability of new routes, but you cannot expect this Chamber to believe that it is simply 'likely'. We need much more evidence and a clear business plan. On that note, Minister, will you publish all the considered scenarios and cost implications for the Welsh taxpayer if the 'least likely' and 'no change' options occur?

Yn fyr, ar y papur gan Arup, nid yw'r nodyn technegol, y gwnaed llawer iawn o waith golygu arno, yn gwneud dim i dawelu fy ofnau. Mae hefyd yn cynnwys llawer o dybiaethau. Mae'n defnyddio geiriau fel 'tebygol'. Peidiwch â'm camddeall, da chi: byddwn wrth fy modd yn gweld cynnydd enfawr yn lefel y defnydd a nifer y llwybrau newydd sydd ar gael, ond ni allwch ddisgwyl i'r Siambr hon gredu bod rhywbeth yn 'debygol'. Mae arnom angen llawer mwy o dystiolaeth a chynllun busnes clir. Ar y nodyn hwnnw, Weinidog, a wnewch gyhoeddi'r holl sefyllfaoedd posibl a ystyriwyd a'r goblygiadau cost i drethdalwyr Cymru os bydd yr opsiynau 'lleiaf tebygol' a 'dim newid' yn digwydd?

Last, but not least, setting the regional context is the M&G Barry Consulting report. It is a good document but, again, it goes nowhere near evidencing why your Government needed to purchase the airport. However, it mentions the metro and infrastructure, which are two of my favourite topics. What kind of infrastructure upgrades is your Government minded to bring forward to ease accessibility to your Government airport?

Yn olaf, ond nid yn lleiaf, mae adroddiad M&G Barry Consulting yn gosod y cyd-destun rhanbarthol. Mae'n ddogfen dda ond, unwaith eto, nid yw'n dod yn agos at roi tystiolaeth i ddynodi pam yr oedd angen i'ch Llywodraeth brynu'r maes awyr. Fodd bynnag, mae'n sôn am y metro a seilwaith, sef dau o'm hoff bynciau. Pa fath o uwchraddio seilwaith y mae eich Llywodraeth yn bwriadu eu dwyn ymlaen i'w gwneud yn haws cyrraedd maes awyr eich Llywodraeth?

In closing, I have a few specific questions on your statement. Why did you buy the airport but not support private ownership previously? How much finance is being set aside to fund the running of Cardiff Airport until it becomes a viable business in its own right? Is the purchase price of £52 million for Cardiff Airport simply the cost of purchase from the Spanish owners? How much is being paid to the board set up to run Cardiff Airport? Would the Government consider applying capital allowances to the airport to attract business—perhaps to renew its freight business?

I gloi, mae gennyf rai cwestiynau penodol am eich datganiad. Pam y gwnaethoch brynu'r maes awyr, a chithau heb gefnogi perchnogaeth breifat o'r blaen? Faint o gyllid sy'n cael ei neilltuo i ariannu'r gwaith o redeg Maes Awyr Caerdydd tan iddo ddod yn fusnes hyfyw ynddo'i hun? Ai dim ond cost prynu Maes Awyr Caerdydd gan y perchnogion o Sbaen yw'r £52 miliwn? Faint sy'n cael ei dalu i'r bwrdd a sefydlwyd i redeg Maes Awyr Caerdydd? A fyddai'r Llywodraeth yn ystyried gwneud cais am lwfansau cyfalaf i'r maes awyr i ddenu busnes—efallai i adnewyddu ei fusnes cludo nwyddau?

We acknowledge that there is a lot of work to be done to make Cardiff Airport a success, and we will not oppose for opposition's sake. We will work with the Government to achieve this, but there are great dangers ahead for the Welsh taxpayer, which have not been expressed at all in the supporting documents or in your statement today, Minister. Cardiff Airport has suffered too long from neglect and denial, so please let us not make the same mistake again.

Rydym yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud er mwyn gwneud Maes Awyr Caerdydd yn llwyddiant, ac nid ydym am wrthwynebu er mwyn gwrthwynebu'n unig. Byddwn yn cydweithio â'r Llywodraeth i gyflawni hyn, ond ceir peryglon mawr i drethdalwyr Cymru yn y dyfodol, ac ni chawsant eu mynegi o gwbl yn y dogfennau ategol nac yn eich datganiad heddiw, Weinidog. Mae Maes Awyr Caerdydd wedi dioddef ers rhy hir trwy gael ei esgeuluso a thrwy i'r ffeithiau gael eu gwadu, felly dewch inni beidio â gwneud yr un camgymeriad eto.

15:25 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that we made a mistake in buying the airport. We see it as key to the economy of Wales and, of course, there are enormous issues in terms of what the public wants from the airport. I have made it clear that we put out as much information as we could, given the commercial sensitivity of some issues.

Nid wyf yn meddwl ein bod yn gwneud camgymeriad wrth brynu'r maes awyr. Rydym yn credu ei fod yn allweddol i economi Cymru ac, wrth gwrs, ceir problemau enfawr o ran yr hyn y mae'r cyhoedd am ei gael o'r maes awyr. Rwyf wedi nodi'n eglur ein bod wedi rhyddhau cymaint o wybodaeth ag y gallem, o ystyried sensitifrwydd masnachol rhai materion.

For the airport to be successful it needed to be managed at arm's length from Government, on a commercial basis. I make that quite clear: it is on a commercial basis. This is why we have established a holding company to facilitate the purchase and manage our interest. I do not rule out any future changes to the operational model, but we are satisfied that we have the right arrangements in place. We will continue to engage with experts and operators on an ongoing basis to make sure that the operational model remains, but commercial and operational questions are now a matter for the airport directly. They will be matters for the chief executive and the board, led by David Rowe-Beddoe; he will decide on the membership and who will help and assist him. That is the best way for it to evolve: as a commercial operation that is at arm's length from Government.

Er mwyn i'r maes awyr fod yn llwyddiannus roedd angen ei reoli ar hyd braich oddi wrth y Llywodraeth, ar sail fasnachol. Rwyf yn gwneud hynny'n gwbl glir: mae ar sail fasnachol. Dyma pam yr ydym wedi sefydlu cwmni daliannol i hwyluso'r broses o brynu a rheoli ein buddiannau. Nid wyf yn diystyru'r posibilrwydd y gellid newid y model gweithredol yn y dyfodol, ond rydym yn fodlon bod y trefniadau cywir ar waith gennym. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n gyson ag arbenigwyr a gweithredwyr i wneud yn siŵr bod y model gweithredol yn aros fel y mae, ond mater i'r maes awyr yn uniongyrchol yw cwestiynau masnachol a gweithredol nawr. Byddant yn faterion i'r prif weithredwr a'r bwrdd, dan arweiniad David Rowe-Beddoe; ef fydd yn penderfynu ar yr aelodaeth, a phwy fydd yn ei helpu a'i gynorthwyo. Dyna'r ffordd orau iddo esblygu: fel gweithrediad masnachol sydd hyd braich oddi wrth y Llywodraeth.

In terms of the price and value for money, we paid £52 million on a cash-free, debt-free basis. We have also injected working capital up to the limit of the overall estimate of value. We have clear evidence to demonstrate that the airport represents excellent value for money. If you read the reports that I have sent out, our investment is long term. It is not about the short term. We expect a return on the investment to the public purse in the long term. We will not be subsidising the airport, and there is an excellent team in place that has responsibility for getting the airport back into profitability. This will not be done overnight; that is quite clear from the reports that have been done, such as the Arup report. Arup is an expert in assessing the value for money of large infrastructure projects, and it took into account the commercially sensitive information that we held and told us that the value of the enterprise to the Welsh Government was up to £55.3 million, and provided us with a benefit-to-cost ratio of 8:1. That is good in anybody's language. Our acquisition price was based on a whole range of factors considered under due diligence. I have not published the various KPMG reports, because they contain commercially sensitive information, and in the real world you have to be careful about these issues.

O ran y pris a gwerth am arian, talwyd £52 miliwn heb arian parod a heb ddyled. Rydym hefyd wedi buddsoddi cyfalaf gweithio hyd at derfyn yr amcangyfrif cyffredinol o werth. Mae gennym dystiolaeth glir i ddangos bod y maes awyr yn cynrychioli gwerth rhagorol am arian. Os darllenwch yr adroddiadau yr wyf wedi eu dosbarthu, mae ein buddsoddiad yn un hirdymor. Nid yw'n beth tymor byr. Rydym yn disgwyl elw ar y buddsoddiad i'r pwrs cyhoeddus yn y tymor hir. Ni fyddwn yn rhoi cymhorthdal i'r maes awyr, ac mae yno dîm rhagorol sy'n gyfrifol am wneud y maes awyr yn broffidiol unwaith eto. Ni wneir hyn dros nos; mae hynny'n ddigon clir o'r adroddiadau a gyflwynwyd, megis adroddiad Arup. Mae Arup yn arbenigwr ym maes asesu gwerth am arian prosiectau seilwaith mawr. Ystyriodd y wybodaeth fasnachol sensitif a oedd gennym a dywedodd wrthym fod y fenter yn werth hyd at £55.3 miliwn i Lywodraeth Cymru'n, a'i bod yn rhoi cymhareb budd a chost o 8:1 inni. Mae hynny'n dda sut bynnag yr edrychwch ar y peth. Roedd ein pris caffael yn seiliedig ar ystod eang o ffactorau a ystyriwyd o dan ddiwydrwydd dyladwy. Nid wyf wedi cyhoeddi'r gwahanol adroddiadau KPMG, oherwydd eu bod yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif, ac yn y byd go iawn rhaid ichi fod yn ofalus ynglŷn â'r materion hyn.

You alluded to the Barry document, which I thought was extremely useful in terms of the wider issues, and you are correct to look at the wider issues about the metro, and how it enhances that. I am sure that we will return to discussions on that when we deal with the transport issues; Eluned Parrott has asked for statements on this in the Chamber today. I am content that, with Lord Rowe-Beddoe at the helm, and the chief executive, we will ensure that the airport becomes viable and that more routes are attracted to the airport. I leave it to their expertise to take these issues forward. We have to recognise that airports and air services have a vital role to play in the development of the economy, and it is important to recognise that our action in purchasing the airport secured the airport and provided the opportunity to safeguard and generate over 3,000 jobs within the Welsh economy. I emphasise that figure: 3,000 jobs is the estimate that we have made.

Gwnaethoch gyfeiriad at ddogfen y Barri; roeddwn yn meddwl bod honno'n hynod ddefnyddiol o ran y materion ehangach, ac rydych yn gywir i edrych ar y materion ehangach am y metro, a sut y mae'n gwella hynny. Rwyf yn siŵr y byddwn yn dychwelyd at drafodaethau am hynny pan fyddwn yn ymdrin â'r materion cludiant; mae Eluned Parrott wedi gofyn am ddatganiadau am hyn yn y Siambr heddiw. Rwyf yn fodlon, gyda'r Arglwydd Rowe-Beddoe wrth y llyw, a'r prif weithredwr, y byddwn yn sicrhau bod y maes awyr yn dod yn hyfyw a bod mwy o lwybrau'n cael eu denu i'r maes awyr. Rwy'n gadael iddynt hwy a'u harbenigedd fwrw ymlaen â'r materion hyn. Rhaid inni gydnabod bod gan feysydd awyr a gwasanaethau awyr ran hanfodol i'w chwarae yn natblygiad yr economi, ac mae'n bwysig cydnabod bod ein gweithredoedd, wrth brynu'r maes awyr, wedi sicrhau'r maes awyr a rhoi cyfle i ddiogelu a chreu dros 3,000 o swyddi yn economi Cymru. Rwyf yn pwysleisio'r ffigur hwnnw: 3,000 o swyddi yw'r amcangyfrif yr ydym wedi'i wneud.

15:28

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n defnyddio'r maes awyr yn gyson ac mae'n sefyllfa drist iawn. Neithiwr, er enghraifft, pan oedd yr awyren o'r gogledd yn glanio, hi oedd yr unig awyren yn y maes awyr, ar wahân i'r awyrennau y gwneir gwaith cynnal a chadw arnynt, ac mae'r sefyllfa honno yn gyffredin iawn. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'r maes awyr yn gyflogwr pwysig, ac mae ganddo gyfraniad mawr i'w wneud i'r economi. Mae'r dasg sy'n wynebu'r Llywodraeth a'r bwrdd sydd wedi ei roi yn ei le, neu sy'n cael ei roi yn ei le, yn fawr iawn.

I regularly use the airport and it is a very sad situation. Last night, for example, when the aeroplane from north Wales landed, it was the only aeroplane there, apart from those undergoing maintenance work, and that is a very common occurrence. As the Minister said, the airport is an important employer, and it has a huge contribution to make to the economy. The task facing the Government and the board that has been put in place, or is being put in place, is huge.

Os mai'r dewis gerbron y Llywodraeth oedd prynu'r safle neu wynebu gweld y lle yn cau, yna prynu oedd y dewis cywir. Ond yn awr mae'r gwaith caled yn dechrau. Bydd angen amser i'r bwrdd a'r prif weithredwr roi cynllun yn ei le, a dechrau denu cwmnïau awyrennau a theithwyr o'r newydd. Ond mae gennyf rai cwestiynau. Credaf y dylai'r Llywodraeth ddod â strategaeth hedfan gerbron y Cynulliad a phobl Cymru, a fydd yn cyfiawnhau mewn gwirionedd y gwariant a'r buddsoddiad sylweddol hwn, a gwneud hynny o fewn chwe mis.

If the choice facing the Government was to buy the site or face seeing it close down, then buying it was the right decision. However, the hard work is only just starting. The board and the chief executive will need time to put a plan in place and to start attracting airlines and passengers anew. However, I have a few questions. I believe that the Government should bring an aviation strategy before the Assembly and the people of Wales, to justify the significant expenditure and investment, and to do that within six months.

Os ydych am ddenu teithiau awyr rhyngwladol, beth fydd polisi'r Llywodraeth ar y doll teithwyr awyr? Mae brawddeg yn un o'r adroddiadau sydd yn dweud:

If you are to attract international flights, what will the Government's policy be on air passenger duty? There is a sentence in one of the reports that says:

'There is untapped demand for services to places in the Middle East, some European cities and locations in the US & Canada'.

Mae galw heb ei fodloni am wasanaethau i leoedd yn y Dwyrain Canol, rhai dinasoedd Ewropeaidd a lleoliadau yn yr Unol Daleithiau a Chanada.

Ar ba sail mae'r gosodiad hwnnw yn cael ei wneud? Yn olaf, mae angen i ni yn y Cynulliad, a'r gymdeithas y tu allan, ddeall sut y bydd y maes awyr yn cynyddu nifer y teithwyr yn y blynyddoedd sydd i ddod, yn wyneb y ffaith, fel sy'n cael ei nodi yn un o'r adroddiadau, bod y 'catchment area' i'r maes awyr yn un gymharol gyfyng yn y cyd-destun Prydeinig a rhyngwladol. Rwy'n dymuno'r gorau i'r bwrdd a'r prif weithredwr yn y gwaith pwysig o adfer y maes awyr allweddol hwn, sy'n allweddol i economi de Cymru, a hefyd i enw da Cymru yn rhyngwladol.

On what basis was that statement made? Finally, we in the Assembly, and outwith the Assembly, need to understand how the airport will increase its number of passengers in coming years, in light of the fact, as noted in one of the reports, that the catchment area for the airport is relatively limited in the UK and international context. I do wish the board and the chief executive well with the important work of reviving this crucial airport; it is important to the south Wales economy and to the reputation of Wales at a global level.

15:31

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have to say that Alun Ffred Jones hit the nail on the head when he said that he was sad when he came in. That is what many people across Wales have said over the years when seeing the decline in the number of passengers at the airport and the lack of flights going out. It is sad. That sadness is something that a lot of people feel and that is why we have had a lot of support for our decision to purchase the airport.

Rhaid imi ddweud bod Alun Ffred Jones wedi taro'r hoelen ar ei phen wrth ddweud ei fod yn drist pan ddaeth i mewn. Dyna'r hyn y mae llawer o bobl ledled Cymru wedi'i ddweud dros y blynyddoedd wrth weld y dirywiad yn nifer y teithwyr yn y maes awyr a'r diffyg teithiau sy'n ei adael. Mae'n drist. Mae'r tristwch hwnnw'n rhywbeth y mae llawer o bobl yn ei deimlo a dyna pam yr ydym wedi cael llawer o gefnogaeth i'n penderfyniad i brynu'r maes awyr.

On your point about a strategy for aviation, I am not averse to looking at the issues around a strategy for aviation because it is not just about Cardiff Airport; it is about the use of other airports across Wales. When you go to see your Nordic or Scandinavian cousins, you see how things are made very accessible in small nations through the use of air. That is an important area to which I will give some consideration.

O ran eich pwynt am strategaeth i'r diwydiant awyrennau, nid wyf yn amharod i edrych ar y materion sy'n ymwneud â strategaeth i'r diwydiant awyrennau oherwydd nad Maes Awyr Caerdydd yn unig sydd dan sylw. Mae'n ymwneud â'r defnydd a wneir o feysydd awyr eraill ledled Cymru. Pan ewch i weld eich cefndryd Nordig neu Sgandinafaidd, gallwch weld sut y gwneir pethau'n llawer haws mewn gwledydd bach drwy ddefnyddio hedfan. Mae'n faes pwysig y rhoddaf rywfaint o ystyriaeth iddo.

These reports are not mine; they are independent reports and I do not necessarily know the thought process behind them. However, in terms of air passenger duty, the First Minister has made the Government's views clear that we would like to do something in that area and that might be quite important for us. We also need to look at an increase in activity at the airport, which is an issue for the board. You are absolutely right to say that the board and the chief executive have a hard task in looking at where they are going to attract these routes and where these routes will be going. If you look at Bristol, American Airlines is now flying there. There is everybody on our side, so it is very important that we look at where we can get the extra delivery and make the airport viable once again.

Nid fy adroddiadau i mo'r rhain; adroddiadau annibynnol ydynt ac nid wyf o reidrwydd yn gwybod beth yw'r broses feddwl y tu ôl iddynt. Fodd bynnag, o ran toll teithwyr awyr, mae'r Prif Weinidog wedi gwneud barn y Llywodraeth yn glir yr hoffem wneud rhywbeth yn y maes hwnnw ac y gallai hynny fod yn eithaf pwysig inni. Mae angen inni hefyd edrych ar gynnydd mewn gweithgarwch yn y maes awyr, sy'n fater i'r bwrdd. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod gan y bwrdd a'r prif weithredwr dasg anodd o edrych ar sut y maent yn mynd i ddenu'r llwybrau hyn ac i ble y bydd y llwybrau hyn yn mynd. Os edrychwch ar Fryste, mae American Airlines bellach yn hedfan yno. Mae pawb ar ein hochr ni, felly mae'n bwysig iawn ein bod yn ystyried o ble y mae modd cael y cyflenwad ychwanegol hwnnw a gwneud y maes awyr yn hyfyw unwaith eto.

I assure Members that I will keep them regularly updated on information that arises from the airport. The board will be taking the decisions around that, however, it is important that we have a strategy and I will look at one in that regard, as raised by Alun Ffred.

Rwyf yn sicrhau Aelodau y byddaf yn rhoi gwybod iddynt yn rheolaidd am wybodaeth sy'n deillio o'r maes awyr. Y bwrdd fydd yn gwneud y penderfyniadau am hynny, ond mae'n bwysig bod gennym strategaeth a byddaf yn edrych ar strategaeth ar gyfer hynny, fel y nododd Alun Ffred.

15:33

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the statement and the purchasing of Cardiff Airport. Minister, what European nation does not have an international airport? When will we see an increase in the number of flights in and out of Cardiff Airport? Will this purchase of Cardiff Airport ensure that it will return to being the successful airport that it was when run by the three county councils in Glamorgan?

Rwyf yn croesawu'r datganiad a'r ffaith y prynwyd Maes Awyr Caerdydd. Weinidog, pa wlad yn Ewrop sydd heb faes awyr rhyngwladol? Pryd y gwelwn gynnydd yn nifer y teithiau i mewn ac allan o Faes Awyr Caerdydd? A fydd y cam hwn i brynu Maes Awyr Caerdydd yn sicrhau y bydd unwaith eto'n llwyddiannus fel yr oedd pan gâi ei gynnal gan y tri chyngor sir ym Morgannwg?

15:33

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I say that it obviously was a very successful airport? It was also a successful airport when the now managing director ran it, so I have every confidence in his ability to pull these matters back. I am not an expert on which nations do not have airports, but I think that it is important for us as a nation that we have an international airport that is recognised and can be utilised. I do not want anybody to think that I am transferring my allegiance across parties, but I am quite a nationalist in some of these areas and I believe that an airport is an important emblem for Wales. I, like you, feel that there is an opportunity for us to get passengers back if we can get the flights. It is important that we look at the issues that attract passengers to airports. Airports have moved on considerably from when I first flew many years ago in terms of retail opportunities, the way in which parking is organised, and accessibility, and these are all issues that the airport board will have to look at.

A gaf ddweud ei fod yn amlwg yn faes awyr llwyddiannus iawn? Roedd hefyd yn faes awyr llwyddiannus pan oedd y rheolwr gyfarwyddwr newydd yn ei redeg, felly mae gennyf bob hyder yn ei allu i droi'r sefyllfa hon yn ôl. Nid wyf yn arbenigwr ar ba wledydd sydd heb feysydd awyr, ond rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig i ni fel gwlad bod gennym faes awyr rhyngwladol sy'n cael ei gydnabod ac y gellir ei ddefnyddio. Nid wyf am i neb feddwl fy mod yn trosglwyddo fy nheyrngarwch i blaid arall, ond rwyf yn gryn genedlaetholwr yn rhai o'r meysydd hyn ac rwyf yn credu bod maes awyr yn symbol pwysig i Gymru. Rwyf fi, fel chithau, yn teimlo bod cyfle inni gael teithwyr yn ôl os gallwn gael y teithiau. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar yr hyn sy'n denu teithwyr i feysydd awyr. Mae meysydd awyr wedi symud ymlaen yn sylweddol ers y tro cyntaf imi hedfan flynyddoedd lawer yn ôl, o ran cyfleoedd manwerthu, y ffordd y caiff parcio ei drefnu, a hygyrchedd, ac mae'r rhain i gyd yn faterion y bydd rhaid i fwrdd y maes awyr edrych arnynt.

15:34

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In answer to Mike Hedges's rhetorical question: Monaco. It is doing quite well economically.

I ateb cwestiwn rhethregol Mike Hedges: Monaco. Maent hwy'n gwneud yn eithaf da yn economaidd.

I thank the Minister for her statement today and for the reports that accompanied it, which are very interesting and helpful, although they are not in and of themselves a business case. The rights and wrongs of this are now in the past. It is now time for us to move on and to understand how we are going to improve the airport, and how we are going to breathe life into it.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw ac am yr adroddiadau a ddaeth gydag ef; maent yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol iawn, er nad ydynt yn achos busnes ynddynt eu hunain. Mae'r gwirionedd am hyn yn y gorffennol erbyn hyn. Mae nawr yn bryd inni symud ymlaen a deall sut yr ydym yn mynd i wella'r maes awyr, a sut yr ydym yn mynd i'w adfywio.

As you probably know, I live in this community. When I first moved to Rhoose, a decade or so ago, it was a sport for the young people living there to go to sit at the end of the runway and watch the aeroplanes fly over them, or to go to sit in the cafes and watch the aeroplanes take off. I used to do that with my own children. However, we do not do it now, because it is not much of an activity anymore, which is sad to see. I wish Lord Rowe-Beddoe and Jon Horne every success in their efforts to turn the airport around, and I also wish the Welsh Government every success.

Fel y gwyddoch, mwy na thebyg, rwyf yn byw yn y gymuned hon. Pan symudais i'r Rhws am y tro cyntaf, tua degawd yn ôl, roedd y bobl ifanc sy'n byw yno yn arfer mynd i eistedd ar ddiwedd y rhedfa a gwylio'r awyrennau'n hedfan drostynt, neu'n mynd i eistedd yn y caffis a gwylio'r awyrennau'n gadael. Roeddwn i'n arfer gwneud hynny gyda fy mhlant fy hun. Fodd bynnag, nid ydym yn gwneud hynny'n awr, gan nad oes llawer o weithgarwch erbyn hyn, sy'n beth trist. Dymunaf bob llwyddiant i'r Arglwydd Rowe-Beddoe a Jon Horne yn eu hymdrechion i weddnewid y maes awyr, ac rwyf hefyd yn dymuno pob llwyddiant i Lywodraeth Cymru.

In terms of the arm's length nature of the management, I understand the reasons why you have chosen that mechanism. However, do you hope that they will present an annual report to the Assembly for scrutiny purposes? Obviously, the danger with arm's length management is that there is a lack of scrutiny and a lack of democratic accountability, which we would want to avoid, of course. I welcome your undertaking to Alun Ffred that you will look into an aviation strategy, because that is incredibly important. It is not just about the number of aeroplanes, but where they are flying to, and what business they are bringing.

O ran natur hyd braich y rheoli, rwyf yn deall y rhesymau pam yr ydych wedi dewis y mecanwaith hwnnw. Fodd bynnag, a ydych yn gobeithio y byddant yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad at ddibenion craffu? Yn amlwg, y perygl gyda rheolaeth hyd braich yw bod diffyg craffu a diffyg atebolrwydd democrataidd; byddem yn awyddus i osgoi hynny, wrth gwrs. Croesawaf eich ymrwymiad i Alun Ffred y byddwch yn edrych ar strategaeth hedfan, oherwydd bod hynny'n hynod bwysig. Mae hyn yn ymwneud â mwy na nifer yr awyrennau; mae'n ymwneud â pha fusnes y maent yn ei roi inni ac i ble y maent yn hedfan.

I have a few more specific points. I notice that the Arup report discusses a range of dimensions to what it describes as value for money. What criteria will you be judging the success of your work against, because a range of different ones are looked at there? What consideration has there been of air freight and its potential role in our aviation strategy in the future? What now is the role of the Cardiff Airport task force in collaboration with the new management structure, and in collaboration with the Welsh Government—where does it sit in the new system?

Mae gennyf ambell bwynt mwy penodol. Sylwaf fod adroddiad Arup yn trafod amryw o ddimensiynau i'r hyn y mae'n ei ddisgrifio fel gwerth am arian. Pa feini prawf y byddwch chi'n eu defnyddio er mwyn barnu llwyddiant eich gwaith, gan fod amrywiaeth o rai gwahanol yn cael sylw yno? Pa ystyriaeth a roddwyd i gludo nwyddau a swyddogaeth bosibl hynny yn ein strategaeth hedfan yn y dyfodol? Beth nawr yw swyddogaeth tasglu Maes Awyr Caerdydd mewn cydweithrediad â'r strwythur rheoli newydd, ac mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cynulliad Cymru—beth yw ei ran yn y system newydd?

Looking specifically at the Mark Barry report, the idea of increasing the catchment and access to the airport is important. You will know that I have been calling for the Welsh Government to bring forward the direct bus link that has been in the national transport plan for some time. The safety measures on Five Mile Lane, which I believe were contingent, are now complete—that happened about a fortnight ago, I believe. Therefore, that would be one obvious measure whereby you could show people that there is a quality of service, and that is something that you can directly influence, without having to wait for massive investment in rail infrastructure as well.

Gan edrych yn benodol ar adroddiad Mark Barry, mae'r syniad o gynyddu dalgylch y maes awyr a mynediad iddo'n bwysig. Byddwch yn gwybod fy mod wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen y cyswllt bws uniongyrchol sydd wedi bod yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol ers peth amser. Credaf ei fod yn amodol ar y mesurau diogelwch ar Five Mile Lane, ac mae'r rhain bellach wedi'u cwblhau—digwyddodd hynny tua phythefnos yn ôl, credaf. Felly, byddai hynny'n un mesur amlwg lle gallech ddangos gwasanaeth o ansawdd i bobl, ac mae hynny'n rhywbeth y gallwch ddylanwadu arno'n uniongyrchol, heb orfod aros am fuddsoddiad enfawr mewn seilwaith rheilffyrdd hefyd.

On the rail infrastructure proposals in Mark Barry's report, lots of options are offered, but no answers, and no idea at the moment of timescales by which decisions might be made, and by which implementation might be expected. There are radical ideas about new terminals and new sites for the terminal, although that would not be the first move, of course. However, there are also issues around moving the railway station from Rhoose village, where it has a local and enthusiastic passenger base, to a location where it would not serve any local community. Therefore, there are potential conflicts between local connectivity, and the importance of transport as a social enabler, and its importance as an economic enabler. Could you comment on that?

O ran y cynigion seilwaith rheilffyrdd yn adroddiad Mark Barry, mae llawer o opsiynau'n cael eu cynnig, ond nid oes dim atebion, ac nid oes unrhyw syniad ar hyn o bryd o amserlen erbyn pryd y gellid gwneud penderfyniadau, ac erbyn pryd y gellid disgwyl gweithredu. Ceir syniadau radical am derfynellau newydd a safleoedd newydd ar gyfer y derfynell, er nad dyna fyddai'r cam cyntaf, wrth gwrs. Fodd bynnag, ceir materion hefyd yn ymwneud â symud yr orsaf reilffordd o bentref y Rhws, lle mae ganddi sylfaen o deithwyr lleol a brwdfrydig, i leoliad lle na fyddai'n gwasanaethu unrhyw gymuned leol. Felly, ceir gwrthdaro posibl rhwng cysylltedd lleol, a phwysigrwydd trafnidiaeth fel galluogwr cymdeithasol, a'i bwysigrwydd fel galluogwr economaidd. A allech roi sylwadau am hynny?

What assessment have you made of the relative costs of the proposals in Mark Barry's report? How might such investments avoid conflicting with state aid rules now that they are specifically for the airport? Finally, how dependent is the success of Cardiff Airport, in your view, on increasing the catchment by improving the transport infrastructure in the local area?

Pa asesiad yr ydych wedi'i gynnal ar gostau cymharol y cynigion yn adroddiad Mark Barry? Sut y gallai buddsoddiadau o'r fath osgoi gwrthdaro â rheolau cymorth gwladwriaethol, nawr eu bod yn benodol ar gyfer y maes awyr? Yn olaf, pa mor ddibynnol yw llwyddiant Maes Awyr Caerdydd, yn eich barn chi, ar gynyddu'r dalgylch drwy wella'r seilwaith trafnidiaeth yn yr ardal leol?

15:39 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that series of questions. On the Mark Barry report, we sought his advice because he is an expert in assessing the wider economic impacts of infrastructure projects. Some of his comments help the whole picture, but are not necessarily specifically relevant to some of the things that we might do around the airport. However, I found his report to be very useful. It helped us in terms of developing the programme for government, and its mandate to strengthen the conditions that are required to make this an economic success.

Diolch am y gyfres honno o gwestiynau. O ran adroddiad Mark Barry, gwnaethom geisio ei gyngor am ei fod yn arbenigwr ar asesu effeithiau economaidd ehangach prosiectau seilwaith. Mae rhai o'i sylwadau o gymorth i'r darlun cyfan, ond nid ydynt o reidrwydd yn benodol berthnasol i rai o'r pethau y gallem eu gwneud o amgylch y maes awyr. Fodd bynnag, rwyf yn teimlo bod ei adroddiad yn un defnyddiol iawn. Mae'n gymorth inni o ran datblygu rhaglen lywodraethu, a mandad i gryfhau'r amgylchiadau sydd eu hangen i wneud hyn yn llwyddiant economaidd.

You make a good point about how we will know what is going on in the board in terms of the relationship. I have been at the airport today, and I have discussed a number of issues around integration and around how we do things with the chairman, Lord Rowe-Beddoe. For instance, there is the issue of his involvement with the enterprise zone, because the airport is within an enterprise zone. There is also the question of how we deal with St Athan—that is a key issue for us in this discussion. Also, we have had an initial discussion about air freight, because it is sad when you see the air freight as it is, and Byron Davies alluded to that. We have to make more of air freight, but we have to look at where the market is and where it is viable to do it, and then make an effort in that regard. Therefore, that is one of the areas that we are clearly looking at.

Rydych yn gwneud pwynt da am sut y byddwn yn gwybod beth sy'n digwydd yn y bwrdd o ran y berthynas. Rwyf wedi bod yn y maes awyr heddiw, ac rwyf wedi trafod gyda'r cadeirydd, yr Arglwydd Rowe-Beddoe, nifer o faterion yn ymwneud ag integreiddio a sut yr ydym yn gwneud pethau. Er enghraifft, ceir ei gysylltiad â'r ardal fenter, oherwydd bod y maes awyr o fewn ardal fenter. Cwestiwn arall yw sut yr ydym yn delio â Sain Tathan—mae hynny'n fater allweddol inni yn y drafodaeth hon. Rydym hefyd wedi cael trafodaeth gychwynnol ynglŷn â chludo nwyddau, oherwydd ei bod yn drist gweld sefyllfa bresennol cludiant nwyddau yn yr awyr, a chyfeiriodd Byron Davies at hynny. Rhaid inni fanteisio mwy ar awyrennau i gludo nwyddau, ond rhaid inni edrych ar ble mae'r farchnad a ble mae'n ymarferol gwneud hynny, ac yna gwneud ymdrech briodol. Felly, mae hwnnw'n un o'r meysydd yr ydym yn amlwg yn edrych arnynt.

On the national transport plan, for which I now have responsibility, your points were well made in terms of the issues that we need to look at. However, we think that we can make it a success, even if we do not deal with transport issues, because if you look at the access to Cardiff now, it is better than the access to some other airports that people use. However, it is important that we recognise the airport as part of the wider issue for the city region, in terms of economic development.

O ran y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, sydd nawr yn gyfrifoldeb i mi, gwnaethoch bwyntiau da o ran y materion y mae angen inni edrych arnynt. Fodd bynnag, credwn y gallwn ei wneud yn llwyddiant, hyd yn oed os nad ydym yn ymdrin â materion trafnidiaeth. Os edrychwch ar fynediad i Gaerdydd heddiw, mae'n well na'r mynediad i rai meysydd awyr eraill y mae pobl yn eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y maes awyr fel rhan o'r ddinas-ranbarth ehangach, o ran datblygu economaidd.

On the rail issues, I am having discussions with Mark Barry about a range of issues that he has raised regarding infrastructure, and that will become clear when I report back to the Assembly on those particular issues.

O ran y rheilffyrdd, rwyf yn cael trafodaethau gyda Mark Barry am amrywiaeth o faterion y mae wedi'u codi ym maes seilwaith, a daw hynny'n eglur pan fyddaf yn cyflwyno adroddiad yn ôl i'r Cynulliad am y materion penodol hynny.

The Cardiff Airport task force is chaired by the First Minister and it has been undertaking some further work, and there is further work to do, probably in a wider context, on the Howard Davies review and what is going on there. We will need a lot of input. However, I am more than happy to report back to Members in due course about the relationship between all these bodies and how it pans out in the next few weeks as we get to grips with the airport scenario.

Mae tasglu Maes Awyr Caerdydd yn cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog ac mae wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith ychwanegol. Mae mwy o waith i'w wneud o hyd, mewn cyd-destun ehangach yn ôl pob tebyg, ar adolygiad Howard Davies a'r hyn sy'n digwydd yn hynny o beth. Bydd angen llawer o fewnbwn arnom. Fodd bynnag, rwyf yn ddigon bodlon rhoi adroddiad i'r Aelodau maes o law am y berthynas rhwng yr holl gyrff hyn a sut mae pethau'n datblygu yn ystod yr wythnosau nesaf, wrth inni fynd i'r afael â sefyllfa'r maes awyr.

15:41 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I very much welcome not only your statement, but the helpful supportive documents that you provided, which gave a lot of background information. I also express my absolute incredulity at the ongoing lack of vision and commitment that appear to come from the opposition on this particular issue, bearing in mind the importance of the airport economically and in respect of a whole number of jobs. Many people in my constituency work in airport-related businesses. For the first time, in all of the debates that we have had on the airport, we are now talking about the future and moving forward, whereas in the past it was dismal and about how bad things were. It is exciting—but not for the faint hearted—that we are now beginning to talk about a real future. Minister, how do you envisage the development of links with bodies such as the South East Wales Transport Alliance and so on, in respect of the development of a broader national strategy?

Weinidog, rwyf yn croesawu'n fawr eich datganiad, ond hefyd y dogfennau cefnogol buddiol a ddarparwyd, a roddodd lawer o wybodaeth gefndir. Hoffwn hefyd fynegi fy anghrediniaeth lwyr am ddiffyg gweledigaeth ac ymrwymiad parhaus yr wrthblaid ar y mater arbennig hwn, gan gofio pwysigrwydd y maes awyr yn economaidd ac o ran nifer y swyddi sydd dan sylw. Mae llawer o bobl yn fy etholaeth i yn gweithio mewn busnesau sy'n gysylltiedig â'r maes awyr. Am y tro cyntaf, ym mhob un o'r dadleuon yr ydym wedi eu cael ar y maes awyr, rydym nawr yn siarad am y dyfodol a symud ymlaen; yn y gorffennol roedd yn ddigalon ac roeddem yn sôn am ba mor wael yr oedd pethau. Mae'n gyffrous—ond nid yn rhywbeth i'r gwan galon—ein bod nawr yn dechrau sôn am ddyfodol go iawn. Weinidog, sut yr ydych yn rhagweld y bydd cysylltiadau'n datblygu â chyrff megis Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ac yn y blaen, o ran y gwaith o ddatblygu strategaeth genedlaethol ehangach?

15:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In terms of a broader national strategy, that is one of the issues that I will be looking at in the context of the national transport plan. I am currently looking at the national transport plan, because I think that it is important that I do so, in light of budgetary constraints and how we need to prioritise, and I will be reporting back. However, I am aware of the interest that individuals have in making this right, in terms of how we connect rail and bus services and how we get the passenger flow. This is an important issue. We are having a large amount of co-operation from various individuals in developing these plans.

O ran strategaeth genedlaethol ehangach, dyna un o'r materion y byddaf yn edrych arno yng nghyd-destun y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Rwyf yn edrych ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol ar hyn o bryd, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig imi wneud hynny, yn wyneb cyfyngiadau cyllidebol a sut y mae angen inni flaenoriaethu, a byddaf yn eich hysbysu ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol o'r diddordeb sydd gan unigolion mewn gwneud hyn yn iawn, o ran sut yr ydym yn cysylltu gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd a sut yr ydym yn sicrhau'r llif teithwyr. Mae hwn yn fater pwysig. Mae llawer iawn o wahanol unigolion yn cydweithredu wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn.

15:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the statement from the Minister this afternoon. I fundamentally disagree with the way the Government went about purchasing the airport. I believe passionately that Wales needs an international airport and that Cardiff Airport, with the right management, has a bright future.

Rwyf yn croesawu'r datganiad gan y Gweinidog brynhawn heddiw. Rwyf yn anghytuno'n sylfaenol â'r ffordd y prynodd y Llywodraeth y maes awyr. Credaf yn gryf fod angen maes awyr rhyngwladol ar Gymru, a bod gan Faes Awyr Caerdydd ddyfodol disglair os caiff ei reoli'n briodol.

There are questions on two issues that I wish to put to the Minister. First, given that the Government now owns a controlling stake in the airport, what are the projections for capital expenditure at the airport and the surrounding area of transport that will fall at the Welsh Government's door? I am sure that some modelling of this must have been made so that we can know, over the next three to four years, what exactly the liability will be for the Welsh Government. If the Minister is unable to provide those figures in response to the question, will she publish the modelling work that has been done around that? Secondly, in response to a question that Byron Davies put, will there be a formal application to the Treasury for capital allowance relief for the airport and the surrounding enterprise zone that falls in the Vale of Glamorgan to attract, as the Minister recognised, vital business interest in the airport, such as the freight transport side, to grow the capacity that exists at Cardiff Airport at the moment?

Hoffwn ofyn cwestiynau i'r Gweinidog am ddau fater. Yn gyntaf, gan fod y Llywodraeth bellach yn berchen cyfran fwyafrifol yn y maes awyr, beth yw'r rhagolygon ar gyfer gwariant cyfalaf yn y maes awyr a'r maes trafnidiaeth cysylltiedig y bydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdanynt? Mae'n rhaid gennyf fod rhywfaint o waith modelu wedi'i wneud yn hyn o beth fel y gallwn wybod, dros y tair neu bedair blynedd nesaf, beth yn union fydd y rhwymedigaeth i Lywodraeth Cymru. Os na all y Gweinidog ddarparu'r ffigurau hynny mewn ymateb i'r cwestiwn, a wnaiff gyhoeddi'r gwaith modelu sydd wedi'i wneud ar hynny? Yn ail, i ymateb i gwestiwn gan Byron Davies, a fydd cais ffurfiol yn cael ei wneud i'r Trysorlys am lwfans cyfalaf i'r maes awyr a'r ardal fenter gyfagos ym Mro Morgannwg i ddenu diddordeb busnes hanfodol yn y maes awyr, fel y cydnabu'r Gweinidog, megis yr ochr cludo nwyddau, i ddatblygu'r capasiti sy'n bodoli ym Maes Awyr Caerdydd ar hyn o bryd?

15:44 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We obviously wish to grow capacity at Cardiff Airport, and I will take your comments today to mean that you welcome Lord Rowe-Beddoe and Jon Horne, and that you do want it to be a success, not only for Cardiff, but for Wales, as an international airport. What Mick Antoniw indicated when he contributed was that we are actually talking about the future now. That is important in terms of the airport. Obviously, the plans will be drawn up by the board on how it will take matters forward. I have to be cognisant of everything that we have to do. If anybody were to suggest state aid, for example, I have Bristol looking over my shoulder with eager anticipation as to any decisions I make in that regard. On capital allowances, I have explained the position previously when we discussed capital allowances in relation to that enterprise zone.

Rydym wrth gwrs yn awyddus i gynyddu capasiti ym Maes Awyr Caerdydd, ac ystyriaf fod eich sylwadau heddiw'n golygu eich bod yn croesawu'r Arglwydd Rowe-Beddoe a Jon Horne, a'ch bod am iddo fod yn llwyddiant, nid yn unig i Gaerdydd, ond i Gymru, fel maes awyr rhyngwladol. Yr hyn a nododd Mick Antoniw yn ei gyfraniad oedd ein bod yn siarad mewn gwirionedd am y dyfodol nawr. Mae hynny'n bwysig o ran y maes awyr. Yn amlwg, y bwrdd fydd yn paratoi'r cynlluniau o ran sut i symud ymlaen. Rhaid imi fod yn ymwybodol o bopeth y mae'n rhaid inni ei wneud. Pe bai unrhyw un yn awgrymu cymorth gwladwriaethol, er enghraifft, bydd Bryste yn edrych dros fy ysgwydd yn eiddgar i weld unrhyw benderfyniadau a wnaf yn hynny o beth. O ran lwfansau cyfalaf, rwyf wedi egluro'r sefyllfa eisoes wrth inni drafod lwfansau cyfalaf mewn perthynas â'r ardal fenter honno.

15:45 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Although, on the face of it, this is a south Wales issue, the First Minister did say that this would benefit all of Wales, and that has generated widespread comment in north Wales in the media and in my mailbox, and no doubt those of other Members. Therefore, I wish to ask you a couple of questions that have been put to me. First, given the First Minister's statement that this would benefit the whole of Wales, please be good enough to ask how an airport in Cardiff can possibly be of advantage to north Wales. Secondly, how much finance is being set aside to pay the board and to fund the running of Cardiff Airport until it becomes a viable business in its own right, given that the NHS in north Wales is facing cuts?

Er mai mater i'r de yw hwn, ar yr wyneb, dywedodd y Prif Weinidog y byddai hyn o fudd i Gymru gyfan, ac mae hynny wedi cynhyrchu llawer o sylwadau yn y gogledd, yn y cyfryngau ac yn fy mlwch post, ac yn rhai Aelodau eraill mae'n siŵr. Felly, hoffwn ofyn ichi ychydig o gwestiynau sydd wedi eu gofyn i mi. Yn gyntaf, o ystyried datganiad y Prif Weinidog y byddai hyn o fudd i Gymru gyfan, a fyddech cystal â gofyn sut y mae'n bosibl i faes awyr yng Nghaerdydd fod o fantais i'r gogledd. Yn ail, faint o gyllid sy'n cael ei neilltuo i dalu'r bwrdd ac i ariannu'r gwaith o redeg Maes Awyr Caerdydd tan iddo ddod yn fusnes hyfyw ynddo'i hun, o ystyried bod y GIG yn y gogledd yn wynebu toriadau?

15:45 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will not be subsidising the airport; I have made that quite clear all along. I understand that there will be differing views in the Chamber and across Wales. There will be issues raised in north Wales because this is a south Wales asset. I accept all of that. However, can we, for once, today look to the future, wish the airport management every success and make sure that this starts to benefit the economy of Wales and recognise that this is an opportunity for us? I think that it is good to see Government intervention on this, because, at the end of the day, what would have happened had we not intervened?

Ni fyddwn yn rhoi cymhorthdal i'r maes awyr; rwyf wedi gwneud hynny'n ddigon clir o'r dechrau. Rwyf yn deall y ceir gwahanol safbwyntiau yn y Siambr a ledled Cymru. Caiff cwestiynau eu codi yn y gogledd gan mai yn y de y mae'r ased. Rwyf yn derbyn hynny i gyd. Fodd bynnag, a gawn ni, am unwaith, heddiw edrych i'r dyfodol, dymuno pob llwyddiant i reolwyr y maes awyr a gwneud yn siŵr bod hyn yn dechrau rhoi budd i economi Cymru a chydnabod bod hwn yn gyfle inni? Rwyf yn meddwl ei bod yn braf gweld ymyrraeth gan y Llywodraeth ar hyn, oherwydd, ar ddiwedd y dydd, beth fyddai wedi digwydd pe na baem wedi ymyrryd?

15:46

## Datganiad: Gyrfa Cymru

## Statement: Careers Wales

Senedd.tv Fideo Video

**Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

In Wales, we have an all-age, bilingual careers information advice and guidance service. In 2012-13, we moved from delivery of this service through six regionally based Careers Wales companies to a single national contract with Career Choices Dewis Gyrfa, an umbrella organisation trading as Careers Wales. This move to a single unified structure delivered a commitment made in 2010, following recommendations received through an independent review, 'Careers Wales: A Review in an International Perspective', and 'Future ambitions: Developing careers services in Wales'.

Yng Nghymru, mae gennym wasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd dwyieithog i bob oedran. Yn 2012-13, newidwyd o gyflenwi'r gwasanaeth hwn drwy chwe chwmni Gyrfa Cymru rhanbarthol i un contract cenedlaethol gyda Career Choices Dewis Gyrfa, sefydliad ymbarél sy'n masnachu fel Gyrfa Cymru. Mae'r symudiad hwn i un strwythur unedig yn cyflawni ymrwymiad a wnaethpwyd yn 2010, yn dilyn argymhellion a dderbyniwyd drwy adolygiad annibynnol, 'Gyrfa Cymru: Adolygiad o Safbwynt Rhyngwladol', ac 'Uchelgeisiau i'r dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru'.

I am pleased to announce that, following the completion of all necessary legal and financial due-diligence, the transfer of CCDG to become a wholly-owned subsidiary of the Welsh Government took effect on 1 April this year. I welcome the fact that Careers Wales now enters into a closer relationship with the Government and would like to express my gratitude to the chair, board and senior staff of CCDG for their leadership, support and co-operation during this unprecedented period of change and particularly to all the Careers Wales staff who have continued to deliver effective careers services during this time.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi, ar ôl cwblhau'r holl waith diwydrwydd dyledus cyfreithiol ac ariannol gofynnol, bod CCDG wedi trosglwyddo i fod yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill eleni. Croesawaf y ffaith bod Gyrfa Cymru nawr yn sefydlu perthynas agosach â'r Llywodraeth a hoffwn fynegi fy niolch i gadeirydd, bwrdd a staff uwch CCDG am eu harweiniad, eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y cyfnod hwn o newid digyffelyb ac yn arbennig i holl staff Gyrfa Cymru sydd wedi parhau i ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd effeithiol yn ystod y cyfnod hwn.

The new remit and business plan reflect my vision for a refreshed and revitalised careers service, building on the recommendations in 'Future ambitions'. Rather than continuing to push the traditional, but often criticised, one-size-fits-all model of a single face-to-face guidance interview, the new remit asks Careers Wales to focus on delivering a more personalised, differentiated offer, combining high-quality universal services via online and telephone-based routes with more focused engagement, including face-to-face guidance sessions, where such services can genuinely add the greatest value. Reflecting new delivery models, the future success of the service will be judged on outcomes, including the contribution made to increasing the number of young people engaged in education, employment or training.

Mae'r cylch gwaith a'r cynllun busnes newydd yn adlewyrchu fy ngweledigaeth o wasanaeth gyrfaoedd wedi'i adnewyddu a'i adfywio, gan adeiladu ar yr argymhellion yn 'Uchelgeisiau i'r dyfodol'. Yn hytrach na pharhau i wthio'r model traddodiadol, sy'n aml yn cael ei feirniadu, o un cyfweliad arweiniad wyneb yn wyneb sy'n addas i bawb, mae'r cylch gwaith newydd yn gofyn i Gyrfa Cymru ganolbwyntio ar gyflwyno cynnig amrywiol, mwy personol, gan gyfuno gwasanaethau cyffredinol o ansawdd uchel ar-lein a thros y ffôn gydag ymgysylltiad mwy penodol, gan gynnwys sesiynau arweiniad wyneb yn wyneb, lle y gall gwasanaethau o'r fath ychwanegu'r gwerth mwyaf go iawn. I adlewyrchu'r modelau cyflenwi newydd, caiff llwyddiant y gwasanaeth yn y dyfodol ei farnu yn ôl canlyniadau, gan gynnwys y cyfraniad a wneir at gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Webchat and other e-mail services are being introduced to help to connect with clients in ways that make sense to them, using clients' preferred method of communication. Moreover, a single free telephone number is now available to anyone who wants to seek help and support. Later this year, Careers Wales will be bringing online a new local area prospectus and electronic application process service available to local authorities and providers across Wales. Integrating these services as part of the CareersWales.com offer creates a powerful tool combining benefits both for young people as they seek to plan and make course choices, and also for providers who will be able to use the information gathered to better analyse the match between learner aspirations and course availability.

Mae sgwrsio ar y we a gwasanaethau e-bost eraill yn cael eu cyflwyno i helpu i gysylltu â chleientiaid mewn ffyrdd sy'n gwneud synnwyr iddynt, gan ddefnyddio dull cyfathrebu o ddewis y cleientiaid. Ar ben hynny, mae un rhif ffôn di-dâl nawr ar gael i unrhyw un sydd am geisio cymorth a chefnogaeth. Yn ddiweddarach eleni, bydd Gyrfa Cymru yn cyflwyno prosbectws ardal leol ar-lein newydd, a gwasanaeth prosesu ceisiadau electronig a fydd ar gael i awdurdodau lleol a darparwyr ledled Cymru. Trwy integreiddio'r gwasanaethau hyn fel rhan o gynnig CareersWales.com, gellir creu arf pwerus sy'n cyfuno buddion i bobl ifanc wrth iddynt geisio cynllunio a gwneud dewisiadau am gyrsiau, a hefyd i ddarparwyr a fydd yn gallu defnyddio'r wybodaeth a gesglir i ddadansoddi'n well sut mae dyheadau dysgwyr yn cyd-fynd â'r cyrsiau sydd ar gael.

The refreshed CareersWales.com service is an expanding resource, allowing people of all ages to access high-quality impartial information on job requirements and labour market intelligence, as well as real-time information on training courses and jobs. Careers Wales also has a key role in promoting work-based learning and apprenticeship opportunities as an alternative to further or higher education.

Mae'r gwasanaeth CareersWales.com ar ei newydd wedd yn adnodd sy'n ehangu, a bydd yn galluogi pobl o bob oed i gael gafael ar wybodaeth ddiduedd o safon uchel am ofynion swyddi a'r farchnad lafur, yn ogystal â gwybodaeth amser real am gyrsiau hyfforddiant a swyddi. Mae gan Gyrfa Cymru rôl allweddol hefyd wrth hyrwyddo dysgu seiliedig ar waith a chyfleoedd prentisiaeth fel dewis arall yn lle addysg bellach neu uwch.

The work of Careers Wales sits within the context of a broader careers family. The report 'Future ambitions' included a recommendation that a Wales strategic forum for career development be established to support the development of the careers family approach. In direct response to this recommendation, I am pleased to announce that this forum, chaired by me, will be convened before the summer. Issues for immediate consideration will include how organisations work collectively to improve and develop career management skills, and the targeted support needed for those at risk of disengagement or unemployment when they leave school.

Mae gwaith Gyrfa Cymru'n bodoli o fewn cyd-destun teulu gyrfaoedd ehangach. Roedd yr adroddiad 'Uchelgeisiau i'r dyfodol' yn cynnwys argymhelliad i sefydlu fforwm strategol ar gyfer datblygiad gyrfa ledled Cymru, i gefnogi datblygiad y dull teulu gyrfaoedd. Fel ymateb uniongyrchol i'r argymhelliad hwn, rwyf yn falch o gyhoeddi y caiff y fforwm hwn, dan fy nghadeiryddiaeth i, ei gynnull cyn yr haf. Bydd materion i'w hystyried ar unwaith yn cynnwys sut y mae sefydliadau'n cydweithio i wella a datblygu sgiliau rheoli gyrfa, a'r cymorth wedi'i dargedu sydd ei angen ar gyfer y rheini sydd mewn perygl o ymddieithrio neu ddod yn ddi-waith pan fyddant yn gadael yr ysgol.

As part of the careers family, schools have a critical role to play in helping young people to develop career planning skills and in providing opportunities for experiences of the world of work through the delivery of the careers and world of work curriculum. Giving young people the opportunity to gain experience of the world of work is important in terms of motivation and in shaping their expectations.

Fel rhan o'r teulu gyrfaoedd, mae gan ysgolion swyddogaeth hollbwysig o ran helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau cynllunio gyrfa a darparu cyfleoedd iddynt gael profiad o fyd gwaith drwy gyflwyno'r cwricwlwm gyrfaoedd a byd gwaith. Mae'n bwysig rhoi cyfle i bobl ifanc gael profiad o fyd gwaith, gan ei fod yn eu hysgogi ac yn llunio eu disgwyliadau.

The new remit directs Careers Wales to have a key role in supporting and building the capacity of schools to engage with employers. I will be looking to Careers Wales to provide support to learning providers to achieve the careers quality mark, and to work with other education-business organisations to deliver a co-ordinated service. I am pleased to note that Careers Wales and Business in the Community have agreed a shared approach to achieving greater and more long-term engagement of business with schools.

Mae'r cylch gwaith newydd yn cyfeirio Gyrfa Cymru i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi a meithrin gallu ysgolion i ymgysylltu â chyflogwyr. Byddaf yn disgwyl i Gyrfa Cymru gynorthwyo darparwyr dysgu i gyflawni'r nod ansawdd gyrfaoedd, a chydweithio â sefydliadau addysg-busnes eraill i ddarparu gwasanaeth cydlynol. Mae'n bleser gennyf nodi bod Gyrfa Cymru a Busnes yn y Gymuned wedi cytuno ar ddull ar y cyd i sicrhau mwy a mwy o ymgysylltu hirdymor rhwng busnesau ac ysgolion.

Careers information, advice and guidance are underpinned by robust intelligence. I recently accepted the recommendations of the review of qualifications for 14 to 19-year-olds to make available, through the Careers Wales website, high-quality impartial and reliable information about qualification options and appropriate labour market information.

Caiff cyngor a chyfarwyddyd am yrfaoedd eu hategu gan wybodaeth gadarn. Yn ddiweddar, derbyniais argymhellion yr adolygiad o gymwysterau i ddysgwyr 14 i 19 oed, y dylid sicrhau bod gwybodaeth ddiduedd a dibynadwy o ansawdd uchel am opsiynau cymwysterau, a gwybodaeth briodol am y farchnad lafur, ar gael ar wefan Gyrfa Cymru.

As a Government, we are committed to a programme of work to strengthen the evidence base and resources available to help young people to make well-informed choices and decisions. In February, I delivered a written statement to Members on the publication of the national strategic skills audit for Wales, which gives information on the market for skills in Wales and the balance between skills needs and the skills available. In the coming year, I am also investing to strengthen the labour market intelligence we hold in relation to the needs of employers for Welsh-language skills, as well as working with Careers Wales to produce information for those who influence young people, such as parents.

Fel Llywodraeth, rydym yn ymroddedig i raglen o waith i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth a'r adnoddau sydd ar gael i helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau a phenderfyniadau gwybodus. Ym mis Chwefror, cyflwynais ddatganiad ysgrifenedig i Aelodau am gyhoeddi archwiliad sgiliau strategol cenedlaethol Cymru, sy'n rhoi gwybodaeth am y farchnad sgiliau yng Nghymru a'r cydbwysedd rhwng y sgiliau sydd eu hangen a'r sgiliau sydd ar gael. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, rwyf hefyd yn buddsoddi i gryfhau'r wybodaeth am y farchnad lafur sydd gennym, o ran anghenion cyflogwyr am sgiliau iaith Gymraeg, yn ogystal â gweithio gyda Gyrfa Cymru i baratoi gwybodaeth ar gyfer y rhai sy'n dylanwadu ar bobl ifanc, megis rhieni.

In closing, I am pleased to announce and welcome the appointment of Mr John Taylor, former chief executive of the Advisory, Conciliation and Arbitration Service as the incoming chair of Career Choices Dewis Gyrfa/Careers Wales. Mr Taylor will take up his appointment this month, and brings a broad range of experience and skills that I am confident will enable him to work with the board and senior management team to lead the organisation forward. In welcoming the appointment of John Taylor, I also express my sincere thanks and appreciation to the outgoing chair, Mr Philip Westwood, for the leadership he has provided to the organisation and his role in supporting the successful unification and transformation of Careers Wales.

I gloi, mae'n bleser gennyf gyhoeddi a chroesawu penodiad Mr John Taylor, cyn brif weithredwr y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu yn gadeirydd newydd Career Choices Dewis Gyrfa/Gyrfa Cymru. Bydd Mr Taylor yn dechrau yn ei swydd y mis hwn, ac rwyf yn hyderus y bydd yr ystod eang o brofiad a sgiliau sydd ganddo yn ei alluogi i gydweithio â'r bwrdd a'r uwch dîm rheoli i arwain y sefydliad yn ei flaen. Wrth groesawu penodiad John Taylor, hoffwn hefyd fynegi fy niolch a'm gwerthfawrogiad diffuant i'r cadeirydd sy'n ymadael, Mr Philip Westwood, am yr arweiniad y mae wedi'i roi i'r sefydliad a'i swyddogaeth wrth gefnogi'r broses o uno a thrawsnewid Gyrfa Cymru yn llwyddiannus.

Organisational change was required and that change has been delivered successfully. The new structure for Careers Wales delivery creates new opportunities for flexibility and synergy in planning services, alongside a clear focus on outcomes rather than outputs. I firmly believe that we now have the solid and sustainable foundation upon which to take forward the continued delivery of an all-age and impartial careers information advice and guidance service in Wales.

Roedd angen newid sefydliadol ac mae'r newid hwnnw wedi'i gyflawni'n llwyddiannus. Mae strwythur newydd Gyrfa Cymru yn creu cyfleoedd newydd am hyblygrwydd a synergedd wrth gynllunio gwasanaethau, ochr yn ochr â ffocws clir ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau. Credaf yn gryf fod gennym nawr sylfaen gadarn a chynaliadwy i fwrw ymlaen â darparu gwasanaeth cyngor, gwybodaeth ac arweiniad gyrfaoedd diduedd i bob oed yng Nghymru.

15:54

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I thank you for your statement today. On behalf of the Welsh Conservatives, I too accept that a unified structure for Careers Wales will help to improve co-ordination, and, in fact, is very overdue. I say that because, in the Children and Young People Committee on 12 January 2012, we listened to quite strong evidence from various young people how poor a service they were getting from the six structures that were out there. I will quote one particular young person, who said:

Ddirprwy Weinidog, diolch am eich datganiad heddiw. Ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, rwyf innau hefyd yn derbyn y bydd strwythur unedig i Gyrfa Cymru yn helpu i gydgysylltu'r gwasanaeth, ac, yn wir, bu angen gwneud hyn ers amser maith. Dywedaf hynny oherwydd y gwrandawyd, yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 12 Ionawr 2012, ar dystiolaeth eithaf cryf gan wahanol bobl ifanc am ba mor wael oedd y gwasanaeth yr oeddent yn ei gael gan y chwe strwythur a oedd yn bodoli. Dyfynnaf un person ifanc penodol, a ddywedodd:

'When I went to Careers Wales I was told that the outlook for my GCSE results was that I would fail most of them, so I did not have much support with trying to get through that either.'

Pan es i Gyrfa Cymru, dywedwyd wrthyf mai'r rhagolygon ar gyfer fy nghanlyniadau TGAU oedd y byddwn yn methu'r rhan fwyaf ohonynt, felly ni chefais lawr o gefnogaeth i gyflawni hynny ychwaith.

So, it is crystal clear that we needed to do something and I am pleased to support you in this endeavour. However, I do have a couple of points to make.

Felly, mae'n hollol amlwg bod angen inni wneud rhywbeth ac mae'n bleser gennyf eich cefnogi yn yr ymdrech hon. Fodd bynnag, mae gennyf gwpl o bwyntiau i'w gwneud.

The first is that I would like to understand far more clearly what measurements you are going to use to ensure that you are, in fact, delivering a better careers structure for young people, people who are already in work and wish to retrain and people who wish to return to work, than we have at present. How will you measure it? Where will you post the outcomes so that we can review this in the future? One of the reasons that I raise this is because I know that there are currently issues around the numbers of staff employed by Careers Wales. There were 100 people who took voluntary redundancy, but I understand that there are still about 150 people waiting to know whether they will retain their jobs. I know from the information I have been given by Careers Wales that the budget is dropping from £40 million to £30 million, so there is going to be less funding and fewer people, but a cohesive and unified structure within the Welsh Government. So, I would like to understand how you think that the combination of those events will produce a better outcome for learners.

Y cyntaf yw yr hoffwn ddeall yn llawer cliriach pa fesuriadau yr ydych yn mynd i'w defnyddio i sicrhau eich bod, mewn gwirionedd, yn darparu strwythur gyrfa gwell i bobl ifanc, pobl sydd eisoes mewn gwaith ac yn dymuno ailhyfforddi a phobl sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith, nag sydd gennym ar hyn o bryd. Sut y byddwch yn ei fesur? Ble byddwch yn rhoi'r canlyniadau fel y gallwn adolygu hyn yn y dyfodol? Un o'r rhesymau pam yr wyf yn codi hyn yw fy mod yn gwybod bod materion yn ymwneud â nifer y staff a gyflogir gan Gyrfa Cymru ar hyn o bryd. Cymerodd 100 o bobl eu diswyddo'n wirfoddol, ond rwyf ar ddeall bod tua 150 o bobl yn dal i aros i wybod a fyddant yn cadw eu swyddi. Gwn o'r wybodaeth yr wyf wedi ei chael gan Gyrfa Cymru fod y gyllideb yn gostwng o £40 miliwn i £30 miliwn, felly bydd llai o arian a llai o bobl, ond strwythur cydlynol ac unedig o fewn Llywodraeth Cymru. Felly, hoffwn ddeall sut yr ydych yn credu y bydd y cyfuniad hwnnw o ddigwyddiadau yn cynhyrchu gwell canlyniadau i ddysgwyr.

The only other point I would like to make is that the future for Careers Wales seems to be very firmly based on having IT skills, or a degree of IT literacy and certainly access to IT, because you are moving away from just the face-to-face interview. You talked about just having one face-to-face interview; I agree with you that that does nothing for someone. However, Deputy Minister, I ask for your views on how else you will enable that kind of access. For example, I looked at Careers Wales's opening hours in Caerphilly, and the office closes at 4 p.m. on Monday to Thursday and 4.30 p.m. on Friday. If you are in a job and want to move on or you are seeking training, or you have to wait for someone to come home to look after your children so that you can go out and get some advice about how you might return to work, that is not going to help. We want to have that truly personalised offering. So, I would like to know how you believe we can broaden that access.

Yr unig bwynt arall yr hoffwn ei wneud yw ei bod yn ymddangos bod dyfodol Gyrfa Cymru yn seiliedig yn gadarn iawn ar fod â sgiliau TG, neu rywfaint o lythrennedd TG ac yn sicr fynediad at TG, oherwydd eich bod yn symud i ffwrdd oddi wrth y cyfweliad wyneb yn wyneb yn unig. Soniwyd am gael dim ond un cyfweliad wyneb yn wyneb; rwyf yn cytuno â chi nad yw hynny'n gwneud dim i rywun. Fodd bynnag, Ddirprwy Weinidog, rwyf yn gofyn am eich barn am sut arall y byddwch yn galluogi'r math hwnnw o gyswllt. Er enghraifft, edrychais ar oriau agor Gyrfa Cymru yng Nghaerffili, ac mae'r swyddfa'n cau am 4 p.m. o ddydd Llun i ddydd Iau ac am 4.30 pm ar ddydd Gwener. Os ydych mewn swydd ac yn awyddus i symud ymlaen neu os ydych yn chwilio am hyfforddiant, neu os oes rhaid i chi aros i rywun ddod adref i edrych ar ôl eich plant er mwyn i chi allu mynd allan a chael cyngor am sut y gallech ddychwelyd i'r gwaith, nid yw hynny'n mynd i helpu. Rydym yn awyddus i gael cynnig gwirioneddol bersonol. Felly, hoffwn wybod sut yr ydych yn credu y gallwn ehangu'r mynediad hwnnw.

I too welcome the new chief executive of Careers Wales and assure him, via you and this debate, that we will support anything that will help to develop this. I would really like to see careers being broadened out and people not being given the same old choices by their schools that they can only become a this or that. There are many careers that I sometimes look at and wish I had had the chance to explore, but I never even knew they existed when I left school. It would be very good for our economy and for the individual to have a much better understanding and a far more personalised service.

Rwyf finnau hefyd yn croesawu prif weithredwr newydd Gyrfa Cymru ac yn ei sicrhau, drwoch chi a'r ddadl hon, y byddwn yn cefnogi unrhyw beth a fydd yn helpu i ddatblygu hyn. Byddwn wir yn hoffi gweld gyrfaoedd yn cael eu hehangu gan roi diwedd ar y sefyllfa lle mae pobl yn cael yr un hen ddewisiadau gan eu hysgolion, bod rhaid iddynt fynd yn hyn a'r llall. Mae llawer o yrfaoedd yr wyf weithiau'n edrych arnynt ac yn dymuno bod wedi cael y cyfle i'w harchwilio, ond nid oeddwn hyd yn oed yn gwybod eu bod yn bodoli pan adewais yr ysgol. Byddai'n dda iawn i'n heconomi ac i unigolion gael dealltwriaeth lawer gwell a gwasanaeth llawer mwy personol.

15:58

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Angela Burns for those comments and for her general welcome and statement of support. To be clear, John Taylor is the new chair, not chief executive. On the budget, you are quite right that it has been reduced, from £36 million to £30 million. That is, of course, because difficult decisions have had to be taken because of the overall reduction in our settlement from the UK Government. In this case, Careers Wales has been well aware of its reduced budget for some time and has planned accordingly. So, we are confident that we will deliver a quality service within that budget.

Diolch i Angela Burns am y sylwadau hynny ac am ei chroeso cyffredinol a'i datganiad o gefnogaeth. I fod yn glir, y cadeirydd newydd yw John Taylor, nid y prif weithredwr. O ran y gyllideb, rydych yn llygad eich lle ei bod wedi ei lleihau, o £36 miliwn i £30 miliwn. Mae hynny, wrth gwrs, oherwydd y penderfyniadau anodd y bu'n rhaid eu gwneud oherwydd y gostyngiad cyffredinol yn ein setliad gan Lywodraeth y DU. Yn yr achos hwn, mae Gyrfa Cymru wedi bod yn ymwybodol iawn o'u cyllideb is ers cryn amser ac wedi cynllunio'n unol â hynny. Felly, rydym yn hyderus y byddwn yn darparu gwasanaeth o ansawdd o fewn y gyllideb honno.

I note what you say about a young person who told you of a poor experience. That is the very sort of experience that we want to make sure is not repeated. I dare say that there will be issues from time to time, but we want to make sure that the service is properly joined up and that it uses the communication media that is most comfortable to the young or older person concerned. We know that many young people now prefer to use social media; they are used to applying for information online and that service will certainly be there for them. There are a number of priority groups that will remain to have guaranteed a face-to-face interview if that is what they wish, such as young people who have special educational needs, those who are in danger of becoming disengaged or NEET, if they are identified as such, and older workers who are facing redundancy. The enhanced service will be there, as will the standard service. Therefore, no-one will be ruled out of receiving support. I am pleased, as I should be, that you know about the careers office in Caerphilly; I am deeply flattered to hear that you have taken that trouble. The sort of person whom you have described is the sort of person whom we want to make sure has the right advice.

Nodaf yr hyn a ddywedwch am berson ifanc a soniodd wrthych am brofiad gwael. Dyna'r union fath o brofiad yr ydym am wneud yn siŵr na chaiff ei ailadrodd. Mae'n debyg y ceir problemau o bryd i'w gilydd, ond rydym am sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i gydgysylltu'n iawn a'i fod yn defnyddio'r cyfryngau cyfathrebu y mae'r person ifanc neu hŷn dan sylw fwyaf cyfforddus â nhw. Rydym yn gwybod ei bod yn well gan lawer o bobl ifanc ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol erbyn hyn; maent wedi arfer â gwneud cais am wybodaeth ar-lein a bydd y gwasanaeth hwnnw'n sicr yno ar eu cyfer. Bydd nifer o grwpiau blaenoriaeth yn parhau i fod â sicrwydd o gyfweliad wyneb yn wyneb os mai dyna yw eu dymuniad, megis pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, y rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET neu o ymddieithrio, os ydynt wedi'u hadnabod felly, a gweithwyr hŷn sy'n wynebu cael eu diswyddo. Bydd y gwasanaeth ychwanegol yno, ynghyd â'r gwasanaeth safonol. Felly, bydd cefnogaeth ar gael i bawb. Rwyf yn falch, fel y dylwn fod, eich bod yn gwybod am y swyddfa gyrfaoedd yng Nghaerffili; rwyf yn falch iawn o glywed eich bod wedi mynd i'r drafferth. Y math o berson yr ydych wedi ei ddisgrifio yw'r math o berson yr ydym am sicrhau ei fod yn cael y cyngor cywir.

I want to make this clear: I mentioned that I will be chairing a forum of the careers family. That is because Careers Wales does not stand alone in providing advice on career prospects to those seeking it. There are a number of organisations, such as Jobcentre Plus and Working Links, and we want to make sure that the right organisation provides the right advice and is not contradicted by other agencies. That is why we will have this forum.

Hoffwn wneud hyn yn glir: soniais y byddaf yn cadeirio fforwm i'r teulu gyrfaoedd. Y rheswm am hynny yw nad yw Gyrfa Cymru yn sefyll ar ei ben ei hun o ran darparu cyngor am ragolygon gyrfa i'r rheini sy'n ei geisio. Ceir nifer o sefydliadau, megis y Ganolfan Byd Gwaith a Working Links, ac rydym am sicrhau bod y sefydliad cywir yn darparu'r cyngor cywir ac nad yw'n gwrth-ddweud asiantaethau eraill. Dyna fydd diben y fforwm hwn.

16:00

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for your statement. I am sure that this will be welcome news for Careers Wales; there is a greater amount of certainty now about the future. I welcome the targeted support for young people at risk of disengagement that will be available under the new arrangements. We know that if young people fail to achieve their potential, they lose out. That is bad for them and it is bad for our economy, our society and our communities. So, this intervention is very much welcome.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Rwyf yn siŵr y bydd Gyrfa Cymru yn croesawu'r newyddion hyn; mae ganddynt fwy o sicrwydd nawr am y dyfodol. Croesawaf y cymorth wedi'i dargedu a fydd ar gael dan y trefniadau newydd i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio. Rydym yn gwybod y bydd pobl ifanc ar eu colled os methant â gwireddu eu potensial. Mae hynny'n ddrwg iddynt hwy, ac mae'n ddrwg i'n heconomi, ein cymdeithas a'n cymunedau. Felly, mae croeso mawr i'r ymyriad hwn.

We know that the last Estyn annual report noted some gaps in the delivery of careers services across Welsh schools, so this will make a difference. However, with the shift towards focusing on young people who are at risk of disengagement, and the move away, as you said in your statement, from the one-size-fits-all service, we know that there will be a greater reliance on careers teachers, teachers or the greater careers family. How can you ensure that teachers, for example, are sufficiently prepared so that our young people do not miss out? For example, the teacher placement programme might be one option, which has been running for many years, but with tightened school budgets and pressures on the curriculum, I understand that these placements might not be a priority and might not take place. This will have a knock-on effect on how equipped the greater careers family is for young people. Could we have your response on that?

Rydym yn gwybod bod adroddiad blynyddol diwethaf Estyn wedi nodi rhai bylchau o ran gwasanaethau gyrfaoedd ar draws ysgolion Cymru, felly bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth. Fodd bynnag, o ystyried y newid tuag at ganolbwyntio ar bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio, a'r symud, fel y dywedwyd yn eich datganiad, oddi wrth y syniad o ddarparu'r un gwasanaeth i bawb, rydym yn gwybod y bydd mwy o ddibyniaeth ar athrawon gyrfaoedd, athrawon neu'r teulu gyrfaoedd ehangach. Sut y gallwch sicrhau bod athrawon, er enghraifft, yn cael eu paratoi'n ddigonol fel na fydd ein pobl ifanc ar eu colled? Er enghraifft, efallai fod y rhaglen lleoli athrawon yn un opsiwn. Mae wedi bod ar gael ers blynyddoedd lawer, ond gyda chyllidebau ysgolion yn tynhau a'r pwysau ar y cwricwlwm, rwyf yn deall na fydd y lleoliadau hyn o reidrwydd yn flaenoriaeth ac efallai na fyddant yn digwydd. Bydd hyn yn cael effaith, yn ei dro, ar barodrwydd y teulu gyrfaoedd ehangach i gefnogi pobl ifanc. A allem gael eich ymateb i hynny?

As my colleague Angela Burns mentioned, for too many of our young people, aspirations are still disappointingly low and limited, and remain unchallenged. What role do you think that Careers Wales could play in tackling this matter, especially when the new model of delivery might rely on a considerable degree of autonomy on learners' part? I know, too, that work experience will continue to be the responsibility of Careers Wales, although there might be some changes. Work experience has a particular role to play in raising aspirations. We know that young people from more disadvantaged backgrounds who lack parental networks are likely to be those who miss out. What can we do to make sure that they will also get to know about worthwhile options? There is still a huge social injustice in the work experience programme, because it is those young people who have networks of parents who are in reasonably well-paid jobs who seem to have the better options. So, I am very concerned about that.

Fel y soniodd fy nghydweithiwr Angela Burns, mae dyheadau gormod o lawer o'n pobl ifanc yn dal i fod yn siomedig o isel ac yn gyfyngedig, ac ni chânt eu herio. Pa ran yr ydych yn credu y gallai Gyrfa Cymru ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r mater hwn, yn enwedig pan allai'r model newydd fod yn dibynnu ar y dysgwyr, i raddau helaeth, i chwilio drostynt eu hunain? Rwyf yn gwybod, hefyd, y bydd profiad gwaith yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i Gyrfa Cymru, er y gellid bod rhywfaint o newidiadau. Mae gan brofiad gwaith ran arbennig i'w chwarae o ran codi dyheadau. Rydym yn gwybod ei bod yn debygol mai pobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig sydd heb rwydweithiau rhieni yw'r rhai a fydd ar eu colled. Beth allwn ei wneud i ofalu y byddant hwy hefyd yn cael gwybod am ddewisiadau gwerth chweil? Mae anghyfiawnder cymdeithasol enfawr o hyd yn y rhaglen profiad gwaith, oherwydd ei bod yn ymddangos mai pobl ifanc â rhwydweithiau o rieni mewn swyddi sy'n talu'n rhesymol dda sy'n cael y dewisiadau gwell. Felly, rwyf yn bryderus iawn am hynny.

I am also concerned about what I would call the 'middling band' of young people; not those very visible young people who are disadvantaged, but those who might not be as ambitious or particularly well-connected. I am concerned about whether they will be able to have the full opportunity of the new model of careers service.

Rwyf hefyd yn pryderu am yr hyn y byddwn yn ei alw'n 'fand canolig' o bobl ifanc; nid y bobl ifanc sy'n amlwg dan anfantais, ond y rhai nad ydynt efallai mor uchelgeisiol neu â chysylltiadau cystal. Rwyf yn pryderu a fydd cyfle llawn y gwasanaeth gyrfaoedd ar ei newydd wedd ar gael iddynt hwy.

Finally, we need to have an important philosophical debate about the purpose of work experience. The launch of the new Careers Wales service is a good time to think about this. Is work experience meant to provide learners with an insight into a particular career, or is it meant to give young people a taste of the world of work? I have spoken to employers this week and there is some confusion about that, which does not help when we are trying to deliver this programme.

Yn olaf, mae angen inni gael trafodaeth athronyddol bwysig ynglŷn â diben profiad gwaith. Mae lansiad y gwasanaeth Gyrfa Cymru newydd yn amser da i feddwl am hyn. Ai diben profiad gwaith yw rhoi golwg ar yrfa benodol i ddysgwyr, ynteu rhoi blas o fyd gwaith i bobl ifanc? Rwyf wedi siarad â chyflogwyr yr wythnos hon ac mae rhywfaint o ddryswch ynglŷn â hynny. Nid yw hynny'n helpu wrth inni geisio rhoi'r rhaglen hon ar waith.

16:04 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I thank Christine Chapman for those very constructive points. I agree with her that the settlement now allows for certainty in the work of Careers Wales.

Diolch i Christine Chapman am y pwyntiau adeiladol iawn hynny. Rwyf yn cytuno â hi bod y setliad nawr yn caniatáu ar gyfer sicrwydd yng ngwaith Gyrfa Cymru.

You are quite right about careers education in schools—it has always been the responsibility of schools, but it needs to be properly co-ordinated with Careers Wales, as I mentioned in response to Angela Burns. We do not want various members of the careers family giving out contradictory or confusing information. In its inspection, Estyn found and identified variations in delivery and evaluation, and we have accepted the recommendation that that has to improve.

Rydych yn llygad eich lle ynglŷn ag addysg gyrfaoedd mewn ysgolion—cyfrifoldeb ysgolion a fu erioed, ond mae angen ei gydgysylltu'n briodol gyda Gyrfa Cymru, fel y soniais wrth ymateb i Angela Burns. Nid ydym am i wahanol aelodau o'r teulu gyrfaoedd roi gwybodaeth anghyson neu ddryslyd. Yn eu harolwg, nododd Estyn fod y drefn o ddarparu a gwerthuso yn amrywio, ac rydym wedi derbyn yr argymhelliad bod rhaid i hynny wella.

Support has to be properly co-ordinated. That, again, is one of the reasons why we are developing this forum. If information comes out of the forum that there are things that need to be modified or reviewed as a result of investigations, that will happen. We are not saying that the structure will remain like this forever and a day. We need constant review of the situation, given that labour market intelligence tells us that the nature of jobs and the available jobs in the economy now and in the foreseeable future are changing. Of course, we have to reflect on the advice that is offered by members of the careers family.

Rhaid i gymorth gael ei gydlynu'n briodol. Mae hynny'n rheswm arall pam yr ydym yn datblygu'r fforwm hwn. Os daw gwybodaeth o'r fforwm am bethau y mae angen eu haddasu neu eu hadolygu o ganlyniad i ymchwiliadau, bydd hynny'n digwydd. Nid ydym yn dweud y bydd y strwythur yn aros fel hyn am byth. Mae angen adolygu'r sefyllfa'n gyson, ac ystyried bod gwybodaeth am y farchnad lafur yn dweud wrthym fod natur y swyddi a'r swyddi sydd ar gael yn yr economi nawr ac yn y dyfodol rhagweladwy yn newid. Wrth gwrs, rhaid inni fyfyrio ar y cyngor sy'n cael ei gynnig gan aelodau o'r teulu gyrfaoedd.

You are quite right to talk about the importance of work experience. That is absolutely crucial and it fits both those purposes. The discipline of the world of work, the importance of the so-called key skills, team working, problem-solving, improving your own learning and performance and communication are all crucial experiences that almost any work environment can provide. We also need to co-ordinate it to the best of our ability, offering opportunities that mean something to that young person. If they have identified an occupational area that particularly interests them, we want to try to ensure that the work experience is in that area. That means that employers have to engage fully with this process, and I am pleased to say that, looking at Jobs Growth Wales as an example, we see that employers are prepared to engage with us where they see it to be their responsibility. We want to encourage that, and employers will be represented on the forum that I have already referred to.

Rydych yn llygad eich lle wrth sôn am bwysigrwydd profiad gwaith. Mae hynny'n gwbl hanfodol ac mae'n cyd-fynd â'r ddau ddiben hynny. Mae disgyblaeth byd gwaith, pwysigrwydd y sgiliau allweddol, fel y'u gelwir, gweithio mewn tîm, datrys problemau, gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun a chyfathrebu i gyd yn brofiadau hanfodol y gall bron unrhyw amgylchedd gwaith eu darparu. Mae angen inni hefyd ei gydgysylltu hyd eithaf ein gallu, i gynnig cyfleoedd sy'n golygu rhywbeth i'r person ifanc dan sylw. Os ydynt wedi nodi maes galwedigaethol sydd o ddiddordeb iddynt yn benodol, hoffem geisio sicrhau bod y profiad gwaith yn y maes hwnnw. Mae hynny'n golygu bod rhaid i gyflogwyr ymgysylltu'n llawn â'r broses hon, ac mae'n bleser gennyf ddweud, wrth edrych ar Twf Swyddi Cymru fel enghraifft, ein bod yn gweld bod cyflogwyr yn barod i ymgysylltu â ni pan welant fod ganddynt gyfrifoldeb i wneud hynny. Rydym yn awyddus i annog hynny, a chaiff cyflogwyr eu cynrychioli ar y fforwm yr wyf eisoes wedi cyfeirio ato.

I take your point about the middle band of young people; that is an interesting issue. We certainly must ensure that the service is universal and that it applies to all, in the right format. We want to make sure that there is no inadvertent exclusion of any band of young people.

Derbyniaf eich pwynt am fand canolig o bobl ifanc; mae hwnnw'n fater diddorol. Yn sicr, rhaid inni sicrhau bod y gwasanaeth yn gyffredinol ac yn berthnasol i bawb, yn y fformat cywir. Hoffem wneud yn siŵr nad oes unrhyw fand o bobl ifanc yn cael eu heithrio'n anfwriadol.

16:07 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am eich datganiad heddiw, Ddirprwy Weinidog. Mae Plaid Cymru yn croesawu'r symudiad yn eich datganiad yn fawr. Rwyf weithiau yn edrych o gwmpas y Cynulliad ac ar wleidyddiaeth yng Nghymru yn gyffredinol ac yn tybio ble byddem i gyd pe baem wedi cael cyngor gyrfaoedd da pan oeddem yn yr ysgol, ond dyma ni yn y fan hon yn penderfynu materion fel hyn erbyn hyn.

Thank you, Deputy Minister, for your statement today. Plaid Cymru welcomes the move outlined in your statement very warmly. I sometimes look around the Assembly and at politics in Wales generally and consider where we would all be if we had had effective careers advice when we were at school, but here we are in this place deciding on these sorts of issues now.

Mae'n sicr yn rhywbeth i'w groesawu eich bod yn symud o wasanaeth un-i-un—nid oes gennyf ddim byd yn erbyn gwasanaeth un-i-un o reidrwydd, ond nid oes ffordd o wneud yn siŵr bod gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb yn hynny—at wasanaeth sydd yn sicrhau bod isadeiledd mewn lle sydd yn darparu cyngor annibynnol da i unigolion ac sydd yn hyblyg ac yn atebol i'w hanghenion. Bydd hynny yn gam ymlaen i fod yn fwy modern ac yn fwy perthnasol i'r marchnadoedd diwydiannol sydd gennym ac felly mae'n fwy tebygol o lwyddo.

It is certainly something to be welcomed that you are moving from a one-to-one service—I do not have anything against a one-to-one service necessarily, but there is no way of ensuring that the quality is assured in that model—to a service that ensures that an infrastructure is in place that provides good independent advice to individuals and a service that is flexible and accountable in itself. That will be a step forward to be more modern and more relevant to the labour markets that we have and, therefore, it is more likely to succeed.

Fel ambell i Aelod arall sydd wedi gofyn cwestiynau i chi, gwelaf bosibiliad y bydd pobl yn methu â defnyddio'r system yn y ffordd orau. Os ydych yn hyderus ac yn glir am yr hyn rydych eisiau ei wneud neu os oes gennych syniad o ba faes rydych eisiau gweithio ynddo neu ble rydych eisiau troi eich golygon, gall system o'r fath yr ydych wedi ei hamlinellu heddiw fod o fudd mawr. Os ydych yn ansicr neu yn aneglur, os oes gennych gefndir lle nad oes neb yn gweithio a bod neb i'ch helpu ac nad ydych yn siŵr ble i droi, nid yw mor glir i mi sut bydd y gwasanaeth yn darparu yn drylwyr ar eich cyfer. Gan edrych yn benodol ar bobl NEET, cafodd rhyw 12,000 ohonynt eu cynorthwyo gan Gyrfa Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n anodd gwneud yn siŵr bod ganddynt fynediad i'r we a'r cyfarpar priodol i fanteisio ar y system. Felly, hoffwn glywed ychydig yn fwy gennych, Ddirprwy Weinidog, ynglŷn â sut yn union byddai'r corff newydd hwn yn gallu targedu'r bobl hynny a'u helpu mewn ffordd fwy rhagweithiol.

As has been the case with a number of other people who have asked questions of you, I see that there is a possibility of people failing to make best use of the system. If you are confident and clear as to your career path or if you have an idea of the area in which you want to work or where your horizons lie, then the kind of system that you have outlined today could be hugely beneficial. If you are uncertain or unclear, or if you do not have a background of anyone in employment and have no-one to help you and if you are unsure about where to turn, it is not as clear to me how this service will make thorough provision for you. If we look at NEETs in particular, we will see that some 12,000 of those have been assisted by Careers Wales over the past year. It is difficult to ensure that those people have web access and appropriate facilities to take full advantage of the system. So, I would like to hear a little more from you, Deputy Minister, as to how this new body could target people who find themselves in that situation and be more proactive in the support that it provides.

Yr ail gwestiwn sy'n codi o safbwynt eich datganiad yw hyn: a fydd gwneud hyn yn yr ysgolion yn rhoi mwy o bwysau ar athrawon i roi cymorth i ddisgyblion? Gan na fydd y gwasanaeth gyrfaoedd mor amlwg yn yr ysgolion, a chan y bydd yn wasanaeth yn ôl y galw, yn hytrach nag yn wasanaeth sy'n bresennol ar adegau penodol ac ati, mae rhai athrawon yn dweud wrthyf eu bod yn pryderu y bydd mwy o ddisgyblion yn dod atynt i ofyn am gymorth. Hoffwn glywed beth sydd gennych i'w ddweud yn hynny o beth, a pha ddulliau sydd gennych i ymdopi ag unrhyw fygythiad o'r fath.

The second question arising from your statement is this: will doing this in schools place more pressure on teachers to provide assistance to pupils? Given that the careers service will not be quite as prominent within the school, and given that it will be an on-demand service, rather than being available at specific times and so on, some teachers tell me that they are concerned that more pupils will be approaching them for advice and support. I would like to hear what you have to say about that particular issue, and about any methods you have to cope with any threat of that sort.

Hoffwn glywed mwy am natur uniongyrchol y corff newydd hwn, sef Gyrfa Cymru. Beth yw ei natur gorfforaethol neu gyfansoddiadol? Soniasoch fod hwn yn 'subsidiary', sef rhyw fath o yw is-gwmni i Lywodraeth Cymru. Ym mha ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r corff newydd hwn, ac ym mha ffordd y bydd annibyniaeth y corff newydd yn cael ei diogelu?

I would like to hear a little more about the direct nature of this body, Careers Wales. What is its corporate or constitutional nature? You mentioned that this is a subsidiary of the Welsh Government. How will the Welsh Government relate to this new body, and how will the independence of this new body be secured?

Y mater olaf yr hoffwn ei grybwyll yw sut y gallwn ni, wrth symud ymlaen, sicrhau bod gan bawb yng Nghymru yr hawl i gael cyngor annibynnol ar yrfaoedd. Credaf fod sefydlu'r hawl hwn o fewn y gyfundrefn hon, naill ai'n gyfansoddiadol neu'n ymarferol, yn ffordd o sicrhau, wrth fwrw ymlaen, bod gennym farchnad swyddi sy'n hyblyg, a gwasanaeth sy'n ymateb i anghenion a galluoedd pobl ac sy'n cynorthwyo pobl i gael y cymwysterau a'r hyfforddiant mwyaf priodol, fel y gallant hwy, yn eu tro, chwarae rhan briodol a llawn yn ein bywyd cyhoeddus a'n bywyd economaidd. Felly, mae her yn wynebu'r corff newydd hwn, ond mae Plaid Cymru'n croesawu sefydlu'r corff a'r modd y bydd yn gweithredu.

The final matter that I want to cover is how, in progressing in this area, we can ensure that everyone in Wales has a right to independent careers advice. I think that establishing that right in this system, either constitutionally or in a more practical sense, is a means of ensuring, as we progress, that we have a jobs market that is flexible, and that we have a service that is responsive to people's needs and requirements and encourages them to access the most appropriate qualifications and training, so that they, in turn, can play the most appropriate and full part in the public and economic life of Wales. So, there is a challenge facing this new body, but Plaid Cymru welcomes its establishment and how it will operate.

16:12

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank you for those remarks and for your general support for the moves that we are undertaking. I will not address the issues in the order in which they were raised, but, first, you asked about the corporate nature of the new body. The change that is coming about means that Welsh Ministers are the sole members of the company, and the accounts of the company will be consolidated into those of the Welsh Government. That, in effect, will transfer CCDG into public ownership. However, in terms of what it offers to those seeking to benefit from its services, it is crucial that that advice is, as you say, genuinely independent and impartial, and that it is based on solid labour market intelligence. I also want to stress that this will remain an all-age service. There will be a standard offer and an enhanced offer. If you want to write to me, I will willingly give you more details about what falls under each heading, rather than try to detail it now.

Diolch am y sylwadau hynny ac am eich cefnogaeth gyffredinol i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Ni wnaf ymdrin â'r materion yn y drefn y cawsant eu codi, ond, yn gyntaf, gofynnwyd am natur gorfforaethol y corff newydd. Mae'r newid sydd ar droed yn golygu mai Gweinidogion Cymru yw unig aelodau'r cwmni, ac y caiff cyfrifon y cwmni eu cyfuno â rhai Llywodraeth Cymru. Bydd hynny, i bob pwrpas, yn trosglwyddo CCDG i berchnogaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, o ran yr hyn y mae'n ei gynnig i'r rhai sy'n dymuno elwa o'i wasanaethau, mae'n hanfodol bod y cyngor hwnnw, fel y dywedwch, yn wirioneddol annibynnol a diduedd, ac yn seiliedig ar wybodaeth gadarn am y farchnad lafur. Rwyf hefyd yn awyddus i bwysleisio y bydd hwn yn parhau i fod yn wasanaeth i bob oedran. Bydd cynnig safonol a chynnig uwch ar gael. Os hoffech ysgrifennu ataf, byddaf yn barod i roi mwy o fanylion am yr hyn sydd dan bob pennawd i chi, yn hytrach na cheisio rhoi manylion nawr.

I wish to stress a point that I have already made, because it is very important. It relates to any young people for whom it is felt that they are in danger of disengagement. We would certainly expect teachers, youth workers and others involved in the lives of those young people to make it known that a young person is in need of extra support. This will require good co-ordination between the careers service and those teachers responsible for delivering careers education in Wales. In that sense, that may put a bit more work on the shoulders of teachers. However, we think that it will be seen as important, relevant work and that it need not be onerous. It is very important that everyone in Wales feels that they can benefit from the careers service in a way that is appropriate for them. As I said, unlike in other parts, this remains an all-age service. Matters will be kept, as I have said twice before, under review by the forum to make sure that we are delivering the best outcomes within our resources.

Hoffwn bwysleisio pwynt yr wyf eisoes wedi ei wneud, oherwydd ei fod yn bwysig iawn. Mae'n ymwneud ag unrhyw bobl ifanc y teimlir eu bod mewn perygl o ymddieithrio. Byddem yn sicr yn disgwyl i athrawon, gweithwyr ieuenctid ac eraill sy'n ymwneud â bywydau'r bobl ifanc hynny ei gwneud yn hysbys bod angen cymorth ychwanegol ar berson ifanc. Bydd hyn yn golygu bod angen cydlynu da rhwng y gwasanaeth gyrfaoedd a'r athrawon hynny sy'n gyfrifol am ddarparu addysg gyrfaoedd yng Nghymru. Yn hynny o beth, gallai roi ychydig mwy o faich ar ysgwyddau athrawon. Fodd bynnag, rydym yn credu y caiff ei ystyried yn waith perthnasol, pwysig ac nad oes angen iddo fod yn feichus. Mae'n bwysig iawn bod pawb yng Nghymru yn teimlo y gallant fanteisio ar y gwasanaeth gyrfaoedd mewn ffordd sy'n addas iddynt hwy. Fel y dywedais, yn wahanol i fannau eraill, mae hwn yn parhau i fod yn wasanaeth i bob oedran. Bydd y fforwm, fel yr wyf wedi dweud ddywaith o'r blaen, yn parhau i adolygu'r maes i wneud yn siŵr ein bod yn darparu'r canlyniadau gorau o fewn ein hadnoddau.

16:14 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your statement today, Minister. It is so important for young people to get timely advice to help them shape their lives, so that they do not miss the boat. I recall going to my own careers adviser and saying that I wanted to be a journalist when I grew up. She sent me on a work experience placement at a local newspaper in the accounts department, and that inspired in me a passionate desire never to work in accounts. However, it was a positive experience for me because it taught me about what I wanted to do and what I did not want to do. It was the one-to-one personal contact that was so important. You tend to find that it is not just young people who have particular, identified special needs that sometimes need very detailed guidance; sometimes, the brightest and the best students will face a crisis of confidence in the choices that they have made, and they will want that one-to-one guidance. Can you confirm for us whether that one-to-one personal guidance will be available to young people under the new system if they request it? We would not want to continue with a system in which young people go to careers interviews that they do not get anything out of, but I think that there sometimes comes a point in time when young people really do need a little bit of independent advice and guidance.

Diolch am eich datganiad heddiw, Weinidog. Mae mor bwysig bod pobl ifanc yn cael cyngor amserol i'w helpu i lunio eu bywydau, fel nad ydynt yn colli cyfleoedd. Rwy'n cofio mynd at fy swyddog gyrfaoedd fy hun a dweud yr hoffwn fod yn newyddiadurwr. Anfonodd fi ar leoliad profiad gwaith gyda phapur newydd lleol, yn yr adran cyfrifon, ac ysbrydolodd hynny ynof awydd angerddol i beidio byth â gweithio ym maes cyfrifon. Fodd bynnag, roedd yn brofiad cadarnhaol imi gan ei fod wedi fy nysgu am beth roeddwn eisiau ei wneud a beth nad oeddwn eisiau ei wneud. Y cyswllt personol unigol oedd y peth pwysig. Byddwch yn tueddu i weld nad dim ond pobl ifanc ag anghenion arbennig penodol, dynodedig sydd ag angen arweiniad manwl iawn ar adegau; weithiau, bydd y myfyrwyr disgleiriaf a'r gorau yn wynebu argyfwng ac yn colli hyder yn y dewisiadau y maent wedi'u gwneud, a bydd eisiau'r cyfarwyddyd unigol hwnnw arnynt. A allwch gadarnhau inni a fydd y cyfarwyddyd personol unigol hwnnw ar gael i bobl ifanc dan y system newydd os gofynnant amdano? Ni hoffem barhau â system lle mae pobl ifanc yn mynd i gyfweliadau gyrfaoedd heb gael dim budd ohonynt, ond rwyf yn credu y daw adeg weithiau pan fydd gwir angen ychydig o gyngor ac arweiniad annibynnol ar bobl ifanc.

Schoolteachers do recognise needs, and they work very hard to provide as impartial a service as they possibly can to the young people in their charge. I worked for Cardiff University, supporting students who were going into higher education—I worked with secondary schools on a daily basis, and I respect the work that they did there. However, I worked for a university, and its experience of the careers progression, with the best will in the world, was largely via university, and there tends to be an implicit bias in that, without it being intentional at all, in that we understand how university works and so that is what we tell young people about. Apprenticeships and other career paths are promoted less in schools, not through any desire to be biased, but just because of an accident of history.

Mae athrawon ysgol yn adnabod anghenion, ac maent yn gweithio'n galed iawn i ddarparu gwasanaeth mor ddiduedd ag y gallant i'r bobl ifanc yn eu gofal. Bûm yn gweithio i Brifysgol Caerdydd, gan gefnogi myfyrwyr a oedd yn mynd i mewn i addysg uwch—gweithiais gydag ysgolion uwchradd yn ddyddiol, ac rwyf yn parchu'r gwaith a wnânt yno. Fodd bynnag, roeddwn yn gweithio i brifysgol, ac roedd eu profiad o'r dilyniant gyrfaoedd, gyda phob ewyllys da yn y byd, wedi dod yn bennaf drwy gyfrwng y brifysgol. Mae hynny'n gallu achosi tuedd, cwbl anfwriadol, gan ein bod yn deall sut y mae'r brifysgol yn gweithio ac felly dyna beth rydym yn sôn amdano wrth bobl ifanc. Nid yw prentisiaethau a llwybrau gyrfa eraill yn cael eu hyrwyddo gymaint mewn ysgolion, nid drwy unrhyw awydd i fod yn rhagfarnllyd, dim ond oherwydd hap a damwain.

Can you perhaps comment on how you are going to make sure that teachers have the support and advice they need to be able to share with the young people that they are advising the range of options on an impartial basis, to help them to understand the complexities of the apprentice system?

A allwch efallai roi sylwadau am sut yr ydych yn mynd i wneud yn siŵr bod athrawon yn cael y cymorth a'r cyngor y bydd eu hangen arnynt i allu disgrifio'r ystod o opsiynau'n ddiduedd i'r bobl ifanc y maent yn eu cynghori, i'w helpu i ddeall cymhlethdodau'r system prentisiaethau?

On another issue that Simon Thomas raised, we have to be very careful that we are not overburdening our teachers. What assessment have you made of any potential increase in their workload as a result of a change in the way the system works? Also, I welcome the improvements to the careers website and recognise the fact that many people will want a range of different ways to engage with the careers service. How are you planning to judge the success of that? Will it be simply the amount of usage that those areas get, or will quality assessments be made, so that we can see that the changes have had a beneficial impact as well?

Ar fater arall a godwyd gan Simon Thomas, rhaid inni fod yn ofalus iawn nad ydym yn rhoi gormod o faich ar ein hathrawon. Pa asesiad yr ydych wedi'i gynnal o unrhyw gynnydd posibl yn eu baich gwaith o ganlyniad i newid y ffordd y mae'r system yn gweithio? Hefyd, rwyf yn croesawu'r gwelliannau i'r wefan gyrfaoedd ac yn cydnabod y bydd llawer o bobl am ymgysylltu â'r gwasanaeth gyrfaoedd mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Sut yr ydych yn bwriadu barnu llwyddiant hynny? Ai faint o ddefnydd a wneir o'r meysydd hynny fydd yn cael ei fesur, ynteu a gynhelir asesiadau ansawdd, fel y gallwn weld bod y newidiadau wedi cael effaith fuddiol hefyd?

Finally, you said in your statement that the careers service is an all-age service. Can you tell me how early the careers service actively intervenes in guiding young people? I found that, when I got to advising many young people on their A-levels, they had already made choices in their GCSEs that barred their choice of career, and they had to go back and put that right. So, how early does it intervene in a young person's educational career, and how actively is the all-age service promoted to adults who also need guidance, perhaps when they are looking to change the direction of their career?

Yn olaf, dywedwyd yn eich datganiad bod y gwasanaeth gyrfaoedd yn wasanaeth i bob oedran. A allwch ddweud wrthyf ba mor gynnar y mae'r gwasanaeth gyrfaoedd yn ymyrryd yn weithredol wrth arwain pobl ifanc? Canfûm, wrth gynghori llawer o bobl ifanc ynglŷn â Safon Uwch, eu bod eisoes wedi gwneud dewisiadau TGAU a oedd yn cyfyngu ar eu dewisiadau o ran gyrfa, a bod rhaid iddynt fynd yn ôl ac unioni hynny. Felly, pa mor gynnar y mae'n ymyrryd yng ngyrfa addysgol person ifanc, a pha mor weithredol yw'r broses o hyrwyddo'r gwasanaeth i oedolion sydd hefyd ag angen arweiniad, o bosibl, pan fyddant yn bwriadu newid cyfeiriad eu gyrfa?

16:18 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Eluned Parrott for those comments and for her general support for the move that we are taking. You, and Simon Thomas, mentioned the careers advice that we might have had in school. In my case, I cannot really remember it, but there we are; I know that I had some, but whether I followed it, I am not too sure at all. There we go. Here I am, and I am very pleased and proud to be doing what I am doing now.

Diolch i Eluned Parrott am y sylwadau hynny ac am ei chefnogaeth gyffredinol i'r newid yr ydym yn ei gyflwyno. Fe wnaethoch chi a Simon Thomas sôn am y cyngor gyrfaoedd y gallem fod wedi'i gael yn yr ysgol. Yn fy achos i, ni allaf ei gofio'n iawn, ond dyna ni; rwy'n gwybod fy mod wedi cael cyngor, ond nid wyf yn siŵr a wnes ei ddilyn. Dyna ni. Dyma fi, ac rwyf yn hapus iawn ac yn falch o fod yn gwneud yr hyn yr wyf yn ei wneud yn awr.

You are quite right: advice must be timely. That is why the priority groups include—again, I am more than happy to write to you with the full details, if you wish—young people in school who will benefit most from support from the careers service to make a successful progression in education and transition into further learning or employment. Now, that is the statement; the issue, as I mentioned, specifically about those with special educational needs is a separate priority. So, I think that, from that, it is very much down to the young people themselves and their parents, the teachers they work with and youth workers, for example, who feel that the young person will benefit from that type of support. They will have a face-to-face interview if that is what is needed. So, I think that that assurance is there, but as I have said, we will keep this under review through the forum, which will bring together all the various members of the careers family. Also, we will introduce amendments, as may be necessary from time to time. So, one-to-one contact is going to be there, I think, for the young people who actually need it.

Rydych yn llygad eich lle: rhaid i gyngor fod yn amserol. Dyna pam mae'r grwpiau blaenoriaeth yn cynnwys—unwaith eto, rwyf yn fwy na pharod i ysgrifennu atoch gyda'r manylion llawn, os hoffech—pobl ifanc yn yr ysgol a fydd yn elwa fwyaf ar gymorth gan y gwasanaeth gyrfaoedd i symud ymlaen yn llwyddiannus ym myd addysg, a phontio i ddysgu pellach neu gyflogaeth. Nawr, dyna'r datganiad; mae mater penodol y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, fel y soniais, yn flaenoriaeth ar wahân. Felly, rwyf yn meddwl, o hynny, bod y ffocws ar y bobl ifanc eu hunain a'u rhieni, yr athrawon y maent yn gweithio gyda hwy, a gweithwyr ieuenctid, er enghraifft, sy'n teimlo y bydd y person ifanc yn elwa o'r math hwnnw o gefnogaeth. Byddant yn cael cyfweliad wyneb yn wyneb os oes angen un. Felly, credaf fod y sicrwydd hwnnw yno, ond fel y dywedais, byddwn yn parhau i adolygu hyn drwy'r fforwm, a fydd yn dwyn ynghyd holl wahanol aelodau'r teulu gyrfaoedd. Byddwn hefyd yn cyflwyno diwygiadau a all fod yn angenrheidiol o bryd i'w gilydd. Felly, bydd cyswllt unigol yno, rwyf yn meddwl, i'r bobl ifanc sydd â'i angen mewn gwirionedd.

You make a very important point that, sometimes, there is at least a perception that schools will have a bias towards higher education as the right outcome. I am sure that that happens but there seems to be much greater awareness of the importance of apprenticeships and vocational education and training. That came through our review of qualifications for 14 to 19-year-olds. We want to see advice on that career pathway being given at least equal prominence with higher education. The careers service already hosts the web-based apprenticeship matching service, which enables young people to see what is available to them and allows employers to see what young people may be interested in pursuing apprenticeships with them.

Rydych yn gwneud pwynt pwysig iawn wrth ddweud y ceir canfyddiad, o leiaf, weithiau, y bydd ysgolion yn dangos tuedd tuag at addysg uwch fel y canlyniad cywir. Rwyf yn siŵr bod hynny'n digwydd, ond mae'n ymddangos bod llawer mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd prentisiaethau ac addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Daeth hynny i'r amlwg yn ein hadolygiad o gymwysterau i ddysgwyr 14 i 19 oed. Hoffem weld cyngor am y llwybrau gyrfa hynny'n cael o leiaf yr un pwys ag addysg uwch. Mae'r gwasanaeth gyrfaoedd eisoes yn cynnal y gwasanaeth paru prentisiaethau ar y we, sy'n galluogi pobl ifanc i weld beth sydd ar gael iddynt ac yn caniatáu i gyflogwyr weld pa bobl ifanc a all fod â diddordeb mewn dilyn prentisiaethau gyda hwy.

I have already made the point that we do not anticipate that we are going to overburden teachers. We are not putting more onerous responsibilities in there, but it is crucial for leaders of schools and other learning centres to make sure that what Estyn found—which was that there were variations in delivery and evaluation—is addressed so that there is consistency of approach.

Rwyf eisoes wedi gwneud y pwynt nad ydym yn rhagweld y byddwn yn gorlwytho athrawon. Nid ydym yn rhoi cyfrifoldebau mwy beichus iddynt, ond mae'n hanfodol bod arweinwyr ysgolion a chanolfannau dysgu eraill yn gwneud yn siŵr y rhoddir sylw i'r hyn a ganfu Estyn—sef bod dulliau darparu a gwerthuso'n amrywio—er mwyn sicrhau dull gwaith cyson.

16:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I apologise to the Members whom I have not been able to call, but we are well over time and this afternoon's session is going to be a long one.

Diolch, Weinidog. Rwyf yn ymddiheuro i'r Aelodau nad wyf wedi gallu galw arnynt, ond rydym yn bell dros amser ac mae sesiwn y prynhawn yma'n mynd i fod yn un hir.

The statement on the Welsh language and economic development task and finish group will be issued as a written statement. The item on the Public Bodies (Abolition of Administrative Justice and Tribunals Council) Order 2013 has been postponed.

Bydd y datganiad ar grŵp gorchwyl a gorffen yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd yn cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig. Mae'r eitem ar Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013 wedi cael ei gohirio.

# Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013

# The CRC Energy Efficiency Scheme Order 2013

Cynnig NDM5201 Lesley Griffiths
Motion NDM5201 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Orchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2013.

Approves that the draft The CRC Energy Efficiency Scheme Order 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 28 February 2013.

16:21

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The carbon reduction commitment energy efficiency scheme, known as the CRC, is a mandatory scheme aimed at large organisations in the private and public sectors. The CRC drives change in behaviour and infrastructure; it generates corporate awareness of emissions and energy usage; and it captures senior management attention and improves energy management. The CRC commenced in April 2010, and there are currently 58 full Welsh participants. The Welsh Government is included in a scheme on a mandatory basis, reflecting our commitment to demonstrating leadership on climate change.

Mae cynllun effeithlonrwydd ynni'r ymrwymiad lleihau carbon, a elwir yn CRC, yn gynllun gorfodol wedi'i anelu at sefydliadau mawr yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae'r CRC yn sbarduno newid mewn ymddygiad a seilwaith; mae'n gwneud corfforaethau'n ymwybodol o allyriadau a defnydd ynni; ac mae'n dal sylw uwch reolwyr ac yn gwella'r dull o reoli ynni. Dechreuodd y CRC ym mis Ebrill 2010, ac mae 58 o gyfranogwyr llawn yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n orfodol i Lywodraeth Cymru gael ei chynnwys mewn cynllun, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i ddangos arweiniad ar newid yn yr hinsawdd.

Concerns have been raised by stakeholders over the complexity of the CRC and we have, alongside the UK Government and the devolved administrations of Scotland and Northern Ireland, jointly committed to simplifying the scheme in order to reduce the burden on participants. The simplification of the scheme began with phase 1 in 2011 and a first round of simplification legislation has come into force. That was followed by a number of formal and informal consultation exercises. These actions have shaped the new proposals. Some further simplifications were introduced for the final two years of phase 1 in 2012-13 and 2013-14 to help participants further. The simplified scheme will come into full effect from the start of phase 2—namely 2014-15.

Mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon am gymhlethdod y CRC ac rydym ni, ochr yn ochr â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi ymrwymo ar y cyd i symleiddio'r cynllun er mwyn lleihau'r baich ar gyfranogwyr. Dechreuodd y gwaith o symleiddio'r cynllun gyda chyfnod 1 yn 2011 ac mae rownd gyntaf deddfwriaeth symleiddio wedi dod i rym. Dilynwyd hynny gan nifer o ymarferion ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r camau hyn wedi dylanwadu ar y cynigion newydd. Cyflwynwyd rhai camau symleiddio pellach ar gyfer dwy flynedd olaf cyfnod 1 yn 2012-13 a 2013-14 i helpu cyfranogwyr eto. Bydd y cynllun symlach yn dod i rym yn llawn o ddechrau cyfnod 2, sef 2014-15.

The Order reflects the simplification changes, and what we now have, I hope, is a simpler scheme that places a reduced reporting burden on participants, provides greater organisational flexibility and no longer overlaps with other schemes, namely the climate change agreements and the EU emissions trading schemes. I ask the National Assembly to endorse this Order.

Mae'r Gorchymyn yn adlewyrchu'r newidiadau symleiddio, ac mae'r hyn sydd gennym nawr, gobeithio, yn gynllun symlach sy'n rhoi llai o faich ar gyfranogwyr ym maes cyflwyno adroddiadau, yn darparu mwy o hyblygrwydd sefydliadol ac nad yw'n gorgyffwrdd mwyach â chynlluniau eraill, sef y cytundebau newid yn yr hinsawdd a chynlluniau masnachu allyriadau'r UE. Gofynnaf i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r Gorchymyn hwn.

16:23 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Minister for bringing forward this statement today. On the whole, the CRC energy efficiency scheme has been reasonably successful across the UK in assisting and encouraging the public and the private sectors to become more efficient and to cut their carbon emissions in line with our national and international commitments. It has been estimated by DEFRA that the scheme will reduce carbon emissions by 1.2 million tonnes per year by 2020. As a result of this progress, the scheme has enjoyed a degree of cross-party support, which is welcome, since its inception back in the 2007 energy White Paper. Nevertheless, a mandatory scheme such as this should always be open to review. I would recommend that we make common cause with the UK coalition Government to complete the consultation that has led to these reforms.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw. Ar y cyfan, mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni CRC wedi bod yn weddol llwyddiannus ledled y DU wrth gynorthwyo ac annog y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddod yn fwy effeithlon ac i leihau eu hallyriadau carbon yn unol â'n hymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae DEFRA wedi amcangyfrif y bydd y cynllun yn lleihau allyriadau carbon 1.2 miliwn tunnell y flwyddyn erbyn 2020. O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, mae'r cynllun wedi mwynhau rhywfaint o gefnogaeth drawsbleidiol, sydd i'w groesawu, ers ei sefydlu yn ôl yn y Papur Gwyn ar ynni yn 2007. Serch hynny, dylid gallu adolygu cynllun gorfodol fel hwn bob amser. Byddwn yn argymell ein bod yn ymuno â Llywodraeth glymblaid y DU i gwblhau'r ymgynghoriad sydd wedi arwain at y diwygiadau hyn.

Specifically, the reforms will reduce the evident complexity to which the Minister has already alluded, and will inculcate a greater sense of business certainty, which is really important in this area of policy. They also reduce the obvious overlap that currently exists with schemes such as the European Union's emissions trading programme and CCA exemption rules. The reforms will also lead to a 55% reduction in administrative costs, and this equates to some £272 million up to 2030.

Yn benodol, bydd y diwygiadau'n lleihau'r cymhlethdod amlwg y mae'r Gweinidog eisoes wedi cyfeirio ato, a bydd yn annog mwy o ymdeimlad o sicrwydd busnes, sy'n bwysig iawn yn y maes polisi hwn. Maent hefyd yn lleihau'r gorgyffwrdd amlwg sy'n bodoli ar hyn o bryd gyda chynlluniau megis rhaglen masnachu allyriadau'r Undeb Ewropeaidd a rheolau eithrio CCA. Bydd y diwygiadau hyn hefyd yn arwain at ostyngiad o 55% mewn costau gweinyddol, ac mae hyn yn cyfateb i ryw £272 miliwn hyd at 2030.

Finally, they will also deliver clearer rules to incentivise the adoption of cost-cutting energy efficiency measures. Obviously, the impact will be slightly different here in Wales, and I would welcome further comments from the Minister on how Natural Resources Wales plans to administer the changes directly on behalf of the Department of Energy and Climate Change and the Welsh Government. These reforms are an example of the Government in listening mode: listening to stakeholders and delivering much-needed and effective reform is something that should be warmly welcomed across this Chamber today.

Yn olaf, byddant hefyd yn darparu rheolau cliriach i gymell sefydliadau i fabwysiadu mesurau effeithlonrwydd ynni sy'n lleihau costau. Yn amlwg, bydd yr effaith ychydig yn wahanol yma yng Nghymru, a byddwn yn croesawu rhagor o sylwadau gan y Gweinidog am sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu gweinyddu'r newidiadau'n uniongyrchol ar ran yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd a Llywodraeth Cymru. Mae'r diwygiadau hyn yn enghraifft o'r Llywodraeth yn gwrando: mae'r ffaith ei bod yn gwrando ar randdeiliaid ac yn cyflwyno diwygiadau effeithiol y mae eu hangen yn fawr yn rhywbeth a ddylai gael croeso cynnes ar draws y Siambr heddiw.

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other Members who wish to speak in the debate, so I call on the Minister to reply.

Nid oes gennyf unrhyw Aelodau eraill sy’n dymuno siarad yn y ddadl, felly galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

16:25 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I am very grateful for the support of the Liberal Democrats for this scheme and the simplification process that is being delivered by it. I can reassure Bill Powell, if reassurance is needed—I am not sure it is, given his words—that this is something that has been developed in tandem with DEFRA and DECC and across the United Kingdom. I will say, in response to his points, that I believe the Northern Ireland Assembly is holding a debate on this Order today, and Scotland will do so tomorrow. Bill Powell may be aware that a debate has already been held in the House of Lords, and the House of Commons will be debating it next week. This is a comprehensive Order that has been through the process that Bill Powell described and will help to deliver the Welsh Government’s ambitions on emissions reductions in the business and public sectors covered by the carbon reduction commitment.

Rwyf yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol i’r cynllun hwn a’r broses symleiddio sy’n cael ei chyflwyno ganddo. Gallaf sicrhau Bill Powell, os oes angen gwneud hynny—nid wyf yn siŵr a oes, o ystyried ei eiriau—bod hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â DEFRA a’r DECC a ledled y Deyrnas Unedig. Dywedaf, i ymateb i’w bwyntiau, fy mod yn credu bod Cynulliad Gogledd Iwerddon yn cynnal dadl am y Gorchymyn hwn heddiw, ac y bydd yr Alban yn gwneud hynny yfory. Efallai y bydd Bill Powell yn ymwybodol bod dadl eisoes wedi ei chynnal yn Nhŷ’r Arglwyddi, ac y bydd Tŷ’r Cyffredin yn trafod y mater yr wythnos nesaf. Mae hwn yn Orchymyn cynhwysfawr sydd wedi bod drwy’r broses a ddisgrifiodd Bill Powell ac a fydd yn helpu i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau yn y sector busnes a’r sector cyhoeddus a gwmpesir yn yr ymrwymiad lleihau carbon.

I reassure the Chamber that, once this has been approved by all four administrations in the United Kingdom, a recommendation will be made to Her Majesty in Council to make the Order.

I sicrhau’r Siambr, unwaith y caiff hyn ei gymeradwyo gan bob un o bedair gweinyddiaeth y Deyrnas Unedig, gwneir argymhelliad i’w Mawrhydi yn Ei Chyngor i wneud y Gorchymyn.

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections, and the motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes dim gwrthwynebiadau, ac felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Plant a Theuluoedd

## Legislative Consent Memorandum on the Children and Families Bill

Cynnig NDM5164 Lesley Griffiths
Motion NDM5164 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Plant a Theuluoedd, sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Plant 1989 (adran 31A (4A)) ac adrannau 125 i 131 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Children and Families Bill, relating to amendments to the Children Act 1989 (section 31A (4A)) and sections 125 to 131 of the Adoption and Children Act 2002 in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales should be considered by the UK Parliament.

16:27 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Diolch am y cyfle i egluro'r cefndir i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Mae'r cynnig wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac nid ydynt wedi codi unrhyw wrthwynebiad. Rwy'n ddiolchgar iawn iddynt am eu gwaith.

Thank you for the opportunity to explain the background to this legislative consent motion. The motion has been considered by the Health and Social Care Committee and by the Children and Young People Committee, and neither committee raised any objections. I am very grateful to them for their work.

The LCM relates to two issues that the UK Children and Families Bill seeks to reform: first, the disapplication of the adoption and children Act register to Wales, by amending that Act; and secondly, the preparation of a child care plan, by conferring regulation-making powers on Welsh Ministers in relation to setting a time limit by which a local authority must prepare a care plan following its application to the court for a care or supervision order.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ymwneud â dau fater y mae Bil Plant a Theuluoedd y DU yn ceisio eu diwygio: yn gyntaf, datgymhwyso cofrestr deddf plant a mabwysiadu i Gymru, drwy ddiwygio'r Ddeddf honno; ac yn ail, paratoi cynllun gofal plant, drwy roi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu terfyn amser y mae'n rhaid i awdurdod lleol gadw ato wrth baratoi cynllun gofal ar ôl gwneud cais i'r llys am orchymyn gofal neu oruchwylio.

These proposals are timely and opportune in enabling us to further advance our distinct Welsh policies while ensuring consistency and co-operation across England and Wales—for example, in the court's handling of family law cases, and that of local authorities and Welsh family proceedings officers in relation to public law; and in the establishment of a Welsh register from April 2014 that will become one of the key functions of the new national adoption service.

Mae'r cynigion hyn yn amserol ac yn briodol gan eu bod yn ein galluogi i ddatblygu ymhellach ein polisïau penodol i Gymru yn ogystal â sicrhau cysondeb a chydweithio ar draws Cymru a Lloegr—er enghraifft, o ran sut y mae'r llys yn ymdrin ag achosion cyfraith teulu, a'r modd y mae awdurdodau lleol a swyddogion achosion teuluol yng Nghymru'n ymdrin â chyfraith gyhoeddus; ac i sefydlu cofrestr ar gyfer Cymru o fis Ebrill 2014 ymlaen a ddaw'n un o swyddogaethau allweddol y gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol newydd.

My regular statements on the family justice review highlighted the proposed changes to the Children Act 1989 to reform the family justice system. These include amendments to section 31A care plans to make clear the court's role in the scrutiny of the order and to focus its decision on the long-term plan for the child's upbringing. The Social Services and Well-being (Wales) Bill legislates for holistic plans and integration of plans for a child's health, educational, physical, emotional and social development. Section 31A plans form part of the holistic plan.

Roedd fy natganiadau rheolaidd am yr adolygiad cyfiawnder teuluol yn tynnu sylw at y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Plant 1989 i ddiwygio'r system cyfiawnder teuluol. Mae'r rhain yn cynnwys diwygiadau i gynlluniau gofal adran 31A i egluro rôl y llys o ran craffu ar y gorchymyn ac i sicrhau bod eu penderfyniad yn canolbwyntio ar gynllun hirdymor i fagu'r plentyn. Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn deddfu ar gyfer paratoi cynlluniau cyfannol ac integreiddio cynlluniau ar gyfer iechyd a datblygiad, addysgol, corfforol, emosiynol a chymdeithasol plentyn. Mae cynlluniau Adran 31A yn rhan o'r cynllun cyfannol.

Approving these provisions within the UK Bill asserts the National Assembly's competence in relation to care planning for children and adoption.

Trwy gymeradwyo'r darpariaethau hyn o fewn Bil y DU, dangosir cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol o ran cynllunio gofal i blant a mabwysiadu.

16:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Children and Young People Committee, Christine Chapman.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Christine Chapman.

16:30

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. This legislative consent memorandum was referred to the Children and Young People Committee, and we reported on 22 March. We considered the LCM at our meeting on 27 February and agreed that, within the time available, we would write to the Deputy Minister to ask for some clarification in relation to the two provisions in the Bill for which consent is being sought, namely, the disapplication of the Adoption and Children Act 2002 register to Wales and the preparation of care plans.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cafodd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn ei gyfeirio at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, a rhoesom adroddiad ar 22 Mawrth. Ystyriwyd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ein cyfarfod ar 27 Chwefror a chytuno y byddem, o fewn yr amser a oedd ar gael, yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i ofyn am eglurhad am y ddwy ddarpariaeth yn y Bil y ceisir cydsyniad iddynt, sef, datgymhwyso cofrestr Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i Gymru a pharatoi cynlluniau gofal.

We asked the Deputy Minister to set out why these provisions were not included within the recently introduced Social Services and Well-being (Wales) Bill, particularly as they relate to provisions contained within that Bill. We also asked what transitional measures will be put in place in relation to the disapplication of the register to Wales.

Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog nodi pam nad oedd y darpariaethau hyn wedi'u cynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn enwedig gan eu bod yn ymwneud â darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil hwnnw. Gofynnwyd hefyd pa fesurau trosiannol a roddir ar waith ynglŷn â datgymhwyso'r gofrestr i Gymru.

We received two letters from the Deputy Minister clarifying the position. These letters are annexed to our report, but I will run through the main points very briefly. In relation to why the provisions were not included in the Social Services and Well-being (Wales) Bill, the Deputy Minister told us that that was necessary in relation to the disapplication of the adoption register as there is currently no provision in the social services Bill for a stand-alone adoption register, but she intends to bring forward an amendment at Stage 2 to provide for that. In terms of the preparation of care plans, the Deputy Minister explained that including this provision in the LCM reflected the Assembly's legislative competence in this area.

Cawsom ddau lythyr gan y Dirprwy Weinidog yn egluro'r sefyllfa. Mae'r llythyrau hyn wedi'u hatodi i'n hadroddiad, ond af drwy'r prif bwyntiau yn gryno iawn. O ran pam nad oedd y darpariaethau wedi'u cynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod hynny'n angenrheidiol er mwyn datgymhwyso'r gofrestr mabwysiadu gan nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y Bil gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd ar gyfer cofrestr mabwysiadu annibynnol. Mae hi'n bwriadu cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ddarparu ar gyfer hynny. O ran paratoi cynlluniau gofal, eglurodd y Dirprwy Weinidog yr adlewyrchir cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn y maes hwn trwy gynnwys y ddarpariaeth hon yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

In relation to the transitional arrangements for the disapplication of the adoption register, the Deputy Minister told us that existing arrangements will remain in place until the new register has been established and that her officials were in discussions with counterparts in the Department for Education to ensure that no children will be disadvantaged as a result of a Wales-only register.

O ran y trefniadau trosiannol ar gyfer datgymhwyso'r gofrestr mabwysiadu, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y bydd y trefniadau presennol yn parhau mewn grym nes bydd y gofrestr newydd wedi ei sefydlu a bod ei swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda chymheiriaid yn yr Adran Addysg i sicrhau na fydd unrhyw blant dan anfantais o ganlyniad i gofrestr i Gymru'n unig.

Having considered the Deputy Minister's response, the Committee concluded that it has no objection to the use of an LCM in the manner proposed. Further to that, we welcome the Deputy Minister's commitment to keep us regularly informed of progress in this area.

Ar ôl ystyried ymateb y Dirprwy Weinidog, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y modd a gynigir. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i'n hysbysu'n rheolaidd am ddatblygiadau yn y maes hwn.

16:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have no other speakers, so I will ask the Deputy Minister to reply.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill, felly gofynnaf i'r Dirprwy Weinidog ymateb.

16:32

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

*Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

Senedd.tv
Fideo Video

I agree with what the Chair of the Children and Young People Committee has said. That was in correspondence between us. I am sure that the Chamber would want to know that there will be plumbing arrangements as well, with regard to the register so that children do not lose out in adoptions between England and Wales, and I think that that is important. Also, it is important to note that the responsibility for the timing of the reports to court will now transfer to Ministers here. That was previously the responsibility of the court. Therefore, today's motion is helpful and will point to a clear way forward.

Rwyf yn cytuno â'r hyn y mae Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi'i ddweud. Roedd hynny mewn gohebiaeth rhyngom. Rwyf yn siŵr y byddai'r Siambr yn awyddus i wybod y ceir trefniadau cydgysylltu yn ogystal, o ran y gofrestr, fel na fydd plant ar eu colled o ran mabwysiadu rhwng Cymru a Lloegr, a chredaf fod hynny'n bwysig. Hefyd, mae'n bwysig nodi y bydd y cyfrifoldeb am amseriad yr adroddiadau i'r llys nawr yn trosglwyddo i Weinidogion yma. Cyfrifoldeb y llys oedd hynny'n flaenorol. Felly, mae cynnig heddiw yn ddefnyddiol a bydd yn dangos ffordd glir ymlaen.

Providing our consent to these amendments will observe the allocation of powers between the UK and Welsh Governments and acknowledges that different arrangements may apply in relation to the court's consideration of an application for a care or supervision order when made by Welsh local authorities. I invite you to approve the motion.

Bydd ein cydsyniad i'r newidiadau hyn yn cyd-fynd â dyraniad pwerau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac yn cydnabod y gall trefniadau gwahanol fod yn berthnasol pan fydd y llys yn ystyried cais am orchymyn gofal neu oruchwyliaeth a wnaethpwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Rwyf yn eich gwahodd i gymeradwyo'r cynnig.

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Cynnig i Gytuno ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

## Motion to Agree the General Principles of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill

Cynnig NDM5197 Lesley Griffiths

Motion NDM5197 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru).

Agrees to the general principles of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill.

16:34 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I would like to thank the Communities, Equality and Local Government Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their reports and helpful comments, following their scrutiny of the general principles of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill. I shall concentrate my remarks on these reports, starting with the Communities, Equality and Local Government Committee report. In the interests of time, I will not comment on those recommendations that I accept in principle. Those are: recommendations 2, allowing the commission to make consequential changes in a community order; recommendation 3, to clarify who can make consequential changes; recommendation 5, to allow early commencement of the commission's review cycle; recommendation 6, to allow the commission to conduct reviews, but not to publish reports in the period leading up to an election; recommendation 8, to link the timetables for community and electoral reviews; recommendation 14, insofar as it deals with the publication of the register of interests; and recommendation 19, which would enable a local authority to refer a standards issue to another authority's standards committee.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu hadroddiadau a'u sylwadau defnyddiol, yn dilyn eu gwaith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). Bydd fy sylwadau'n canolbwyntio ar yr adroddiadau hyn, gan ddechrau gydag adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Er mwyn arbed amser, ni fyddaf yn gwneud sylwadau ynglŷn â'r argymhellion hynny yr wyf yn eu derbyn mewn egwyddor. Hynny yw: argymhelliad 2, sy'n caniatáu i'r comisiwn wneud newidiadau canlyniadol mewn gorchymyn cymunedol; argymhelliad 3, er mwyn egluro pwy all wneud newidiadau canlyniadol; argymhelliad 5, i ganiatáu i gylch adolygu'r comisiwn ddechrau'n gynnar; argymhelliad 6, er mwyn caniatáu i'r comisiwn gynnal adolygiadau, ond nid i gyhoeddi adroddiadau yn y cyfnod cyn etholiad; argymhelliad 8, i gysylltu'r amserlenni ar gyfer arolygon cymunedol ac etholiadol; argymhelliad 14, i'r graddau y mae'n ymwneud â chyhoeddi'r gofrestr buddiannau; ac argymhelliad 19, a fyddai'n galluogi awdurdod lleol i gyfeirio mater safonau at bwyllgor safonau awdurdod arall.

Turning to the other recommendations, the committee recommends that the Bill is amended so as to retain the provision in the Local Government Act 1972 that requires there to be a Welsh-speaking member of the Local Government Boundary Commission for Wales. Although the commission will need to comply with the legislative framework supporting the Welsh language, it cannot be right to have this protection when there is no similar requirement in relation to any other protected characteristic. The committee recommends that the period before an election when a commission report must not be published be shortened to six months rather than nine. I do not agree with this, as it would allow for proposals to be published that could not be implemented in time for the forthcoming elections.

O ran yr argymhellion eraill, mae'r pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio er mwyn cadw'r ddarpariaeth yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n gofyn bod aelod o'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn gallu siarad Cymraeg. Er y bydd angen i'r comisiwn gydymffurfio â'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg, ni all fod yn iawn cael yr amddiffyniad hwn pan nad oes gofyniad tebyg mewn perthynas ag unrhyw nodwedd arall a ddiogelir. Mae'r pwyllgor yn argymell bod y cyfnod cyn etholiad pan na cheir cyhoeddi adroddiad gan y comisiwn yn cael ei fyrhau i chwe mis yn hytrach na naw. Nid wyf yn cytuno â hyn, gan y byddai'n caniatáu i gynigion gael eu cyhoeddi na fyddai modd eu rhoi ar waith mewn pryd ar gyfer yr etholiadau sydd i ddod.

The Bill uses the term 'electoral area' to describe the area within a county that a councillor represents. The committee wishes the Bill to retain the term 'electoral division', but the use of the word 'area' introduces a degree of consistent legal terminology.

Mae'r Bil yn defnyddio'r term 'ardal etholiadol' i ddisgrifio'r ardal o fewn sir y mae cynghorydd yn ei chynrychioli. Mae'r pwyllgor am i'r Bil gadw'r term 'adran etholiadol', ond mae defnyddio'r gair 'ardal' yn cyflwyno rhywfaint o derminoleg gyfreithiol gyson.

The Bill includes a duty on those conducting a review to consult with prescribed stakeholders. It has been argued that this does not require a public consultation. I am content with the normal practice of the commission, which is to consult far more widely than simply the mandatory consultees and I therefore do not believe that the Bill should be amended.

Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd ar y rhai sy'n cynnal adolygiad i ymgynghori â rhanddeiliaid penodedig. Mae rhai wedi dadlau nad oes angen ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn gwneud hyn. Yr wyf yn fodlon ag arfer arferol y comisiwn, sef ymgynghori yn llawer ehangach na dim ond yr ymgyngoreion gorfodol ac nid wyf felly'n credu y dylai'r Bil gael ei ddiwygio.

The committee wants the Bill to specify that hard rather than electronic copies of a review report should be available on demand. The Bill leaves discretion on this to the reviewing body, which I believe is appropriate.

Mae'r pwyllgor am i'r Bil nodi y dylai copïau caled yn hytrach na rhai electronig o adroddiad yr adolygiad fod ar gael yn ôl y galw. Mae'r Bil yn gadael hyn i ddisgresiwn y corff adolygu, ac rwyf yn credu mai dyna sy'n briodol.

Section 50 of the Bill introduces a proposal for the commission to be empowered to review the membership of any qualifying public body specified in a direction from Welsh Ministers. The committee would like the bodies that might become subject to such a review to be listed in the Bill. Doing this could lead to speculation that they are likely to be subject to review and possible restructuring. Also, both committees have proposed that the wording of the provision should be clarified to ensure that it covers newly created public bodies that are not yet operational. However, I am content that the existing wording of the provision will capture any public body in embryonic form.

Mae Adran 50 y Bil yn cyflwyno cynnig i roi grym i'r comisiwn adolygu aelodaeth unrhyw gorff cyhoeddus cymwys a bennir mewn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r pwyllgor am i'r cyrff a allai ddod yn destun adolygiad o'r fath gael eu rhestru yn y Bil. Gallai gwneud hynny arwain at ddyfalu eu bod yn debygol o fod yn destun adolygiad ac efallai ailstrwythuro. Hefyd, mae'r ddau bwyllgor wedi cynnig y dylai geiriad y ddarpariaeth gael ei egluro er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys cyrff cyhoeddus sydd newydd gael eu creu, nad ydynt yn weithredol eto. Fodd bynnag, rwyf yn fodlon y bydd geiriad presennol y ddarpariaeth yn cynnwys unrhyw egin gorff cyhoeddus.

Existing legislation allows the mayor or chair of a principal council to stay in office until the first meeting of the new council after an election, irrespective of the results of the election. I have been asked to consider whether this arrangement should be extended to a presiding member in the same circumstances. Opening a meeting of a new council, handing over the chain of office and then vacating the chair is largely ceremonial. I see no reason why the new chair or mayor could not then oversee the election of the new presiding member, if there is one, and pass the chairing responsibility to them.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i faer neu gadeirydd prif gyngor aros yn y swydd tan gyfarfod cyntaf y cyngor newydd, ar ôl etholiad, waeth beth yw canlyniadau'r etholiad. Rwyf wedi cael cais i ystyried a ddylai'r trefniant hwn gael ei ymestyn i'r aelod llywyddol dan yr un amgylchiadau. Mae agor cyfarfod o'r cyngor newydd, trosglwyddo'r gadwyn a gadael y gadair, yn seremonïol i raddau helaeth. Ni welaf unrhyw reswm pam na allai'r cadeirydd neu'r maer newydd oruchwylio'r broses o ethol aelod llywyddol newydd, os bydd un, a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am gadeirio i'r aelod hwnnw.

The Bill includes a requirement for community councils to have websites, and lays out basic requirements as to what information should go on the website. Guidance will be produced on the information that is to be published. I am not minded to add a regulation-making power on what should be included in the websites. The committee has recommended that I consider the resource implications of community councils needing to publish bilingually on their websites. However, if community councils are required to publish bilingually, this would apply to hard copies of information now as well as electronic publications, and translation costs would apply in both cases.

Mae'r Bil yn cynnwys gofyniad i gynghorau cymuned gael gwefannau, ac mae'n amlinellu gofynion sylfaenol ynghylch pa wybodaeth ddylai fynd ar y wefan. Caiff arweiniad ei gynhyrchu ynglŷn â'r wybodaeth y dylid ei chyhoeddi. Nid wyf yn bwriadu ychwanegu grym i lunio rheoliadau ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys yn y gwefannau. Mae'r pwyllgor wedi argymell fy mod yn ystyried y goblygiadau o ran adnoddau yn sgil yr angen i gynghorau cymuned gyhoeddi'n ddwyieithog ar eu gwefannau. Fodd bynnag, os oes angen i gynghorau cymuned gyhoeddi'n ddwyieithog, byddai hyn yn berthnasol bellach i gopïau caled o wybodaeth yn ogystal â chyhoeddiadau electronig, a byddai costau cyfieithu yn berthnasol yn y ddau achos.

The committee has proposed that 10% of an authority's members should be able to add to the matters that a democratic services committee could consider under the greater flexibility allowed through the Bill rather than this decision being subject to a majority vote. I am concerned that such a provision would be a green light to a fairly small minority in a council—possibly three members in the smallest—to refer an issue to the DSC and this is not likely to be welcomed by local government.

Mae'r pwyllgor wedi cynnig y dylai 10% o aelodau'r awdurdod allu ychwanegu at y materion y gallai pwyllgor gwasanaethau democrataidd eu hystyried, gan fod y Bil yn caniatáu mwy o hyblygrwydd, yn hytrach na bod y penderfyniad hwn yn amodol ar bleidlais gan y mwyafrif. Rwyf yn pryderu y byddai darpariaeth o'r fath yn caniatáu i leiafrif gweddol fach mewn cyngor—tri o aelodau o bosibl—gyfeirio mater at y pwyllgor gwasanaethau democrataidd ac nid yw hyn yn debygol o gael ei groesawu gan lywodraeth leol.

Many of the provisions of the 2011 Measure were designed to strengthen the operation of scrutiny in local government, but they have been in effect only since last May and, in some cases, are not yet in force. There has not, therefore, been time to measure the effectiveness of these reforms. A programme of support is also in place through the scrutiny development fund, the centre for public scrutiny and other initiatives to develop effective local government scrutiny. For these measures, I do not accept the committee's recommendation to consider further steps in relation to scrutiny at this time.

Roedd llawer o ddarpariaethau Mesur 2011 wedi eu cynllunio er mwyn cryfhau gweithrediad craffu mewn llywodraeth leol, ond dim ond ers mis Mail diwethaf y maent wedi bod yn weithredol, ac mewn rhai achosion, nid ydynt mewn grym eto. Nid oes amser wedi bod felly i fesur effeithiolrwydd y diwygiadau hyn. Mae rhaglen o gefnogaeth wedi ei sefydlu hefyd, drwy'r gronfa datblygu gwaith craffu, y ganolfan craffu cyhoeddus a mentrau eraill i ddatblygu gwaith craffu effeithiol ar gyfer llywodraeth leol. O ran y mesurau hyn, nid wyf yn derbyn argymhelliad y pwyllgor i ystyried camau pellach mewn perthynas â chraffu ar hyn o bryd.

The independent remuneration panel for Wales is responsible for deciding the levels of payments to members of local authorities and is required to publish, following a two-month consultation on a draft, an annual report by 31 December, with determinations coming into force the following May. By changing to an end-of-February publication date, as proposed in section 60 of the Bill, the panel can delay commencing the drafting on the following report until August, as opposed to June under existing arrangements.

Mae panel annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol yn gyfrifol am benderfynu ar lefel y taliadau i aelodau awdurdodau lleol ac mae'n ofynnol iddo gyhoeddi, yn dilyn ymgynghoriad deufis ar ddrafft o'r adroddiad, adroddiad blynyddol erbyn 31 Rhagfyr, gyda phenderfyniadau'n dod i rym y mis Mai canlynol. Trwy newid i ddyddiad cyhoeddi diwedd Chwefror, fel y cynigir yn adran 60 y Bil, gall y panel ohirio dechrau'r drafftio ar yr adroddiad canlynol tan fis Awst, yn hytrach na mis Mehefin dan y trefniadau presennol.

The committee responded to complaints from local government authorities that delaying publication until February could disrupt their budget-making process. I disagree. Councillors' remuneration is a marginal cost in a local authority budget, and the draft report would provide a basis for budget estimates.

Ymatebodd y Pwyllgor i gwynion gan awdurdodau llywodraeth leol y gallai gohirio cyhoeddi tan fis Chwefror darfu ar eu proses o lunio cyllideb. Rwyf yn anghytuno. Mae tâl cynghorwyr yn gost ymylol yng nghyllidebau'r awdurdodau lleol, a byddai'r adroddiad drafft yn darparu sail ar gyfer amcangyfrif y gyllideb.

The provisions in the Bill to enable local authorities to establish joint standards committees were well received by those giving evidence to the committee. I wish to see authorities using those powers in due course, but I do not consider that requiring them to do so is the right approach. Authorities are best placed to assess the benefits that might accrue from collaboration and to determine how to arrange this on the ground.

Croesawyd y darpariaethau yn y Bil i alluogi awdurdodau lleol i sefydlu cyd-bwyllgorau safonau gan y rhai a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor. Hoffwn weld awdurdodau'n defnyddio'r pwerau hynny maes o law, ond nid wyf o'r farn mai ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny yw'r dull cywir. Yr awdurdodau sydd yn y sefyllfa orau i asesu'r manteision a allai ddeillio o gydweithio ac i benderfynu sut i drefnu hyn ar lawr gwlad.

Turning to the recommendations from the Constitutional and Legislative Affairs Committee, I will bring forward amendments, as it suggests, to sections 43 and 65 of the Bill. The last three recommendations from the committee are technical in nature. I will give them further consideration, but my initial view is that they are not necessary.

O ran argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, byddaf yn cyflwyno gwelliannau, fel y mae'n awgrymu, i adrannau 43 a 65 y Bil. Mae tri argymhelliad olaf y pwyllgor yn rhai technegol. Byddaf yn rhoi rhagor o ystyriaeth iddynt, ond fy marn gychwynnol yw nad ydynt yn angenrheidiol.

This Bill introduces important changes to the procedures relating to local government. They may not be headline-grabbing, but they are necessary to ensure that we maintain and continue to build a healthy democracy. I therefore commend them to you.

Mae'r Bil yn cyflwyno newidiadau pwysig i'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â llywodraeth leol. Efallai nad ydynt yn denu sylw'r wasg, ond maent yn angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ac yn parhau i adeiladu democratiaeth iach. Rwyf felly yn eu cymeradwyo i chi.

16:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

16:41

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to take part in this debate and to put forward the committee's views; I am aware that the Minister has gone through the committee's recommendations. I thank committee members and staff for helping to produce the report, and I also thank those who gave written and oral evidence, which helped us to produce the report. We have highlighted a number of areas in which the committee thinks that the legislation could be improved. I was hoping that the Minister would have accepted them all, but there we go.

Rwyf yn falch o gymryd rhan yn y ddadl hon ac o gyflwyno barn y pwyllgor; rwyf yn ymwybodol fod y Gweinidog wedi sôn am argymhellion y pwyllgor. Diolch i aelodau'r pwyllgor a'r staff am gynorthwyo i gynhyrchu'r adroddiad, ac rwyf hefyd am ddiolch i'r rhai hynny a roddodd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar, a fu'n help inni wrth gynhyrchu'r adroddiad. Rydym wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle mae'r pwyllgor yn credu y gellid gwella'r ddeddfwriaeth. Yr oeddwn yn gobeithio y byddai'r Gweinidog yn derbyn pob un ohonynt, ond dyna ni.

The majority of those who responded to the committee were in favour of the Bill and its general principles to improve local democracy. One of the recommendations related to the Welsh language requirements in respect of the way in which the local democracy and boundary commission operates, and we took some hard evidence on this. We received mixed views on the removal of the statutory requirement, but the committee felt it necessary to recommend that that the Bill should include a provision similar to the 1972 Act to ensure that at least one of the commissioners is a Welsh speaker.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r pwyllgor o blaid y Bil a'i egwyddorion cyffredinol i wella democratiaeth leol. Roedd un o'r argymhellion yn ymwneud â gofynion yr iaith Gymraeg o ran y ffordd y mae'r comisiwn ffiniau a democratiaeth leol yn gweithredu, a derbyniwyd tystiolaeth gadarn ynglŷn â hyn. Clywsom farn gymysg ynghylch cael gwared ar y gofyniad statudol, ond roedd y pwyllgor o'r farn fod angen argymell y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth debyg i Ddeddf 1972 i sicrhau bod o leiaf un o'r comisiynwyr yn siarad Cymraeg.

The Minister accepted quite a few of our recommendations that cover the timing of reviews, but as the Bill places a duty on the commission to conduct a review of each principal area electoral arrangements at least once every 10 years, we felt that that should be the case. We felt that a six-month period is a valid period and that it does not stop the commission from undertaking those reviews, and we thought that the nine-month period would be too disruptive in a cycle of council elections. Therefore, we recommended a six-month period, and the committee will be disappointed that the Minister cannot see her way clear to agreeing to that.

Derbyniodd y Gweinidog gryn nifer o'n hargymhellion sy'n ymwneud ag amseriad yr adolygiadau, ond gan fod y Bil yn rhoi dyletswydd ar y comisiwn i gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol pob prif ardal o leiaf unwaith bob 10 mlynedd, roeddem o'r farn mai dyna ddylai ddigwydd. Roeddem o'r farn fod cyfnod o chwe mis yn gyfnod dilys ac nad yw'n atal y comisiwn rhag cynnal yr adolygiadau hynny, ac roeddem o'r farn y byddai'r cyfnod o naw mis yn tarfu gormod ar gylch etholiadau cynghorau. Felly, rydym yn argymell cyfnod o chwe mis, a bydd y pwyllgor yn siomedig na all y Gweinidog gytuno i hynny.

We further recommended that the Bill is amended to ensure that there is clarity between carrying out a review and publishing the proposals of that review in terms of what would be permitted during the period provided for in section 29. Section 29 also mentions what are currently called 'electoral divisions' or 'wards'. Most people understand it as a ward, and that their councillors operate in wards. We did not believe that the change in terminology was helpful. We ask the Minister to reconsider the changes introduced and to make it simple for people to understand that their representative is within a ward. People do not understand single member divisions and multi-member electoral divisions; they just understand that they have a ward councillor.

Rydym yn argymell hefyd bod y Bil yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod eglurder rhwng cynnal adolygiad a chyhoeddi cynigion yr adolygiad hwnnw o ran yr hyn a fyddai'n cael ei ganiatáu yn ystod y cyfnod y darperir ar ei gyfer yn adran 29. Mae adran 29 hefyd yn sôn am yr hyn a elwir yn 'adrannau etholiadol' neu 'wardiau' ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei ddeall fel ward, a bod eu cynghorwyr yn gweithredu mewn wardiau. Nid oeddem yn credu bod newid y derminoleg yn ddefnyddiol. Rydym yn gofyn i'r Gweinidog ailystyried y newidiadau a gyflwynwyd ac i'w gwneud yn hawdd i bobl ddeall bod eu cynrychiolydd o fewn ward. Nid yw pobl yn deall adrannau un aelod ac adrannau etholiadol aml-aelod; maent yn deall bod ganddynt gynghorydd ward.

Sections 34 to 36 set out the procedures that the commission or principal council must follow in undertaking a review, including a consultation and an explanation of its methodology. While we were generally content with the engagement provisions in these sections, we recommended that, as well as an electronic version of reports, a hard copy should be available on request. We also recommended that the Minister should issue guidance to the commission on best practice for engaging with members of the public.

Mae adrannau 34 i 36 yn nodi'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r comisiwn neu'r prif gyngor eu dilyn wrth gynnal adolygiad, gan gynnwys ymgynghoriad ac esboniad o'i fethodoleg. Er ein bod yn fodlon, yn gyffredinol, â'r darpariaethau ymgysylltu yn yr adrannau hyn, rydym yn argymell, yn ogystal â fersiwn electronig o adroddiadau, y dylai copi caled fod ar gael ar gais. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i'r comisiwn ynglŷn ag arfer gorau ar gyfer ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd.

Section 50 amends the remit of the commission to be able to review and make proposals about the constitution of additional public bodies to be added. After considering the evidence, we recommended that a list of bodies that may be subject to direction under section 50 should be included within the Bill, as well as a provision to allow Welsh Ministers to add bodies to that list, using the affirmative procedure.

Mae adran 50 yn diwygio cylch gwaith y comisiwn i allu adolygu a gwneud cynigion am gyfansoddiad cyrff cyhoeddus sydd i'w hychwanegu. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym yn argymell y dylai rhestr o gyrff a allai fod yn destun cyfarwyddyd dan adran 50 gael eu cynnwys yn y Bil, yn ogystal â darpariaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu cyrff at y rhestr honno, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

On the issue of the presiding officer, we recommended that the Bill is amended to extend the office of presiding member to include the first council meeting after an election. We felt that that was necessary to allow those people to take it over and not to have all the jockeying for positions that often happens. It will make a difference for those members who are new to a council, who do not understand the process.

Ynglŷn â mater y llywydd, rydym yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i ymestyn swydd yr aelod llywyddol er mwyn cynnwys cyfarfod cyntaf y cyngor ar ôl etholiad. Roeddem yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r bobl hynny gymryd drosodd ac i beidio â chael yr holl gystadlu am swyddi sy'n aml yn digwydd. Bydd yn gwneud gwahaniaeth i'r aelodau hynny sydd yn newydd i'r cyngor, ac nad ydynt yn deall y broses.

Section 53 relates to access to information on town and community councils, requiring them to publish certain information electronically. There were concerns raised by witnesses around the funding for this. The previous Minister made an announcement on 29 January regarding funding to assist in that area and we hope that that will help those councils to put their information out electronically. We do feel that the register of members' interests for councillors should be published online and that principal councils should be under the same publication obligations as town and community councils. We also wanted you to keep under review the resource implications for town and community councils of providing information bilingually, as they may potentially become subject to Welsh language standards when the system comes into effect.

Mae adran 53 yn ymwneud â mynediad at wybodaeth ynglŷn â chynghorau tref a chymuned, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi gwybodaeth benodol yn electronig. Codwyd pryderon gan dystion ynghylch y cyllid ar gyfer hyn. Gwnaeth y Gweinidog blaenorol gyhoeddiad ar 29 Ionawr ynghylch cyllid i gynorthwyo yn y maes hwnnw, ac rydym yn gobeithio y bydd yn helpu'r cynghorau hynny i gyflwyno eu gwybodaeth yn electronig. Rydym o'r farn y dylid cyhoeddi'r gofrestr o fuddiannau'r aelodau ar gyfer cynghorwyr ar-lein ac y dylai prif gynghorau fod dan yr un rhwymedigaethau cyhoeddi â chynghorau tref a chymuned. Rydym hefyd am i chi gadw golwg ar y goblygiadau adnoddau, i gynghorau tref a chymuned, o ran darparu gwybodaeth yn ddwyieithog, gan y byddant o bosibl yn dod yn ddarostyngedig i safonau iaith Gymraeg, pan fydd y drefn honno'n dod i rym.

On the issue of the independent remuneration panel, one of the changes includes a provision that the annual report, as you have mentioned, will not need to be published until 28 February, rather than 31 December as at present. We believe that the IRP should continue to report by 31 December, in order to provide more transparency when councils are undertaking financial planning and setting budgets for the years ahead.

Ynglŷn â mater y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol, mae un o'r newidiadau yn cynnwys darpariaeth, fel yr ydych wedi sôn, na fydd angen cyhoeddi'r adroddiad blynyddol tan 28 Chwefror, yn hytrach na 31 Rhagfyr fel y mae ar hyn o bryd. Rydym yn credu y dylai'r Panel barhau i gyflwyno adroddiad erbyn 31 Rhagfyr, er mwyn darparu mwy o dryloywder pan fydd cynghorau yn gwneud gwaith cynllunio ariannol a gosod cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

The Bill goes on to talk about the facility of a joint standards committee between authorities. I think that you are in favour of that, from what you were saying. We would want to see standards committees in other authorities perhaps taking on issues when the home authority feels that it would be inappropriate for them to consider that.

Mae'r Bil yn mynd ymlaen i sôn am greu cyd-bwyllgor safonau rhwng awdurdodau. Rwyf yn meddwl eich bod o blaid hynny, o'r hyn yr oeddech yn ei ddweud. Byddem am weld pwyllgorau safonau mewn awdurdodau eraill yn ymdrin â materion pan fo'r awdurdod cartref o'r farn y byddai'n amhriodol iddo ystyried hynny.

Generally, and in conclusion, while we cannot agree on all the amendments, I would hope that, when we come to Stage 2, we can have some open and honest discussions about how we take forward appropriate amendments in order to ensure that the Local Government (Democracy) (Wales) Bill is just that, and provides local democracy.

Yn gyffredinol, ac i gloi, er na allwn gytuno ar yr holl welliannau, yr wyf yn gobeithio, pan fyddwn yn dod i Gyfnod 2, y gallwn gael trafodaethau agored a gonest am y modd yr ydym yn bwrw ymlaen â gwelliannau priodol er mwyn sicrhau bod y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) yn gwneud yn union hynny, ac yn darparu democratiaeth leol.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 4.48 p.m.*

*The Presiding Officer took the Chair at 4.48 p.m.*

16:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Simon Thomas to speak on behalf of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Galwaf ar Simon Thomas i siarad ar ran y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

16:48

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n dda gennyf siarad ar ran y pwyllgor yn lle'r Cadeirydd, a oedd yn eich cadair tan eiliad yn ôl. Mae'r pwyllgor, fel y gwyddoch, yn adrodd ar faterion fel hyn, yn edrych ar y darpariaethau ym Miliau'r Cynulliad sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ac yn edrych ar y cydbwysedd rhwng y pwerau hynny a'r math o waith craffu sy'n gallu cael ei arddel gan y Cynulliad. Mae'n dda gennyf ddweud yn gyffredinol ein bod fel pwyllgor wedi canfod bod gan y Bil hwn gydbwysedd priodol rhwng lefel y manylder sydd ar wyneb y Bil a'r pwerau y mae'n eu rhoi i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Wedi dweud hynny, yn yr adroddiad sydd ger eich bron y prynhawn yma, roedd gennym nifer o argymhellion i'w gwneud. Rwyf am dynnu sylw at dri phrif ran y prynhawn yma.

I am pleased to speak on behalf of the committee, and in doing so to take the place of the Chair, who was in your chair until a second ago. As you know, the committee reports on issues like this, looks at the provision of powers for Welsh Ministers in Assembly Bills and looks at the balance between those powers and the kind of scrutiny work done by the Assembly. I am pleased to say that, in general, the committee found that this Bill struck the right balance between the level of detail on the face of the Bill and the powers given to Welsh Ministers to form secondary legislation. Having said that, the report before you this afternoon includes a number of recommendations that we make. I will focus on three main parts this afternoon.

Rwyf am ddechrau gydag argymhelliad 2, lle roeddem yn edrych ar sut yr oedd adran 45 yn ymwneud â newidiadau i ffiniau ardaloedd heddlu, yn ogystal â'r pŵer i wneud Gorchmynion a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol. Roeddem fel pwyllgor yn anhapus ac yn teimlo y gall fod posibilrwydd o amwysedd cyfreithiol yn y mater hwn. Os rwy'n deall y Gweinidog yn iawn, rwy'n meddwl ei bod wedi derbyn argymhelliad y pwyllgor yn y cyd-destun hwn. Yn sicr, dywedodd ei bod yn derbyn yr argymhelliad sy'n ymwneud ag adrannau 43 a 65 y Bil, ac rwy'n meddwl bod hwn yn ymwneud â'r pŵer sydd yn adran 65. Os yw hynny wedi'i wneud, rwy'n derbyn bod rhai o bryderon y pwyllgor wedi cael eu lleddfu.

I will begin with recommendation 2, in which we look at how section 45 dealt with changes to police area borders, as well as the power to make Orders given to the Secretary of State. As a committee, we were unhappy and felt that there could be legal ambiguity in this matter. If I have understood the Minister correctly, I think that she accepted the committee's recommendation in this regard. She certainly said that she accepts the recommendation that deals with sections 43 and 65 of the Bill, and I think that this deals with the power contained in section 65. If that has been done, I accept that some of the committee's fears have been allayed.

Rhan arall o'r Bil sy'n mewnosod pŵer penodol i'r Gweinidog, ac yn caniatáu iddo wneud rheoliadau o dan adran 54 o Ddeddf 2000, yw adran 63. Y mae'n bwysig bod y pŵer hwnnw'n rhoi rheoliadau yn dilyn y pŵer sy'n galluogi Gweinidog i addasu unrhyw ddarpariaeth o'r adran hon, neu unrhyw ddeddfiad arall. Pan mae gennych rym mor eang, sy'n addasu nid yn unig y rhan honno o'r Bil, ond unrhyw ddeddfiad arall, byddem ni fel pwyllgor wastad yn chwilio am ddefnydd o'r weithdrefn gadarnhaol. Byddem am weld y mathau hynny o reoliadau yn dod ger bron y Cynulliad, fel eich bod chi, fel Aelodau'r Cynulliad, yn cael pleidleisio'n bositif drostynt, yn hytrach na'u derbyn yn reddfol o ran y weithdrefn negyddol. Felly, byddem yn dal yn pwyso ar y Gweinidog i ystyried y gwelliant yn y cyd-destun hwnnw.

Another part of the Bill that gives the Minister a specific power, allowing him to make regulations under section 54 of the 2000 Act, is section 63. It is important that that power includes regulations following the power enabling Ministers to amend any provision within this section, or any other piece of legislation. When you have such a broad power, which amends not only that part of the Bill but any other piece of legislation, we as a committee would always look for the affirmative procedure to be used. We would want to see such regulations come before the Assembly, so that you, as Assembly Members, were able to positively vote for them, rather than accept them unthinkingly as part of the negative procedure. Therefore, we would still urge the Minister to consider the amendment in that context.

Y peth olaf yn y Bil y mae gennym bryderon yn ei gylch yw adran 69, sy'n ymdrin â chychwyn adrannau'r Bil. Y mae'n hollol arferol i Weinidogion Cymru gwneud Gorchymyn i gychwyn rhan o'r Bil a hynny heb unrhyw fath o weithdrefn gerbron y Cynulliad. Rydym yn gyfarwydd â hynny ac yn ei dderbyn fel rhan o natur gwneud a gweithredu deddfau. Ond, y tu mewn i'r Bil hwn, mae adrannau pellach—maent wedi eu hamlinellu yn ein hadroddiad— yn caniatáu i Orchmynion cychwyn gael eu defnyddio nid yn unig i gychwyn adrannau o'r Bil, ond at ddiben gwneud darpariaeth arall o sylwedd, er ei bod o natur gysylltiedig, ganlyniadol, neu drosiannol. Hynny yw, nid yn unig cychwyn y Bil, ond dod â grymoedd eraill i mewn i le hefyd.

The last thing in the Bill that concerns us is section 69, which deals with the commencement of the Bill's sections. It is routine for Welsh Ministers to make an Order to commence part of a Bill, without using any procedure before the Assembly. We are familiar with that and accept it as part of how legislation is made and implemented. However, within this Bill, further sections—they have been outlined in our report—allow for commencement Orders to be used not only to commence sections of the Bill but to make other significant provisions, even though they are of an associated, consequential or transitional nature. That means not only commencing the Bill but also bringing other powers into play.

Roeddem ni fel pwyllgor yn teimlo nad oedd yn briodol nad oedd darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, darfodol neu drosiannol—maent yn gallu bod yn eang iawn—yn ddarostyngedig i unrhyw fath o weithdrefn negyddol neu gadarnhaol, fel eich bod chi, fel Aelodau Cynulliad, yn gallu craffu ar fwriadau a dibenion y Gweinidog. Roeddem yn teimlo nad oedd yn briodol i ganiatáu darpariaeth o'r fath mewn Gorchymyn cychwyn. Byddem yn gofyn i'r Gweinidog ystyried hynny. Rydym ni fel pwyllgor wedi gweld yr arfer hwn yn lledaenu o fewn Biliau gan y Gweinidog a Biliau eraill. Rydym yn dod yn fwyfwy pryderus am y defnydd o'r dechneg hon ac yn annog Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad i gadw llygad yn agored am ddull mwy tryloyw o graffu ar is-ddeddfwriaeth ar gyfer y dyfodol. Rydym ni, fel pwyllgor, eisiau i chi fel Cynulliad fod yn gwbl glir am yr hyn y mae Gweinidogion yn ei wneud wrth ddod â rheoliadau ymlaen, a theimlwn fod angen gwella ar y Bil i sicrhau hynny.

As a committee, we felt that it was inappropriate that associated, supplementary, consequential, transitory or transitional provisions—they can be very broad—were not subject to any kind of negative or affirmative procedure, so that you, as Assembly Members, could scrutinise the intentions and aims of the Minister. We felt that it was not appropriate to include such a provision in a commencement Order. We would ask the Minister to consider that. As a committee, we have seen the escalation of this practice in the Minister's Bills and in other Bills. We are becoming more and more concerned at the use of this technique, and urge the Welsh Government and the Assembly to keep an eye out for a more transparent way of scrutinising secondary legislation for the future. As a committee, we want you as an Assembly to be clear about what Ministers are doing in bringing forward regulations, and we feel that the Bill needs to be improved in order to achieve that.

16:53

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to record my support for the general principles of this Bill and pay tribute to the committee, the staff, the previous Minister, and the new Minister and her team for moving this forward. I agree with the Chairman of the CELG committee that not all of our recommendations have been taken into account, but there is time before Stage 2 of the Bill for us to address that.

Hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil hwn a thalu teyrnged i'r pwyllgor, y staff, y Gweinidog blaenorol, a'r Gweinidog newydd a'i thîm am symud hyn yn ei flaen. Rwyf yn cytuno â Chadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol nad yw pob un o'n hargymhellion wedi eu hystyried, ond mae amser cyn Cyfnod 2 y Bil inni fynd i'r afael â hynny.

Our group were hoping that the local democracy Bill would do more to strengthen local democracy. It is fair to say that we were all disappointed with the turnout in last year's local government elections, which saw the turnout fall from 43% in 2008 to 39%. In acknowledging the huge number of uncontested community council seats across Wales, we feel that it is imperative that any local democratic legislation going forward looks to address these concerns. Whether the local democracy Bill in its current form does that, we are not too certain.

Roedd ein grŵp yn gobeithio y byddai'r Bil democratiaeth lleol yn gwneud mwy i gryfhau democratiaeth leol. Mae'n deg dweud ein bod i gyd yn siomedig â'r nifer a bleidleisiodd yn yr etholiadau llywodraeth leol y llynedd, lle bu gostyngiad yn y nifer a bleidleisiodd o 43% yn 2008 i 39%. Wrth gydnabod y nifer fawr o seddi cyngor cymuned na fu cystadlu amdanynt ar draws Cymru, rydym yn teimlo ei bod yn hanfodol bod unrhyw ddeddfwriaeth ddemocrataidd leol yn y dyfodol yn edrych ar fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Nid ydym yn sicr a yw'r Bil democratiaeth leol yn ei ffurf bresennol yn gwneud hynny.

We make no apology for our immense support for local authorities and local government in Wales. This level of government is seen as being very important to our residents. To a degree, it is seen as being more close to and interactive with our electorate than any other level. We make no excuse either for robustly championing greater transparency and democratic accountability within town and community councils and in the larger principal local authorities. We will unreservedly challenge any legislation in order to see the decision-making process becoming more transparent and accountable in all aspects. This is particularly true in relation to spend as well. We must never forget that local government is the second largest spend of the National Assembly for Wales. Reform of the constitutional arrangements of local government, in any shape or form by legislation through the National Assembly for Wales, should really be very strong.

Nid ydym yn ymddiheuro am ein cefnogaeth aruthrol i awdurdodau lleol a llywodraeth leol yng Nghymru. Ystyrir bod y lefel hon o lywodraeth yn bwysig iawn i'n trigolion. I raddau, mae'n cael ei hystyried yn fwy agos at ein hetholwyr ac yn ymwneud mwy â hwy nag unrhyw lefel arall. Nid ydym yn gwneud unrhyw esgus ychwaith am hyrwyddo'n gadarn ragor o dryloywder ac atebolrwydd democrataidd o fewn cynghorau tref a chymuned ac yn y prif awdurdodau lleol mwy o faint. Byddwn yn ddigyfaddawd yn herio unrhyw ddeddfwriaeth er mwyn gweld y broses o wneud penderfyniadau'n dod yn fwy tryloyw ac yn fwy atebol ym mhob agwedd. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â gwariant hefyd. Rhaid inni beidio ag anghofio mai llywodraeth leol yw'r ail wariant mwyaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai diwygio trefniadau cyfansoddiadol llywodraeth leol, ar unrhyw ffurf, trwy ddeddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn gwirionedd fod yn gryf iawn.

You have acknowledged the local government boundary commission, and I hope that that will ensure that decisions will be made in a very democratic and inclusive way. I am someone who witnessed the boundary commission and its previous work. As a local authoirty, our views should have been taken into account, but it is fair to say that they were not at the time, so I will be closely monitoring that the new arrangements work on the ground.

Rydych wedi cydnabod y comisiwn ffiniau llywodraeth leol, ac rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n sicrhau y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd ddemocrataidd a chynhwysol iawn. Rwyf i yn un a oedd yn dyst i'r comisiwn ffiniau a'i waith blaenorol. Fel awdurdod lleol, dylid bod wedi ystyried ein safbwyntiau, ond mae'n deg dweud na wnaethpwyd hynny ar y pryd, felly byddaf yn monitro'n agos i sicrhau bod y trefniadau newydd yn gweithio ar lawr gwlad.

I also feel that there have been some missed opportunities to increase local government transparency and democratic accountability in terms of pay structures for senior officers. The previous Minister said that this was a tidying-up exercise of the previous Measure, but we believe that this Bill could also have included some guidance in relation to the remuneration and appointment of senior officers across local authorities, because local authorities in Wales have suffered from some very bad press of late.

Rwyf hefyd yn teimlo y bu rhywfaint o golli cyfle i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd democrataidd llywodraeth leol o ran strwythurau cyflog ar gyfer uwch swyddogion. Dywedodd y Gweinidog blaenorol mai mater o dacluso'r Mesur blaenorol oedd hwn, ond credwn y gallai'r Bil hwn fod wedi cynnwys peth arweiniad mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol a phenodi uwch swyddogion ar draws awdurdodau lleol, gan fod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cael sylw gwael iawn yn y wasg yn ddiweddar.

As a member of the CELG committee, I would like to pick up on a few of its recommendations. Improving communications and enhancing technology to include a website for community councils is a must, but I would like to see greater emphasis and more importance placed on the information provided. Our residents have a right to know the agendas of meetings, the minutes of meetings and when meetings will be held. Even in my locality, I am approached numerous times in relation to community councils. We have over 700 community councils of varying sizes. It will be easier for some than others, and I welcome the Minister's statement earlier this year on financial support.

Fel aelod o'r pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, hoffwn sôn am rai o'i argymhellion. Mae gwella cyfathrebu a gwella'r dechnoleg er mwyn cynnwys gwefan ar gyfer cynghorau cymuned yn hanfodol, ond hoffwn weld mwy o bwyslais a mwy o bwys yn cael eu rhoi ar y wybodaeth a ddarperir. Mae gan ein trigolion hawl i wybod beth yw agenda cyfarfodydd, cofnodion y cyfarfodydd a phryd y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Hyd yn oed yn fy ardal leol i, mae llawer o bobl yn dod ataf i drafod cynghorau cymuned. Mae gennym dros 700 o gynghorau cymuned o wahanol faint. Bydd yn haws i rai nag eraill, ac rwyf yn croesawu datganiad y Gweinidog yn gynharach eleni ynglŷn â'r cymorth ariannol.

The Bill empowers the panel to require local authorities to publish all information relating to remuneration received by individual councillors in connection with the performance of all public duties. This is a major step forward in promoting democratic accountability and openness in local government. The Bill also puts in place a requirement that audit committees must reflect the political balance of an authority. Again, this is key to allowing local democracy to become more inclusive and it mitigates the claims that we hear so often of backbench members feeling excluded from due process.However, recommendation 14 of the CELG committee's report clearly shows that they could have incorporated an amendment to section 53 to include a requirement for members' interests to be published online.

Mae'r Bil hwn yn rhoi grym i'r panel ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol a dderbynnir gan gynghorwyr unigol mewn cysylltiad â chyflawni'r holl ddyletswyddau cyhoeddus. Mae hwn yn gam mawr ymlaen o ran hyrwyddo atebolrwydd democrataidd a bod yn agored mewn llywodraeth leol. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau archwilio adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod. Unwaith eto, mae hyn yn allweddol er mwyn caniatáu i ddemocratiaeth leol fod yn fwy cynhwysol ac mae'n ateb yr honiadau yr ydym yn eu clywed mor aml gan aelodau meinciau cefn, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o'r broses briodol. Fodd bynnag, mae argymhelliad 14 yn adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn dangos yn glir y gallent fod wedi ymgorffori diwygiad i adran 53 i gynnwys gofyniad i gyhoeddi buddiannau aelodau ar-lein.

16:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Your time is up. I call Mike Hedges.

Mae eich amser ar ben. Galwaf Mike Hedges.

16:58 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I welcome this Bill.

Rwyf yn croesawu'r Bil hwn.

16:58 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I will start by saying that I fully support the Local Government (Democracy) (Wales) Bill, but I would like to highlight four points. Before I do that, I would like to say that following a detailed study of the Bill by the Communities, Equality and Local Government Committee, ably chaired by my friend and colleague Ann Jones, a series of minor recommendations have been proposed, and I am disappointed that the Minister will not be able to accept a large number of them.

Rwyf am ddechrau drwy ddweud fy mod yn llwyr gefnogi'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), ond hoffwn dynnu sylw at bedwar pwynt. Cyn imi wneud hynny, hoffwn ddweud, yn dilyn astudiaeth fanwl o'r Bil gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, dan gadeiryddiaeth fedrus fy ffrind a'm cyd-Aelod Ann Jones, fod cyfres o fân argymhellion wedi eu cynnig, ac rwyf yn siomedig na fydd y Gweinidog yn gallu derbyn nifer fawr ohonynt.

The first issue that I wish to address is that of changing the term 'electoral division' to 'electoral areas'. The reality, acknowledged by most of those who gave their opinion to the committee, is that electoral divisions are commonly known as 'wards' by the public and councillors. I am sure that I will be followed by the Member who represents the Cwmbwrla ward in Swansea, whom I have never heard describing it as the 'Cwmbwrla electoral division' in my life. The Bill intends to change one little-used term for another term that will also probably be little used. I hope that the new Minister will consider using the term in common usage. If everybody uses the word 'ward', why can the Bill not use it? It is what people understand. I represented Morriston ward, and I never once described myself as representing 'Morriston electoral division'. If I were still there, I probably would not describe myself as representing 'Morriston electoral area' either. This is an opportunity to use terminology in the Bill that the public and members use.

Y mater cyntaf yr hoffwn roi sylw iddo yw newid y term 'adran etholiadol' yn 'ardaloedd etholiadol'. Y realiti, a gydnabuwyd gan y rhan fwyaf o'r rhai a roddodd eu barn i'r pwyllgor, yw bod adrannau etholiadol yn cael eu galw'n 'wardiau' yn gyffredinol gan y cyhoedd a chynghorwyr. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod sy'n cynrychioli ward Cwmbwrla yn Abertawe yn fy nilyn, ac nid wyf erioed wedi clywed yr Aelod hwnnw'n ei disgrifio fel 'adran etholiadol Cwmbwrla' yn fy mywyd. Bwriad y Bil yw newid un term na chaiff ei ddefnyddio'n aml am derm arall na fyddai'n cael ei ddefnyddio'n aml ychwaith, yn ôl pob tebyg. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog newydd yn ystyried defnyddio'r term a ddefnyddir yn gyffredin. Os yw pawb yn defnyddio'r gair 'ward', pam na all y Bil ei ddefnyddio? Dyma'r term y mae pobl yn ei ddeall. Bûm yn cynrychioli ward Treforys, ac nid wyf erioed wedi fy nisgrifio fy hun fel rhywun sy'n cynrychioli 'adran etholiadol Treforys'. Pe byddwn yno o hyd, yn ôl pob tebyg, ni fyddwn yn fy nisgrifio fy hun fel rhywun sy'n cynrychioli 'ardal etholiadol Treforys' chwaith. Dyma gyfle i ddefnyddio terminoleg yn y Bil y mae'r cyhoedd a'r aelodau yn ei defnyddio.

The second issue that I would like to address is the provision of a presiding member. As the council leader who created the first presiding officer of any council in Wales, I am very much in favour of creating them. As you are more aware than I am, Presiding Officer, certain skills and abilities are necessary to chair large meetings that can get heated. While for local authorities, it makes very good sense—and is a fitting tribute for many years of service—that mayors, lord mayors and council chairs are appointed, based on the seniority of those who have not previously held a post, to conduct civic and ceremonial functions, it is also my opinion that it makes good sense for the presiding member to be someone suited to the task of presiding over meetings. Not everyone is very good at this. Not everyone has the ability to stay calm at difficult times. Not everyone is able to keep meetings going when the odd person drifts slightly over their time. Therefore, there are certain skills, as the Presiding Officer knows far better than I, required for chairing meetings. People have them and gain them over a series of years. Not every council member is going to have those skills. It would be wrong to stop someone who was not capable of carrying out that post from being mayor and having a civic function.

Yr ail fater yr hoffwn roi sylw iddo yw darparu aelod llywyddol. Fel arweinydd y cyngor a greodd y llywydd cyntaf o bob cyngor yng Nghymru, rwyf yn sicr o blaid eu creu. Rydych yn gwybod yn well na mi, Lywydd, bod angen sgiliau a galluoedd penodol i gadeirio cyfarfodydd mawr lle gall y trafod fod yn danbaid. I awdurdodau lleol, mae'n gwneud synnwyr da iawn—ac mae'n deyrnged addas ar ôl nifer o flynyddoedd o wasanaeth—fod y maer, yr arglwydd faer a chadeirydd y cyngor yn cael eu penodi, ar sail statws y rhai nad ydynt wedi bod mewn swydd o'r fath o'r blaen, i gynnal swyddogaethau seremonïol a dinesig. Yn fy marn i, mae'n gwneud synnwyr da iawn hefyd i'r aelod llywyddol fod yn unigolyn sy'n addas ar gyfer y dasg o lywyddu dros gyfarfodydd. Nid pawb sy'n gallu gwneud hynny'n dda. Nid pawb sy'n gallu peidio â chynhyrfu ar adegau anodd. Nid pawb sy'n gallu symud cyfarfod yn ei flaen pan fo ambell i unigolyn yn cymryd mwy o amser nag y dylai. Felly, mae sgiliau penodol, fel y mae'r Llywydd yn gwybod yn llawer gwell na mi, sy'n ofynnol ar gyfer cadeirio cyfarfodydd. Mae gan rai pobl y sgiliau hyn ac mae rhai yn eu meithrin dros gyfnod o flynyddoedd. Nid oes gan bob aelod o'r cyngor y sgiliau hynny. Ni fyddai'n iawn atal rhywun nad oedd yn gallu gwneud y swydd honno rhag bod yn faer a bod â swyddogaeth ddinesig.

The other thing is that it makes sense for the presiding officer to open the first meeting of the council after the election. The first item on the agenda would be the election of the new presiding officer, so they would chair for a few minutes only at the very beginning of the meeting. The alternative would be for the chief executive to start the meeting, or will there be legislation to make the mayor or lord mayor the alternative to the presiding officer? In most council constitutions at the moment, that is not the case. What happens is that the chief executive takes on that role. I do not think that it is right and proper—I am sure that other people do not either—for a chief executive who is a non-political person to kick off the first bit of a meeting.

Mae hefyd yn gwneud synnwyr i'r llywydd agor cyfarfod cyntaf y cyngor ar ôl yr etholiad. Yr eitem gyntaf ar yr agenda fyddai ethol y llywydd newydd, felly dim ond am ychydig funudau y byddai'n cadeirio ar ddechrau'r cyfarfod. Y dewis arall fyddai i'r prif weithredwr gychwyn y cyfarfod, neu a fydd deddfwriaeth yn nodi mai'r maer neu'r arglwydd faer fyddai'r dewis arall yn hytrach na'r llywydd? Yng nghyfansoddiad y rhan fwyaf o gynghorau ar hyn o bryd, nid dyna sy'n digwydd. Yr hyn sy'n digwydd yw bod y prif weithredwr yn cymryd y swyddogaeth honno. Nid wyf yn credu ei bod yn iawn nac yn briodol—ac rwyf yn siŵr nad yw pobl eraill yn credu hynny ychwaith—i brif weithredwr, unigolyn nad yw'n wleidydd, ddechrau'r cyfarfod.

The third major point that I wish to make is that I fully endorse the Minister's proposal to increase the quorum for meetings of the boundary commission to three from two. A quorum of two, with a chair with a casting vote, effectively gives the decision to one individual. That is not allowed in local government, and therefore it should not be allowed in the boundary commission. This was changed in order to stop individual decisions in local government, and the three-member sub-committee for urgent items was created. What neither of the representatives from the boundary commission appeared to be able to understand was that, if you have five members, three can be undertaking an inquiry, but, if one is not available for a meeting, one of the other two could be substituted to keep the number attending the meeting to three. It is really important that you have a situation where you do not just have a committee of two with one person with a casting vote.

Y trydydd pwynt pwysig yr wyf am ei wneud yw fy mod yn llwyr gefnogi cynnig y Gweinidog i gynyddu'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd y comisiwn ffiniau o ddau i dri. Mae cworwm o ddau, gyda chadeirydd â phleidlais fwrw, i bob pwrpas yn rhoi'r penderfyniad i un unigolyn. Ni chaniateir hynny mewn llywodraeth leol, ac felly ni ddylid ei ganiatáu yn y comisiwn ffiniau. Cafodd hyn ei newid er mwyn atal penderfyniadau unigol mewn llywodraeth leol, a chrëwyd yr is-bwyllgor â thri aelod ar gyfer eitemau brys. Roedd yn ymddangos nad oedd yr un o'r cynrychiolwyr o'r comisiwn ffiniau yn gallu deall, pe bai gennych bum aelod, fod tri yn gallu bod yn cynnal ymchwiliad, ond, os nad oes un ohonynt ar gael i ddod i'r cyfarfod, gallai un o'r ddau arall ddod i'r cyfarfod yn ei le er mwyn sicrhau bod tri o bobl yn y cyfarfod. Mae'n bwysig iawn sicrhau sefyllfa lle nad oes gennych bwyllgor o ddau gydag un unigolyn â phleidlais fwrw.

The fourth and last point that I wish to make is that boundaries and maps are not always logical. The last boundary commission, when looking at Neath Port Talbot, ignored mountains when proposing electoral divisions, as my colleagues from Neath and Port Talbot are well aware. While rivers and streams can make natural boundaries, when they are culverted and an estate is built on either side, it makes little sense for next-door neighbours to be in different wards or, in the case of Julie James and myself, to be in different constituencies. After the Bill is passed, I would hope that a technical advice note can be produced that will outline how to deal with topography and communities. This Bill deals with a number of local government democracy issues, but I am sure that we will see another local government-related Bill before the fifth Assembly.

Y pedwerydd pwynt a'r olaf yr hoffwn ei nodi yw nad yw ffiniau a mapiau yn rhesymegol bob amser. Anwybyddodd y comisiwn ffiniau diwethaf, wrth edrych ar Gastell-nedd Port Talbot, y mynyddoedd wrth gynnig adrannau etholiadol, ac mae fy nghyd-weithwyr o Gastell-nedd a Phort Talbot yn ymwybodol iawn o hyn. Er bod afonydd a nentydd yn gallu gwneud ffiniau naturiol, pan fyddant yn cael eu sianelu ac ystâd o dai yn cael ei hadeiladu ar y naill ochr a'r llall, nid yw'n gwneud synnwyr i gymdogion sy'n byw drws nesaf i'w gilydd fod mewn gwahanol wardiau, neu fel yn achos Julie James a minnau, mewn gwahanol etholaethau. Ar ôl i'r Bil gael ei basio, byddwn yn gobeithio y gellid cynhyrchu nodyn cyngor technegol i amlinellu sut i ymdrin â thopograffeg a chymunedau. Mae'r Bil yn ymdrin â nifer o faterion democratiaeth llywodraeth leol, ond rwyf yn siŵr y byddwn yn gweld Bil arall yn ymwneud â llywodraeth leol cyn y pumed Cynulliad.

17:03

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn ddweud, ar ran grŵp Plaid Cymru, ein bod yn croesawu'r Bil hwn yn gyffredinol—rydym yn croesawu'r egwyddorion cyffredinol. At ei gilydd, credwn fod y Bil hwn yn mynd i'r cyfeiriad cywir yn gyffredinol. Fel Aelodau eraill y pwyllgor, rwyf braidd yn siomedig, Weinidog, nad ydych wedi gallu derbyn yr argymhellion a ddeilliodd o'r pwyllgor, yn dilyn trafodaeth lawn lle cafodd y pwyntiau hynny ystyriaeth lawn. Gobeithiaf y gallwch chi, yn hwyrach yn y broses hon, edrych o'r newydd ar yr argymhellion hynny, yn enwedig gan eich bod yn newydd i'ch swydd. Hwyrach y gallwch ailystyried rhai o'r penderfyniadau hynny.

I would like to say, on behalf of the Plaid Cymru group, that we welcome this Bill in general—we welcome the general principles. Generally speaking, we believe that this Bill takes us in right direction. Like other Members of the committee, I am a little disappointed, Minister, that you have not been able to accept the recommendations made by the committee, following comprehensive discussion in which those points were given full consideration. I hope that you, later in this process, will look afresh at those recommendations, particularly as you are new to your post. Perhaps you could reconsider some of those decisions.

Nid wyf am ailadrodd yr holl argymhellion hynny. Mae'r drafodaeth yn eu cylch eisoes wedi digwydd. Serch hynny, credaf fod cyfle gwirioneddol wedi'i golli o ran y Bil hwn. Roedd gennym gyfle i fynd i'r afael â nifer o broblemau sylfaenol sy'n ymwneud â sut y mae awdurdodau lleol yn cael eu trefnu, a sut y gellir sicrhau eu bod yn cyflawni eu gwaith mewn modd mwy effeithiol. Mae tair egwyddor yn cael eu nodi yn y memorandwm esboniadol. Credaf eich bod yn mynd i'r afael ag un ohonynt, sef yr angen i gyfathrebu'n fwy effeithiol.

I will not rehearse all of those recommendations. That discussion has already taken place. However, I believe that there is a real opportunity that has been lost in terms of this Bill. We had an opportunity to tackle many of the fundamental problems relating to how local authorities are organised, and how it can be ensured that they carry out their work more effectively. There are three principles set out in the explanatory memorandum. I believe that you tackle one of those, namely the need for more effective communication.

Mae cyfeiriadau yn y Bil hwn i'r angen i fod yn dryloyw ac i alluogi pobl i fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o fewn llywodraeth leol, o ran awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned, er y bydd problemau ymarferol yn wynebu rhai o'r cynghorau llai wrth fynd i'r afael â'r gofynion hynny. Mae dwy egwyddor arall sy'n sefyll o hyd, er hynny, ac nid oes fawr o gyfeirio atynt. Un yw'r angen i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynrychioli yn ddemocrataidd eu cymunedau. Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno mai un o'r pethau sydd yn ofid i ni i gyd yw cynifer yr etholiadau lle mae'r aelodau yn cael eu dychwelyd heb gystadleuaeth o gwbl. Byddwch yn gwybod, Weinidog, mai ein barn fel plaid yw mai'r drefn fwyaf effeithiol ar gyfer llywodraeth leol yw'r bleidlais sengl drosglwyddadwy—STV. Nid yw'n rhwydd o ran awdurdodau lleol, ac mae angen gwneud gwaith ymchwil i sut y byddai'n effeithio ar ardaloedd gwledig, ond, wedi dweud hynny, dyma'r system sy'n cael ei defnyddio yn yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon ac yng Ngweriniaeth Iwerddon, ac, yn y gwledydd hynny, mae ardaloedd gwledig helaeth. Felly, os yw'n gweithio yn y mannau hynny, mae'n siŵr bod ffordd o sicrhau y byddai'n gweithio yng Nghymru, a byddai hynny'n sicrhau elfen lawer mwy democrataidd ac fe fyddai'n sicrhau llawer iawn mwy o gystadleuaeth a sicrhau bod y wardiau hyn yn cael y cyfle i ethol aelodau newydd yn gyson mewn ffordd sy'n deg ac yn gynrychioliadol.

There are references in this Bill to the need to be transparent and to enable people to be aware of what is happening within local government, in terms of local authorities and town and community councils, although there are practical problems that will face some of the smaller councils in getting to grips with those requirements. The other two principles remain, however, and there is hardly any reference to them. One is the need to ensure that local authorities democratically represent their communities. I am sure that the Minister would agree that one of the things that concerns us all is that there are so many elections where members are returned in uncontested seats. You will be aware, Minister, that our opinion as a party is that the most effective system for local government is the single transferrable vote—STV. It is not simple for local authorities, and some research would need to be done as to how that would impact on rural areas, but, that said, that is the system that is used in Scotland, Northern Ireland and in the Republic of Ireland, and, in those nations, there are vast rural areas. Therefore, if it can work there, I am sure that there must be a way of ensuring that it could work in Wales, and that would ensure a greater element of democracy, and it would ensure greater competition and ensure that these wards have an opportunity to elect new members regularly in a way that is fair and representative.

Rwyf hefyd am ddweud bod cyfle wedi cael ei golli i fynd i'r afael â rhai o'r problemau yr ydym yn ymwybodol ohonynt y dyddiau hyn yng nghyd-destun awdurdodau lleol. Byddwn i'n falch iawn petai'r Bil hwn yn edrych ar y ffordd y gellid sicrhau bod cyflogau swyddogion hŷn llywodraeth leol yn cael eu penderfynu yn annibynnol gan fwrdd annibynnol. Mae Dyfed Edwards, arweinydd Gwynedd, eisoes wedi codi'r mater hwn, ac mae wedi awgrymu hyn, a byddwn yn annog y Gweinidog i edrych ar hyn. Byddwn ni fel plaid yn sicr yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil i'r perwyl hwn.

I also wish to make the point that there has been an opportunity lost here to tackle some of the problems that we are aware of these days in the context of local authorities. I would be most pleased if this Bill could look at how we can ensure that the salaries of senior officials in local authorities are decided independently by an independent board. Dyfed Edwards, the leader of Gwynedd, has already raised this issue, and has made this suggestion, and I would encourage the Minister to look at this. We as a party will certainly be tabling amendments to that end.

Hefyd, byddem yn falch iawn petai'r Bil hwn yn edrych ar bethau fel y ffaith bod prif weithredwyr awdurdodau lleol yn cael eu talu i arolygu etholiadau. Mae'n rhan o'u swydd hwy. A ydym yn awgrymu y dylai aelodau etholedig yn cael tâl ychwanegol bob tro y maent yn sefyll mewn etholiad? Hynny yw, mae'n rhan annatod o'u swyddogaethau. Mae cyngor Abertawe, er enghraifft, yn cynnwys y tâl hwnnw yn nhâl y prif weithredwr, ond mae awdurdodau eraill sy'n cynnig tâl sylweddol ychwanegol, ac rwy'n credu eto fod rhaid i ni edrych ar hynny.

Also, we would be delighted if this Bill could look at things such as the fact that local authority chief executives are paid to oversee elections. That is part of their job. Are we suggesting that elected members should be paid an additional sum every time they stand in an election? It is an integral part of their responsibilities. Swansea council, for example, includes that payment in the chief executive's salary, but other authorities offer significant additional payments, and I again think that we need to look at that.

Felly, Weinidog, byddwn yn awgrymu nid yn unig eich bod yn edrych ar yr argymhellion a ddaeth o'r pwyllgor, ond eich bod yn manteisio ar y cyfle i wneud gwahaniaeth sylfaenol i awdurdodau lleol a'u hatebolrwydd drwy gyfrwng y Bil hwn.

Therefore, Minister, I would suggest that you not only look at the committee's recommendations, but take advantage of the opportunity to make a significant difference to local authorities and their accountability through this Bill.

17:08 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will start by putting on record my appreciation of the former Minister's work in bringing this before the committee and the way in which he gave evidence to us and listened to the concerns that we had as part of that. I very much welcome the new Minister and hope that she will apply the same common sense and flexibility that Carl Sargeant did when we dealt with this Bill at Stage 1. I share other Members' concerns, however, that the Minister has not accepted a number of what I consider to be key recommendations in this report. The Bill in front of us is quite a technical one: it will not change the world and it will not get people out manning the barricades or anything like that. However, there are certainly issues in there that can be improved, and the Bill can be made better. I think that the committee's report, which I support in its entirety, does highlight a large number of those issues.

Rwyf am ddechrau drwy gofnodi fy ngwerthfawrogiad o waith y cyn Weinidog i ddod â hyn gerbron y pwyllgor a'r ffordd y rhoddodd dystiolaeth i ni a gwrando ar y pryderon a oedd gennym, fel rhan o hynny. Rwyf yn croesawu'r Gweinidog newydd yn fawr iawn ac rwy'n gobeithio y bydd yn defnyddio'r un synnwyr cyffredin a hyblygrwydd ag y gwnaeth Carl Sargeant pan ymdriniwyd â'r Bil hwn ar Gyfnod 1. Yr wyf yn rhannu pryderon yr Aelodau eraill, fodd bynnag, nad yw'r Gweinidog wedi derbyn nifer o'r argymhellion hyn yr wyf yn eu hystyried yn rhai allweddol, yn yr adroddiad hwn. Mae'r Bil sydd ger ein bron yn un eithaf technegol: ni fydd yn newid y byd ac ni fydd yn cael pobl allan i brotestio na dim felly. Fodd bynnag, mae materion penodol yno y gellir eu gwella, a gellid gwella'r Bil. Credaf fod adroddiad y pwyllgor, yr wyf yn ei gefnogi yn ei gyfanrwydd, yn amlygu nifer fawr o'r materion hynny.

I will start with the issue of having a commissioner who speaks Welsh. The 1972 Act contained that provision. This Bill seeks to repeal that provision, so that no member of the commission—by statute, at least—needs to be a Welsh speaker. Although mixed, I think that the evidence to us was fairly clear that there are advantages to having a Welsh-speaking commissioner. My concern is that the Minister's reliance on the Welsh Language (Wales) Measure 2011 to cover this aspect is misplaced, simply because the commencement of that Measure is still a number of years away. I think that there is going to be a gap between this Bill being passed and the Measure being commenced, during which time there will be no provision in terms of that commission.

Rwyf am ddechrau â'r mater o gael comisiynydd sy'n siarad Cymraeg. Mae Deddf 1972 yn cynnwys y ddarpariaeth honno. Mae'r Bil hwn yn ceisio diddymu'r ddarpariaeth honno fel nad oes angen i unrhyw aelod o'r comisiwn—yn ôl statud, o leiaf—fod fod yn siaradwr Cymraeg. Er yn gymysg, yr wyf yn credu bod y dystiolaeth i ni yn eithaf clir bod manteision i gael comisiynydd sy'n siarad Cymraeg. Fy mhryder i yw bod dibyniaeth y Gweinidog ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i gwmpasu'r agwedd hon yn anghywir, oherwydd, yn syml, na fydd y Mesur hwn yn cychwyn am flynyddoedd eto. Credaf y bydd bwlch rhwng pasio'r Bil hwn a chychwyn y Mesur, ac yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd unrhyw ddarpariaeth o ran y comisiwn hwnnw.

17:09 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

17:09 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly, Rhodri, if you are quick.

Yn sicr, Rhodri, os ydych yn gyflym.

17:09 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I fully accept the point that you are making, Peter, but in addition to that point, do you agree that it is the responsibility of the Government to ensure that communication can be made through the Welsh language, that it should not rely solely on the Bill to do that and that it should ensure that it is part of its own Bill?

Rwyf yn derbyn yn llwyr y pwynt yr ydych yn ei wneud, Peter, ond yn ychwanegol at y pwynt hwnnw, a ydych yn cytuno mai cyfrifoldeb y Llywodraeth yw sicrhau y gellir cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac na ddylai ddibynnu'n llwyr ar y Bil i wneud hynny ac y dylai sicrhau ei fod yn rhan o'i Fil ei hun?

17:10 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, and you have saved me from having to make that point. My second point is about the way the consultation exercises are carried out in relation to boundary changes. The Electoral Reform Society makes some very valid points about the efficacy of those consultation exercises and making sure that we have best practice for engaging with the public. I very much support that and, although that is not part of the Bill, it is certainly endorsed in the report. I hope that the Minister is able to take that on board.

Yn hollol, ac rydych wedi fy arbed rhag gorfod gwneud y pwynt hwnnw. Mae fy ail bwynt yn ymwneud â'r modd y mae'r ymarferion ymgynghori yn cael eu cynnal mewn perthynas â newid ffiniau. Mae'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn gwneud rhai pwyntiau dilys iawn ynglŷn ag effeithiolrwydd yr ymarferion ymgynghori hynny ac ynglŷn â gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn arferion gorau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Rwyf yn gefnogol iawn o hynny, ac er nad yw'n rhan o'r Bil, mae'r adroddiad yn sicr yn ei gymeradwyo. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu ystyried hynny.

Mike Hedges made most of the points that I wanted to make regarding terminology, but the point has to be made that, if we are going to change the terminology, we should use common sense and adopt terms that people understand and use every day. Otherwise let us leave it alone. It seems to me that what we have here is the worst of all worlds: we are changing the terminology to something that people do not tend to use. Effectively, we have Cardiff bay-bubble speak within the Bill, which is not something that people will identify with.

Mae Mike Hedges wedi nodi'r rhan fwyaf o'r pwyntiau yr oeddwn am eu gwneud o ran terminoleg, ond mae angen nodi'r pwynt y dylem, os ydym yn mynd i newid y derminoleg, ddefnyddio synnwyr cyffredin a mabwysiadu termau y mae pobl yn eu deall ac yn eu defnyddio bob dydd. Fel arall, gadewch i ni adael pethau fel ag y maent ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos i mi mai'r hyn sydd gennym yma yw'r dewis gwaethaf bosibl: rydym yn newid y derminoleg i rywbeth nad yw pobl yn tueddu i'w ddefnyddio. I bob pwrpas, mae gennym eiriau sy'n gyfyngedig i Fae Caerdydd yn y Bil, ac nid ydynt yn rhywbeth y bydd pobl yn uniaethu â nhw.

I was a bit disappointed in relation to the recommendation on websites. I welcome the fact that the Minister is prepared to amend the Bill to require a register of members' interests to be included on websites. That certainly should be the case in relation to community councils, but we also need to recognise that not every unitary authority and county council does that at the moment. Unless you extend this to include county councils, we will have a situation where community councils' websites will all contain the register of members' interests but county councils' websites will not. It seems to me that, if you are going to have a provision such as this, it should be set as a baseline for all authorities in Wales—both principal and community—and we should say that that is what expect every website to include as a bare minimum. That needs to be looked at again and I hope that the Minister will be prepared to reconsider that particular view.

Roeddwn ychydig yn siomedig mewn perthynas â'r argymhelliad ar wefannau. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn barod i ddiwygio'r Bil i'w wneud yn ofynnol i gynnwys cofrestr o fuddiannau aelodau ar wefannau. Dylai hynny yn sicr fod yn wir mewn perthynas â chynghorau cymuned, ond mae angen i ni hefyd gydnabod nad yw pob awdurdod unedol a chyngor sir yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Oni bai eich bod yn ymestyn hyn i gynnwys cynghorau sir, bydd gennym sefyllfa lle mae gwefannau pob cyngor cymuned, ond nid gwefannau cynghorau sir, yn cynnwys cofrestr o fuddiannau aelodau. Os ydych am gael darpariaeth o'r fath, mae'n ymddangos i mi y dylid ei osod fel gwaelodlin ar gyfer pob awdurdod yng Nghymru—prif awdurdodau a rhai cymuned—a dylem ddweud mai dyna a ddisgwylir i bob gwefan ei chynnwys fel lleiafswm. Mae angen edrych ar hyn eto ac rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn barod i ailystyried y farn benodol hon.

I think that the Minister has misunderstood slightly the point we were making regarding democratic services committees. The committee took the view that it should not be the council as a whole that asks those committees to review the support that is available to members, but that members themselves should be able to ask for that review to take place. This is not about imposing the views of a minority of members on a council: this is about asking for a review that the council can then accept or reject. It is my view that those democratic services committees should serve the members and not the administration of the council. That is why I think that was included.

Credaf fod y Gweinidog wedi camddeall braidd y pwynt yr ydym yn ei wneud o ran pwyllgorau gwasanaethau democrataidd. Barn y pwyllgor oedd nad y cyngor yn ei gyfanrwydd a ddylai ofyn i'r pwyllgorau hynny adolygu'r cymorth sydd ar gael i aelodau, ond y dylai'r aelodau eu hunain allu gofyn i'r adolygiad hwnnw gael ei gynnal. Nid mater o leiafrif o aelodau yn gorfodi eu barn ar gyngor yw hwn: mater o ofyn am adolygiad y gall y cyngor wedyn ei dderbyn neu ei wrthod. Yn fy marn i, dylai'r pwyllgorau gwasanaethau democrataidd hynny wasanaethu'r aelodau nid gweinyddiaeth y cyngor. Rwyf o'r farn mai dyna pam y cafodd ei gynnwys.

Those are the main points that I wanted to make on the Bill. No doubt we will have a further debate on this when Stage 2 comes forward but I ask the Minister to look again at the recommendations in the report because they have been put in there after detailed consideration and discussion. They have not been put in there on a whim, and it is very important that they are given due consideration.

Dyna'r prif bwyntiau yr oeddwn am eu nodi ynglŷn â'r Bil. Mae'n siŵr y byddwn yn cael dadl bellach ynglŷn â hyn pan ddaw Cyfnod 2 ond gofynnaf i'r Gweinidog edrych eto ar yr argymhellion yn yr adroddiad oherwydd eu bod wedi eu nodi yno ar ôl ystyriaeth a thrafodaeth fanwl. Nid ydynt wedi cael eu cynnwys ar fympwy, ac mae'n bwysig iawn eu bod yn cael ystyriaeth briodol.

17:13 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Along with other Members, I pay tribute to the work of Carl Sargeant, the previous Minister for local government, and wish Lesley Griffiths, the current Minister, good luck in her new post.

Ynghyd ag Aelodau eraill, hoffwn roi teyrnged i waith Carl Sargeant, y Gweinidog blaenorol dros lywodraeth leol, a dymuno pob lwc i Lesley Griffiths, y Gweinidog presennol, yn ei swydd newydd.

I thank the stakeholders who responded to the committee's consultation and the witnesses who helped to guide, shape and inform our judgment. Most of those people were in favour of the need for legislation to update long-standing legislation, such as the 1972 Act, and to tidy up more recent threads and generally implement the recommendations of the Mathias review. From its first principles, the Bill recognises that local government should be representative of the community that it serves and should be organised and equipped to serve the public interest and should communicate effectively with the people. Those are principles that we would all promote and support, without doubt. I certainly welcome the £1.25 million that the Welsh Government has put by to broadcast meetings to help councillors to work more effectively and generally improve communication with the public about their town and community councils.

Diolch i'r rhanddeiliaid a ymatebodd i ymgynghoriad y pwyllgor a'r tystion a fu'n helpu i arwain, llunio a llywio ein barn. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl hynny o blaid yr angen am ddeddfwriaeth i ddiweddaru deddfwriaeth sy'n bodoli ers tro, megis Deddf 1972, ac i dacluso'r manion mwy diweddar a gweithredu argymhellion adolygiad Mathias yn gyffredinol. O'i egwyddorion sylfaenol, mae'r Bil yn cydnabod y dylai llywodraeth leol gynrychioli'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu; y dylai fod yn gymwys ac wedi ei threfnu i wasanaethu budd y cyhoedd; ac y dylai gyfathrebu'n effeithiol â'r bobl. Mae'r egwyddorion hyn yn rhai y byddem i gyd yn eu hyrwyddo a'u cefnogi, heb amheuaeth. Rwyf yn sicr yn croesawu'r £1.25 miliwn y mae Llywodraeth Cymru wedi ei neilltuo i ddarlledu cyfarfodydd er mwyn helpu cynghorwyr i weithio'n fwy effeithiol a chyfathrebu'n well yn gyffredinol â'r cyhoedd am eu cynghorau tref a chymuned.

I agree with Peter Black that, if it is the case that publication of a register of interests only applies to community and councils and the Bill would somehow allow unitary authorities or county councils not to adhere to that, we certainly need to look at that and make it equitable.

Os mai cynghorau cymuned yn unig fyddai'n gorfod cyhoeddi cofrestr o fuddiannau, ac y byddai'r Bil rhywsut yn caniatáu i awdurdodau unedol neu gynghorau sir beidio â glynu at hynny, yn sicr rwyf yn cytuno â Peter Black bod angen i ni edrych ar hynny a'i wneud yn deg.

For my part, speaking from experience as a former Pembrokeshire county councillor and leader of the opposition, I would like to speak briefly to recommendation 17, as effective scrutiny is critical to the function of local government. Section 57 of the Bill amends the Local Government (Wales) Measure 2011 to provide that an audit committee of a local authority is politically balanced, and I definitely welcome that, as it underscores the guidance issued under the 2011 Measure. However, there is a wider point about scrutiny, and the Electoral Reform Society discussed that in its evidence. The fact is that many authorities have few scrutiny committees in the first place; that was certainly my experience, and I have spoken about that in many previous debates, particularly the need for greater training and support for councillors to enable them to better perform their vital scrutiny role. Some training is available, but there is a significant imbalance between the resources available to cabinet members and backbench councillors, who are ironically tasked with holding the cabinet members to account. I would certainly like to see something done about that, particularly when you look at the Assembly and the excellent support services that we enjoy in carrying out our scrutiny role. If we do not carry out good scrutiny, we cannot in every case say that we will have good government or good governance.

O'm safbwynt i, gan siarad o brofiad fel cyn-gynghorydd sir yn Sir Benfro ac arweinydd yr wrthblaid, hoffwn siarad yn fyr am argymhelliad 17, gan fod craffu effeithiol yn hanfodol i swyddogaeth llywodraeth leol. Mae Adran 57 y Bil yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn sicrhau bod pwyllgor archwilio awdurdod lleol yn gytbwys yn wleidyddol, ac rwyf yn sicr yn croesawu hynny, gan ei fod yn tanlinellu'r canllawiau a gyhoeddwyd dan Fesur 2011. Fodd bynnag, ceir pwynt ehangach ynglŷn â chraffu, a thrafodwyd hyn gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn ei thystiolaeth. Y ffaith yw mai ychydig iawn o bwyllgorau craffu sydd gan lawer o awdurdodau yn y lle cyntaf. Dyna yn sicr oedd fy mhrofiad i, ac rwyf wedi siarad am hynny mewn llawer o ddadleuon blaenorol, yn enwedig yr angen am fwy o hyfforddiant a chefnogaeth i gynghorwyr er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaeth graffu hanfodol yn well. Mae rhywfaint o hyfforddiant ar gael, ond mae anghydbwysedd sylweddol rhwng yr adnoddau sydd ar gael i aelodau cabinet a chynghorwyr meinciau cefn sydd, yn eironig, yn gyfrifol am ddwyn aelodau'r cabinet i gyfrif. Byddwn yn sicr yn hoffi gweld rhywbeth yn cael ei wneud am hynny, yn enwedig pan fyddwch yn edrych ar y Cynulliad a'r gwasanaethau cymorth ardderchog yr ydym yn eu mwynhau wrth gyflawni ein swyddogaeth graffu. Os nad ydym yn gwneud gwaith craffu da, ni allwn ym mhob achos ddweud y bydd gennym lywodraeth dda na llywodraethu da.

I urge the Minister to consider recommendation 17 on whether further steps are needed to promote the scrutiny work of council committees, and maybe to spread the message more widely about the importance of scrutiny in local government.

Rwyf yn annog y Gweinidog i ystyried argymhelliad 17 ynghylch a oes angen cymryd camau ychwanegol i hyrwyddo gwaith craffu pwyllgorau'r cyngor, ac efallai i ledaenu'r neges yn ehangach am bwysigrwydd craffu mewn llywodraeth leol.

17:16

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Local Government and Government Business to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i ymateb i'r ddadl.

17:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

Senedd.tv
Fideo Video

I thank everyone for their contributions to this debate and for the support shown towards this Bill. I will not have time to address all the points that have been made today, but I would like to assure all Members that I would certainly take on board all their points and consider them, and also look very closely at the specific issues where you have asked me to look again. You are quite right—as a new Minister, I certainly need to do that.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ddadl hon ac am y gefnogaeth a ddangoswyd tuag at y Bil hwn. Ni fydd gennyf amser i fynd i'r afael â'r holl bwyntiau a wnaed heddiw, ond hoffwn sicrhau'r holl Aelodau y byddwn yn bendant yn ystyried eu pwyntiau i gyd, a hefyd yn edrych yn ofalus iawn ar y materion penodol yr ydych wedi gofyn i mi edrych arnynt eto. Rydych yn llygad eich lle—fel Gweinidog newydd, yn sicr mae angen i mi wneud hynny.

Ann, as Chair, followed me in opening the debate and referred to the length of time for the publication of a report being shortened to six months. However, I really do not think that that would be long enough to amend an electoral register, and failure to implement a change in time for an election could fuel speculation as to which seats would survive at the following election.

Ann, fel Cadeirydd, a siaradodd ar fy ôl i wrth agor y ddadl a chyfeiriodd at gwtogi'r cyfnod o amser ar gyfer cyhoeddi adroddiad i chwe mis. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y byddai hynny'n ddigon o amser i ddiwygio cofrestr etholiadol. Gellid cyfrannu at y dyfalu ynglŷn â pha seddi fyddai'n goroesi yn yr etholiad canlynol pe methid â gweithredu newid mewn pryd ar gyfer etholiad.

Peter, you raised the issue regarding the removal of the provision around somebody being appointed to the commission who is not Welsh speaking. There is sufficient protection of the Welsh language and if you consider that there are only three members of the commission, that could have a detrimental effect on the appointments. However, the ability to speak Welsh will remain an advantage during the recruitment exercise, and removal of the provision will enhance the appointment process for members of the commission when the need arises.

Cododd Peter bwynt ynghylch cael gwared ar y ddarpariaeth ynglŷn â phenodi rhywun i'r comisiwn nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae digon o gamau i amddiffyn y Gymraeg, ac os ydych yn ystyried mai dim ond tri aelod sydd i'r comisiwn, gallai hynny gael effaith andwyol ar y penodiadau. Fodd bynnag, bydd y gallu i siarad Cymraeg yn parhau i fod yn fantais yn ystod yr ymarfer recriwtio, a bydd y cam i gael gwared ar y ddarpariaeth yn gwella'r broses benodi ar gyfer aelodau o'r comisiwn pan fydd yr angen yn codi.

I thank Simon Thomas for the support of the Constitutional and Legislative Affairs Committee. I will have a look at the issue that you raised on joint standards and write to the Chair, David Melding, on that point. Janet Finch-Saunders, like you I want local government to be as transparent as possible, and I think that the Bill will bring this forward. You raise the issue of senior officers' pay, but it is right that local authorities decide on that.

Diolch i Simon Thomas am gefnogaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Byddaf yn edrych ar y mater a godwyd gennych ynglŷn â safonau ar y cyd a byddaf yn ysgrifennu at y Cadeirydd, David Melding, ar y pwynt hwnnw. Janet Finch-Saunders, fel chi rwyf am i lywodraeth leol fod mor dryloyw ag y bo modd, a chredaf y bydd y Bil yn cyflawni hyn. Rydych yn crybwyll cyflog uwch swyddogion, ond mae'n iawn mai awdurdodau lleol sy'n penderfynu ynglŷn â hynny.

Both Mike Hedges and Peter Black referred to the language and the use of the word 'ward'. 'Ward' is used very commonly, but it is still the term that is used where communities are split into wards, and that is why it is not legally used for county councils. However, I want to make sure that the public understands that, so I will have a look at it. Of course, I agree with Mike Hedges that presiding officers need a very specific set of skills, and I do not think that a chief executive should be chairing a meeting. It is traditionally the chair, or the mayor, or the lord mayor.

Cyfeiriodd Mike Hedges a Peter Black at yr iaith a'r defnydd o'r gair 'ward'. Mae'r gair 'ward' yn cael ei ddefnyddio yn gyffredin iawn, ond dyna'r term a ddefnyddir pan fo cymunedau wedi eu rhannu'n wardiau. Dyna pam nad yw'n cael ei ddefnyddio'n gyfreithiol ar gyfer cynghorau sir. Fodd bynnag, rwyf am wneud yn siŵr bod y cyhoedd yn deall hynny, felly byddaf yn cael golwg ar y mater. Wrth gwrs, rwyf yn cytuno â Mike Hedges bod angen i lywydd feddu ar gyfres benodol iawn o sgiliau, ac nid wyf yn credu y dylai prif weithredwr gadeirio cyfarfod. Yn draddodiadol y cadeirydd, neu'r maer, neu'r arglwydd faer fyddai'n gwneud hynny.

Rhodri Glyn Thomas, you raised several points and, as I said, I will have a look at them, because I want it to be as good a piece of legislation as possible. I know that Carl Sargeant, as the former Minister, certainly wanted that also. It is important that people out there understand what their local authority is undertaking. I share concerns about councillors being returned uncontested; that is not good for democracy. However, I am sure that you are aware that voting systems at local elections are outside this Assembly's competence. Also, you raise the issue about chief executives having extra fees as returning officers. Again, apart from elections for the National Assembly, it is outside of our competence.

Cododd Rhodri Glyn Thomas nifer o bwyntiau ac, fel y dywedais, byddaf yn edrych arnynt, oherwydd fy mod am i'r ddeddfwriaeth fod gystal â phosibl. Gwn fod Carl Sargeant, y cyn Weinidog, yn sicr am weld hynny hefyd. Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn deall beth y mae eu hawdurdod lleol yn ymgymryd ag ef. Rwyf yn rhannu'r pryderon ynglŷn â chynghorwyr yn cael eu dychwelyd heb wrthwynebiad, nid yw hynny'n dda i ddemocratiaeth. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod systemau pleidleisio mewn etholiadau lleol y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad hwn. Hefyd, rydych yn codi'r pwynt bod prif weithredwyr yn cael ffïoedd ychwanegol fel swyddogion canlyniadau. Unwaith eto, ar wahân i etholiadau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, y mae y tu allan i'n cymhwysedd.

Peter, I think that you misunderstood my comments in relation to registers. I have accepted the committee's recommendations, and Joyce also referred to that.

Peter, rwyf yn credu eich bod wedi camddeall fy sylwadau ynglŷn â chofrestrau. Rwyf wedi derbyn argymhellion y pwyllgor, a chyfeiriodd Joyce hefyd at hynny.

17:20 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You said that you accept the recommendation in relation to registers. My point was whether that clause should also apply to county councils, which you said that you would not apply. Some county councils do not publish their register of members' interests on their websites.

Fe wnaethoch ddweud eich bod yn derbyn yr argymhelliad ynglŷn â chofrestrau. Fy mhwynt oedd a ddylai'r cymal hwnnw fod yn berthnasol i gynghorau sir hefyd, gan i chi ddweud na fyddai hynny'n berthnasol. Nid yw rhai cynghorau sir yn cyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau ar eu gwefannau.

17:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will look at that again.

Byddaf yn edrych ar hynny eto.

Joyce Watson referred to the training and development of councillors, and I have started to undertake visits to all 22 local authorities, and I managed to visit eight last week, and that was something that I raised at every local authority. Training and development of councillors is important to enable them to perform in their job to the best of their abilities.

Cyfeiriodd Joyce Watson at hyfforddi a datblygu cynghorwyr, ac rwyf wedi dechrau ymweld â phob un o'r 22 awdurdod lleol. Llwyddais i ymweld ag wyth yn ystod yr wythnos ddiwethaf, ac roedd hynny'n rhywbeth a godais ym mhob awdurdod lleol. Mae hyfforddiant a datblygiad yn bwysig i gynghorwyr, i'w galluogi i wneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu.

This Bill largely completes a train of events that were brought about through the Mathias report on the Local Government Boundary Commission for Wales, and the reforms were clearly needed to the organisation—to the commission's approach to its work and importantly to the legislative framework within which it operated. It was compounded by outdated provisions, which this Bill seeks to correct. It is worth noting that the commission, through its own efforts, has already done much to raise its level of performance and to improve its engagement with stakeholders.

Mae'r Bil hwn i raddau helaeth yn cwblhau cyfres o ddigwyddiadau yn dilyn adroddiad Mathias ar y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, ac roedd yn amlwg angen diwygio'r sefydliad—o ran agwedd y comisiwn at ei waith ac yn bwysig o ran y fframwaith deddfwriaethol y mae'n gweithredu oddi mewn iddo. Cafodd y sefyllfa ei chymhlethu gan ddarpariaethau sydd wedi dyddio, ac mae'r Bil hwn yn ceisio eu cywiro. Mae'n werth nodi bod y comisiwn, drwy ei ymdrechion ei hun, eisoes wedi gwneud llawer i godi lefel ei berfformiad a gwella ei ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

The Bill also presents the opportunity to tidy up parts of the Local Government (Wales) Measure 2011, which, in light of experience, could be improved. It also addresses some elements of democratic organisation within local authorities and how they engage with the public.

Mae'r Bil hefyd yn rhoi cyfle i dacluso rhannau o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y gellid eu gwella, yng ngoleuni profiad. Mae hefyd yn mynd i'r afael â rhai elfennau o drefniadau democrataidd o fewn awdurdodau lleol a sut y maent yn ymgysylltu â'r cyhoedd.

Sometimes, legislation introduces major changes to the way services are delivered or the rules we must live by. On other occasions, it is necessary to deal with procedures and processes that may be less exciting, but, as Peter Black said, are equally necessary. This Bill is one of those occasions, and it has been broadly welcomed by those who have an interest in its provisions, and I commend it to everyone.

Weithiau, mae deddfwriaeth yn cyflwyno newidiadau mawr i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu neu reolau y mae'n rhaid i ni fyw yn unol â nhw. Ar adegau eraill, mae'n angenrheidiol i ymdrin â gweithdrefnau a phrosesau sydd o bosibl yn llai cyffrous, ond, fel y dywedodd Peter Black, yr un mor angenrheidiol. Mae'r Bil hwn yn un o'r achlysuron hynny. Mae wedi cael croeso cyffredinol gan y rhai sydd â diddordeb yn ei ddarpariaethau, ac rwyf yn ei gymeradwyo i bawb.

I welcome the support of Members who have contributed to the debate, and I urge Members to vote in favour of the general principles of this Bill.

Rwyf yn croesawu cefnogaeth yr Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl, ac rwyf yn annog yr Aelodau i bleidleisio o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil hwn.

17:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the general principles of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Cynnig i Gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

## Motion to Approve the Financial Resolution of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill

Cynnig NDM5198 Lesley Griffiths

Motion NDM5198 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Local Government (Democracy) (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

17:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

17:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. The proposal is to agree to the financial resolution of the Local Government Democracy (Wales) Bill. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Nid oes gennyf siaradwyr. Y cynnig yw cytuno ar benderfyniad ariannol y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Cynnig i Gytuno ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

## Motion to Agree the General Principles of the Human Transplantation (Wales) Bill

Cynnig NDM5199 Mark Drakeford

Motion NDM5199 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru).

Agrees to the general principles of the Human Transplantation (Wales) Bill.

17:23

## Mark Drakeford [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Llywydd, thank you for the chance to introduce a debate that will be followed by a very large number of our fellow citizens with an interest that extends well beyond Wales. The Bill before you gives rise to powerful and important issues of ethical, social, medical and legal significance. It is absolutely proper that its scrutiny has been meticulous and hard-edged.

Lywydd, diolch ichi am y cyfle i gyflwyno dadl a fydd yn cael ei dilyn gan nifer fawr iawn o'n cyd-ddinasyddion sydd â diddordeb sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i Gymru. Mae'r Bil ger eich bron yn codi materion grymus a phwysig sydd o bwys moesegol, cymdeithasol, meddygol a chyfreithiol. Mae'n gwbl briodol fod y craffu arno wedi bod yn drwyadl ac yn llym.

Let me begin by addressing the core issue around which the Bill revolves, which is that of deemed consent, before going on to respond to the major recommendations put forward by both committees that have been engaged in its Stage 1 consideration.

Gadewch imi ddechrau drwy fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd y Bil, sef caniatâd tybiedig, cyn mynd ymlaen i ymateb i'r prif argymhellion a gyflwynwyd gan y ddau bwyllgor sydd wedi bod yn ystyried Cyfnod 1 y Bil.

At the core of the Human Transplantation (Wales) Bill is the proposition that, in future, here in Wales, we will move from an opt-in to an opt-out system of organ donation. That is a contested and, to some extent, controversial proposition. Two members of the Health and Social Care Committee did not feel able to support it on principle and, of course, I entirely respect the integrity with which they, and others, have arrived at that conclusion—but I do not share it.

Wrth wraidd y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) y mae'r cynnig y byddwn, yn y dyfodol, yma yng Nghymru, yn symud o system optio i mewn i system optio allan o roi organau. Mae hwnnw'n gynnig a heriwyd ac mae, i ryw raddau, yn ddadleuol. Nid oedd dau aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn teimlo eu bod yn gallu ei gefnogi ar egwyddor ac, wrth gwrs, rwyf yn llwyr barchu'r gonestrwydd a ddangoswyd wrth iddynt hwy, ac eraill, ddod i'r casgliad hwnnw—ond nid wyf yn ei rannu.

Deemed consent, as the Nuffield Council on Bioethics put it to the Health and Social Care Committee, is not a poor substitute for consent. Rather, the common set of rules by which donation will be governed in Wales in the future will be that three equally valid choices will be available: to register a wish to be a donor by opting in; to register a wish not to be a donor by opting out; or to have consent to donation deemed by taking no action. The effect of that third course of action, we argue, will be that, together with a wide range of other measures, the number of organs available for transplantation will increase.

Nid yw caniatâd tybiedig, fel y dywedodd Cyngor Biofoeseg Nuffield wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ddewis eilradd yn lle caniatâd. Yn hytrach, y set gyffredin o reolau a fydd yn rheoli rhoi organau yng Nghymru yn y dyfodol yw y bydd tri dewis yr un mor ddilys â'i gilydd ar gael: cofrestru dymuniad i fod yn rhoddwr drwy optio i mewn; cofrestru dymuniad i beidio â bod yn rhoddwr drwy optio allan; neu dybio bod rhywun yn rhoi caniatâd i roi ei organau oherwydd diffyg gweithredu. Ein dadl ni yw mai effaith y trydydd dewis hwn yw y bydd, ynghyd ag amryw helaeth o fesurau eraill, yn peri y bydd nifer yr organau a fydd ar gael i'w trawsblannu yn cynyddu.

Is it our argument that, by itself, deemed consent will do everything we need to prevent the three avoidable deaths that currently take place every month in Wales? No, that is not our argument; we have always seen this as part of a wider package of measures to increase the number of transplants. Do we accept, then, on the other hand, that deemed consent is an irrelevance that has no part to play in bringing about the change we seek? No, quite certainly, we do not. The experience of a number of other countries gives us confidence in the part that an opt-out system has to play.

Ai ein dadl yw y bydd caniatâd tybiedig, ar ei ben ei hun, yn gwneud popeth sydd ei angen i atal y tair marwolaeth y gellid eu hosgoi sy'n digwydd ar hyn o bryd bob mis yng Nghymru? Na, nid dyna yw ein dadl; rydym bob amser wedi ystyried bod hyn yn rhan o becyn ehangach o fesurau i gynyddu nifer y trawsblaniadau. A ydym felly'n derbyn, ar y llaw arall, fod caniatâd tybiedig yn rhywbeth amherthnasol ac nad oes ganddo ran i'w chwarae o safbwynt cyflwyno'r newid yr ydym yn ei geisio? Nac ydym, yn sicr, nid ydym yn derbyn hynny. Mae profiad nifer o wledydd eraill yn rhoi hyder inni yn y rhan sydd gan system optio allan i'w chwarae.

Deemed consent will bring about a cultural shift in the way donation proceeds in Wales. It will alter the nature of some of the most difficult conversations that any family might face, and it will help to ensure that the wishes of that substantial majority of Welsh citizens who say, in survey after survey, that they would wish to be a donor, are put into practice in those very rare and special circumstances when donation is possible.

Bydd caniatâd tybiedig yn esgor ar newid diwylliannol yn y ffordd y mae rhoi organau'n digwydd yng Nghymru. Bydd yn newid natur rhai o'r sgyrsiau mwyaf anodd y gallai unrhyw deulu eu hwynebu, a bydd yn helpu i sicrhau bod dymuniadau mwyafrif helaeth dinasyddion Cymru sy'n dweud, mewn arolwg ar ôl arolwg, y byddent yn dymuno bod yn rhoddwyr, yn cael eu rhoi ar waith yn yr amgylchiadau prin ac arbennig iawn hynny pan fo rhoi organau yn bosibl.

I will now turn to the ways in which the Bill is to be strengthened as a result of Stage 1 consideration. There are a large number of recommendations from both committees, and I will be able to touch only on the most significant of those this afternoon.

Trof yn awr at y ffyrdd y bydd y Bil yn cael ei gryfhau o ganlyniad i ystyriaethau Cyfnod 1. Mae nifer fawr o argymhellion gan y ddau bwyllgor, ac ni fyddaf ond yn gallu crybwyll y mwyaf arwyddocaol o'r rhai hynny y prynhawn yma.

The Constitutional and Legislative Affairs Committee made four recommendations for the use of the superaffirmative procedure in relation to regulation or Order-making powers and the Government accepts them all. The Bill will be amended to provide for a consultation period in relation to draft proposals that will then be followed by an affirmative procedure on the floor of the Assembly. Where there are doubts or anxieties about what is proposed, I want to provide the maximum opportunity for discussion and for the merits of those proposals to be examined. Accepting the recommendation of the Constitutional and Legislative Affairs Committee will help to make that happen.

Gwnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol bedwar argymhelliad ar gyfer defnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol mewn perthynas â phwerau gwneud Gorchmynion neu reoliadau ac mae'r Llywodraeth yn derbyn pob un. Bydd y Bil yn cael ei ddiwygio i ddarparu ar gyfer cyfnod o ymgynghori mewn perthynas â chynigion drafft ac yna ceir gweithdrefn gadarnhaol ar lawr y Cynulliad. Lle ceir amheuon neu bryderon am yr hyn a gynigir, rwyf am ddarparu cymaint o gyfle â phosibl i drafod ac i archwilio rhinweddau'r cynigion hynny. Bydd derbyn argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn helpu i sicrhau y bydd hynny'n digwydd.

There are three further recommendations from the same committee that the Government will not pursue because we believe that the clarity of the law can be ensured without an amendment to the Bill. I will write to the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee setting out the Government's position in each case, and that letter will be available to all Members.

Ceir tri argymhelliad pellach gan yr un pwyllgor na fydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â hwy oherwydd ein bod yn credu y gellir sicrhau eglurder y gyfraith heb welliant i'r Bil. Ysgrifennaf at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn nodi safbwynt y Llywodraeth ym mhob achos, a bydd y llythyr hwnnw ar gael i bob Aelod.

I will now turn to the Health and Social Care Committee report. In response to it, the Government will bring forward an amendment at Stage 2 to make it clear, by regulation, that novel forms of transplantation are excluded from deemed consent. We will bring forward a further amendment to realign the position when an appointed representative is unable to act with that set out in the Human Tissue Act 2004, as recommended by the committee. This means that, if an appointed representative is unable to act, the decision will pass to the family, as is currently the case.

Trof yn awr at adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn ei sgil, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn glir, drwy reoleiddio, bod ffurfiau newydd o drawsblannu wedi'u heithrio o ganiatâd tybiedig. Byddwn yn cyflwyno gwelliant pellach i sicrhau bod y sefyllfa'n cyd-fynd â'r hyn a nodir yn y Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 pan na fydd cynrychiolydd penodedig yn gallu gweithredu, fel yr argymhellir gan y pwyllgor. Mae hyn yn golygu y bydd y penderfyniad, os na fydd cynrychiolydd penodedig yn gallu gweithredu, yn cael ei drosglwyddo i'r teulu, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

I further confirm this afternoon that individuals who are not voluntarily at their place of residence in Wales, such as prisoners, will not have their consent deemed for the purpose of donation. The detailed application of that principle will be a matter for the code of practice, and I confirm that the draft code will be available to Members by 7 June.

Rwyf yn cadarnhau ymhellach y prynhawn yma, o ran unigolion nad ydynt yn preswylio yng Nghymru o'u gwirfodd, megis carcharorion, nad ystyrir bod y bobl hynny'n rhoi caniatâd tybiedig i roi eu horganau. Bydd manylion arfer yr egwyddor honno yn fater ar gyfer y cod ymarfer, ac rwyf yn cadarnhau y bydd y cod drafft ar gael i Aelodau erbyn 7 Mehefin.

17:29 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for giving way. I would like to take him back a step to novel transplants. He said that he was seeking to amend the Bill to seek further clarity. Is he seeking to amend the face of the Bill or to say how he will deal with it in affirmative regulations? I just want to be clear on that.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. Hoffwn fynd ag ef gam yn ôl at drawsblaniadau newydd. Dywedodd ei fod yn ceisio diwygio'r Bil i geisio eglurhad pellach. A yw'n ceisio diwygio wyneb y Bil neu ddweud sut y bydd yn delio ag ef mewn rheoliadau cadarnhaol? Rwyf am fod yn glir ynglŷn â hynny.

17:29 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will make it clear through the Bill that we will deal with this by regulation. As the committee has recommended, we will make sure that those regulations are subject to the affirmative procedure. Therefore, there will be every safeguard for the Assembly and for those who are looking to us in this way to be clear that novel forms of transplantation will not be covered by deemed consent.

Byddwn yn ei gwneud yn glir drwy'r Bil y byddwn yn delio â hyn trwy reoleiddio. Fel y mae'r pwyllgor wedi'i argymell, byddwn yn sicrhau bod y rheoliadau hynny yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Felly, bydd pob diogelwch i'r Cynulliad ac i'r rhai sydd yn disgwyl inni yn y ffordd hon fod yn glir na fydd mathau newydd o drawsblannu yn cael eu cynnwys yn y caniatâd tybiedig.

The role of the family was among the most contentious matters in the evidence taken by the Health and Social Care Committee. I reaffirm the position set out by my predecessor, Lesley Griffiths, namely that deemed consent donation will not go ahead in the absence of any family member. In deemed consent cases, the presence of the family is essential as a source of necessary information about the potential donor and to ensure that donation does not go ahead in the face of the deceased's known objection to organ donation. That position will be reinforced on the face of the Bill. I will bring forward an amendment at Stage 2 in response to recommendations from both committees, which will provide a clear right of objection for family members, where they can confirm that a potential donor would not have wished donation to take place. This will ensure that the position in law and the position in practice are firmly aligned with one another. The grounds of objection have to be based on the known views of the donor, which further secures a key principle of the Bill, namely that it is the donor's views which are paramount and which have to be respected.

Roedd rôl y teulu ymhlith y materion mwyaf dadleuol yn y dystiolaeth a gymerwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rwyf yn ailddatgan y sefyllfa a nodwyd gan fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths, sef na fydd rhoi organau drwy ganiatâd tybiedig yn mynd yn ei flaen yn absenoldeb unrhyw aelod o'r teulu. Mewn achosion o ganiatâd tybiedig, mae presenoldeb y teulu yn hanfodol fel ffynhonnell o wybodaeth angenrheidiol am y rhoddwr posibl ac i sicrhau nad yw rhoi organau yn mynd yn ei flaen yn wyneb gwrthwynebiad hysbys yr ymadawedig i roi organau. Bydd y safbwynt hwnnw'n cael ei atgyfnerthu ar wyneb y Bil. Byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 yn sgil argymhellion gan y ddau bwyllgor, a fydd yn rhoi hawl glir i aelodau o'r teulu wrthwynebu, lle gallant gadarnhau na fyddai rhoddwr posibl wedi dymuno rhoi ei organau. Bydd hyn yn sicrhau bod y sefyllfa o ran y gyfraith a'r sefyllfa ymarferol yn gydnaws â'i gilydd. Rhaid i sail y gwrthwynebiad fod yn seiliedig ar farn hysbys y rhoddwr, sy'n sicrhau un o egwyddorion allweddol y Bil ymhellach, sef mai barn y rhoddwr sydd bwysicaf a bod yn rhaid ei pharchu.

I will apply that to the position of a student, because the Health and Social Services Committee was particularly concerned to work through what the position of students would be, whether they are students from the United Kingdom or from overseas, in a deemed consent context. As I hope is now clear, their position is protected by two family safeguards. The first is that donation cannot go ahead unless a family member is directly involved in that decision. That will be true for an overseas student as much as it will be for someone from the United Kingdom. Secondly, family members in that position will now possess a legal certainty that they can rebut the presumption of consent where the potential donor was known to be opposed to donation. Let me be completely clear that, in such circumstances, donation would not go ahead.

Rwyf am gymhwyso hynny i sefyllfa myfyriwr, gan fod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn arbennig o awyddus i drafod beth fyddai sefyllfa myfyrwyr, p'un a ydynt yn fyfyrwyr o'r Deyrnas Unedig neu o dramor, yng nghyd-destun caniatâd tybiedig. Mae eu sefyllfa hwy wedi'i gwarchod drwy ddau fesur diogelwch i'r teulu, ac rwyf yn gobeithio bod hynny bellach yn glir. Y cyntaf yw na all rhoi organau fynd yn ei flaen oni bai fod aelod o'r teulu yn rhan uniongyrchol o'r penderfyniad hwnnw. Bydd hynny'r un mor wir ar gyfer myfyriwr tramor ag ar gyfer rhywun o'r Deyrnas Unedig. Yn ail, bydd gan aelodau o'r teulu yn y sefyllfa honno bellach sicrwydd cyfreithiol y gallant wrthbrofi rhagdybiaeth o ganiatâd pan yw'n hysbys bod y rhoddwr posibl yn gwrthwynebu rhoi organau. Gadewch imi fod yn gwbl glir na fyddai rhoi organau yn mynd yn ei flaen mewn amgylchiadau o'r fath.

17:32 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you clarify how this would affect section 8, which says, as I understand it, that a living adult who cannot consent could be deemed to be a consenter by someone working in their best interest? Would that be affected by the statement that you have just made?

A allwch chi egluro sut y byddai hyn yn effeithio ar adran 8, sy'n dweud, fel y deallaf, y gallai rhywun sy'n gweithio er budd pennaf oedolyn byw na all gydsynio dybio ei fod yn cydsynio? A fyddai'r datganiad yr ydych newydd ei wneud yn effeithio ar hynny?

17:33 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

No, this does not apply to section 8, because I am talking about deemed consent where people have capacity. The position that you refer to are in those parts of the Bill that refer to people who, because they are children or adults without capacity, are treated in other ways, where families have expressed consent powers and make the decision on behalf of someone, rather than contributing a piece of information in a deemed consent context.

Nac ydyw, nid yw hyn yn berthnasol i adran 8, oherwydd rwyf yn sôn am ganiatâd tybiedig lle mae pobl yn meddu ar alluedd. Mae'r sefyllfa y cyfeiriwch ati yn y rhannau hynny o'r Bil sy'n cyfeirio at bobl sydd, oherwydd eu bod yn blant neu'n oedolion heb alluedd, yn cael eu trin mewn ffyrdd eraill, lle mae teuluoedd wedi mynegi pwerau cydsynio ac yn gwneud y penderfyniad ar ran rhywun, yn hytrach na chyfrannu darn o wybodaeth yng nghyd-destun caniatâd tybiedig.

Some practical complexities flow from the principle that I have outlined in relation to the role of the family. Between now and Stage 2 proceedings, I want to hold a further round of discussions with faith communities, clinicians, patient groups and others to resolve the practical way in which the family will be able to exercise the new right that the law will set out. I am very grateful for indications from all those who have said that they would be prepared to contribute to this consideration. My aim is that the amendment to be brought forward at Stage 2 will reflect the widest possible consensus that we are able to craft around the way in which the role of the family will proceed.

Mae rhai cymhlethdodau ymarferol yn deillio o'r egwyddor a amlinellwyd gennyf mewn perthynas â rôl y teulu. Rhwng nawr a thrafodion Cyfnod 2, rwyf yn awyddus i gynnal trafodaethau pellach gyda chymunedau ffydd, clinigwyr, grwpiau cleifion ac eraill i ddatrys y ffordd ymarferol y bydd y teulu'n gallu arfer yr hawl newydd y bydd y gyfraith yn ei gosod allan. Rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi dweud y byddent yn barod i gyfrannu at yr ystyriaeth hon. Fy nod yw y bydd y gwelliant a gaiff ei ddwyn ymlaen yng Nghyfnod 2 yn adlewyrchu'r consensws ehangaf posibl y gallwn ei saernïo o ran y ffordd y bydd rôl y teulu'n datblygu.

I want to deal with the countervailing anxiety that enhanced protection for families might lead to the known views of the potential donor being set aside. The Bill provides for a straightforward guarantee against this, through the ability to appoint a representative in a process that we will make as simple as possible. It will be possible to record an appointed representative on the newly developed organ donor register, thereby simplifying the position for clinicians. Appointing a representative means that if anyone is anxious that the family may not faithfully represent their views, they can appoint someone who they know they have confidence in to do exactly that.

Rwyf am ddelio â'r pryder gwrthbwysol y gallai gwell diogelwch i deuluoedd arwain at wthio o'r neilltu farn y rhoddwr posibl. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer gwarant syml yn erbyn hyn, trwy'r gallu i benodi cynrychiolydd mewn proses y byddwn yn ei gwneud mor syml â phosibl. Bydd yn bosibl cofnodi cynrychiolydd penodedig ar y gofrestr rhoddwyr organau newydd, a thrwy hynny symleiddio'r sefyllfa i glinigwyr. Drwy benodi cynrychiolydd, gall unrhyw un sy'n pryderu na fydd y teulu'n cynrychioli ei farn yn gywir benodi rhywun y mae'n gwybod y gall ymddiried ynddo i wneud yn union hynny.

If the Bill plays its part in increasing organ donation in Wales in the future, as we want it to do, then any impact on critical care capacity requires consideration. The health committee recommended that further information on this matter be provided before the end of Stage 2 proceedings, and I confirm this afternoon that this will be done.

Os bydd y Bil yn chwarae ei ran o safbwynt cynyddu nifer yr organau a roddir yng Nghymru yn y dyfodol, fel yr ydym am iddo ei wneud, yna mae angen ystyried unrhyw effaith ar gapasiti gofal critigol. Argymhellodd y pwyllgor iechyd y dylid darparu gwybodaeth bellach ar y mater hwn cyn diwedd trafodion Cyfnod 2, ac rwyf yn cadarnhau y prynhawn yma y bydd hyn yn digwydd.

Finally, I want to deal with an issue highlighted by the Health and Social Care Committee in its thirteenth recommendation, namely that of compliance with the Human Rights Act 1998. For the avoidance of doubt, let me be clear about what is needed in order to be HRA compliant: the Government must take a measured, justifiable and proportionate approach, made up of reasonably practical steps, to inform the public of the deemed consent system, including those members of the public who might otherwise, and often, miss general public information messages. That is why the communication strategy and the legislation are inextricably linked. We will spend two years in a public awareness campaign that will be both extensive and innovative. The committee recommended that further thought be given to the level of funding required for such an extensive communication and education campaign, and that further consideration is being undertaken. I will provide, in any updated explanatory memorandum published in advance of a Stage 3 consideration, the consequences of that further work.

Yn olaf, rwyf am ddelio â mater a amlygwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei drydydd argymhelliad ar ddeg, sef cydymffurfiaeth â Deddf Hawliau Dynol 1998. Er mwyn osgoi amheuaeth, gadewch imi fod yn glir am yr hyn sydd ei angen er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol: mae'n rhaid i ymagwedd y Llywodraeth fod yn bwyllog ac yn gymesur, ac yn un y gellir ei chyfiawnhau, sy'n cynnwys camau sy'n rhesymol ymarferol, i roi gwybod i'r cyhoedd am y system o ganiatâd tybiedig, gan gynnwys yr aelodau hynny o'r cyhoedd a allai fel arall, ac yn aml, fethu negeseuon gwybodaeth gyffredinol i'r cyhoedd. Dyna pam y mae cysylltiad anorfod rhwng y strategaeth gyfathrebu a'r ddeddfwriaeth. Byddwn yn treulio dwy flynedd mewn ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus a fydd yn eang ac yn flaengar. Argymhellodd y pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth bellach i lefel y cyllid sydd ei angen ar gyfer ymgyrch gyfathrebu ac addysgu mor eang, ac mae'r ystyriaeth bellach honno yn cael ei rhoi. Byddaf yn darparu, mewn unrhyw femorandwm esboniadol wedi'i ddiweddaru a gyhoeddir cyn ystyriaeth Cyfnod 3, ganlyniadau'r gwaith pellach hwnnw.

To conclude, I am grateful to all those who have contributed to the debate that this Bill has engendered since its inclusion in the Government's legislative programme. The result, I believe, is that we will have a better Bill, a Bill that will do what everyone who has contributed to the debate says they wish to see, namely fewer lives lost in circumstances where donation makes that difference. The vote today provides the National Assembly with a chance to help to make that happen. I hope that you will vote to endorse the Bill and the principles on which it is founded.

I gloi, rwyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at y drafodaeth y mae'r Bil hwn wedi ei hennyn ers ei gynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Credaf y bydd gennym, o ganlyniad, Fil gwell, a Bil a fydd yn gwneud yr hyn y mae pawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl yn dweud eu bod am ei weld yn digwydd, sef colli llai o fywydau mewn amgylchiadau lle mae rhoi organau yn gwneud y gwahaniaeth hwnnw. Mae'r bleidlais heddiw yn rhoi cyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu i sicrhau bod hynny'n digwydd. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn pleidleisio i gefnogi'r Bil a'r egwyddorion y mae'n seiliedig arnynt.

17:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Vaughan Gething to speak on behalf of the Health and Social Care Committee.

Galwaf ar Vaughan Gething i siarad ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

17:37

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to be able to contribute to today's debate on behalf of the Health and Social Care Committee. The committee's role was to consider and report on the general principles of the Bill, and our report was laid before the Assembly on 25 March. I would like to thank all those who contributed to our work, either by submitting written evidence or by giving oral evidence. Examining the human transplant Bill has been a challenging process for the committee because of the sensitive nature of the subject matter. Organisations and individuals on all sides of the debate have presented very strong views, both for and against the Bill.

Rwyf yn falch o allu cyfrannu at y ddadl heddiw ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rôl y pwyllgor oedd ystyried a chyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a rhoddwyd ein hadroddiad gerbron y Cynulliad ar 25 Mawrth. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith, naill ai drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu drwy roi tystiolaeth lafar. Mae archwilio'r Bil trawsblannu dynol wedi bod yn broses heriol i'r pwyllgor oherwydd natur sensitif y pwnc. Mae sefydliadau ac unigolion ar bob ochr i'r ddadl wedi cyflwyno sylwadau cryf iawn, o blaid ac yn erbyn y Bil.

The majority of individual responses we received did not support the introduction of a deemed consent system. However, in direct contrast, the results of various public attitude surveys conducted over recent years have shown support for a change to an opt-out system. It is therefore difficult to be definitive about the state of public opinion on this particular Bill. Given the importance of public awareness of any change to the law, we believe that the Minister must make every reasonable effort to ensure that people understand any new system and the options available to them under it.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion unigol a dderbyniwyd yn cefnogi cyflwyno system o ganiatâd tybiedig. Fodd bynnag, yn gwbl groes i hynny, mae canlyniadau amryw o arolygon o agweddau'r cyhoedd a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf wedi dangos cefnogaeth i newid i system optio allan. Felly, mae'n anodd dweud yn bendant beth yw'r farn gyhoeddus ar y Bil penodol hwn. O ystyried pwysigrwydd ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch unrhyw newid yn y gyfraith, rydym o'r farn fod yn rhaid i'r Gweinidog wneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod pobl yn deall unrhyw system newydd a'r opsiynau sydd ar gael iddynt dan y system honno.

All Members of the committee and, indeed, all respondents to the consultation, support the objective of increasing the number of organs available for transplantation. The majority of us were content with the principle of deemed consent and its introduction in Wales through the Bill. However, as the Minister has noted, two Members did not support the introduction of a system of deemed consent. Regardless of our views on the general principle of deemed consent, committee members had a number of concerns around specific issues that arise from the Bill. The Minister has dealt with a number of those, which I will try to reflect in my remarks. These are all discussed in detail in our report, which sets out our conclusions and recommendations on these various issues. In the time available, I will run through some of those recommendations, but not all of them.

Mae pob Aelod o'r pwyllgor, ac yn wir pawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad, yn cefnogi'r amcan o gynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu. Roedd y rhan fwyaf ohonom yn fodlon ar egwyddor caniatâd tybiedig a'i chyflwyno yng Nghymru drwy gyfrwng y Bil. Fodd bynnag, fel y mae'r Gweinidog wedi nodi, roedd dau Aelod nad oeddent yn cefnogi cyflwyno system o ganiatâd tybiedig. Waeth beth yw ein barn am egwyddor gyffredinol caniatâd tybiedig, roedd gan aelodau'r pwyllgor nifer o bryderon yn ymwneud â materion penodol sy'n deillio o'r Bil. Mae'r Gweinidog wedi ymdrin â nifer o'r rhain, y byddaf yn ceisio'u hadlewyrchu yn fy sylwadau. Trafodir y rhain i gyd yn fanwl yn ein hadroddiad, sy'n nodi ein casgliadau a'n hargymhellion ar yr amrywiol faterion hyn. Yn yr amser sydd ar gael, soniaf am rai o'r argymhellion hynny, ond nid pob un ohonynt.

In agreeing the general principles of the Bill, we have stressed our view that, on its own, the Bill is unlikely to be decisive in driving up organ donation rates in Wales. However, we note that international evidence has demonstrated that a package of measures, with an opt-out system as a part of that package, has been successful in increasing organ donation numbers. We recognise that this Bill is intended to be one of a number of such measures, including the education and public-awareness-raising campaign.

Wrth gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, rydym wedi pwysleisio ein barn fod y Bil ar ei ben ei hun yn annhebygol o wella cyfraddau rhoi organau yng Nghymru. Fodd bynnag, nodwn fod tystiolaeth ryngwladol wedi dangos bod pecyn o fesurau, gyda system optio allan yn rhan o'r pecyn hwnnw, wedi llwyddo i gynyddu nifer y rhai sy'n rhoi organau. Rydym yn cydnabod y bwriedir i'r Bil hwn fod yn un o nifer o fesurau o'r fath, gan gynnwys yr ymgyrch addysg a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Recommendations 1 and 2 in our report relate to infrastructure and capacity matters. We recognise than an increase in the rate of organ donation, even at the modest level envisaged as a result of the Bill, will have consequences for critical care capacity. Based on the evidence that we received, especially that from the witness from the Academy of Royal Colleges, we had concerns about the capacity that exists to support the current system and that any future increase in donor numbers could exacerbate this and affect our ability to make effective use of any increase in donations. On this basis, we recommended that before the end of Stage 2 proceedings, the Minister prepares and publishes a detailed plan for the future of critical care capacity in Wales, including resource implications, the timescale for any development in this area and how these matters will relate to achieving the objectives of the Bill. We note that the Minister has received a report on the critical care network and we look forward to hearing more from him on this before the end of Stage 2.

Mae argymhellion 1 a 2 yn ein hadroddiad yn ymwneud â seilwaith a materion capasiti. Rydym yn cydnabod y bydd cynnydd yn y gyfradd rhoi organau, hyd yn oed ar y lefel gymedrol a ragwelir o ganlyniad i'r Bil, yn effeithio ar gapasiti gofal critigol. Ar sail y dystiolaeth a gawsom, yn enwedig gan y tyst o Academi'r Colegau Brenhinol, roedd gennym bryderon am y capasiti sy'n bodoli i gefnogi'r system bresennol ac y gallai unrhyw gynnydd yn nifer y rhai sy'n rhoi organau yn y dyfodol waethygu hyn ac effeithio ar ein gallu i wneud defnydd effeithiol o unrhyw gynnydd mewn rhoddion. Felly, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog, cyn diwedd trafodion Cyfnod 2, baratoi a chyhoeddi cynllun manwl ar gyfer dyfodol capasiti gofal critigol yng Nghymru, gan gynnwys y goblygiadau o ran adnoddau, amserlen unrhyw ddatblygiad yn y maes hwn a sut y bydd y materion hyn yn berthnasol i gyflawni amcanion y Bil. Nodwn fod y Gweinidog wedi cael adroddiad ar y rhwydwaith gofal critigol ac edrychwn ymlaen at glywed mwy ganddo ar hyn cyn diwedd Cyfnod 2.

Recommendations 3 and 4 deal with our views on consent to donation. We believe that further information and clarity should be provided about the role of family and friends in decision making about donation under a deemed consent system. We did not feel that a clear and consistent picture had been communicated to date, which sets out whether the family would only be able to provide information on the wishes of their loved one, or whether they would have, in effect, a veto over donation taking place. We recognise that there is already a tension between practice and the law as it exists now. We ask for the Minister to make a definitive statement about the Government's position on this. It is therefore important to have heard what the Minister has said today. We will undoubtedly be interested in how that more expressed role for the family can be put into law, and how the new round of deliberations that he has set out will take place.

Mae argymhellion 3 a 4 yn ymdrin â'n barn ynghylch caniatâd i roi organau. Rydym yn credu y dylid darparu rhagor o wybodaeth ac eglurder am rôl y teulu a ffrindiau wrth wneud penderfyniadau ynghylch rhoi organau dan system o ganiatâd tybiedig. Nid oeddem yn teimlo bod darlun clir a chyson wedi ei gyfleu hyd yma, yn nodi ai dim ond darparu gwybodaeth am ddymuniadau rhywun annwyl y byddai'r teulu'n gallu ei wneud, neu a fyddai ganddynt, mewn gwirionedd, feto dros roi organau. Rydym yn cydnabod bod tensiwn eisoes rhwng arfer a'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd. Rydym yn gofyn i'r Gweinidog wneud datganiad diffiniol am safbwynt y Llywodraeth ar hyn. Roedd yn bwysig, felly, clywed yr hyn a ddywedodd y Gweinidog heddiw. Bydd gennym ddiddordeb yn sicr yn sut y gellir troi'r rôl fwy a fynegwyd ar gyfer y teulu yn ddeddf, a sut y bydd y cylch newydd o drafodaethau y mae wedi ei nodi yn digwydd.

We called for the Minister's position on the role of the family to be reflected on the face of the Bill as far as possible. So, I welcome what the Minister has said in that regard, and we want this to lead to greater public confidence in an opt-out system.

Galwasom am i safbwynt y Gweinidog ar rôl y teulu gael ei adlewyrchu ar wyneb y Bil cyn belled ag y bo modd. Felly, rwyf yn croesawu'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud yn hynny o beth, ac rydym am i hyn arwain at fwy o hyder ymhlith y cyhoedd mewn system optio allan.

Recommendations 5 to 7 relate to arrangements for appointed representatives. Under the Bill as drafted, individuals can appoint a person or persons to represent them and deal with the issue of consent to donation after their death. We recognise the importance of this provision, especially where individuals, as the Minister outlined, may disagree with the views of family members. However, as the Bill as drafted stands, appointed representatives do not necessarily have to be recorded on the organ donation register. There were real concerns that this could place clinicians in an uncertain and unsatisfactory position in trying to identify and contact representatives. It is therefore helpful that the Minister has clarified today that appointed representatives will be recorded on the organ donation register.

Mae argymhellion 5 i 7 yn ymwneud â threfniadau ar gyfer cynrychiolwyr penodedig. O dan y Bil fel y'i drafftiwyd, gall unigolion benodi person neu bersonau i'w cynrychioli ac i ymdrin â chaniatâd i roi organau ar ôl iddynt farw. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y ddarpariaeth hon, yn enwedig lle gallai unigolion, fel yr amlinellodd y Gweinidog, anghytuno â barn aelodau o'r teulu. Fodd bynnag, fel y saif y Bil fel y'i drafftiwyd, nid oes raid i gynrychiolwyr penodedig o reidrwydd gael eu cofnodi ar y gofrestr rhoi organau. Roedd pryderon gwirioneddol y gallai hyn roi clinigwyr mewn sefyllfa ansicr ac anfoddhaol o ran ceisio dod o hyd i gynrychiolwyr a chysylltu â hwy. Felly mae'n ddefnyddiol fod y Gweinidog wedi egluro heddiw y bydd cynrychiolwyr penodedig yn cael eu cofnodi ar y gofrestr rhoi organau.

Recommendations 8 and 9 deal with residency requirements. We understand that the Bill will apply to those persons ordinarily resident in Wales, and who have been here for a period of at least six months. However, we believe the Bill should recognise that there are residents in Wales who are not here voluntarily. The Minister recognised the example of prisoners. We were also concerned about some members of the armed forces who could be posted to serve in Wales but who are not otherwise ordinarily resident in Wales. We welcome the fact that the Minister has given further consideration to this matter. I return to the issue of students and how the Bill applies to them, particularly international students. Again, it is helpful that the Minister has given further thought to this and how the Bill may be changed to further reflect that.

Mae argymhellion 8 a 9 yn ymdrin â gofynion preswylio. Rydym yn deall y bydd y Bil yn berthnasol i'r personau hynny sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, ac sydd wedi bod yma am gyfnod o chwe mis o leiaf. Fodd bynnag, credwn y dylai'r Bil gydnabod bod rhai preswylwyr yng Nghymru nad ydynt yma o'u gwirfodd. Cydnabu'r Gweinidog enghraifft y carcharorion. Roeddem hefyd yn pryderu am rai aelodau o'r lluoedd arfog y gellid eu lleoli i wasanaethu yng Nghymru ond nad ydynt fel arfer yn preswylio yng Nghymru fel arall. Rydym yn croesawu'r ffaith fod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn. Dychwelaf at fater y myfyrwyr a sut y mae'r Bil yn gymwys iddynt hwy, yn enwedig myfyrwyr rhyngwladol. Unwaith eto, mae'n ddefnyddiol fod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth bellach i hyn ac i sut y gellid newid y Bil i adlewyrchu hynny ymhellach.

Recommendations 10 to 12 cover the organ donation registration system. We understand that the previous Minister's preferred option was for a single organ donor register for the UK and that some discussions have taken place with UK counterparts. We recommend that the Minister provides an update on the position and we seek assurances that the preferred option of a single register is deliverable, given that it is dependent on the agreement of other Governments in the UK. We also recommend that the Minister provides further information on the estimated costs involved in developing a single register.

Mae argymhellion 10 i 12 yn ymwneud â'r system gofrestru rhoi organau. Rydym yn deall mai'r opsiwn a ffefrid gan y Gweinidog blaenorol oedd un gofrestr rhoddwyr organau ar gyfer y DU a bod rhai trafodaethau wedi eu cynnal gyda chymheiriaid yn y DU. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa ac yn ceisio sicrwydd y bydd modd cyflawni'r dewis a ffefrir, sef un gofrestr, gan gofio bod hynny'n dibynnu ar gytundeb Llywodraethau eraill yn y DU. Rydym hefyd yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o wybodaeth am amcangyfrif y costau sy'n ymwneud â datblygu un gofrestr.

Recommendations 13 and 14 deal with communication and education. We have heard from the previous Minister about the plans for an extensive education and communication programme to precede the implementation of an opt-out system. We recognise that this will be vital in ensuring that the public is aware of any new deemed consent system and understands the implications for them. We were previously concerned at the statement given to us in evidence that, to introduce an opt-out system that is compliant with the Human Rights Act 1998,

Mae argymhellion 13 a 14 yn ymdrin â chyfathrebu ac addysg. Rydym wedi clywed gan y Gweinidog blaenorol am y cynlluniau ar gyfer rhaglen addysg a chyfathrebu eang cyn gweithredu system o optio allan. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o unrhyw system newydd o ganiatâd tybiedig ac yn deall y goblygiadau iddynt. Roeddem yn poeni o'r blaen ynghylch y datganiad a roddwyd inni yn dystiolaeth sef, er mwyn cyflwyno system optio allan sy'n cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998,

'individuals need to be fully aware of the need to consent or object to an action and be fully aware of the consequence'.

fod angen i unigolion fod yn gwbl ymwybodol o'r angen i roi caniatâd neu wrthwynebu gweithred a bod yn gwbl ymwybodol o'r canlyniad.

We had considerable concerns about that test and whether any Government would be able to meet it. It is, therefore, helpful that the Minister has outlined today that he has reconsidered how that test should be properly framed, and I am sure that members of the committee will want to comment on that later. It does not appear to me that the test that was originally set out reflected the level of information that any other European country has provided when introducing an opt-out system. We call for the new test that the Minister has outlined today to be stuck to and dealt with in a manner that is clear and consistent from here forward, so that members of the public can properly understand the level of communication and information that will be provided and how that will impact on the choices that they will make. Linked to this, we remain to be convinced that the level of resources allocated for an extensive communication and awareness-raising campaign is sufficient. I was pleased to hear that the Minister is considering and is prepared to review that in the future.

Roedd gennym bryderon sylweddol ynghylch y prawf hwnnw ac a fyddai unrhyw Lywodraeth yn gallu ei fodloni. Felly, mae'n ddefnyddiol fod y Gweinidog wedi amlinellu heddiw ei fod wedi ailystyried sut y dylai'r prawf hwnnw gael ei fframio'n briodol, ac rwyf yn siŵr y bydd aelodau'r pwyllgor am wneud sylwadau ar hynny yn nes ymlaen. Nid yw'n ymddangos i mi fod y prawf a osodwyd yn wreiddiol yn adlewyrchu lefel y wybodaeth y mae pob gwlad arall yn Ewrop wedi ei darparu wrth gyflwyno system optio allan. Rydym yn galw am gadw at y prawf newydd y mae'r Gweinidog wedi ei amlinellu ac ymdrin ag ef mewn ffordd sy'n glir a chyson o hyn ymlaen, fel y gall aelodau'r cyhoedd ddeall yn iawn y lefel o gyfathrebu a gwybodaeth a fydd yn cael ei darparu a sut y bydd hynny'n effeithio ar y dewisiadau y byddant yn eu gwneud. Yn gysylltiedig â hyn, rydym yn dal heb ein hargyhoeddi bod lefel yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer ymgyrch gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth eang yn ddigonol. Rwyf yn falch o glywed bod y Gweinidog yn ystyried hynny ac yn barod i'w adolygu yn y dyfodol.

Recommendation 16 relates to the financial implications of the Bill. Previously, we were told that an increase in donor rates as a result of the Bill would not incur additional costs for critical care and surgical services. In light of the evidence that we received, we are not convinced as to whether that be the case. Linked to recommendation 1, about critical care capacity, we recommend that the Minister publishes a detailed plan of the resource implications of the Bill for the future of critical care capacity in Wales and that he does so by the end of Stage 2 proceedings.

Mae argymhelliad 16 yn ymwneud â goblygiadau ariannol y Bil. Dywedwyd wrthym o'r blaen na fyddai cynnydd yng nghyfraddau rhoi organau o ganlyniad i'r Bil yn achosi costau ychwanegol o ran gofal critigol a gwasanaethau llawfeddygol. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gawsom, nid ydym yn argyhoeddedig mai dyna fydd y sefyllfa. Yn gysylltiedig ag argymhelliad 1, ynghylch capasiti gofal critigol, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi cynllun manwl o oblygiadau'r Bil o ran adnoddau ar gyfer dyfodol capasiti gofal critigol yng Nghymru a'i fod yn gwneud hynny erbyn diwedd trafodion Cyfnod 2.

Recommendations 20 and 21 relate to the code of practice to accompany the Bill. Given the importance of this code in providing guidance on the provisions to implement the Bill, we welcome the Minister's commitment to give us sight of the draft code in advance of Stage 3. We ask the Minister to confirm that we will definitely receive this before the end of Stage 2 proceedings, ahead of Stage 3 proceedings.

Mae argymhellion 20 a 21 yn ymwneud â'r cod ymarfer i gyd-fynd â'r Bil. O ystyried pwysigrwydd y cod hwn o ran darparu canllawiau ar y darpariaethau i weithredu'r Bil, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ganiatáu inni weld y cod drafft cyn Cyfnod 3. Gofynnwn i'r Gweinidog gadarnhau y bydd hwn yn bendant yn dod i law cyn diwedd trafodion Cyfnod 2, cyn trafodion Cyfnod 3.

Recommendation 22 relates to the evaluation of the Act. We are very much aware that any move to a deemed consent system will generate considerable interest within and outside Wales. Organisations and individuals who have expressed views on the Bill will also want to understand its impact, if enacted. On this basis, we recommend that the Minister puts in place a robust evaluation strategy to provide a means of measuring the success of any change in the law and an evidence base for policy decisions that may be taken in Wales or elsewhere. We recommend that, in advance of the Bill completing its passage through the Assembly, the Minister sets out what the Government believes that success would look like and the timescales for assessing that.

Mae argymhelliad 22 yn ymwneud â gwerthuso'r Ddeddf. Rydym yn ymwybodol iawn y bydd unrhyw symud tuag at system o ganiatâd tybiedig yn creu cryn ddiddordeb yng Nghymru a thu hwnt. Bydd sefydliadau ac unigolion sydd wedi mynegi barn ar y Bil hefyd am ddeall ei effaith, os daw'n ddeddf. O'r herwydd, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn sefydlu strategaeth werthuso gadarn i ddarparu modd o fesur llwyddiant unrhyw newid yn y gyfraith a sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi y gellid eu gwneud yng Nghymru neu mewn mannau eraill. Rydym yn argymell bod y Gweinidog, cyn i'r Bil gwblhau ei daith drwy'r Cynulliad, yn nodi sut y mae'r Llywodraeth yn credu y byddai'r llwyddiant hwnnw'n edrych a'r amserlenni ar gyfer asesu hynny.

Finally, and more generally, we heard some evidence about the potential for a number of unintended consequences. One suggestion was that donation rates could fall if people chose to opt out of a deemed consent system because they did not agree with its introduction. Another suggestion was that, without clarity over the role of family and friends, there could be fewer donations in practice. We believe that the Minister is already alert, and should continue to be alert, to these matters and be prepared to deal with them. In the event that the Assembly agrees the general principles of the Bill today, we hope that the Minister will accept the conclusions and recommendations contained in our report and, where necessary, bring forward amendments, as he has indicated, at Stage 2.

Yn olaf, ac yn fwy cyffredinol, clywsom dystiolaeth am bosibilrwydd nifer o ganlyniadau anfwriadol. Un awgrym oedd y gallai cyfraddau rhoi organau ddisgyn os yw pobl yn dewis optio allan o system o ganiatâd tybiedig oherwydd nad ydynt yn cytuno y dylid ei chyflwyno. Awgrym arall oedd y gallai fod llai o roddion, yn ymarferol, heb eglurder ynghylch rôl y teulu a ffrindiau. Credwn fod y Gweinidog eisoes yn effro i'r materion hyn ac y dylai barhau i fod yn effro iddynt a bod yn barod i ymdrin â hwy. Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw, rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn y casgliadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad a, lle bo angen, yn cyflwyno gwelliannau, fel y mae wedi'i nodi, yng Nghyfnod 2.

17:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Galwaf yn awr ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

17:48 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Constitutional and Legislative Affairs Committee took evidence on this Bill from Lesley Griffiths AM, the then Minister for Health and Social Services, and we reported to the Assembly on 22 March 2013. The committee's report is available as a supporting document. I thank the new Minister for the courtesies that he has extended to me, as Chair of the committee, in meeting with me and in supplying a copy of his speech for today's debate, which has enabled me to respond more effectively to what he has said are the Government's intentions. I congratulate him on his elevation to the Cabinet—I have not had the opportunity to do that before—and commend his service as the Chair of the Health and Social Care Committee, which looked at this piece of legislation.

Cymerodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dystiolaeth ar y Bil hwn gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, a chyflwynwyd adroddiad i'r Cynulliad ar 22 Mawrth 2013. Mae adroddiad y pwyllgor ar gael fel dogfen ategol. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog newydd am y cwrteisi y mae wedi ei estyn i mi, fel Cadeirydd y pwyllgor, wrth gwrdd â mi a chyflenwi copi o'i araith ar gyfer y ddadl heddiw, sydd yn golygu y gallaf ymateb yn fwy effeithiol i'r hyn y mae wedi'i ddweud yw bwriadau'r Llywodraeth. Rwyf yn ei longyfarch ar ei ddyrchafiad i'r Cabinet—nid wyf wedi cael cyfle i wneud hynny cyn hyn—ac yn cymeradwyo ei wasanaeth fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a fu'n edrych ar y darn hwn o ddeddfwriaeth.

I want to talk about the broad range of conclusions that we drew and recommendations that we made, rather than drill into some very precise detail, as I think that that would be of most benefit to Members. Therefore, let me talk about the clarity of this piece of legislation. Clarity is an overriding principle. In our committee's view, all good legislation should seek to display the highest levels of clarity, so that you can have the maximum level of public understanding. This Bill is, obviously, of huge public importance. It covers many emotive and ethical issues and, given its content, will affect virtually every adult in Wales. We concluded that, as currently drafted, the Bill could be a lot clearer. Given that this Bill is of such public importance, we believe that the Welsh Government should address this issue as a priority. I will say a few more words about how the Government intends to do that. Some of the provisions are unclear and have the potential to cause confusion. Again, I will elaborate on some of these. However, they could potentially undermine the Bill's central objective of increasing the number of organs and tissues available for transplant.

Rwyf am sôn am yr ystod eang o gasgliadau ac argymhellion a wnaethpwyd gennym, yn hytrach na sôn am fanylion penodol iawn, gan fy mod o'r farn mai dyna fyddai fwyaf buddiol i'r Aelodau. Felly, gadewch imi siarad am eglurder y darn hwn o ddeddfwriaeth. Mae eglurder yn egwyddor hollbwysig. Ym marn ein pwyllgor, dylai pob deddfwriaeth dda geisio arddangos y lefelau uchaf o ran eglurder, er mwyn i'r cyhoedd allu ei deall i'r eithaf. Mae'r Bil hwn, yn amlwg, o bwys cyhoeddus enfawr. Mae'n ymwneud â llawer o faterion emosiynol a moesegol ac, o ystyried ei gynnwys, bydd yn effeithio ar bron pob oedolyn yng Nghymru. Daethom i'r casgliad y gallai'r Bil, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, fod yn llawer cliriach. O ystyried bod y Bil hwn o'r fath bwys cyhoeddus, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn fel mater o flaenoriaeth. Dywedaf ychydig yn fwy am sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud hynny. Mae rhai o'r darpariaethau'n aneglur ac fe allent beri dryswch. Unwaith eto, byddaf yn ymhelaethu ar rai o'r rhain. Fodd bynnag, gallent o bosibl danseilio amcan canolog y Bil o gynyddu nifer yr organau a meinweoedd sydd ar gael i'w trawsblannu.

I note that the Minister will write to the committee to outline how the clarity of the law can be ensured. That is the approach that he is going to undertake to some of our recommendations on the issue of clarity. We await that letter with great interest, and I note that he will circulate it to all Members. It will be particularly important for us to see whether his approach can achieve the clarity that we have suggested is required by amending the Bill. It is particularly important for the Minister to address the clarity issues surrounding ranked and unranked lists of qualifying relationships in various sections of this Bill, which interacts with the Human Tissue Act 2004. We asked him specifically in this debate, in recommendation 4, to make it clear how these lists would interact and how this Bill would complement and develop existing legislation.

Nodaf y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at y pwyllgor i amlinellu sut y gellir sicrhau eglurder y gyfraith. Dyma'r ymagwedd y mae am ei chymryd o ran rhai o'n hargymhellion ynghylch eglurder. Disgwyliwn y llythyr hwnnw â diddordeb mawr, a nodaf y bydd yn ei ddosbarthu i'r holl Aelodau. Bydd yn arbennig o bwysig inni weld a all ei ymagwedd ddarparu'r eglurder yr ydym wedi awgrymu sy'n ofynnol drwy ddiwygio'r Bil. Mae'n arbennig o bwysig i'r Gweinidog fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag eglurder o ran y rhestrau wedi'u graddio a heb eu graddio o berthnasoedd cymhwysol mewn gwahanol adrannau o'r Bil hwn, sy'n rhyngweithio â Deddf Meinweoedd Dynol 2004. Gofynasom iddo'n benodol yn y ddadl hon, yn argymhelliad 4, ei gwneud yn glir sut y byddai'r rhestrau hyn yn rhyngweithio a sut y byddai'r Bil hwn yn ategu ac yn datblygu deddfwriaeth bresennol.

I note that the Minister has not accepted recommendations 1 and 3, so I would like to explain the rationale for each of these. Communication will be crucial to ensuring that the Bill is successful and meets its objectives. Indeed, we have already heard, in the debate so far, about the subject of communication and its importance. The putative Chair of the Health and Social Care Committee has made reference to it. Members of the public must be clear about how this Bill affects them and members of their family. While section 2 provides Welsh Ministers with a duty to promote transplantation, it does not, in our view, go far enough. I acknowledge the Minister's guarantees regarding a communication plan, but in light of those guarantees, I see no logical reason why a requirement for a communication plan cannot be placed on the face of the Bill, thereby future-proofing it in the process. Placing such a duty on the face of the Bill, in line with recommendation 1, would provide certainty for the public, and reassurance. An appropriate provision could also allow for the periodic review of a communication plan, which would be vital in this policy area, as it is likely to undergo rapid change because of regular scientific and technological advances. Recommendation 3 of our report concerns section 8 of the Bill, about activities involving material from living adults who lack capacity to consent. In our view, the application of section 8 to living persons is not as clear as it should be, particularly when read with section 3(2)(c) and section 3(2)(d). We believe, therefore, that section 8 should be amended to provide this appropriate clarity.

Sylwaf nad yw'r Gweinidog wedi derbyn argymhellion 1 a 3, felly hoffwn esbonio'r rhesymeg ar gyfer pob un o'r rhain. Bydd cyfathrebu'n hollbwysig er mwyn sicrhau bod y Bil yn llwyddiannus ac yn bodloni ei amcanion. Yn wir, rydym eisoes wedi clywed, yn y ddadl hyd yma, am gyfathrebu a phwysigrwydd hynny. Mae Cadeirydd tybiedig y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cyfeirio at hynny. Rhaid i aelodau'r cyhoedd fod yn glir ynglŷn â sut y mae'r Bil hwn yn effeithio arnynt hwy ac aelodau o'u teuluoedd. Er bod adran 2 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu, nid yw, yn ein barn ni, yn mynd yn ddigon pell. Rwyf yn cydnabod gwarantau'r Gweinidog ynghylch cynllun cyfathrebu, ond yng ngoleuni'r gwarantau hynny, ni welaf unrhyw reswm rhesymegol pam na ellir rhoi gofyniad am gynllun cyfathrebu ar wyneb y Bil, a thrwy hynny ei ddiogelu at y dyfodol. Byddai rhoi dyletswydd o'r fath ar wyneb y Bil, yn unol ag argymhelliad 1, yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, a thawelwch meddwl. Gallai darpariaeth briodol hefyd ganiatáu ar gyfer adolygu cyfnodol ar gynllun cyfathrebu, a fyddai'n hanfodol yn y maes polisi hwn, gan ei fod yn debygol o newid yn gyflym oherwydd datblygiadau gwyddonol a thechnolegol cyson. Mae argymhelliad 3 ein hadroddiad yn ymwneud ag adran 8 y Bil, ynghylch gweithgareddau sy'n cynnwys deunydd o oedolion byw heb alluedd i gydsynio. Yn ein barn ni, nid yw cymhwyso adran 8 i bobl fyw mor glir ag y dylai fod, yn enwedig o'i darllen gydag adran 3(2)(c) ac adran 3(2)(d). Credwn, felly, y dylai adran 8 gael ei diwygio i ddarparu'r eglurder priodol hwn.

I will now talk about the balance of the provisions of the Bill, and particularly about how secondary legislation will interact with the Bill. We have some concerns about the balance between what is on the face of the Bill and what is left for subordinate legislation, and also about the processes to be used in making that subordinate legislation. In particular, we believe that the issue of novel transplants needs to be dealt with clearly on the face of the Bill rather than through a code of practice. I note the change of policy that has been outlined by the Minister, in that regulations will make it clear that novel transplants are not a part of deemed consent. However, we believe that that should not be in regulations, but on the face of the Bill.

Soniaf yn awr am gydbwysedd darpariaethau'r Bil, ac yn benodol am sut y bydd is-ddeddfwriaeth yn rhyngweithio â'r Bil. Mae gennym rai pryderon am y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a adewir ar gyfer is-ddeddfwriaeth, a hefyd am y prosesau i'w defnyddio wrth wneud yr is-ddeddfwriaeth. Yn benodol, credwn fod angen ymdrin yn glir â mater trawsblaniadau newydd ar wyneb y Bil yn hytrach na thrwy god ymarfer. Nodaf y newid yn y polisi a amlinellwyd gan y Gweinidog, sef y bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn glir nad yw trawsblaniadau newydd yn rhan o ganiatâd tybiedig. Fodd bynnag, credwn na ddylai hynny fod mewn rheoliadau, ond ar wyneb y Bil.

We also make a number of recommendations to strengthen the scrutiny of subordinate legislation through a greater use of the superaffirmative procedure. I welcome the approach that the Minister has taken to this, in agreeing to the recommendations that we have made. I think that that is an appropriate response, as this is a very sensitive area. Where secondary legislation is used, if it uses the superaffirmative procedure, we can get the maximum level of public scrutiny as well as legislative scrutiny. So, I commend the Minister's attitude and thank him for his response in those particulars.

Rydym hefyd yn gwneud nifer o argymhellion i gryfhau'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth trwy ddefnyddio mwy ar y weithdrefn uwchgadarnhaol. Rwyf yn croesawu'r camau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd yn hynny o beth, wrth gytuno â'r argymhellion a wnaed gennym. Credaf ei fod yn ymateb priodol, gan fod hwn yn faes sensitif iawn. Lle defnyddir deddfwriaeth eilaidd, os yw'n defnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol, gallwn sicrhau'r lefel uchaf o graffu cyhoeddus yn ogystal â chraffu deddfwriaethol. Felly, rwyf yn canmol agwedd y Gweinidog ac yn diolch iddo am ei ymateb yn y manylion hynny.

In closing, I would like to draw attention to another aspect, perhaps as a general issue for the Government, rather than a particular one for the committee that is now going to do the detailed scrutiny, and indeed, for the Minister himself, as he was not a member of the Government when this Bill was drafted. Our committee does express surprise that the Bill relies so heavily on the Human Tissue Act 2004 as a base and does not seek to clarify definitions, concepts and developments in this field within the framework of a new consolidated Welsh law that reflects the distinctive policy approach being adopted in Wales. I think that that would have been a more ambitious, a clearer and a more appropriate response. Nevertheless, we are where we are, we have made our suggestions, and the Minister has responded to many of them. We await his response in other areas, particularly about the clarity, so that this important piece of legislation, should it proceed through the Assembly, is made as clear and as effective as possible.

Wrth gloi, hoffwn dynnu sylw at agwedd arall, efallai fel mater cyffredinol i'r Llywodraeth, yn hytrach nag un penodol i'r pwyllgor a fydd bellach yn gwneud y gwaith craffu manwl, ac yn wir, i'r Gweinidog ei hun, gan nad oedd yn aelod o'r Llywodraeth pan gafodd y Bil hwn ei ddrafftio. Mae ein pwyllgor yn mynegi syndod bod y Bil yn dibynnu mor drwm ar Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 fel sylfaen ac nad yw'n ceisio egluro diffiniadau, cysyniadau a datblygiadau yn y maes hwn o fewn fframwaith cyfraith Gymreig newydd wedi'i chydgrynhoi sy'n adlewyrchu'r ymagwedd polisi neilltuol sy'n cael ei mabwysiadu yng Nghymru. Credaf y byddai hynny wedi bod yn ymateb mwy uchelgeisiol, cliriach a mwy priodol. Serch hynny, dyma lle rydym, rydym wedi gwneud ein hawgrymiadau, ac mae'r Gweinidog wedi ymateb i lawer ohonynt. Disgwyliwn am ei ymateb mewn meysydd eraill, yn enwedig ynghylch eglurder, er mwyn sicrhau bod y darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth, os bydd yn mynd yn ei flaen drwy'r Cynulliad, mor glir ac mor effeithiol ag y bo modd.

17:56

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have a very long list of speakers, and I intend to be very strict on time. You have five minutes, and then I will cut off the microphone; otherwise, it would not be fair on Members further down the list.

Mae gennyf restr hir iawn o siaradwyr, ac rwyf yn bwriadu bod yn llym iawn o ran amser. Mae gennych bum munud, ac yna byddaf yn diffodd y meicroffon; fel arall, ni fyddai'n deg ar Aelodau ymhellach i lawr y rhestr.

17:57

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The subject of organ donation is a very emotive one, and I recognise that there are strong opinions both for and against the system of deemed consent that the Government is attempting to bring forward. The Welsh Conservatives recognise the positive impact of organ donation in Wales, particularly for organ recipients, but also for the families of deceased donors, in coming to terms with their grief. Indeed, we commend those who have made a positive decision to gift their organs to others after death.

Mae rhoi organau'n bwnc emosiynol iawn, ac rwyf yn cydnabod bod barn gref o blaid ac yn erbyn y system o ganiatâd tybiedig y mae'r Llywodraeth yn ceisio ei chyflwyno. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod effaith gadarnhaol rhoi organau yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n derbyn organau, ond hefyd ar gyfer teuluoedd rhoddwyr sydd wedi marw, wrth ddod i delerau â'u galar. Yn wir, rydym yn canmol y rhai sydd wedi gwneud penderfyniad cadarnhaol i roi eu horganau i eraill ar ôl iddynt farw.

We know that around three people per month die in Wales waiting for an organ transplant, and I therefore believe that we have an obligation to do more to promote organ donation and to improve rates in our country. However, this is a matter of conscience for members on our benches, and we will be having a free vote on this issue today and in the future.

Rydym yn gwybod bod tua thri o bobl yn marw bob mis yng Nghymru yn aros am drawsblaniad organ, ac felly rwyf yn credu ei bod yn ddyletswydd arnom i wneud mwy i hyrwyddo rhoi organau ac i wella'r cyfraddau yn ein gwlad. Fodd bynnag, mae hwn yn fater o gydwybod i aelodau ar ein meinciau ni, a byddwn yn cael pleidlais rydd ar y mater hwn heddiw ac yn y dyfodol.

There are a number of issues that I want to raise during this debate, beginning with the evidence on whether systems of deemed consent actually do result in higher donation rates. It appeared to me during the course of the scrutiny of this Bill that the evidence was rather unclear. Sweden, for example, has a lower rate of organ donation than is the case here in Wales despite having a system of presumed consent. Spain has a higher rate of organ donation, but there is a lot of debate about whether this is due to the impact of legislation in this area, or whether other factors have contributed to that. Indeed, Spain's national director of transplants says that the high rates are not attributable to the change in the law that was enacted there a number of decades ago. Professor John Faber, the former president of the British Transplantation Society, has made it quite clear that the law has never been enacted in terms of introducing a system of deemed consent in Spain.

Mae nifer o faterion yr wyf am eu codi yn ystod y ddadl hon, gan ddechrau â'r dystiolaeth ynghylch p'un a yw systemau caniatâd tybiedig yn arwain mewn gwirionedd at gyfraddau uwch o roi organau. Roedd yn ymddangos i mi wrth inni graffu ar y Bil hwn fod y dystiolaeth braidd yn aneglur. Mae gan Sweden, er enghraifft, gyfradd is o roi organau nag yma yng Nghymru er bod ganddi system o ganiatâd tybiedig. Mae gan Sbaen gyfradd uwch o roi organau, ond mae llawer o drafod ynghylch a yw hyn oherwydd effaith deddfwriaeth yn y maes hwn, neu a oes ffactorau eraill wedi cyfrannu at hynny. Yn wir, mae cyfarwyddwr cenedlaethol trawsblaniadau Sbaen yn dweud nad yw'r cyfraddau uchel i'w priodoli i'r newid yn y gyfraith a ddaeth yn ddeddf yno nifer o ddegawdau yn ôl. Mae'r Athro John Faber, cyn lywydd Cymdeithas Trawsblannu Prydain, wedi ei gwneud yn gwbl glir nad yw'r gyfraith erioed wedi ei gweithredu o ran cyflwyno system o ganiatâd tybiedig yn Sbaen.

Secondly, with regard to the role of the family, I am very pleased to hear the Minister's response to the recommendation in the committee report that there needed to be better alignment between the statements about family involvement in decision making on organ donation and the legislation and text of the Bill. I am very pleased that the Minister has indicated that he will bring forward amendments. The legislation should reflect the practice that should emanate from it, and I look forward to engaging in the discussions on that issue in the future. I think that it is particularly important to deal with this issue of a hierarchy of family members and close friends in qualifying relationships when it comes to that decision.

Yn ail, o ran rôl y teulu, mae'n dda iawn gennyf glywed ymateb y Gweinidog i'r argymhellion yn adroddiad y pwyllgor fod angen i'r datganiadau am gyfraniad y teulu wrth wneud penderfyniadau ar roi organau gyd-fynd yn well â'r ddeddfwriaeth a thestun y Bil. Rwyf yn falch iawn fod y Gweinidog wedi nodi y bydd yn cyflwyno gwelliannau. Dylai'r ddeddfwriaeth adlewyrchu'r arfer a ddylai ddeillio ohoni, ac edrychaf ymlaen at gymryd rhan mewn trafodaethau ar y mater hwnnw yn y dyfodol. Credaf ei bod yn arbennig o bwysig ymdrin â'r mater hwn o hierarchaeth aelodau'r teulu a ffrindiau agos mewn perthnasoedd cymhwysol wrth wneud y penderfyniad hwnnw.

I am pleased also that the Minister has responded to the concerns raised by the Health and Social Care Committee with regard to residency and that he has clarified the situation in respect of international students and prisoners. It would also be useful if the Minister were to respond to the other issue of service personnel in his response to the debate today. May I also suggest that the Minister might want to extend the qualifying period of residency from six months, as is currently on the face of the Bill, to 12 months, particularly if annual campaigns are going to be run to raise awareness of organ donation in the future?

Rwyf yn falch hefyd fod y Gweinidog wedi ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran preswylio a'i fod wedi egluro'r sefyllfa mewn perthynas â myfyrwyr rhyngwladol a charcharorion. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai'r Gweinidog yn ymateb i fater arall, sef y lluoedd arfog, yn ei ymateb i'r ddadl heddiw. A gaf i hefyd awgrymu efallai y bydd y Gweinidog am estyn y cyfnod preswylio cymhwysol o chwe mis, fel y mae ar hyn o bryd ar wyneb y Bil, i 12 mis, yn enwedig os bwriedir cynnal ymgyrchoedd blynyddol er mwyn codi ymwybyddiaeth o roi organau yn y dyfodol?

Turning to the matter of infrastructure, the evidence was clear that there is insufficient critical care capacity to cope with even a modest increase in donation at the current time. Dr Peter Matthews from the Academy of Royal Colleges Wales indicated that the UK has the highest number of organ donors per critical care bed in the world. We were told that in Wales, right now, patients who could become potential donors are being turned down because of a lack of critical care capacity. That is why I support and endorse the committee's recommendation for a detailed critical care capacity plan for Wales prior to moving further forward with this particular Bill.

A throi at seilwaith, roedd y dystiolaeth yn glir nad oes digon o gapasiti gofal critigol i ymdopi â chynnydd cymedrol hyd yn oed mewn rhoi organau ar hyn o bryd. Dywedodd Dr Peter Matthews o Academi'r Colegau Brenhinol yng Nghymru mai yn y DU y mae'r nifer uchaf o roddwyr organau fesul gwely gofal critigol yn y byd. Dywedwyd wrthym fod cleifion yng Nghymru a allai fod yn rhoddwyr yn cael eu gwrthod ar hyn o bryd oherwydd diffyg capasiti gofal critigol. Dyna pam yr wyf yn cefnogi ac yn cymeradwyo argymhelliad y pwyllgor o ran cynllun capasiti gofal critigol manwl i Gymru cyn symud ymlaen ymhellach â'r Bil penodol hwn.

Turning to finances, most of the witnesses who came forward—whether for or against the provisions of the Bill—were concerned that the budget set aside for it was going to be insufficient. I look forward to the Minister's further work in this area, particularly on the communications campaign and on whether any additional investment will be required in critical care capacity, given the concerns that were raised. I do not think that it is appropriate, as the Government has already done, to base the cost of the communications campaign on the smoking in public places ban, particularly given that other people contributed to publicising that ban.

A throi at gyllid, mae'r rhan fwyaf o'r tystion a ddaeth ger ein bron—boed o blaid neu yn erbyn y darpariaethau yn y Bil—yn bryderus y byddai'r gyllideb a neilltuwyd ar ei gyfer yn annigonol. Edrychaf ymlaen at waith pellach y Gweinidog yn y maes hwn, yn enwedig ar yr ymgyrch gyfathrebu a ph'un a fydd angen unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn capasiti gofal critigol, o ystyried y pryderon a godwyd. Nid wyf yn credu ei bod yn briodol seilio cost yr ymgyrch gyfathrebu, fel y mae'r Llywodraeth eisoes wedi ei wneud, ar y gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, yn enwedig o gofio bod pobl eraill wedi cyfrannu at roi cyhoeddusrwydd i'r gwaharddiad hwnnw.

Finally, to touch on the issue of alternatives, a number of witnesses gave evidence to the committee suggesting that there were alternatives to the legislation that could drive up organ donation rates beyond those that the Government is seeking, for example, by increasing opportunities for people to opt onto the register when registering with a GP or registering to vote, or whether there could be an issue of mandated choice.

Yn olaf, a chrybwyll dewisiadau eraill, rhoddodd nifer o dystion dystiolaeth i'r pwyllgor yn awgrymu bod dewisiadau eraill yn hytrach na'r ddeddfwriaeth hon a allai godi cyfraddau rhoi organau y tu hwnt i'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei geisio, er enghraifft, drwy roi mwy o gyfle i bobl optio i mewn i'r gofrestr wrth gofrestru gyda meddyg teulu neu gofrestru i bleidleisio, neu gyflwyno dewis mandadol.

18:02

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Your time is up.

Mae eich amser ar ben.

18:02

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just wish that the Government would look at those in more detail providing to proceeding with this.

Byddai'n dda gennyf pe bai'r Llywodraeth yn edrych ar y rheiny'n fwy manwl cyn bwrw ymlaen â hyn.

18:02

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My first comment is that the scrutiny of the legislation, hearing a considerable amount of witness evidence in very sensitive areas with often complex ethical issues, has been very effective. I think that it is that that has led to a series of important Government concessions to make the legislation effective.

Fy sylw cyntaf yw bod y craffu ar y ddeddfwriaeth, a glywodd gryn dipyn o dystiolaeth gan dystion mewn meysydd sensitif iawn lle ceir materion moesegol sy'n aml yn gymhleth, wedi bod yn effeithiol iawn. Credaf mai dyna sydd wedi arwain at gyfres o gonsesiynau pwysig gan y Llywodraeth i wneud y ddeddfwriaeth yn effeithiol.

We are considering today the principles of the legislation itself. We know that each day three people in the UK die because of a lack of organs. The key question for us at this stage is whether the legislation can effectively increase organ donation. I think that the answer on which there is agreement from the Government's side and our side is that on its own, no, but as part of the package of reforms that have been outlined, it can do so. It is important that we focus on the hard-core evidence that we have and that was presented to the committee in written form, because there is robust, methodologically sound international research and I think that it is important that we have regard to that. There is complexity in a lot of the research because there are no health systems that are really like for like. There are differences in culture, religion and history. There is a variety of factors that are very much taken into account if one reads through the research.

Rydym yn ystyried heddiw egwyddorion y ddeddfwriaeth ei hun. Rydym yn gwybod bod tri o bobl yn y DU yn marw bob dydd oherwydd prinder organau. Y cwestiwn allweddol i ni ar hyn o bryd yw a all y ddeddfwriaeth gynyddu'n effeithiol gyfraddau rhoi organau. Credaf mai'r ateb, y mae cytundeb yn ei gylch o ochr y Llywodraeth a'n hochr ni, yw na all wneud hynny ar ei phen ei hun, ond y gall wneud hynny fel rhan o'r pecyn o ddiwygiadau sydd wedi eu hamlinellu. Mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ar y dystiolaeth sylfaenol sydd gennym ac a gyflwynwyd i'r pwyllgor ar ffurf ysgrifenedig, gan fod ymchwil ryngwladol fethodolegol gadarn ar gael, a chredaf ei bod yn bwysig ein bod yn ystyried hynny. Mae cymhlethdod mewn llawer o'r ymchwil oherwydd nad oes systemau iechyd sy'n wirioneddol gyfatebol. Mae gwahaniaethau o ran diwylliant, crefydd a hanes. Mae amryw o ffactorau sy'n cael eu hystyried yn llawn os bydd rhywun yn darllen drwy'r ymchwil.

I will summarise because it is important to put this on the record as we proceed, hopefully, to the next stage. The 2003 research covered 28 countries between 1995 and 1999. The countries with presumed consent, according to that research, produced on average an extra 6.14 donors per million. In the Welsh example, that would result in an extra 18 donors. Further research that was carried out in 2005 based on 17 countries between 1990 and 2002 showed that deemed consent produced an additional 2.7 donors per million, which would be 8 donors in these circumstances. Further research in 2008, reviewing 22 countries between 1993 and 2002, showed on average a 25.3% higher rate of organ donation in countries where there was deemed consent. Further research in 2000, which was very comprehensive, based on 34 countries over a five-year period showed an increase in organ donation of between 21% and 26%. Further research in 2008 showed that in presumed-consent countries, individuals were 17% to 29% more likely to report a willingness to be an organ donor, and there was a 27% to 56% higher level of willingness of relatives to consent to donation compared with informed-consent countries. We cannot deduce from that that this automatically means that we will achieve these results, but what it shows is that all the empirical evidence that we have indicates that, as part of a package—and it is about getting that package right—all those countries that have gone down this road in one form or another have shown across the board, over a long period of years, that the actual number of organ donors has increased and, in some cases, increased significantly. There is actually no research that I have come across that indicates the contrary, so this must be the accepted, evidential position.

Rwyf am grynhoi oherwydd mae'n bwysig cofnodi hyn wrth i ni symud ymlaen, gobeithio, at y cam nesaf. Roedd ymchwil 2003 yn cwmpasu 28 o wledydd rhwng 1995 a 1999. Cynhyrchodd y gwledydd gyda chaniatâd tybiedig, yn ôl yr ymchwil, ar gyfartaledd 6.14 o roddwyr ychwanegol fesul miliwn. Yn enghraifft Cymru, byddai hynny'n arwain at 18 o roddwyr ychwanegol. Dangosodd ymchwil bellach a gynhaliwyd yn 2005 yn seiliedig ar 17 o wledydd rhwng 1990 a 2002 fod caniatâd tybiedig wedi cynhyrchu 2.7 o roddwyr ychwanegol fesul miliwn, a fyddai'n 8 rhoddwr yn yr amgylchiadau hynny. Dangosodd ymchwil bellach yn 2008, a edrychodd ar 22 o wledydd rhwng 1993 a 2002, 25.3% yn fwy ar gyfartaledd o roi organau mewn gwledydd lle'r oedd caniatâd tybiedig. Dangosodd ymchwil bellach yn 2000, a oedd yn gynhwysfawr iawn, yn seiliedig ar 34 o wledydd dros gyfnod o bum mlynedd, gynnydd mewn rhoi organau o rhwng 21% a 26%. Roedd ymchwil bellach yn 2008 yn dangos bod unigolion mewn gwledydd lle mae caniatâd tybiedig 17% i 29% yn fwy tebygol o roi gwybod eu bod yn barod i roi organau, ac roedd 27% i 56% yn fwy o berthnasau yn barod i gydsynio i roi organau o gymharu â gwledydd lle ceir caniatâd ar sail gwybodaeth. Ni allwn gasglu o hynny y byddwn yn bendant yn gweld y canlyniadau hyn, ond yr hyn y mae'n ei ddangos yw bod yr holl dystiolaeth empirig sydd gennym yn dangos bod y gwledydd hynny i gyd sydd wedi dilyn y trywydd hwn ar ryw ffurf neu'i gilydd, fel rhan o becyn—ac mae'n ymwneud â chael y pecyn hwnnw'n iawn—wedi dangos drwyddi draw, dros gyfnod hir o flynyddoedd, fod nifer gwirioneddol y rhoddwyr organau wedi cynyddu ac, mewn rhai achosion, wedi cynyddu'n sylweddol. Nid oes mewn gwirionedd unrhyw ymchwil yr wyf wedi dod ar ei thraws sy'n nodi i'r gwrthwyneb, felly mae'n rhaid derbyn mai dyma'r sefyllfa dystiolaethol.

The key challenge for us now is really moving on to the next stage and ensuring that the legislation is fit for purpose, that the regulations are right, and that the investment package in the education programme and so on is correct. I will be fully supporting this legislation, and I hope that it goes on to the next stage of scrutiny.

Yr her allweddol i ni yn awr yw symud ymlaen mewn gwirionedd i'r cam nesaf a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn addas at y diben, bod y rheoliadau'n iawn, a bod y pecyn buddsoddi yn y rhaglen addysg ac yn y blaen yn gywir. Byddaf yn cefnogi'r ddeddfwriaeth hon yn llwyr, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn symud ymlaen i'r cam craffu nesaf.

18:06 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r adroddiad hon gan y pwyllgor iechyd heddiw yn ffrwyth gwaith oriau o graffu, trafod a dadansoddi gan y pwyllgor—y gwaith deddfwriaethol mwyaf dwys a diddorol yr wyf wedi bod yn rhan ohono ers i mi gychwyn yn y Cynulliad hwn. Rwyf eisiau rhoi ar y record fy niolch i bawb a gyflwynodd dystiolaeth mor safonol ac mor heriol, ar adegau, i'r pwyllgor—tystiolaeth a wnaeth i mi gwestiynu fy safbwyntiau yn y maes hwn dro ar ôl tro.

This report by the health committee today is the fruit of hours of scrutiny, discussion and analysis by the committee—the most intensive and interesting legislative work that I have participated in since I started my career in the Assembly. I want to put on record my thanks to everyone who gave such quality and challenging evidence, at times, to the committee—evidence that made me question my own views in this area time and again.

Yn sgîl y sylwadau y mae'r Gweinidog wedi eu cyflwyno heddiw, rwyf eisiau canolbwyntio ar bedair agwedd yn unig. Y cyntaf o'r rheini yw un o'r materion y bûm i'n canolbwyntio arnynt yn ystod y craffu yn y pwyllgor, sef pa organau sy'n gynwysedig mewn system o gydsyniad tybiedig. Mae'r holl drafodaeth gyhoeddus ar y Bil hwn hyd yn hyn wedi canolbwyntio yn bennaf ar organau sy'n achub bywyd—y galon, afu, arennau, ysgyfaint, ac yn y blaen. Dim ond rhestr fer iawn o organau sy'n cael eu heithrio ar wyneb y Bil hwn yn adran 16.

Given the comments made by the Minister today, I want to concentrate on four aspects. The first is one of the issues that I concentrated on during our committee scrutiny, namely which organs would be included in a system of presumed consent. All the public debate on this Bill to date has concentrated mainly on live-saving organs—the heart, liver, kidneys, lungs, and so on. There is only a very brief list of organs that are exempt on the face of this Bill in section 16.

Wrth gwrs, erbyn hyn rydym i gyd yn ymwybodol y bydd trawsblaniadau newydd yn cael eu cyflawni, ac yn gynyddol i'r dyfodol, o ddwylo, wynebau, ac yn y blaen. Y cwestiwn felly i mi ac i aelodau'r pwyllgor oedd: a ddylid cynnwys organau fel hyn mewn Bil ar gydsyniad tybiedig? Gan nad oes unrhyw drafodaeth gyhoeddus nac ymgynghori penodol wedi digwydd ar drawsblaniadau newydd, fy marn yw y dylid eu heithrio o gydsyniad tybiedig ac mae'r pwyllgor yn argymell gwneud hynny drwy eu heithrio drwy reoliadau o dan y weithdrefn penderfyniad gadarnhaol. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi cymeradwyo a chytuno i hynny, ac rwy'n edrych ymlaen at weld geiriad y gwelliant maes o law.

Of course, we are now all aware that there will be novel transplants taking place, and increasingly in the future, of hands, faces, and so on. The question for me and fellow committee members was: should such organs be included in a Bill providing deemed consent? As there has been no public discussion or specific consultation on novel forms of transplantation, my opinion is that they should be exempt from deemed consent and the committee recommends exempting them through regulations under the affirmative consent procedure. I am pleased that the Minister has agreed to that, and I look forward to seeing the wording of the amendments in due time.

Un o'r gwendidau, yn fy marn i, o ran llwyddiant posibl Bil o'r math hwn, fel y clywsom yn y pwyllgor dro ar ôl tro, yw'r diffyg capasiti o fewn yr NHS—yn enwedig y prinder o welyau critigol ar gyfer y 15 o bobl ychwanegol bob blwyddyn a fyddai'n rhoi organau a'r unigolion hynny yng Nghymru a fyddai'n derbyn organau. Fel pwyllgor, ni chawsom ein argyhoeddi gan y Gweinidog na'r NHS eu bod yn hyderus bod lefel ddigonol o ofal critigol ar gael ar gyfer mwy o driniaethau organau. Rwy'n arbennig o sensitif i'r pwynt hwn heddiw gan fod staff ysbyty Bronglais yn fy etholaeth wedi clywed yr wythnos diwethaf y bydd dau o'u pum gwely gofal dwys yn cau yn barhaol. Dyna pam mae'r pwyllgor wedi argymell bod y Llywodraeth yn cyhoeddi cynllun manwl ar gyfer gofal critigol, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y manylion hynny maes o law.

One of the weaknesses, in my opinion, in terms of the success of a Bill of this kind, as we heard in committee time and again, is the lack of capacity in the NHS—particularly the shortage of critical care beds for the additional 15 people per annum who would be donated organs and those individuals in Wales who would receive those organs. As a committee, we were not convinced by the Minister or the NHS that they were confident that there are an adequate number of critical care beds available for more organ transplants. I am particularly sensitive on this point today because staff at Bronglais hospital in my constituency were informed last week that two of their five intensive care beds were to close permanently. That is why the committee recommended that the Government should publish a detailed plan for critical care, and I look forward to seeing those details in due time.

Yn fy etholaeth, mae gennyf ddwy brifysgol gyda throsiant o filoedd o fyfyrwyr o un flwyddyn i'r nesaf, a'r mwyafrif o'r rheini o du fas i Gymru. Nid oes amheuaeth y bydd angen rhaglen rhoi gwybodaeth glir i fyfyrwyr newydd i Gymru bob blwyddyn, yn enwedig i fyfyrwyr o dramor ac o ddiwylliannau lle nad oes unrhyw gyfundrefn trawsblannu organau ar hyn o bryd. Mae'r Gweinidog yn ei ddatganiad y prynhawn yma wedi dweud ei fod e'n bwriadu y bydd myfyrwyr yn cael eu diogelu gan feto'r teulu. Dyma ni felly yn dod at yr un rhan o ddatganiad y Gweinidog y prynhawn yma rydw i'n anghytuno â hi. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod angen feto hawl-i-wrthod ar deulu'r unigolyn ar wyneb y Bil. Mae'r Gweinidog yn dweud ei fod yn bwriadu cyflwyno gwelliant i roi'r hawl hon, ond mae nifer o gwestiynau yn deillio o'r bwriad hwn. Beth os oes gwahaniaeth barn ymysg aelodau'r teulu, gyda rhai yn frwd o blaid rhoi organau ac o bosibl dim ond un yn erbyn? Clywsom ymgynghorydd meddygol yn dweud nad oes bron byth cydsyniad teuluol mewn achosion fel hyn. Byddaf yn sicr eisiau clywed mwy gan y Gweinidog cyn cael fy argyhoeddi taw hwn yw'r trywydd cywir. Hoffwn glywed yn enwedig a fydd aelodau'r teulu yn cael eu 'rancio' ar gyfer yr hawl i ddatgan feto.

In my constituency, I have two universities with a turnover of thousands of students from one year to the next, and the majority of those are from outwith Wales. There is no doubt that there will need to be a clear communication programme for new students to Wales each year, particularly for foreign students and those from cultures where there is no system for organ transplantation at present. The Minister in his statement this afternoon has said that he does intend students to be safeguarded by the family veto. Here we are getting to grips with one aspect of the Minister's statement this afternoon on which I disagree. I have not been convinced that there is a need for a right-to-refuse veto for an individual's family on the face of the Bill. The Minister says that he intends to table an amendment to provide this right, but many questions emanate from that amendment. What if there is a difference of opinion among family members, with some very eager to donate organs and perhaps one against? We heard a medical consultant telling us that there is hardly ever family consent in such cases. I certainly would want to hear more from the Minister before being convinced that that was the correct approach. I would like to hear particular whether family members will be ranked in terms of their right to apply that veto.

I gloi, cefais fy mherswadio flynyddoedd yn ôl gan Dr Dai Lloyd am yr angen am ddeddfwriaeth yn y maes hwn. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod rhai dadleuon cryf ynghylch ai'r Bil hwn yw'r dull mwyaf effeithiol i gynyddu nifer yr organau sydd ar gael. Bydd gan Plaid Cymru bleidlais rydd heddiw. Un peth sy'n galondid yw bod y mwyafrif llethol o blaid cynyddu'r nifer o organau sydd ar gael, ac rydym yn unol ein barn am hynny.

To conclude, I was persuaded many years ago by Dr Dai Lloyd on the need for legislation in this area. However, I acknowledge that there are some strong arguments as to whether this Bill is the most effective way of increasing the number of organs that are available for donation. Plaid Cymru will have a free vote today. One thing that is encouraging is that the vast majority are in favour of increasing the number of organs available, and we are unanimous in that opinion.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Your time is up.

Mae eich amser ar ben.

18:11 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fodd bynnag, mae'n bosibl ein bod yn anghytuno—

However, it is possible that we disagree—

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Your time is up. I call Kirsty Williams.

Mae eich amser ar ben. Galwaf ar Kirsty Williams.

18:11 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In the middle of a sentence.

Yng nghanol brawddeg.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry; I said five minutes for everybody.

Mae'n ddrwg gennyf, rwyf wedi dweud pum munud i bawb.

18:11 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. In the time allowed, I would like to focus on three key areas of the proposed legislation. In doing so, we state Welsh Liberal Democrat support for steps to improve the number of donations. However, in doing so, we believe that Stage 1 scrutiny of this Bill has raised a number of concerns regarding the legislation as currently drafted—some of which have been acknowledged by the Minister in his opening speech this afternoon. We also recognise that legislation alone will not achieve the desired outcomes.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Yn yr amser a ganiateir, hoffwn ganolbwyntio ar dri maes allweddol yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. Wrth wneud hynny, rydym yn datgan cefnogaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i'r camau i gynyddu nifer yr organau a roddir. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, rydym yn credu bod craffu Cyfnod 1 ar y Bil hwn wedi codi nifer o bryderon ynghylch y ddeddfwriaeth fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd—rhai ohonynt wedi eu cydnabod gan y Gweinidog yn ei araith agoriadol y prynhawn yma. Rydym hefyd yn cydnabod na fydd deddfwriaeth ar ei phen ei hun yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

First, I would like to turn to the issue of what constitues consent. While I acknowlede that deemed consent is not a poor substitue as we were told in the committee, I believe that it is important to understand how the state can satisfy itself that the population has given its consent. Page 99 of the Health and Social Care Committee report relays the adivce that was given to us in February of the test that the previous Minister had set herself:

Yn gyntaf, hoffwn droi at yr hyn sy'n cyfrif fel caniatâd. Er fy mod yn cydnabod nad yw caniatâd tybiedig yn ddewis eilradd fel y dywedwyd wrthym yn y pwyllgor, credaf ei bod yn bwysig deall sut y gall y wladwriaeth ei bodloni ei hun bod y boblogaeth wedi rhoi ei chaniatâd. Mae tudalen 99 adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyfleu'r cyngor a roddwyd inni ym mis Chwefror ynghylch y prawf yr oedd y Gweinidog blaenorol wedi'i osod iddi hi ei hun:

'consent cannot be deemed if people do not understand the system. We recognise that consent can only be lawful if people have full knowledge of the system, and full knowledge of what they are actually consenting to by doing nothing and taking no action.'

ni ellir tybio caniatâd os nad yw pobl yn deall y system. Rydym yn cydnabod na all caniatâd ond bod yn gyfreithlon os oes gan bobl wybodaeth lawn am y system, a gwybodaeth lawn am yr hyn y maent mewn gwirionedd yn cydsynio iddo drwy wneud dim a pheidio â chymryd unrhyw gamau.

The legal adviser continued:

Parhaodd y cynghorydd cyfreithiol:

'Consent could not be valid if people did not understand the system; it would be in breach of human rights.'

Ni allai caniatâd fod yn ddilys pe na byddai pobl yn deall y system; byddai'n groes i hawliau dynol.

Immediately, alarm bells were set ringing in the committee by those statements. We sought clarification from the Minister in a letter, subsequent to that meeting. The reply came back from the then Minister that said:

Ar unwaith, dechreuodd clychau rhybudd ganu yn y pwyllgor yn sgil y datganiadau hynny. Gofynasom am eglurhad gan y Gweinidog mewn llythyr, yn dilyn y cyfarfod hwnnw. Daeth yr ateb yn ôl oddi wrth y Gweinidog ar y pryd a ddywedodd:

‘In a deemed consent system individuals need to be fully aware of the need to consent or object to an action and be fully aware of the consequences.’

Mewn system o ganiatâd tybiedig mae angen i unigolion fod yn gwbl ymwybodol o’r angen i roi caniatâd neu wrthwynebu gweithred a bod yn gwbl ymwybodol o’r canlyniadau.

I do not believe that any of us, at the start of our consideration of this Bill, truly understood the nature of what we were talking about. If anybody here can say hand on heart that they understand the interventions needed to preserve organs in the case of circulatory death and what they would be consenting to, I would take my hat off to them. I suspect that Members in this Chamber do not know. Today, the Minister has given himself a new test, as to how the state can decide whether the population has given consent or not. I do not disagree with him, but the issue is: what has changed since February when those statements were made by the Government’s legal adviser and the Minister, so that now, in April, we have another test? I would like to have further understanding of why the Minister has been able to have such a profound change in the test that the Government will set itself in establishing consent for these important issues.

Nid wyf yn credu bod yr un ohonom, ar ddechrau ein hystyriaeth o’r Bil hwn, yn deall mewn gwirionedd natur yr hyn yr oeddem yn sôn amdano. Os all unrhyw un yma ddweud â llaw ar ei galon ei fod yn deall yr ymyriadau sydd eu hangen i gadw organau mewn achos o farwolaeth system cylchredeg y gwaed a’r hyn y byddent yn cydsynio iddo, codaf fy het iddynt. Rwyf yn amau a yw’r Aelodau yn y Siambr hon yn gwybod. Heddiw, mae’r Gweinidog wedi rhoi prawf newydd iddo’i hun, o ran sut y gall y wladwriaeth benderfynu a yw’r boblogaeth wedi rhoi caniatâd ai peidio. Nid wyf yn anghytuno ag ef, ond y cwestiwn yw: beth sydd wedi newid ers mis Chwefror pan gafodd y datganiadau hynny eu gwneud gan gynghorydd cyfreithiol y Llywodraeth a’r Gweinidog, fel bod gennym yn awr, ym mis Ebrill, brawf arall? Hoffwn ddeall ymhellach pam y mae’r Gweinidog wedi gallu sicrhau’r fath newid mawr yn y prawf y bydd y Llywodraeth yn ei osod iddi’i hun wrth sefydlu caniatâd ar gyfer y materion pwysig hyn.

On the role of the family, confusion arose because there was a discrepancy between what was on the face of the Bill and what was contained in the explanatory memorandum, which was what was said by the Minister in evidence to the committee and what was then said by the Minister to the media. It caused a great deal of confusion, and the Health and Social Care Committee called for greater clarity on that point. I am grateful that the new Minister has been clear today about what he regards as the role of the family in this legislation, but, in doing so, he has acknowledged that we now need to have further discussions on how this new role for the family, which will be better aligned to current practice, will work in practice. We will have to go back over the whole issue of ranking systems and which member of the family’s say trumps another’s. That requires a new set of work.

O ran rôl y teulu, cododd dryswch oherwydd bod anghysondeb rhwng yr hyn oedd ar wyneb y Bil a’r hyn oedd yn y memorandwm esboniadol, sef yr hyn a ddywedwyd gan y Gweinidog mewn tystiolaeth i’r pwyllgor ac a ddywedwyd wedyn gan y Gweinidog wrth y cyfryngau. Achosodd hyn lawer iawn o ddryswch, a galwodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am fwy o eglurder ar y pwynt hwnnw. Rwyf yn ddiolchgar bod y Gweinidog newydd wedi bod yn glir heddiw am yr hyn y mae’n ei ystyried yw rôl y teulu yn y ddeddfwriaeth hon, ond, wrth wneud hynny, mae wedi cydnabod bod angen inni gael trafodaethau pellach yn awr ar sut y bydd y rôl newydd hon ar gyfer y teulu, a fydd yn fwy cydnaws ag arfer cyfredol, yn gweithio yn ymarferol. Bydd yn rhaid inni fynd yn ôl dros holl fater systemau graddio a barn pa aelod o’r teulu fydd yn drech nag un arall. Mae hynny’n gofyn am set newydd o waith.

Moving on to practical matters, this legislation will be for nought unless we do something to address the issue of critical care beds. We heard from professionals that we are already losing potential donors because of a lack of critical care beds. Rather than seeing an increase in the number of those beds, as we have heard in the example of Ceredigion, we are seeing a decrease in their number. The Government, in its programme for government, said that it would increase the number of critical care beds. We have had two years to hear how that will happen. It is imperative that the Government now lives up to what it says in its programme for government document and that we find out exactly how many more critical care beds there will be.

A symud ymlaen at faterion ymarferol, ddaw dim byd o’r ddeddfwriaeth hon oni bai ein bod yn gwneud rhywbeth i fynd i’r afael â gwelyau gofal critigol. Clywsom gan weithwyr proffesiynol ein bod eisoes yn colli rhoddwyr organau posibl oherwydd diffyg gwelyau gofal critigol. Yn hytrach na gweld cynnydd yn nifer y gwelyau hynny, fel yr ydym wedi clywed yn enghraifft Ceredigion, rydym yn gweld gostyngiad yn eu nifer. Dywedodd y Llywodraeth, yn ei rhaglen lywodraethu, y byddai’n cynyddu nifer y gwelyau gofal critigol. Rydym wedi cael dwy flynedd i glywed sut y bydd hynny’n digwydd. Mae’n hanfodol fod y Llywodraeth yn awr yn gwireddu’r hyn y mae’n ei ddweud yn nogfen ei rhaglen lywodraethu a’n bod yn cael gwybod yn union faint yn fwy o welyau gofal critigol fydd ar gael.

Finally, with regard to the resources that have been set aside for the public information campaign, nobody was convinced that they were adequate. To be honest, the comparison with the smoking ban was simply farcical. I am glad that the Minister has acknowledged that he has more work to do on this and I look forward to receiving that information.

Yn olaf, o ran yr adnoddau sydd wedi eu neilltuo ar gyfer yr ymgyrch wybodaeth i’r cyhoedd, nid oedd neb yn argyhoeddedig eu bod yn ddigonol. A dweud y gwir, roedd y gymhariaeth â’r gwaharddiad ar ysmygu yn wirioneddol chwerthinllyd. Rwyf yn falch fod y Gweinidog wedi cydnabod bod ganddo fwy o waith i’w wneud ar hyn ac edrychaf ymlaen at gael y wybodaeth honno.

The Liberal Democrats will support the Bill to go forward, but, as I have outlined, there is still work to be done.

Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi bwrw ymlaen â'r Bil, ond, fel yr wyf wedi'i amlinellu, mae gwaith i'w wneud o hyd.

18:16

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to speak in this important debate. My party appreciates that this is a matter for individual conscience, and so my contribution is entirely personal and, for the record, I am not a member of the committee.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl hon. Mae fy mhlaid yn sylweddoli mai mater i gydwybod yr unigolyn yw hwn, ac felly mae fy nghyfraniad yn gwbl bersonol ac, er gwybodaeth, nid wyf yn aelod o'r pwyllgor.

Like many Assembly Members, I have received a wealth of opinion on this subject, both for and against. I have done my best to listen and understand, but, ultimately, it is my conscience and I will vote accordingly. There are compelling reasons on both sides of the argument. There are huge ethical and moral questions and, ultimately, it does not get much more personal than this. I have wrestled with this matter for many reasons, but two reasons—one on either side of the divide—are the most vexatious.

Fel llawer o Aelodau'r Cynulliad, rwyf wedi clywed llawer iawn o safbwyntiau ar y pwnc hwn, o blaid ac yn erbyn. Rwyf wedi gwneud fy ngorau i wrando ac i ddeall, ond, yn y pen draw, mae'n ymwneud â'm cydwybod i fy hun, a byddaf yn pleidleisio yn unol â hynny. Mae rhesymau cryf ar ddwy ochr y ddadl. Mae cwestiynau moesegol a moesol enfawr ac, yn y pen draw, nid oes llawer o bethau mwy personol na hyn. Rwyf wedi ymgodymu â'r mater hwn am nifer o resymau, ond mae dau reswm—un ar y naill ochr a'r llall i'r ffin—sy'n peri'r gofid mwyaf imi.

I am instinctively against the notion of the state having a lien upon my sovereign body, because I do not entirely trust the state. We have some real horrors out there, where the thin end of a well-meant wedge has suborned the basic rights and freedoms of the individual. It seems illogical that I am not allowed to choose how I shuffle off my mortal coil, but you want what is left. However, we also have mothers and fathers, sons and daughters, lovers and friends living half-lives, living with the knowledge of a foreshortened life, dying for want of operations that might have proven to be successful but cannot be performed because we do not have enough organs. Now we have before us a piece of legislation that seeks to address that issue by making the assumption that all of our parts belong to the state unless we say so.

Yr wyf yn reddfol yn erbyn y syniad o roi hawlrwym i'r wladwriaeth dros fy nghorff sofran, gan nad wyf yn llwyr ymddiried yn y wladwriaeth. Mae rhai erchyllterau gwirioneddol i'w cael, lle mae bwriadau da wedi sybornu hawliau a rhyddid sylfaenol yr unigolyn. Nid yw'n ymddangos yn rhesymegol nad wyf yn cael dewis sut yr wyf am adael y marwol rwymau hyn, ond rydych am gymryd yr hyn sydd ar ôl. Fodd bynnag, mae gennym hefyd famau a thadau, meibion a merched, cariadon a ffrindiau yn byw hanner bywyd, yn byw gan wybod y bydd eu bywydau'n dod i ben cyn pryd, yn marw oherwydd diffyg llawdriniaethau a allai fod wedi bod yn llwyddiannus, ond na ellir eu cynnal am nad oes gennym ddigon o organau. Nawr mae gennym ger ein bron ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ceisio mynd i'r afael â'r mater hwnnw drwy dybio bod holl rannau ein cyrff yn eiddo i'r wladwriaeth oni ddywedwn yn wahanol.

Minister, I am of the opinion that this matter needs to be debated in full, and, because of that, I will lend you my vote today so that we can move to Stage 2, but I wish to make a number of demands of you and of the Health and Social Care Committee. I do not know how many of the other 45 voting Members of the Assembly will be whipped by their parties on this issue, but I ask that the committee put aside party lines and look at this as individuals seeking to ensure that whatever legislation may emerge is crystal clear, is robust, is not open to misinterpretation, and safeguards the rights of the individual.

Weinidog, rwyf o'r farn fod angen trafod y mater hwn yn llawn, ac, oherwydd hynny, rwyf am roi fy mhleidlais ichi heddiw fel y gallwn symud i Gyfnod 2, ond yr wyf am wneud nifer o alwadau arnoch chi a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ni wn sawl un o'r 45 o Aelodau eraill y Cynulliad a fydd yn pleidleisio a fydd yn cael eu chwipio gan eu pleidiau ar y mater hwn, ond gofynnaf i'r pwyllgor roi polisïau plaid o'r neilltu ac edrych ar hyn fel unigolion sy'n ceisio sicrhau bod pa bynnag ddeddfwriaeth a fydd yn deillio o hyn yn glir fel grisial, yn gadarn, heb fod yn agored i gamddehongli, ac yn diogelu hawliau'r unigolyn.

Minister, I ask that you consider three areas. First, how can we protect individuals and ensure that they are fully aware of this legislation and its consequences, given that we still struggle to make the people of Wales understand what the Assembly is responsible for as opposed to the Westminster Government? How will you make sure that everyone in Wales knows that they are deemed to have consented? What about someone who cannot read, someone who has just reached adulthood, a person with learning difficulties, faith groups, isolated and friendless people, people who have just moved to Wales, people of little knowledge of or precious little interest in the mechanics of the state? I understand that the Bill specifically excludes people deemed not to have mental capacity, but who is going to deem that—a doctor, a social worker? I have constituents with learning difficulties who could make this choice and others who would really struggle, some marginally autistic and others just a tiny bit more, but, again, it makes a huge difference in cognitive reasoning.

Weinidog, gofynnaf ichi ystyried tri maes. Yn gyntaf, sut y gallwn ddiogelu unigolion a sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r ddeddfwriaeth hon a'i chanlyniadau, o gofio ein bod yn dal i'w chael yn anodd gwneud i bobl Cymru ddeall yr hyn y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdano yn hytrach na'r Llywodraeth yn San Steffan. Sut y byddwch chi'n gwneud yn siŵr fod pawb yng Nghymru yn gwybod y tybir eu bod wedi cydsynio? Beth am rywun na all ddarllen, rhywun sydd newydd ddod yn oedolyn, rhywun ag anawsterau dysgu, grwpiau ffydd, pobl ynysig a heb gyfeillion, pobl sydd newydd symud i Gymru, pobl heb lawer o wybodaeth am ddulliau gweithredu'r wladwriaeth a heb fawr o ddiddordeb ynddynt? Rwyf yn deall bod y Bil yn benodol yn eithrio pobl y tybir nad ydynt yn meddu ar alluedd meddyliol, ond pwy sy'n mynd i farnu hynny—meddyg, gweithiwr cymdeithasol? Mae gennyf etholwyr a chanddynt anawsterau dysgu a allai wneud y dewis hwn ac eraill a fyddai'n ei chael yn wirioneddol anodd, rhai ychydig yn awtistig ac eraill fymryn yn fwy felly, ond, unwaith eto, mae'n gwneud gwahaniaeth mawr o ran rhesymu gwybyddol.

How will people access information and how much information will they receive? A number of people who attended the consultation events have told me that they felt that the events were very skewed in favour of donation. Those were people who have donor cards. Therefore, how will you demonstrate that people will receive fair, clear and impartial advice?

Sut fydd pobl yn cael gafael ar wybodaeth a faint o wybodaeth fyddant yn ei chael? Mae nifer o bobl a ddaeth i'r digwyddiadau ymgynghori wedi dweud wrthyf eu bod yn teimlo bod y digwyddiadau wedi eu gogwyddo'n fawr iawn o blaid rhoi organau. Pobl oedd y rhain a chanddynt gardiau rhoi organau. Felly, sut y byddwch yn dangos y bydd pobl yn cael cyngor teg, clir a diduedd?

Section 6 deals with what would happen if the deceased is a child or young person under the age of 18. Although excluded, they can register their wish, and that carries weight. How will they be informed of this new law? Will it be part of the school curriculum?

Mae Adran 6 yn ymdrin â'r hyn a fyddai'n digwydd pe bai'r ymadawedig yn blentyn neu'n berson ifanc o dan 18 oed. Er eu bod wedi'u heithrio, gallant gofrestru eu dymuniad, ac mae hynny'n cyfrif. Sut fyddant hwy'n cael gwybod am y gyfraith newydd hon? A fydd yn rhan o gwricwlwm yr ysgol?

Secondly, Minister, I would like you to take a long, hard look at the unintended consequences. I have a huge list of them. I do not have the time to go through them all, but I will write to you on this, Minister. For example, what will happen to the organs of a Welsh person receiving treatment in an English hospital? Cross-border healthcare happens a lot in north Wales. What about someone who shows no brain activity but whose heart still beats independently? What about the sudden death of a person without a close family? What about the family that believes that it is being pressured for organs to be harvested and has not had the time to process the events around a loved one's death? When is an organ not an organ? What about eggs and ovaries? There is a terrible shortage of egg donors. Is that the next step? I believe that section 16 would allow for that. How confusing will it be to have to opt out of the deemed consent system in order to opt back in because you wish to donate your kidney, but not the nucleus of your baby? Will Wales become a transplant destination? Will we have a situation similar to that at King's College Hospital, where wealthy people from overseas buy organs? Will the expected increase in the availability of organs skew the spend in what is already a constrained NHS budget?

Yn ail, Weinidog, hoffwn ichi edrych yn ofalus iawn ar y canlyniadau anfwriadol. Mae gen i restr enfawr ohonynt. Nid oes gennyf amser i fynd drwyddynt i gyd, ond byddaf yn ysgrifennu atoch ynglŷn â hyn, Weinidog. Er enghraifft, beth fydd yn digwydd i organau person o Gymru sy'n derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Lloegr? Mae gofal iechyd traws-ffiniol yn beth cyffredin yn y gogledd. Beth am rywun nad yw ei ymennydd yn dangos unrhyw weithgaredd ond y mae ei galon yn dal i guro ar ei phen ei hun? Beth am farwolaeth sydyn rhywun heb deulu agos? Beth am y teulu sy'n credu bod pwysau'n cael eu rhoi arno i organau gael eu cynaeafu ac nad yw wedi cael amser i brosesu'r digwyddiadau'n ymwneud â marwolaeth un annwyl? Pryd nad yw organ yn organ? Beth am wyau ac ofarïau? Mae prinder ofnadwy o roddwyr wyau. Ai dyna'r cam nesaf? Credaf y byddai adran 16 yn caniatáu ar gyfer hynny. Pa mor ddryslyd fydd gorfod optio allan o'r system o ganiatâd tybiedig er mwyn optio i mewn eto oherwydd eich bod yn dymuno rhoi eich arennau, ond nid cnewyllyn eich babi? A fydd Cymru'n dod yn gyrchfan trawsblannu? A fydd gennym sefyllfa debyg i'r un yn Ysbyty Coleg King's, lle mae pobl gyfoethog o dramor yn prynu organau? A fydd y cynnydd disgwyliedig yn nifer yr organau sydd ar gael yn gogwyddo'r gwariant yng nghyllideb y GIG sydd eisoes yn gyfyngedig?

Finally, the third area that I would like you to consider, Minister, is legislation and alternatives. In terms of the legislation, please make section 8 clearer. A living adult who cannot consent could be deemed to be a consenter by someone working in their best interests. How is that in their best interests? With regard to section 9, organ removal will not be a criminal offence if you believe that you have consent—whoops; I would like that one tightened up. Section 12 is about keeping and preserving a body until the consent comes through. That requires timescales. Are you talking about a few hours until relatives have had a chance to say goodbye, or is it a case of using artificial methods to keep life going?

Yn olaf, y trydydd maes yr hoffwn ichi ei ystyried, Weinidog, yw deddfwriaeth a dewisiadau eraill. O ran y ddeddfwriaeth, gofynnaf ichi wneud adran 8 yn gliriach os gwelwch yn dda. Gallai rhywun sy'n gweithio er budd pennaf oedolyn byw nad yw'n gallu cydsynio dybio ei fod yn gydsyniwr. Sut y mae hynny er ei les pennaf? O ran adran 9, ni fydd tynnu organau yn drosedd os ydych yn credu bod gennych ganiatâd—wps; hoffwn weld hyn yn cael ei dynhau. Mae Adran 12 yn ymwneud â chadw a diogelu corff nes y daw'r caniatâd i law. Mae hynny'n gofyn am amserlenni. A ydych yn sôn am ychydig oriau nes bod perthnasau wedi cael cyfle i ffarwelio, neu a yw'n fater o ddefnyddio dulliau artiffisial i gynnal bywyd?

18:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Your time is up.

Trefn. Mae eich amser ar ben.

18:21

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is more to say. I will write to you on the rest. Thank you, Minister.

Mae mwy i'w ddweud. Byddaf yn ysgrifennu atoch ynghylch y gweddill. Diolch i chi, Weinidog.

18:21

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dyma un o'r trafodaethau pwysicaf yr ydym wedi eu cael yn y Cynulliad, ac mae elfen o'r drafodaeth hyd yn hyn wedi dangos ein bod yn dechrau dyfod yn Senedd go iawn. Rydym yn awr yn trafod rhywbeth sydd o bwys i bob un sydd yn byw yng Nghymru, neu sy'n digwydd byw yng Nghymru, boed hynny o'u hewyllys ai peidio. Diolch i'r Gweinidog am y ffordd y gwnaeth agor y ddadl heddiw. Rwy'n credu ei fod wedi dod fel chwa o awyr iach ac wedi dod â perspectif newydd ar Fil a oedd wedi dechrau mynd i gors yn nwylo'r Llywodraeth. Nid wyf yn siŵr pam, ond roedd nifer ohonom wedi dechrau teimlo nad oedd y Llywodraeth yn gwybod beth roedd yn ei wneud â'r Bil hwn, na sut roedd yn mynd i'w gyflawni.

This is one of the most important discussions that we have had in the Assembly, and an element of the discussion so far has shown that we are becoming a real Parliament. We are discussing something that really matters to everyone who lives in Wales, or who happens to live in Wales, whether that is of their own free will or not. I thank the Minister for the way in which he opened today's debate. I think that he has been a breath of fresh air and brought a new perspective to a Bill that was, in the Government's hands, starting to become stuck in the mire. I am not sure why that had happened, but many of us had started to feel that the Government did not know what it was doing with this Bill or how it was going to implement it.

Dyna pam y cerddais i mewn i'r Siambr yn bwriadu atal fy mhleidlais. Nid oeddwn yn mynd i gefnogi'r Bil, ac nid wyf yn siŵr os y gallaf ei gefnogi o hyd. Fodd bynnag, mae'r hyn a ddywedodd y Gweinidog wedi rhoi llawer mwy o ffydd a hyder i mi bod y Llywodraeth yn bwriadu dod dros y problemau y soniwyd amdanynt gan nifer o siaradwyr heddiw.

That is why I came to the Chamber today planning to abstain in the vote. I was not going to support the Bill, and I am still not sure that I can support it. However, the Minister's remarks today has given me greater confidence and faith that the Government intends to overcome the problems referred to by many speakers today.

Rwy'n dod at y Bil hwn fel un nad yw'n gwrthwynebu'r syniad o gydsyniad tybiedig o gwbl. Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl briodol i'r Llywodraeth ddeddfu yn y maes hwn os yw'n teimlo y byddai hynny yn cyflawni'r dibenion y mae eisiau eu gweld, sef sicrhau bod mwy o organau yn cael eu rhoi, bod darpariaeth briodol yn ei lle i ddelio â'r organau hynny a sicrhau eu bod yn cyrraedd y cleifion sydd eu hangen. Mae hynny wedi bod ar goll hyd yn hyn yn y trafodaethau yr ydym wedi eu cael.

I approach this Bill as someone who is not opposed to the idea of deemed consent at all. I think it is entirely appropriate for the Government to legislate in this area if it feels that that will achieve the aims it wishes to secure, which are to ensure that more organs are donated, and that appropriate provision is made to deal with those organs and to ensure that they reach the patients who need them. That point has been omitted from the discussions that have taken place thus far.

Rydym hefyd wedi gweld nifer o wrthwynebiadau, ac rwyf yn gwerthfawrogi ac yn parchu hynny, gan bobl sydd â daliadau crefyddol neu athronyddol cryf. Rydym newydd glywed gan Angela Burns ynglŷn â'i syniadau hi, ac rwy'n parchu hynny, ond nid dyna fy safbwynt i. Fodd bynnag, rwyf eisiau gwneud yn siŵr nad ydym yn deddfu er mwyn deddfu, nad ydym yn deddfu er mwyn dangos ein bod yn Senedd o ddifrif yng Nghymru, ond ein bod yn deddfu er mwyn cyflawni dibenion y Llywodraeth. Mae nifer o bethau wedi digwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf sy'n gwneud i mi deimlo bod rhywbeth o'i le ar y system hwn. Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n rhoi organau o'u gwirfodd yn destun pryder, achos mae'r Bil hwn wedi golygu fod fy nheulu wedi trafod y mater hwn mewn ffordd na wnaethom ei drafod o'r blaen. Rwyf yn gwybod yn awr beth mae fy mhlant a fy ngwraig yn dymuno'i wneud gyda'u horganau; nid oeddwn yn gwybod hynny o'r blaen, er cywilydd efallai. Wedi trafod y Bil hwn, rwy'n gwybod yn awr lle mae fy nheulu yn sefyll ac maen nhw'n gwybod lle rwyf yn sefyll.

We have also heard the many objections, which I appreciate and respect, from people with strong religious or philosophical convictions. We have just heard from Angela Burns about her ideas, which I respect, but her views do not reflect my position. However, I want to ensure that we are not legislating for the sake of it, or that we are not legislating just to demonstrate that we are a proper Parliament. I want us to legislate in order to achieve the Government's aims. Several things that have happened in the past few weeks have made me feel that there was something wrong with the system. The reduction in the number of people of people who donate organs voluntarily is a cause for concern, because, for example, this Bill has meant that my family has discussed the matter in a way that we have not done previously. I now know what the wishes of my children and my wife are in relation to organ donation; I did not know that before, to my shame perhaps. Having discussed the Bill, I now know where my family stands and they know where I stand on the matter.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i fi ystyried yn awr a yw'r ddeddfwriaeth a gafodd ei pharatoi gan y Llywodraeth yn gwneud y job o gyflwyno cydsyniad tybiedig mewn ffordd sy'n ddemocrataidd, sy'n cyflawni'r gofynion meddygol, ac sy'n osgoi'r problemau cyfreithiol, athronyddol, crefyddol a chydwybodol a godwyd. Nid wyf yn meddwl bod y Bil yn ei ffurf presennol yn gwneud hynny, ac ni fyddwn am gefnogi'r Bil yn ei ffurf presennol felly.

However, I must consider whether the legislation drafted by the Government does the job of introducing deemed consent in a way that is democratic, in a way that fulfils the medical requirements, and in a way that overcomes the legal, philosophical, religious and conscientious points raised. I do not think that the Bill as drafted does that and, therefore, I would not want to support the Bill in its current form.

Mae nifer o'r pethau a ddywedodd y Gweinidog—am y gwelliannau, yr eglurder, a'r ymwneud â'r teulu y mae'n chwilio amdano—yn rhoi hyder i mi y bydd modd imi gefnogi'r Bil hwn, gobeithio, pan fydd wedi'i wella, ond heddiw byddaf yn atal fy mhleidlais. Rwy'n disgwyl i'r Llywodraeth wneud llawer mwy i ddangos sut y bydd y Bil hwn yn gweithio o ddifrif, a gwneud llawer mwy i ddangos sut y bydd yn cefnogi'r gwasanaethau o gwmpas y Bil i wneud yn siŵr eu bod yn eu lle. Mae'r wybodaeth i'r cyhoedd a'r wybodaeth i bobl sydd ddim ond yn byw yng Nghymru am gyfnod byr—fel un sy'n cynrychioli ardal â phrifysgolion—hefyd yn rhan bwysig o hynny.

A number of the points made by the Minister—about the amendments, the clarification and the engagement with the family that he is seeking—give me confidence that I will be able to support the Bill, I hope, when it has been amended, but I will today be abstaining. I expect the Government to do a great deal more to show how this Bill will work in practice, and to do a great deal more to show how it will support the services related to the Bill in making sure that they are in place. The information provided to members of the public, and the information to people who reside in Wales only for a short period—as someone who represents an area with universities—is also an important part of that work.

Felly, rwy'n dymuno'n dda i'r Gweinidog gyda'r Bil hwn. Mae'r egwyddor o gydsyniad tybiedig yn un y mae Plaid Cymru wedi'i chefnogi—er bod gennym bleidlais rydd heddiw—ond ni fedraf gefnogi'r Bil yn y ffurf hon. Rwy'n mawr obeithio y daw yn ôl wedi'i wella mewn ffordd sy'n golygu y gallaf ei gefnogi, ac mewn ffordd sy'n golygu y gall rhagor o Aelodau ei gefnogi.

Therefore, I wish the Minister well with this Bill. The principle of deemed consent has been supported by Plaid Cymru—even though we have a free vote today—but I cannot support the Bill in its current form. I very much hope that it will be amended in a way that means that I can support it, and in a way that enables more Members to give their support.

18:26 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Members, I am not subject to party whip in this debate, so I could take a stand against this Bill on the principle that the state should not have more power than the family over a person's remains. However, I have to weigh that against the aim of this Bill, which is to improve and save lives. The views of my constituents vary too, so that makes my decision no easier. So, I will be influenced by the contributions to this debate in deciding whether the aims of this Bill are best achieved by this Bill.

Aelodau, nid wyf yn destun chwip fy mhlaid yn y ddadl hon, felly gallwn wneud safiad yn erbyn y Bil hwn ar yr egwyddor na ddylai'r wladwriaeth fod â mwy o rym na'r teulu dros weddillion rhywun. Fodd bynnag, rhaid imi bwyso a mesur hynny yn erbyn nod y Bil hwn, sef gwella ac arbed bywydau. Mae barn fy etholwyr yn amrywio hefyd, ac nid yw hynny'n gwneud fy mhenderfyniad fymryn yn haws. Felly, bydd y cyfraniadau at y ddadl hon yn dylanwadu arnaf wrth imi benderfynu ai'r Bil hwn yw'r ffordd orau o gyflawni amcanion y Bil hwnnw.

Among the suggestions for an alternative to this Bill is improved communication of the current system as a way of achieving the Bill's central aim. The problem with that is that no communication campaign will reach everyone, as Angela Burns illustrated earlier. That, in my view, is also a problem with this Bill, as it goes to the heart of the meaning of consent. I think, Kirsty, that you have hit on an important problem with this Bill here. It is impossible to be certain that everyone can be reached, that everyone will pay attention or that everyone will understand the content of this Bill. I hope that you have time to address this in your response, Minister, as here is a Bill that deems consent without fully addressing certainty that consent is necessarily available to be given. It is a concern that is not resolved simply by saying that similar provisions exist in other countries. To consent to something, you have to know about it, be able to understand it, have considered it and then to have agreed to it. What this Bill allows for is deemed knowledge, deemed understanding, deemed consideration and deemed agreement. That is a considerable amount of deeming—a considerable amount of deeming that is not explicit in the Bill. Also, it reveals a considerable number of hoops to be jumped through before you can establish that a person is capable of giving consent.

Ymhlith yr awgrymiadau ar gyfer dewis arall yn lle'r Bil hwn mae cyfathrebu ynghylch y system bresennol fel ffordd o gyflawni nod canolog y Bil. Y broblem gyda hynny yw na fydd unrhyw ymgyrch gyfathrebu'n cyrraedd pawb, fel y dangosodd Angela Burns yn gynharach. Mae hynny, yn fy marn i, hefyd yn broblem gyda'r Bil hwn, gan ei fod yn mynd at wraidd ystyr cydsynio. Credaf, Kirsty, eich bod wedi taro ar broblem bwysig gyda'r Bil hwn yma. Mae'n amhosibl bod yn sicr y bydd modd cyrraedd pawb, y bydd pawb yn talu sylw, ac y bydd pawb yn deall cynnwys y Bil hwn. Rwyf yn gobeithio y bydd gennych amser i ymdrin â hyn yn eich ymateb, Weinidog, oherwydd dyma Fil sy'n tybio caniatâd heb fynd i'r afael yn llawn â sicrwydd bod caniatâd o reidrwydd ar gael i'w roi. Mae'n bryder nad yw'n cael ei ddatrys yn syml drwy ddweud bod darpariaethau tebyg yn bodoli mewn gwledydd eraill. I gydsynio i rywbeth, rhaid ichi wybod amdano, gallu ei ddeall, bod wedi ei ystyried ac yna wedi cytuno ag ef. Yr hyn y mae'r Bil hwn yn caniatáu ar ei gyfer yw gwybodaeth dybiedig, dealltwriaeth dybiedig, ystyriaeth dybiedig a chytundeb tybiedig. Mae hynny'n llawer iawn o dybio—llawer iawn o dybio nad yw'n glir yn y Bil. Hefyd, mae'n amlygu nifer sylweddol o gylchoedd i neidio drwyddynt cyn y gallwch bennu bod rhywun yn gallu rhoi caniatâd.

If you are aware that there is some sort of provision out there about opting out, but you decide not to find out about it, that is one thing. It would be possible to argue that you could have known, you could have understood, you could have considered and therefore that consent could have been given. However, just as no Government can guarantee a 100% success rate with regard to communication about the existence of the donor register, it cannot guarantee a 100% success rate with regard to communicating the very existence of this Bill. That means that there will always be sentient individuals out there who do not know about the contents of this Bill. If you do not know about something and are wholly ignorant about its existence, you cannot, by definition, understand, consider or consent to it. If you cannot consent to something, for whatever reason, then your consent is not available to be given, either expressly or deemed.

Os ydych yn gwybod bod rhyw fath o ddarpariaeth ar gael ar gyfer optio allan, ond yn penderfynu peidio â dysgu am y ddarpariaeth honno, mae hynny'n un peth. Byddai modd dadlau y gallech fod wedi gwybod, y gallech fod wedi deall, y gallech fod wedi ystyried ac felly y gellid bod wedi rhoi caniatâd. Fodd bynnag, yn union fel na all yr un Llywodraeth warantu cyfradd lwyddiant 100% o ran cyfathrebu am fodolaeth y gofrestr rhoddwyr, ni all warantu cyfradd lwyddiant 100% o ran cyfathrebu ynghylch bodolaeth y Bil hwn. Mae hynny'n golygu y bydd bob amser unigolion ymdeimladol i'w cael nad ydynt yn gwybod am gynnwys y Bil hwn. Os nad ydych yn gwybod am rywbeth ac yn gwbl anwybodus am ei fodolaeth, ni allwch, drwy ddiffiniad, ddeall, ystyried neu gydsynio iddo. Os na allwch gydsynio i rywbeth, am ba bynnag reswm, yna nid yw eich caniatâd ar gael i'w roi, naill ai'n ddatganedig neu'n dybiedig.

So, should it be possible for legislation to deem the impossible? Do we really think that this is a subject where it is appropriate to rely on a position of ignorance of the law being no excuse? Section 5 says that it is not appropriate. It accepts that certain individuals must be excepted from the principle of deemed consent. In particular, it excepts deceased individuals who did not know about organ donation, and, therefore, were unable to understand, consider or consent to it—in this case, by virtue of mental incapacity. The section further provides for someone else to be able to give express consent on the deceased's behalf—express consent given by a person who knows, understands and can consider what they are being asked to do with regard to donation. So, can you explain why the family of a person incapable of giving consent due to mental incapacity would have greater rights than the family of a person who was incapable of consenting due to genuine ignorance? How can we ever be sure that a deceased person's lack of express consent is due to indifference rather than ignorance? I do not think that you can do that reliably. It is an inherent problem of a system that allows for both express and deemed consent.

Felly, a ddylai fod yn bosibl i ddeddfwriaeth dybio'r amhosibl? A ydym yn credu mewn gwirionedd fod hwn yn bwnc lle mae'n briodol dibynnu ar sefyllfa lle nad yw anwybodaeth am y gyfraith yn esgus? Mae adran 5 yn dweud nad yw'n briodol. Mae'n derbyn bod yn rhaid i rai unigolion gael eu heithrio rhag yr egwyddor o ganiatâd tybiedig. Yn benodol, mae'n eithrio unigolion ymadawedig nad oeddent yn gwybod am roi organau, ac, felly, nad oeddent yn gallu deall, ystyried neu gydsynio iddo—yn yr achos hwn, yn rhinwedd analluedd meddyliol. Mae'r adran yn darparu ymhellach i rywun arall allu rhoi caniatâd datganedig ar ran yr ymadawedig—caniatâd datganedig a roddir gan berson sy'n gwybod, yn deall ac yn gallu ystyried yr hyn y gofynnir iddo'i wneud o ran rhoi organau. Felly, a allwch esbonio pam y byddai teulu rhywun sy'n analluog i gydsynio oherwydd analluedd meddyliol yn cael mwy o hawliau na theulu rhywun sy'n analluog i gydsynio oherwydd anwybodaeth wirioneddol? Sut allwn ni fyth fod yn sicr fod diffyg caniatâd datganedig person ymadawedig yn deillio o ddifaterwch yn hytrach nag o anwybodaeth? Nid wyf yn meddwl y gallwch wneud hynny'n ddibynadwy. Mae'n broblem annatod mewn system sy'n caniatáu ar gyfer caniatâd datganedig a thybiedig.

Section 8, however, allows for ignorance of the law to be no excuse, in especially disquieting circumstances. It allows that a living person with insufficient mental capacity can be deemed to give consent to be a living donor in circumstances that I now understand will not even appear on the face of the Bill. I understand from the Constitutional and Legislative Affairs Committee correspondence that the best interests test has been downgraded to a regulation. Therefore, Minister, will you please reconsider this inconsistent and fundamentally unclear clause? Section 8(2) does not even provide the level of protection to the living as it does to the dead in section 5. There is no reference to the role of expressed consent of a third party on the face of the Bill and no family veto.

Mae adran 8, fodd bynnag, yn caniatáu na fydd anwybodaeth am y gyfraith yn esgus, mewn amgylchiadau sy'n peri pryder mawr. Mae'n caniatáu y gellir tybio bod person byw heb alluedd meddyliol digonol yn rhoi caniatâd i fod yn rhoddwr byw mewn amgylchiadau na fyddant, erbyn deall, hyd yn oed yn ymddangos ar wyneb y Bil. Deallaf o ohebiaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol bod y prawf budd pennaf wedi ei israddio'n rheoliad. Felly, Weinidog, a wnewch chi ailystyried y cymal anghyson a sylfaenol aneglur hwn? Nid yw adran 8 (2) hyd yn oed yn darparu'r un lefel o amddiffyniad i'r byw ag y mae i'r meirw yn adran 5. Nid oes unrhyw gyfeiriad at rôl caniatâd tybiedig gan drydydd parti ar wyneb y Bil a dim feto teuluol.

While there are some other drafting issues that undermine the clarity of the Bill, but can be overcome by amendment, this clause, as it stands, should be excised altogether. Minister, are you able to help me overcome my fundamental concern about this clause? Your earlier response to Angela Burns did not go far enough.

Er bod rhai materion drafftio eraill sy'n tanseilio eglurder y Bil, ond y gellir eu goresgyn drwy welliannau, dylai'r cymal hwn, fel ag y mae, gael ei hepgor yn gyfan gwbl. Weinidog, a allwch fy helpu i oresgyn fy mhryder sylfaenol am y cymal hwn? Nid oedd eich ymateb cynharach i Angela Burns yn mynd yn ddigon pell.

18:31

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Listening to the Minister introducing this legislation, I truly wanted to support it, but I cannot. I know that the Government has indicated that it is prepared to compromise and accommodate as many concerns as it can and I appreciate that. I am particularly pleased that novel transplants will be exempt, but I do not believe that the Government can accommodate my fundamental problem with the Bill.

O wrando ar y Gweinidog yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, roeddwn yn awyddus iawn i'w gefnogi, ond ni allaf wneud hynny. Gwn fod y Llywodraeth wedi nodi ei bod yn barod i gyfaddawdu a darparu ar gyfer cymaint o bryderon ag y gall ac rwyf yn gwerthfawrogi hynny. Rwyf yn arbennig o falch y bydd trawsblaniadau newydd yn cael eu heithrio, ond nid wyf yn credu y gall y Llywodraeth ddarparu ar gyfer fy mhroblem sylfaenol gyda'r Bil.

I have carried a donor card all of my adult life. I could show you the one in my purse today, which I filled in 1995. I support donation. I have chosen to do that and I prize my ability to choose. No matter whom you are—however poor or rich—your body is yours; it is not the Minister's, the state's or your family's against your wishes. I hear the argument that people could opt out, but we know that some will die before doing so. If the numbers of people who pass on before making a will is anything to go by, a great many will not get around to opting out—those who would have intended to do so one day, especially young people. There is nothing more precious than autonomy; I value mine highly. I cannot bring myself to take that away from anyone else. It is not a religious conviction; it is just how I feel and that is the line that I do not wish to cross. I want to see donation levels rise and I urge the Minister to find a better, more effective and less divisive way of achieving that. I will not vote against your legislation, Minister, but I cannot support it.

Rwyf wedi cario cerdyn rhoddwr ar hyd fy oes fel oedolyn. Gallwn ddangos ichi yr un sydd yn fy mhwrs heddiw, a lenwais yn 1995. Yr wyf yn cefnogi rhoi organau. Rwyf wedi dewis gwneud hynny ac rwyf yn gwerthfawrogi fy ngallu i ddewis. Pwy bynnag ydych chi—waeth pa mor dlawd neu gyfoethog—chi sydd biau eich corff; nid yw'n eiddo i'r Gweinidog, y wladwriaeth na'ch teulu yn groes i'ch dymuniadau. Clywaf y ddadl y gallai pobl optio allan, ond gwyddom y bydd rhai yn marw cyn gwneud hynny. Os yw nifer y bobl sy'n marw cyn gwneud ewyllys yn llinyn mesur o fath yn y byd, bydd llawer o bobl na fyddant yn llwyddo i optio allan—rhai a oedd wedi bwriadu gwneud hynny un diwrnod, yn enwedig pobl ifanc. Nid oes dim yn fwy gwerthfawr nag ymreolaeth; rwyf yn gwerthfawrogi fy un i yn fawr. Ni allaf fy narbwyllo fy hun i gymryd hynny oddi ar unrhyw un arall. Nid argyhoeddiad crefyddol mohono; dyna sut rwyf yn teimlo, a dyna'r llinell nad wyf yn dymuno ei chroesi. Rwyf am weld lefelau rhoi organau yn codi a galwaf ar y Gweinidog i ddod o hyd i ffordd well, fwy effeithiol a llai cynhennus o gyflawni hynny. Ni fyddaf yn pleidleisio yn erbyn eich deddfwriaeth, Weinidog, ond ni allaf ei chefnogi.

18:33 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased to have the opportunity to speak in today's debate. I do not belong to either of the committees and at times, I have struggled to keep up with the information that has emerged on this. I welcome the fact that the report draws attention to the need for greater clarity on the face of the Bill regarding the role of the family. The former Minister gave the impression that the role of the family was merely concerned with information provision. On other occasions, the former Minister gave the impression that if someone dies without expressly giving or withholding consent for the taking of their organs, their organs should not be taken if their surviving family, as their living representatives, object. I am pleased that the Minister has today given some clarity around particular issues.

Rwyf yn falch o gael cyfle i siarad yn y ddadl heddiw. Nid wyf yn aelod o'r naill bwyllgor na'r llall, ac ar adegau rwyf wedi ei chael yn anodd cadw i fyny â'r wybodaeth sydd wedi dod i'r amlwg ar hyn. Croesawaf y ffaith fod yr adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am fwy o eglurder ar wyneb y Bil ynglŷn â rôl y teulu. Rhoddodd y Gweinidog blaenorol yr argraff fod rôl y teulu'n ymwneud â darparu gwybodaeth yn unig. Ar adegau eraill, rhoddodd y Gweinidog blaenorol yr argraff na ddylid cymryd organau rhywun sy'n marw heb ddatgan ei fod yn rhoi neu'n gwrthod caniatâd i gymryd ei organau os bydd y teulu sydd wedi goroesi, fel cynrychiolwyr byw, yn gwrthwynebu hynny. Rwyf yn falch fod y Gweinidog heddiw wedi rhoi rhywfaint o eglurder ynghylch rhai materion penodol.

I am strongly of the view that if we are to honour and respect a Welsh culture with a strong emphasis on the family, it is vital that there is a clear statement on the face of the legislation, making it known that when someone dies without giving or withholding consent, the family, as the surviving representatives of the deceased, has the final say. It is for this reason that the Welsh Government was right to promise us a soft opt-out Bill, which would propose treating someone who died without expressly giving or withholding consent for their organs to be taken as if they had given consent, subject to the views of the surviving family as the deceased person's representatives.

Yr wyf yn gryf o'r farn, os ydym am anrhydeddu a pharchu diwylliant Cymreig â phwyslais cryf ar y teulu, ei bod yn hollbwysig gwneud datganiad clir ar wyneb y ddeddfwriaeth, gan nodi'n glir mai'r teulu, fel cynrychiolwyr yr ymadawedig, fydd â'r gair olaf pan fydd rhywun yn marw heb roi neu wrthod caniatâd. Am y rheswm hwn roedd Llywodraeth Cymru'n iawn i addo Bil optio allan meddal inni, a fyddai'n cynnig trin rhywun a fu farw heb ddatgan ei fod yn rhoi neu'n gwrthod caniatâd i'w organau gael eu cymryd fel pe bai wedi rhoi caniatâd, yn amodol ar farn y teulu sydd wedi goroesi fel cynrychiolwyr y person ymadawedig.

The Bill before us today makes no such provision and could therefore be categorised as a 'hard opt-out' Bill. It proposes treating someone who dies without expressly giving or withholding consent for their organs to be taken as if they had given consent and has no regard for the views of the surviving family. Section 4 deals with the family, but that is only for information provision for the purpose of demonstrating whether express consent was given or withheld, but not formally recorded. It is not for the purpose of softening the presumption of consent.

Nid yw'r Bil ger ein bron heddiw yn gwneud darpariaeth o'r fath, ac felly gellid ei gategoreiddio fel Bil 'optio allan caled'. Mae'n cynnig y dylid trin rhywun sy'n marw heb ddatgan ei fod yn rhoi neu'n gwrthod caniatâd yn benodol i'w organau gael eu cymryd fel pe bai wedi rhoi caniatâd ac ni roddir ystyriaeth i farn y teulu sydd wedi goroesi. Mae adran 4 yn ymdrin â'r teulu, ond dim ond o safbwynt darparu gwybodaeth er mwyn dangos a roddwyd neu a wrthodwyd caniatâd datganedig, ond heb ei gofnodi'n ffurfiol. Ni wneir hynny er mwyn meddalu'r rhagdybiaeth o ganiatâd.

The need for urgent action has, however, been greatly compounded in the last week with the news that organ donation fell in Wales by 22% in the last 12 months. It is extraordinary that during this time frame, when there has been so much public discussion about the need for more organs, because of the public consultation on the Bill and its introduction, that we have seen a decrease in donation.

Daeth yn fwyfwy angenrheidiol gweithredu ar fyrder, fodd bynnag, yn ystod yr wythnos ddiwethaf gyda'r newyddion bod rhoi organau yng Nghymru wedi gostwng 22% yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'n rhyfeddol ein bod wedi gweld gostyngiad mewn rhoi organau yn ystod y cyfnod hwn, pan fu cymaint o drafod cyhoeddus am yr angen am fwy o organau, oherwydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil a'i gyflwyno.

I fully appreciate that the Minister has been at pains to stress that there is no proof that the fall in organ donation rates in Wales during the last 12 months is a result of the Welsh Government's Bill. However, he has also failed to provide any proof that this fall is not the result of his Bill. It seems to me that, in this context, we must operate on the basis of the precautionary principle. When it is proposed that we move from a system based on real consent to a presumptive system that treats people who have died, without giving or withholding expressed consent, as though they have given it, and when that coincides with the 22% drop in donation rates during the 12 months when those proposals were being discussed, we have to be humble enough to realise that those who warned against this legislation may well have been right.

Rwyf yn llwyr sylweddoli bod y Gweinidog wedi bod yn awyddus i bwysleisio nad oes unrhyw brawf bod y gostyngiad yng nghyfraddau rhoi organau yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf wedi digwydd yn sgil Mesur Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd wedi methu â darparu unrhyw brawf nad yw'r gostyngiad hwn wedi digwydd yn sgil ei Fil. Mae'n ymddangos i mi, yn y cyd-destun hwn, fod yn rhaid inni weithredu ar sail yr egwyddor ragofalus. Pan gynigir ein bod yn symud o system sy'n seiliedig ar ganiatâd gwirioneddol i system ragdybiol sy'n trin pobl sydd wedi marw, heb roi neu wrthod caniatâd datganedig, fel petaent wedi ei roi, a phan fydd hynny'n cyd-ddigwydd â'r gostyngiad 22% yng nghyfraddau rhoi organau yn ystod y 12 mis pan oedd y cynigion hynny'n cael eu trafod, mae'n rhaid inni fod yn ddigon gostyngedig i sylweddoli ei bod yn bosibl fod y rhai a oedd yn rhybuddio yn erbyn y ddeddfwriaeth hon yn iawn.

Some commentators have always advised that presumed consent does not fit well in Wales and that there could be a backlash. Before anyone jumps up and suggests that the fall has nothing to do with the prospect of presumed consent, I would direct them to the evidence given to the Health and Social Care Committee by Dr Peter Matthews on 30 January about what happened in Morriston Hospital. He said:

Mae rhai sylwebyddion wedi dweud yn gyson nad yw caniatâd tybiedig yn gweddu'n dda yng Nghymru, ac y gallai fod adwaith. Cyn i unrhyw un neidio ar ei draed ac awgrymu nad oes a wnelo'r gostyngiad â'r posibilrwydd o ganiatâd tybiedig, fe'u cyfeiriaf at y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan Dr Peter Matthews ar 30 Ionawr am yr hyn a ddigwyddodd yn Ysbyty Treforys. Dywedodd:

'My own experience is that the British psyche has a particular view that what it should do is donate organs as an altruistic gift, and if it is felt that the state is going to take over the organs, then there is the potential that people who may have been willing to become a donor will not do so. We have seen two cases in Morriston where patients who were on the organ donation register, on hearing about this, said to their families that if the state was going to take their organs, they were no longer willing to give them. We lost two donations because of that. So, there is a potential backlash.'

Fy mhrofiad i fy hun yw bod gan y meddylfryd Prydeinig farn benodol mai'r hyn y dylai ei wneud yw rhoi organau fel rhodd anhunanol, ac os teimlir bod y wladwriaeth yn mynd i gymryd cyfrifoldeb dros yr organau, yna mae posibilrwydd y bydd pobl a fyddai efallai wedi bod yn barod i fod yn rhoddwyr yn peidio â gwneud hynny. Rydym wedi gweld dau achos yn Nhreforys pan ddywedodd cleifion a oedd ar y gofrestr rhoi organau wrth eu teuluoedd, wrth glywed am hyn, nad oeddent bellach yn barod i roi eu horganau os oedd y wladwriaeth yn mynd i'w cymryd. Collwyd dwy rodd oherwydd hynny. Felly, mae adwaith bosibl.

I suggest that we put this on hold and be brave enough to ask ourselves whether we have made a terrible mistake. At the very least, if it goes forward, it must be made unambiguously into a soft opt-out Bill, which does not simply seek to use families as a source of information, but which also honours their views as the surviving representatives of the deceased. The surviving family must have the final say and that right must be set out, not simply in guidance, but on the face of our legislation, as it is in other successful soft opt-out countries such as Belgium, Latvia and Slovenia. If the families in those countries deserve this reassurance, then so too do families in Wales.

Awgrymaf ein bod yn gohirio hyn am y tro a'n bod yn ddigon dewr i ofyn inni ein hunain a ydym wedi gwneud camgymeriad ofnadwy. Yr ystyriaeth leiaf, os bydd yn mynd yn ei flaen, yw bod yn rhaid iddo, yn ddigamsyniol, fod yn Fil optio allan meddal, nad yw'n ceisio defnyddio teuluoedd fel ffynhonnell o wybodaeth yn unig, ond sydd hefyd yn parchu eu barn fel cynrychiolwyr yr ymadawedig. Rhaid i'r teulu sydd ar ôl gael y gair olaf, a rhaid nodi'r hawl honno, nid yn unig yn y canllawiau, ond ar wyneb ein deddfwriaeth, fel y mae mewn gwledydd optio allan meddal llwyddiannus eraill megis Gwlad Belg, Latfia a Slofenia. Os yw'r teuluoedd yn y gwledydd hynny yn haeddu'r sicrwydd hwn, felly hefyd y teuluoedd yma yng Nghymru.

18:37

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In a way I can subscribe to the general underlying principles of this legislation, which is to improve the level of organ donation rates in Wales, which, given the recent data on levels in Wales, is in urgent need of attention. This is something that the Health and Social Services Committee clearly emphasised in Stage 1, when it said:

Mewn ffordd gallaf gefnogi egwyddorion sylfaenol cyffredinol y ddeddfwriaeth hon, sef gwella lefel cyfraddau rhoi organau yng Nghymru, sy'n fater y mae angen rhoi sylw iddo ar fyrder, o ystyried y data diweddar ar lefelau yng Nghymru. Mae hyn yn rhywbeth a bwysleisiwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn glir yng Nghyfnod 1, pan ddywedodd:

'All the evidence we received expressed support for the aspiration of increasing organ donation rates in Wales.'

Roedd yr holl dystiolaeth a gawsom yn cefnogi'r dyhead o gynyddu cyfraddau rhoi organau yng Nghymru.

However, I and the majority of respondents who replied to the committee's call for written evidence, do not support the principle of deemed consent for organ donation, despite what your predecessor and you have said, Minister. The vast swathes of this country remain unconvinced that legislation on this issue is the best way forward. Even the Kidney Wales Foundation has acknowledged that the goodwill of the people of Wales would be key to the implementation of this proposed legislation and there is a real danger of that ebbing away fast.

Fodd bynnag, nid wyf i na'r rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i alwad y pwyllgor am dystiolaeth ysgrifenedig, yn cefnogi'r egwyddor o ganiatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau, er gwaethaf yr hyn y mae eich rhagflaenydd a chithau wedi'i ddweud, Weinidog. Mae rhannau helaeth o'r wlad hon yn dal heb eu hargyhoeddi mai deddfwriaeth ar y mater hwn yw'r ffordd orau ymlaen. Mae hyd yn oed Sefydliad Aren Cymru wedi cydnabod y byddai ewyllys da pobl Cymru yn allweddol i roi'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon ar waith ac mae perygl gwirioneddol y gallai hynny ddiflannu'n gyflym.

As a person of faith, I support the stance and position that the faith organisations in Wales have taken on this issue, particularly around the undermining of the principle of giving a gift to another human being. However, even if you are not someone of faith, there are so many other practical problems surrounding the Bill, as we have heard from others in the Chamber, such as the role of the family and the potential unintended consequences of even the fact that, with this piece of legislation, donation rates may not increase. I firmly believe that if the Government focused on underpinning our current donation system with a strong organisational model, coupled with more trust and awareness-raising programmes, we would see an increase in organ donation without the need for legislation.

Fel person o ffydd, rwyf yn cefnogi safiad a safbwynt y mudiadau ffydd yng Nghymru ar y mater hwn, yn enwedig o ran tanseilio'r egwyddor o roi rhodd i fod dynol arall. Ond hyd yn oed os nad ydych yn rhywun o ffydd, mae cymaint o broblemau eraill ymarferol yn ymwneud â'r Bil, fel y clywsom gan eraill yn y Siambr, megis rôl y teulu a chanlyniadau anfwriadol posibl a hyd yn oed, gyda'r darn hwn o ddeddfwriaeth, efallai na fydd cyfraddau rhoi organau'n cynyddu. Credaf yn gryf, pe byddai'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar ategu ein system bresennol o roi organau â model cyfundrefnol cryf, ynghyd â mwy o ymddiriedaeth a rhaglenni codi ymwybyddiaeth, y byddem yn gweld cynnydd mewn rhoi organau heb fod angen deddfwriaeth.

New organ donation figures came out on 11 April, demonstrating a fall in organ donation in Wales during the last 12 months. That surprises me given that we would have expected the increased publicity on the need for donations resulting from the public consultations on the issue and the introduction of the Bill to have helped to increase the donation rate. So, I think that there has been a backlash to the Government's proposals and this is one of those unintended consequences. One of the most troubling pieces of evidence that came to the Health and Social Care Committee came from Dr Peter Matthews. My colleague Byron Davies has used the quote that I would have used if he had not done so. If I was convinced that this legislation would increase donation and save lives, I would support it. However, I remain unconvinced that the Bill will achieve its desired aspirations.

Cyhoeddwyd y ffigurau newydd ar roi organau ar 11 Ebrill, gan ddangos gostyngiad mewn rhoi organau yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hynny'n syndod i mi o ystyried y byddem wedi disgwyl i'r cyhoeddusrwydd cynyddol ynghylch yr angen am roddion yn deillio o'r ymgynghoriadau cyhoeddus ar y mater hwn, a chyflwyno'r Bil, helpu i godi cyfraddau rhoi organau. Felly, credaf y bu adwaith i gynigion y Llywodraeth a dyma un o'r canlyniadau anfwriadol hynny. Oddi wrth Dr Peter Matthews y daeth un o'r darnau o dystiolaeth a ddaeth gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n peri'r gofid mwyaf. Mae fy nghyd-Aelod Byron Davies wedi defnyddio'r dyfyniad y byddwn wedi ei ddefnyddio pe na byddai ef wedi gwneud hynny. Pe byddwn yn argyhoeddedig y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn sicrhau bod mwy o bobl yn rhoi organau ac y byddai'n achub bywydau, byddwn yn ei chefnogi. Fodd bynnag, nid wyf yn argyhoeddedig y bydd y Bil yn cyflawni'r hyn a ddymunir.

18:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Health and Social Services to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddadl.

18:40

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

This has been a consistently interesting and thoughtful debate, and I am grateful to all those who have taken part in it. I will not be able to respond to the detailed points that have been raised in the Chamber. Instead, I will concentrate on two big issues, and I will try to pick up a small number of more specific points, and then say one thing at the end.

Mae'r ddadl hon wedi bod yn gyson ddiddorol a phwyllog, ac rwyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan ynddi. Ni fyddaf yn gallu ymateb i'r pwyntiau manwl sydd wedi eu codi yn y Siambr. Yn hytrach, rwyf am ganolbwyntio ar ddau fater o bwys, a byddaf yn ceisio codi nifer fach o bwyntiau mwy penodol, ac yna'n dweud un peth ar y diwedd.

I will deal first of all with the issue that David Melding raised in his contribution about the Human Tissue Act 2004. It is a conscious decision by the Government that this Act should, as far as possible, remain consistent with the 2004 Act; it does so for a good reason—that Wales will remain part of a UK system of organ donation. As you would imagine, there have been some complicated discussions with other constituent nations of the United Kingdom to ensure that what we do here in Wales forms part of an ongoing pattern, in which Welsh patients will be able to benefit from organs that are donated elsewhere, and that organs that are donated by Welsh patients are used by other UK residents as well. Staying close to the pattern of the 2004 Act is not an accident, or a matter of ease, it is a matter of important necessity.

Rwyf am ymdrin yn gyntaf â'r mater a gododd David Melding yn ei gyfraniad am Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004. Mae'n benderfyniad bwriadol gan y Llywodraeth y dylai'r Ddeddf hon, cyn belled ag y bo modd, fod yn gyson â Deddf 2004; mae'n gwneud hynny am reswm da—y bydd Cymru'n aros yn rhan o system y DU o roi organau. Fel y byddech yn ei ddychmygu, cafwyd rhai trafodaethau cymhleth â gwledydd cyfansoddol eraill y Deyrnas Unedig i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yma yng Nghymru yn ffurfio rhan o batrwm parhaus, lle bydd cleifion Cymru yn gallu elwa ar organau sy'n cael eu rhoi mewn mannau eraill, a bod organau sy'n cael eu rhoi gan gleifion o Gymru yn cael eu defnyddio gan breswylwyr eraill yn y DU hefyd. Nid damwain yw ein bod yn cadw'n agos at batrwm Deddf 2004, na mater o rwyddineb, ond mater o anghenraid pwysig.

Let me deal with a point that Kirsty raised. She went to the heart of the debate that has been held in the Health and Social Care Committee in particular. This is, in the end, a debate about the nature of consent. Nothing that I can say this afternoon would be able to answer Jocelyn Davies's point, and I do not seek to do so. She has a different point of view; it is an entirely proper point of view, she is entitled to hold it, and she should vote on the basis of it. However, it is not my point of view. I am at least reinforced in my point of view by the fact that those people from a medical/ethical perspective, who spend many hours thinking about these things, came to the Health and Social Care Committee and they all said the same thing to us—that the principle of deemed consent is not one that gives them ethical cause for concern. I have tried to clarify the way in which compliance with the Human Rights Act 1998 will be tested as a result of this Bill.

Gadewch imi ddelio â'r pwynt a godwyd gan Kirsty. Aeth at galon y ddadl a gafwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn benodol. Dadl yw hon, yn y pen draw, am natur caniatâd. Nid oes dim y gallaf ei ddweud y prynhawn yma fyddai'n gallu ateb pwynt Jocelyn Davies, ac nid wyf yn ceisio gwneud hynny. Mae ganddi safbwynt gwahanol; mae'n safbwynt hollol briodol, mae ganddi hawl i'r safbwynt hwnnw, a dylai bleidleisio ar sail hynny. Fodd bynnag, nid dyna fy safbwynt i. Credaf o leiaf yr ategir fy marn gan y ffaith fod y bobl hynny o safbwynt meddygol/moesegol, sy'n treulio oriau lawer yn meddwl am y pethau hyn, wedi dod i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac i gyd wedi dweud yr un peth wrthym—nad oedd yr egwyddor o ganiatâd tybiedig yn un a oedd yn achosi pryder iddynt o safbwynt moesegol. Rwyf wedi ceisio egluro'r ffordd y bydd cydymffurfiaeth â Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cael ei phrofi o ganlyniad i'r Bil hwn.

Why is that test not exactly the same one that was rehearsed originally before the committee? It is partly, at least, because of the work that the committee has done. It is because of the way that the committee probed that issue. It is because of the way that the committee took evidence on that issue, and I was pleased to be able to be part of that consideration. It was a deep consideration, as Elin Jones said, and one that led many of us who are part of that to examine our own views and beliefs, and to come out with some of those changed and some of those strengthened.

Pam nad yw'r prawf hwnnw yn union yr un prawf a gafodd ei gyfleu'n wreiddiol gerbron y pwyllgor? Mae hynny'n rhannol, o leiaf, oherwydd y gwaith y mae'r pwyllgor wedi'i wneud. Mae oherwydd y ffordd y mae'r pwyllgor wedi ymchwilio i'r mater hwnnw. Mae oherwydd y ffordd y cymerodd y pwyllgor dystiolaeth ar y mater hwn, ac roeddwn yn falch o fod yn rhan o'r ystyriaeth honno. Roedd yn ystyriaeth ddofn, fel y dywedodd Elin Jones, ac yn un a wnaeth i lawer ohonom a fu'n rhan o hynny edrych ar ein barn a'n credoau ein hunain, a dod allan â rhai o'r rheiny wedi newid a rhai ohonynt wedi'u cryfhau.

I will now mention some specific points. I wish to deal with a point that was raised in the latter stages of the debate, about the figures that were published recently about the rates of organ donation in Wales. What happened in the last year is simple when you understand it. It is not so much that the rates of organ donation went down, it is that the number of people who were able to be donors went down in the first half of that year. That is a good news story, because we do not want people to be in the awful circumstances where they can be donors. When the figures went back up, in the final quarter of the year, the number of people who could be donors went up, and the rate of donation went back up. It has nothing to do with presumed consent.

Soniaf yn awr am rai pwyntiau penodol. Rwyf am ddelio â'r pwynt a godwyd yn ystod camau olaf y ddadl, am y ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar am gyfraddau rhoi organau yng Nghymru. Mae'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn syml pan ydych yn ei ddeall. Nid yw'n gymaint bod cyfraddau rhoi organau wedi gostwng, ond yn hytrach bod y nifer o bobl a oedd yn gallu bod yn rhoddwyr wedi mynd i lawr yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Mae hynny'n newyddion da, oherwydd nid ydym am i bobl fod yn yr amgylchiadau ofnadwy hynny lle y gallant fod yn rhoddwyr. Pan aeth y ffigurau yn ôl i fyny, yn chwarter olaf y flwyddyn, aeth nifer y bobl a allai fod yn rhoddwyr i fyny, ac aeth cyfradd rhoi organau yn ôl i fyny. Nid oes a wnelo hynny â chaniatâd tybiedig.

Mohammad Asghar a gododd—

Mohammad Asghar rose—

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

I will not take an intervention now—I am just going to finish, Oscar, thank you.

Ni dderbyniaf ymyriad yn awr—rwyf am orffen, Oscar, diolch ichi.

I wish to deal with some specific points that Members have raised. I was very taken by the evidence of Professor John Saunders regarding the need for an evaluation strategy, which Vaughan mentioned. We will have one; it is an important part of what we want to do. On Darren Millar's point about service personnel, they are covered by the same general principle that I set out in relation to prisoners. That was exemplified in Lord Scarman's 1983 judgment on what is meant by 'ordinary residents'.

Hoffwn ymdrin â rhai pwyntiau penodol y mae Aelodau wedi'u codi. Fe'm trawyd gan dystiolaeth yr Athro John Saunders ynghylch yr angen am strategaeth werthuso, a grybwyllwyd gan Vaughan. Bydd gennym strategaeth o'r fath; mae'n rhan bwysig o'r hyn yr ydym am ei wneud. Ar bwynt Darren Millar ynghylch personél y lluoedd arfog, mae'r un egwyddor gyffredinol yn berthnasol iddynt â'r egwyddor a nodais mewn perthynas â charcharorion. Amlygwyd hynny yn nyfarniad 1983 yr Arglwydd Scarman ar yr hyn a olygir wrth 'drigolion cyffredin'.

What will be the result of this afternoon's consideration and of what has gone on, more importantly, before it? My view is that, as a result of Stage 1 scrutiny, the Bill will be a better Bill. It will have been clarified and simplified; the role of the family will have been safeguarded and strengthened; and the oversight of the National Assembly will have been substantially increased. Most of all, we will have progressed a Bill that will bring about a cultural shift in organ donation. NHS Blood and Transplant published its draft plan for the rest of this decade in order to continue to drive up rates of organ donation. It said that there was a need for an evolution in the way that the NHS went about its business and a revolution in public attitudes. That is what this Bill is designed to help to bring about.

Beth fydd canlyniad ystyriaeth y prynhawn yma a'r hyn a ddigwyddodd, yn bwysicach, cyn hynny? Fy marn i yw y bydd y Bil yn sgil craffu Cyfnod 1, yn well. Bydd wedi ei egluro a'i symleiddio; bydd rôl y teulu wedi ei diogelu a'i chryfhau; a bydd goruchwyliaeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi cynyddu'n sylweddol. Yn bennaf oll, byddwn wedi datblygu Bil a fydd yn peri newid diwylliannol o ran rhoi organau. Cyhoeddodd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ei gynllun drafft ar gyfer gweddill y degawd hwn er mwyn parhau i wella cyfraddau rhoi organau. Dywedodd fod angen esblygu'r ffordd y mae'r GIG yn gwneud ei waith a chwyldroi agweddau'r cyhoedd. Dyna'r hyn y bwriedir i'r Bil hwn ei wneud.

On Thursday last week, I visited a kidney dialysis unit in Cardiff. I was grateful to Angela Burns for contributing to the debate the perspective of those people who are waiting for organ donation. I spoke to a number of people who have been waiting for months and, in some cases, for years for a kidney transplant operation. If they were in the Siambr with us, they would tell you how much they think this Bill is necessary. There is more that we can do, and there is more that we will do. This will be a better Bill. I hope that those of you who are able to do so will support this afternoon's motion to move to the next Stage.

Ddydd Iau yr wythnos diwethaf, ymwelais ag uned dialysis arennol yng Nghaerdydd. Roeddwn yn ddiolchgar i Angela Burns am gyfrannu at y ddadl safbwynt y bobl hynny sy'n aros i organau gael eu rhoi. Siaradais â nifer o bobl sydd wedi bod yn aros am fisoedd ac, mewn rhai achosion, am flynyddoedd i gael llawdriniaeth trawsblannu aren. Pe byddent yn y Siambr gyda ni, byddent yn dweud wrthych pa mor angenrheidiol yw'r Bil hwn yn eu barn hwy. Mae mwy y gallwn ei wneud, ac mae mwy y byddwn yn ei wneud. Bydd hwn yn Fil gwell. Rwyf yn gobeithio y bydd y rhai ohonoch sydd yn gallu gwneud hynny yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma i symud ymlaen i'r Cyfnod nesaf.

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree the general principles of the Human Transplantation (Wales) Bill. Does any Member object? I see that there is objection. I will therefore defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Trawsblannu Dynol (Cymru). A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Cynnig i Gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Cynnig NDM5200 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Trawsplannu Dynol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

# Motion to Approve the Financial Resolution of the Human Transplantation (Wales) Bill

Motion NDM5200 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Human Transplantation (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

18:47 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Senedd.tv Fideo Video

18:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

As the general principles have not been agreed, I will also defer voting on this item until voting time.

Gan nad yw'r egwyddorion cyffredinol wedi eu cytuno, byddaf hefyd yn gohirio'r pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Senedd.tv Fideo Video

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Cynnig i Ethol Aelod a Chadeirydd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Motion to Elect a Member to, and the Chair of, the Health and Social Care Committee

Cynnig NDM5207 Rosemary Butler

Motion NDM5207 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:

1. Gwyn Price (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Mak Drakeford (Llafur Cymru), a;

1. Gwyn Price (Welsh Labour) as a member of the Health and Social Care Committee in place of Mark Drakeford (Welsh Labour), and;

2. Vaughan Gething (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

2. Vaughan Gething (Welsh Labour) as Chair of the Health and Social Care Committee.

18:47 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Senedd.tv Fideo Video

18:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, I declare that the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yr wyf yn datgan bod y cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

18:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

It has been agreed that voting time will take place after the last item of business. We will now proceed straight to voting time unless three Members wish to have the bell rung. Do you wish to do so? I see that you wish to move straight to voting time.

Cytunwyd y bydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Symudwn yn awr yn syth i'r cyfnod pleidleisio oni bai fod tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu. A ydych yn dymuno gwneud hynny? Gwelaf eich bod yn dymuno symud yn syth at y cyfnod pleidleisio.

Senedd.tv Fideo Video

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5199

Result of the vote on motion NDM5199

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 41, Yn erbyn 9, Ymatal 5.*

*Motion agreed: For 41, Against 9, Abstain 5.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5200

Result of the vote on motion NDM5200

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 41, Yn erbyn 10, Ymatal 4.*

*Motion agreed: For 41, Against 10, Abstain 4.*

18:49 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, I pressed the wrong button. [Laughter.]

Lywydd, rwyf wedi pwyso'r botwm anghywir. [Chwerthin.]

18:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is too late if you have pressed the wrong button; I am sorry about that. Gwyn Price, I can clarify that this will be on the record.

Mae'n rhy hwyr os ydych wedi pwyso'r botwm anghywir; Mae'n ddrwg gennyf am hynny. Gwyn Price, gallaf ei gwneud yn glir y bydd hyn yn cael ei gofnodi.

That brings today's business to a close.

Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.49 p.m.*

*The meeting ended at 6.49 p.m.*

This page is intentionally left blank